Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

COFIANT Y
PARCH. J. WILLIAMS.
CASTELLNEWYDD.

10095. e. 7.

2/6

From F.W.

# COFIANT

Y DIWEDDAR

# BARCHEDIG JOHN WILLIAMS,

CASTELLNEWYDD-EMLYN.

YN NGHYD A RHAI O'I

## DRAETHODAU, PREGETHAU, &c.

DAN OLYGIAETH


B. WILLIAMS, CANAAN,

ABERTAWY.



ABERTAWY:

E. & J. GRIFFITHS, ARGRAFFWYR, HEOL FAWR.

1873.

# AT Y DARLLENYDD.

WRTH gyflwyno Cofiant fy anwyl frawd i'r cyhoedd, mae yn briodol i mi ddiolch i Dad y trugareddau am y fraint wyf wedi gael o godi colofn goffadwriaethol fechan i un a gerid gan filoedd, ac a edmygid fel cymwynaswr a phregethwr gan bawb a gawsant gyfleusdra i'w adnabod. Gwelir fod darluniadau o hono wedi eu tynu gan ddwylaw celfydd, ac yr wyf yn credu y teimla y darllenydd eu bod oll yn deg a chyfiawn, heb ddim yn eithafol ynddynt. Er fod yr ysgrifenwyr yn amrywio, eto mae unoliaeth nodedig yn eu barn am y gwrthrych yn rhedeg trwy eu hysgrifau. Buasai yn anmhosibl i mi gwblhau y gwaith yn deilwng heb gynorthwy y brodyr hyn, ac yr wyf yn diolch iddynt oll yn y modd mwyaf diffuant am eu caredigrwydd. Cyfansoddodd fy mrawd y Traethodau, y Farddoniaeth, gan mwyaf, a'r Pregethau a welir yn y gyfrol hon yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Efallai y dywed beirniaid manwl nad yw y Farddoniaeth ond is-raddol, eto credwn fod yn y darnau hyn brofion diamwys y gwnaethau yr awdwr fardd tlws iawn pe yn gwrteithio yr awen yn briodol. Tebygol yw y siomir llawer na buasai rhai o bregethau y cymanfaoedd, fel y gelwid hwy, i fewn. Ond yr oedd hyny yn anmhosibl, am

nad oedd er ys amryw flynyddoedd yn ysgrifenu fawr iawn, ond yn unig *bare sketch.* Yr oedd ymadroddion ei enau yn dylifo mor rhwydd fel y teimlau na fuasai cyfansoddiad manwl ond hualau caethiwed i'w ddawn naturiol, ac felly ymfoddlonai ar fraslun o bregeth, gan ymddiried llawer i gynhyrfiad y foment am eiriau a chymariaethau i osod allan y gwirioneddau oeddynt yn ymwylltio trwy ei feddwl. Caffai gyfleusdra i ddyweyd yr un bregeth fwy nag unwaith yn ei gylch cartrefol, ac erbyn dydd y cyfarfod mawr a'r gymanfa buasai wedi tyfu i'r ffurf briodol, a'r defnyddiau wedi ymlithro yn dawel i'w lleoedd arbenig. Pe buasem yn cyhoeddi pregethau megis "Curo wrth y drws," "Gadewch i'r ddau gyd-dyfu," &c., buasai y siomedigaeth yn fwy oblegid byrdra ac annhrefnusrwydd yr ysgrifau. Mae y pregethau argraphedig hyn yn ddangoseg cywir o brif deithi ei feddwl, ac yr ydym yn credu, wrth fyfyrio y pregethau hyn, y teimla y darllenydd cyfarwydd fod Williams Llangadog, beth bynag, yn ymddyddan ag ef eto.

Nid oes genyf bellach ond cyflwyno yr oll i'r cyhoedd fel y mae, gan hyderu y bendithia Duw y llafur hwn i ddwyn ar gof i luaws y gwirioneddau gwerthfawr a glywsant eu traddodi mor danllyd ac effeithiol gan un sydd bellach yn huno yn y dyffryn, ac yn mwynhau coron gorfoledd am ei lafur dibaid.

HYD. 21, 1873. B. WILLIAMS.

# DANGOSEG.


TUDAL.

At y Darllenydd ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 3

PEN. I.

Ei fywyd boreol... ... ... ... ... ... ... ... ... .. ... 9

PEN. II.

Dechreuad ei fywyd cyhoeddus ... ... ... ... ... ... .. 21

PEN. III.

Ei weinidogaeth yn Llangadog ... ... ... ... ... ... .. 27

PEN. IV.

Ei weinidogaeth yn Castellnewydd... ... ... ... ... ... ... 36

PEN. V.

Mr. Williams fel Pregethwr—gan y Parch Thos. Davies, Ph.D., Pembroke Dock ... .. .. ... ... ... ... ... ... 43

Mr. Williams fel Pregethwr eto—gan y Parch. J. Roberts, Conway ... ... ... ... ... .. ... ... ... ... .. 61

PEN. VI.

Mr. Williams fel Gweinidog—gan y Parch. W. E. Jones, Treforis .. .. .. ... ... ... ... ... ... ... ... 66

PEN. VII.

Mr. Williams fel Darlithiwr—gan y Parch. T. Davies, Llandilo 74

PEN. VIII.

Mr. Williams fel Cymydog a Chymwynaswr—gan y Parch. T. Phillips, Horeb ... ... ... ... ... .. ... ... ... ... 78

PEN. IX.

Adgofion Adolygiadol am Mr. Williams—gan y Parch. W. M. Davies, Blaenycoed ... ... ... ... ... ... ... ... ... 83

TRAETHODAU.

I.—Buddioldeb Crefydd Foreuol ... ... ... ... ... ... .. 92

II.—Y Pagan ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 96

III.—Y mae dyn i fyw byth ... ... ... ... ... ... ... . 103

TUDAL.

BARDDONIAETH.

I.—Y Gwanwyn ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 112

II.—Myfyrdod yn y Goedwig ... ... ... . ... ... ... ... 116

III.—Ar farwolaeth tri phlentyn y Parch. J. Thomas, Bethlehem, ger Llangadog ... ... ... ... .. ... ... ... ... ... 123

IV.—Llinellau ar farwolaeth sydyn Thomas Morgan Evans, (mab B. Evans, Ysw., Castellnewydd-Emlyn) ... .. ... 125

I.—Pennillion ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 128

II.—Acrostic Poem ... ... ... .. ... ... ... ... .. ... 131

III.—Uchenaid y Groes ... ... ... ... ... . ... ... ... 132

PREGETHAU.

Sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos ... ... ... ... ... ... ... 133

Eglwys iach ... .. ... ... ... ... ... ... ... ... ... .. 141

Simeon ... .. ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 146

Enoch ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 155

Amynedd Job ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 160

Crist yn wylo dros Jerusalem ... .. ... ... ... ... ... ... 166

Mae i mi bump o frodyr ... ... ... ... .. ... ... ... .. 171

Pawb yn meddwl canlyn Crist... ... ... ... ... .. ... ... 175

Gwledd Belshazzar ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 180

Plant Duw ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... ... 184

Cristionogaeth ar ei goreu ... ... ... ... ... ... ... .. 190

Cysegr hardd ... ... ... ... ... . ... ... ... ... .. 198

Gwroldeb Crefyddol .. ... ... ... ... .. ... ... ... ... 202

Dyn yn ddyledwr i bawb ... ... ... ... ... ... ... ... .. 206

Y ffordd lydan .. ... ... ... ... ... ... ... ... .. ... 209

Ceidwad y Carchar ... ... ... ... ... ... ... ... .. ... 214

Y Cristion diwyd ... ... ... ... ... ... ... ... .. ... 219

Claddedigaeth Crist ... ... ... ... ... ... ... ... ... .. 225

# COFIANT.

---

## PEN. I.

### EI FYWYD BOREOL.

WRTH ysgrifenu hanes bywyd ein diweddar frawd, mae yn rhaid i ni grybwyll amryw helyntion teuluaidd, yr hyn a ymddengys i'r darllenydd, hwyrach, yn anweddus. Gallai dyeithrddyn ysgrifenu prif ffeithiau bywyd ein gwrthrych heb flino chwaeth neb â chofnodion teuluaidd; ond y mae yn anmhosibl i ni ysgoi y brofedigaeth. Yr ydym yn cymeryd ein safle yn nghanol y teulu, ac o'r fan hono yn dilyn camrau ac yn darlunio llinellau dadblygiad ein brawd. Eto, gwnawn ymdrech difrifol i gadw o fewn terfynau, ac i beidio gwthio amgylchiadau teuluaidd i sylw yn afreidiol. Gorchwyl prudd-aidd i ni yw ysgrifenu hanes bywyd ein brawd. Yr oedd dros un flynedd ar ddeg yn henach na ni, ac yr oedd felly yn llanc ieuanc pan oeddem ni yn dechreu sylwi ar y byd. Dysgwyd ni ar gychwyniad ein bywyd cyhoeddus i edrych ato fel ein cyngorwr a'n horacl; ac er na wnaethom felly yn hollol, y mae yn alarus genym deimlo ei fod wedi blaenu, gorphen ei waith, a myned i dderbyn y wobr addawedig am wasanaeth ffyddlon. Ond y mae yn rhaid i ni gaethiwo y teimladau am dymhor, onide nis gallwn orphen hyn o orchwyl yn brydlon.

Teulu hanedig o blwyf Llandilo Fawr, sir Gaerfyrddin, ydym oll, ac adnabyddir yr ardal yn y byd plwyfol wrth yr enw Tachloyan, ond yn y byd crefyddol wrth yr enw ardal

Capel Isaac. Mae Capel Isaac yn adnabyddus trwy Gymru, yn herwydd henafiaeth yr eglwys, a'i ffyddlondeb i'r gwirionedd ar gyfnodau oeraidd, digalon, a phrofedigaethus, ond yn fwyaf arbenig ar gyfrif yr enwogion mae wedi godi i'r areithfa Gymreig. Dealla y darllenydd felly, fod ein teulu wedi dyfod o ardal enwog, ac yn hòni perthynas ag un o eglwysi parchusaf y Dywysogaeth. Enwau ein rhieni oeddynt Morgan ac Elizabeth. Yr oedd y tad yn fab i, fel y byddai yr hen bobl yn arfer galw eu gilydd, Thomas William Thomas Ryffudd o'r Crosnant, plwyf Llandilo; a'r fam yn ferch i Jack Harri Dafydd o'r Pistyll, plwyf Llanfynydd. Pan ymunasant mewn priodas, aethant i fyw i'r Ffrwdwen, tyddyn cyfagos i'w cartrefi blaenorol. Wedi byw yno am ugain mlynedd, gan fod y plant yn lluosog, a'r fferm yn fechan, barnwyd mai doeth ydoedd chwilio am fferm oedd fwy. Symudwyd i Newpark, Llanfihangel, ger Llandilo, yn Hydref, 1830. Buwyd yno flwyddyn, ac yna symudwyd yn nes i fyny yn nyffryn Tywi, i'r Brownhill, yn mhlwyf Llansadwrn; ac yno y trigwyd nes i'r plant agos oll i ymadael, a'r hen bobl i fyned yn rhy fethiantus i edrych ar ol helyntion y fferm. Yr oedd y tad yn ddyn o faintioli mwy na'r cyffredin, ac yn hynod galed, iachus, a chryf o gyfansoddiad. Ychydig iawn o gystudd a gafodd trwy ei fywyd, ac am hyny bychan iawn oedd ei gydymdeimlad â'r gwan a'r cystuddiol. Yr oedd yn hynod o foddlongar yn mhob amgylchiad—dysgodd, yn mha gyflwr bynag y byddai, i fod yn foddlon, i'r hyn oedd ganddo. Nid oedd llwyddiant nac aflwyddiant, iechyd na chystudd, cynhauaf toreithiog na chynhauaf ysgafn a gwlyb, newyddion da na drwg, yn cael terfysgu ei feddwl nac alltudio ei gwsg. Pan fyddai rhuthrwynt gofidiau yn ymosod arno, nid oedd ei feddwl yn suro, ei obaith yn marw, na'i wyneb llawn yn colli ei wên naturiol am nemawr o amser. Gwelsom ef yn methu cael digon o bris am y bustych a werthai

yn ffair Awst i dalu y degwm pan oedd yr amseroedd yn ddrwg a'r prisoedd yn isel; gwelsom ef bryd arall yn cael mwy na digon i dalu tymor o ardreth, ond nid oedd y naill yn ei orlenwi â llawenydd, na'r llall yn ei orlwytho â thristwch. Nodweddid ef yn arbenig gan dymher wastad, a bu hyny yn fantais ddirfawr iddo mewn llawer amgylchiad cyfyng. Nid ydym yn awgrymu wrth hyn mae dyn diofal am ei amgylchiadau ydoedd—gwyr pawb oedd yn ei adnabod yn amgen. Yr oedd gonestrwydd a thalu ei ffordd yn brif erthyglau ei gredo. Nid ydym ychwaith yn tybied mae dyfnder ei grefyddolder a achosai y gwastadrwydd hwn. Yr oedd ein tad yn ddyn crefyddol, ac ni chawsom le i amheu gwirionedd ei grefydd hyd y diwedd: ond yr oedd tawelwch a boddlonrwydd ei ysbryd yn fwy o ffrwyth natur na gras.

Dynes o nodwedd hollol wahanol oedd ein mam. Corph bychan, gwyneb teneu, llwydwyn; llygaid bywiog, cerddediad cyflym, a gwallt wedi ei fritho gan amser—dyna ein hanwyl fam yn yr olwg allanol arni. Ni wyddai ddim yn brofiadol am wastadrwydd tymher y tad. Elai yn mhell iawn i gyfarfod â gofidiau. Collodd ei chysgu lawer noson wrth ofidio am drallodion a ofnai, y rhai, mewn gwirionedd, nad oedd y tebygolrwydd lleiaf ar y pryd y deuent i'w chyfarfod. Wedi i rai o'r plant ymwasgaru cynyddodd ei phryder yn ddirfawr, canys pan welai wr dieithr, anadnabyddus, yn dynesu at y tŷ, ofnai ei fod yn gludydd newydd galarus am rai o'r plant. Dygai ei gwynebpryd brofion eglur o bryder parhaus ei mheddwl; nid yr amgylchiadau oedd yn ei gofidio, oblegid trwy ddiwydrwydd personol a bendith rhagluniaeth ni welsant eisiau dim daioni; ond y plant oedd ffynonell fawr ei holl bryder. Nid oeddem yn waeth na phlant ereill, ac yn wir nid oeddem cynddrwg a llawer o'n cydnabod a fagwyd yn yr un fro; ond er hyny yr oedd pryder yn *reddfol* iddi. Gofidiai am iechyd, amgylchiadau, ac *eneidiau* y plant ddydd a nos.

Gwelsom hi lawer gwaith yn dyfod o ystafell neillduedig a'i llygaid yn ffynonau o ddagrau, wedi bod yn ymdrechu gyda Duw ar ran y plant. Bwytaodd y pryder hwn lawer iawn o'i chysur, a chadwodd hi am flynyddau yn wanaidd ei hiechyd. Nis gallai ddygymmod a segurdod yn neb—gweithiai yn ddiwyd ei hun, a disgwyliai i bawb o'i chwmpas wneyd yn gyffelyb. Codai am dri o'r gloch yn yr hâf, a thynai yr hufen oddiar y llaeth oll cyn meddwl am alw neb o'r teulu; hi fyddai y cyntaf i ddyfod o'r gwely, a'r olaf i fyned iddo, ac wedi myned nid oedd yn cael fawr orphwysdra os na fuasai sicrwydd fod y cwbl yn iawn yn ei berthynas â'r plant. Byddai yn hoff iawn o ganu—meddai ar lais clir a threiddgar, a phan wresogid ei chalon nid oedd yn petruso fawr am ddyblu a threblu y gân yn y gynulleidfa gyhoeddus. Yn y cywair lleddf y byddai yn canu bob amser wrthi ei hun. Caffai fwynhad mawr i glywed y plant yn canu tonau y cywair llon ar yr aelwyd, yn enwedig os buasai Mr. Williams, Llandilo, yn y canol yn arwain: ond yr oedd tonau y cywair lleddf yn fwy cydweddol â'i phrofiad personol, ac felly yr oedd ei henaid yn yfed cysuron ysbrydol mwy pur trwy gerddoriaeth y cysegr os buasai y dôn yn alarus a phruddaidd. Cronai ei theimladau gan ei phryder, ac yr oedd nodau wylofus tôn leddf yn tori yr argae, ac yn gollwng y ffrwd i redeg allan nes byddai y meddwl yn ysgafnhau trwyddo.

Golygfa digon dyddorol oedd gweled tri neu bedwar o'r plant yn ymdyru o gwmpas y llyfr "*notes*" ar y bwrdd crwn yn y parlwr bach, a Mr. Williams yn y canol yn cyfarwyddo—y tad yn ymollwng i gysgu yn y gadair freichiau, canys nid oedd fyno cerddoriaeth â'i gorph na'i enaid ef—a'r fam ar y stôl dairtroed yn gwau hosan, ac yn ceisio pigo i fynu y dôn heb i'r plant ddeall dim am ei hamcan. Nid oedd dim yn boddio y teulu yn fwy na chael pregethwr neu ddau i letya yno. Bu yno gannoedd o bryd i bryd yn cael llety ac ym-

geledd, ac nid oedd y tad byth yn fwy dedwydd na phan yn cael pregethwr i ymgomio ag ef yn y gongl, ac yr ydym yn sicr fod mam yn ei theimlo yn fwy o anrhydedd i gael gweini ar bregethwr na llettya tywysog. Nid oedd byth yn gwneyd darpariaeth neillduol ar gyfer neb, ond croesaw calon i bwy bynag a ddelai. Cof genym am lawer o oriau difyr a dreuliwyd yn hirnos gauaf wrth y tân yn nghymdeithas Mrd. Williams, Llandilo a Stephens, Brychgoed. Yr oeddynt hwy yn ymwelwyr mwy derbyniol nâ 'r cyffredin, am y rheswm mai y blaenaf oedd ein gweinidog, a'r ddau yn enedigol o Capel Isaac, ac felly yn gallu cydymddiddan â'n rhieni am helyntion y dyddiau gynt yn eu bro enedigol. Tra byddai yr ymddiddan ac adrodd hen adgofion yn myned ymlaen, yr oedd y ddau ymwelydd yn holloll ddedwydd, ond y fynud y dechreuai Mr. Williams a'r plant ganu, byddai y tad fel y crybwyllwyd eisoes yn ymgolli mewn cwsg, a Mr. Stephens yn galw am fyned i'r gwely, ac nid oedd dim mor sicr o ddyfod â chwerthin i ysbryd y fam na gweled Mr. Stephens yn methu dygymmod â'r canu. Bellach mae y tad a'r fam yn cydorwedd er ys blyneddau mewn bedd tawel yn monwent eglwys Llansadwrn. Mae y llecyn yn gysegredig i'n teimladau—nis gallwn ymweled â'r pentref heb fyned i'r fonwent i wylo deigryn ar fedd rhai oeddynt mor anwyl genym. Na therfysger ar eu llwch hyd fore caniad yr udgorn diweddaf, ac yna mae genym hyder cael cydgyfodi o ryw fonwent arall i gydaros yn wastadol gyda 'r Arglwydd.

Ganwyd iddynt naw o blant. Bu un farw yn ei fabandod, ac ni wyddom ddim am dano ond trwy weled ein mam weithiau yn colli deigryn wrth son am y baban oedd ganddi yn ei fedd. Erbyn hyn mae tri arall—Thomas, William, a John—wedi gorphen eu taith, ac y mae tri brawd a dwy chwaer yn aros hyd y dydd hwn. Ganwyd y plant oll ond yr ysgrifenydd yn y Ffrwdwen. Newpark yw lle ein genedigaeth ni,

ond yn y Brownhill yr ydym yn cofio ein hunain gyntaf. Nid oes, yn anffodus, a fynom yn bersonol â Chapel Isaac, er fod ynom ryw fath o falchder ar adegau fod ein blaenafiaid wedi dyfod o'r ardal enwog hono. John—gwrthrych y bywgraphiad hwn—oedd y pummed plentyn, a ganwyd ef yn y Ffrwdwen, Mai 6fed, 1819—yr oedd felly yn ddeuddeg mlwydd a chwe mis oed pan symudodd y teulu i'r Brownhill. Yr oedd yn fachgenyn bywiog, iach a golygus. Trwy fod ei wynebpryd wedi ei liwio â rhosynau iechyd, pa rai a feithrinid gan fwydydd iachus ac awelon pur y wlad, ynghyd a'i wallt gwawrgoch, cyrliog, edrychai yn lled hardd. Yr oedd yr un yni a bywiogrwydd ynddo fel chwareuwr ag oedd ynddo fel gweinidog a phregethwr. Bendithiwyd ef a chyfansoddiad naturiol cadarn, a bu cyflawnder o chwareu pan yn fachgenyn, ac o weithio pan yn llanc, a hyny oll mewn gwlad iach a than ofal mam wyliadwrus, yn fanteisiol i galedu a chryfhau ei gorph. Nid oedd un o chwareuon ac ystrywiau plant yr ardal nad oedd efe yn feistr arni, ac ni fuasai y gymdeithas chwareuol byth yn llawn heb gael John i'r canol. Yn y pethau hyn yr oedd yn tra rhagori ar ei frodyr, ac os oedd hyny yn arwyddocau rhywbeth am ei ddyfodol, mae yn sicr mai efe oedd y chwareuwr mwyaf celfydd a fagodd y teulu. Bu mewn ysgol ddyddiol tua Chapel Isaac a Llansadwrn, ond ni enillodd ddim enwogrwydd yn y cylchoedd hyn fel dysgawdwr. Rhoddwyd ysgol ychydig gwell nag oedd i'w chael yn mhentrefi y wlad i'r meibion henaf, ond pan symudwyd i'r Brownhill, yr oedd yr anturiaeth mor bwysig, a'r gwaith mor fawr, fel na ellid hebgor John i fyned oddi cartref am flwyddyn i'r ysgol. Dysgodd ddarllen Seisneg yn fratiog, a chafodd gipolwg ar ymylon cyfandir rhifyddiaeth; ond gyda bod ei feddwl yn addfedu at addysg, cadwyd ef gartref i weithio ar y fferm. Aeth blynyddoedd bore ei oes heibio felly heb fawr diwylliant meddyliol, a

buasai ei feddwl megis llawer o rai eraill, yn anialwch disathr, oni buasai dylanwad yr ysgol Sabbothol. Rhywfodd ymglymodd mewn serch â'r Ysgol Sabbothol o'i febyd, a bu yn ffyddlon iddi pan nad oedd nemawr o lanciau eraill yr ardal yn ceisio ei haddysg. Byddai yn dra hoff o ddarllen ei Feibl, a dysgu ac adrodd pennodau o hono yn yr ysgol. Dywedir gan ei gyfoedion ei fod yn rhagori yn y gwaith hwn, a bu y wybodaeth ysgrythyrol a drysorodd y pryd hwnw yn fanteisiol iawn iddo yn nghyflawniad dyledswyddau ei weinidogaeth. Er hyn oll yr oedd yn fachgen annuwiol, ac yn ymroddi i ysgafnder a gwylltineb. Ni phetrusai gymeryd enw Duw yn ofer pan yn sicr fod ei rieni yn ddigon pell. Yr oedd yn ddynwaredwr mawr, ac yn chwedleuwr ffraeth, ac felly yn dra phoblogaidd yn mhlith llanciau o gyffelyb ysbryd. Nid oedd mor rhyfygus a dynwared pregethu a gweddio, ond yr oedd yn yr ardal amryw gymeriadau gwreiddiol a digrif, a'i hoff waith yntau oedd dynwared neillduolion y cyfryw nes creu crechwen dilywodraeth yn y gymdeithas. Gweithiai yn galed trwy y dydd, ond pan gaffai gymdeithion cydnaws â'i ysbryd, treuliai awr neu ddwy yn yr hwyr, nid i ddarllen a myfyrio, ond i chwedleua yn ddifyr a llawen. Ac eto mynai amser i ddysgu pennod neu ddwy erbyn y Sabboth. Yr oedd ei gof yn fywiog a gafaelgar, ac nid oedd arno eisiau fawr amser i feistroli pennod lled faith. Ond pan oedd ychydig dros ddwy ar bymtheg oed, ymwelodd yr Arglwydd trwy ei Ysbryd â'i gyflwr. Nid gweithio ei ffordd yn raddol wnaeth argyhoeddiad i'w feddwl, ond disgynodd arno yn ddisymmwth nes ei lwyr ddiddyfnu ar unwaith oddiwrth arferion cellweirus a chyfeillion drwg. Megis arfer, aeth ar nos Sabboth yn mis Chwefror, 1837, i Gapel Ebenezer i wrando Mr. Williams, heb feddwl dim am ei gyflwr, ' chwilio yn ddistaw ar hyd y ffordd am ryw destun difyrwch drannoeth. Ond pan oedd hyawdledd byw,

tanllyd y pregethwr yn ysgwyd ac yn toddi y gynulleidfa, cynhyrfodd cydwybod y llanc, gwelwodd ei wynebpryd, difrifolodd ei deimladau, ac aeth adref gan synfyfyrio wrtho ei hun heb wneyd dim sylw o'i gyfeillion arferol. Pan ddaeth y teulu at y bwrdd i gael swpper, nid oedd ar John angen bwyd, nid oedd yn glaf meddai, ac nid oedd yn bosibl cael gair ganddo—meddienid ef gan ddistawrwydd dieithr, ac ymaith ag ef i'w wely gan adael pawb mewn syndod at ei ymddygiad. Trannoeth yr oedd yn dyrnu gydag un o'r gweision yn yr ysgubor. Cyflawnai ei waith yn rheolaidd, ond nid oedd yn bosibl cael ganddo i ymddiddan a bwyta megis arfer. Tua nos Lun dechreuwyd pryderu yn ei gylch, rhag fod rhyw drallod wedi ei orddiwes, neu glefyd yn ymaflyd ynddo. Er gofyn a deisyf, nid oedd yn bosibl cael rheswm ganddo am ei dristwch dwfn. Aeth dydd Mawrth heibio yn gyffelyb, ond fod pryder y fam yn dyfnhau, a thawelwch ysbryd y tad yn cael ei ddeffro i ddweyd, "Yn sicr i chwi, Betti, mae rhywbeth ma's o le ar John." Gwawriodd dydd Mercher, heb ddim arwyddion fod y cymylau yn gwasgar oddiar ei wynebpryd, a llawenydd yn dychwelyd i'w ysbryd, ond tuag unarddeg o'r gloch y bore, wele John i'r tŷ yn annisgwyliadwy, a golwg ddieithrol, wyllt, ac anesmwyth arno. Eisteddodd ar y gadair, gosododd ei ben ar y bwrdd, a thynodd ochenaid ddofn a thorcalonus. Aeth y fam atto, gosododd ei llaw yn dyner ar ei ben noeth, a dywedodd, "John bach, beth sydd yn dy flino? Dywed wrthyf fi, ai chwant crefydd sydd arnat ti?" "O mam anwyl," meddai y llanc, "dyna sydd bron a'm gyru yn ynfyd. Beth a wnaf i dawelu fy nghydwybod?" Aeth y ddau i ystafell gyfagos, dyneswyd yn hyderus at yr hen drugareddfa, a chafwyd prawf yn y fàn fod

"Euogrwydd fel mynyddau 'r byd
Yn troi 'n ganu wrth y groes."

Daeth y llanc allan yn orchfygwr, wedi croesi, fel byddai ef ei hun yn arfer dweyd, "yr hafan gul, dymhestlog, o farwolaeth i fywyd." Ymadrodd cyffredin iawn ganddo oedd hwn, a diau iddo gael ei fathu yn ei brofiad ei hun. Ymsiriolodd yn ei ysbryd, rhyddhawyd llinynau ei dafod, eithr nid i gellwair a chrechwen mwyach, ond i folianu Duw am anfon trugaredd rad i'w rwystro tua 'r dinystr tân. Cefnodd ar ei hen gymdeithion y diwrnod hwnw, a chladdodd yr hen arferion yn y fan lle derbyniodd drugaredd. Yn ddioedi ymunodd â'r eglwys, a derbyniwyd ef ynghyd a dau eraill yn gyflawn aelodau ar Sabboth y Pasg y flwyddyn hono. Mae y brawd a'r chwaer, sef David Davies, Cwmllife-fach, a Jemima Davies ei wraig, a dderbyniwyd yr un adeg, yn aros hyd heddyw—buont ill tri yn gyfeillion monwesol ar hyd y daith, a hyderwn y cant gydgyfarfod yn y nefoedd i adolygu troion yr anialwch.

Bellach gadawn ein hen gyfaill Mr. Thomas Edwards, Llandilo (Iorwerth), i adrodd yr hyn mae ef yn gofio am helyntion boreol ein brawd.

"Y mae adgof yn darlunio i mi heddyw mor glir, a phe byddwn yn y cyfnod hwnw y gwelais Williams yn hogyn bywiog a glandeg, pan y daeth eich rhieni i fyw i'r Brownhill; nid oeddych chwi y pryd hwnw ond ieuanc iawn; eich brodyr a'ch chwiorydd yn fwy, a rhai o honynt yn eu cyflawn faintioli. Ychydig flynyddoedd cyn hyny yr adeiladwyd Capel Ebenezer, yn Llansadwrn, a bu dyfodiad eich anwyl dad a mam yn fendithiol iawn i'r eglwys fechan hono—rhyw wyth neu ddeg oedd rhif y gymdeithas grefyddol yno y pryd hwnw. Esther Williams, neu fel y gelwid hi yn gyffredin, 'Ester Ddaniel,' oedd yn dechreu canu yn y capel. Nid oedd yr Ysgol Sabbothol ond gwan iawn, rhyw bump neu chwech oeddym yn y cyffredin, ond yr oedd J. Williams, Brownhill, yno yn wastadol. Yn yr ysgol fechan yma adroddodd efe ugeiniau os nad cannoedd o bennodau ysgrythyrol, a Mr.

Jones, Bryndyfan, yn ei arholi, ac yn ei garu fel pe buasai yn blentyn iddo ef ei hunan, a gofynai yn aml mewn syndod wrth ganfod ei alluoedd yn ymddadblygu, 'Beth fydd y bachgenyn hwn?' Er maint ei ffyddlondeb gyda'r Ysgol Sabbothol, a chyfarfodydd eraill yn y capel a'r gymydogaeth yma a thraw, bachgen gwyllt ac anystyriol oedd efe yr amser hwnw, yn llawn arabedd, bywiogrwydd, caredigrwydd, a natur dda; yn enwog am ei ddawn i efelychu, adrodd, a dynwared rhyw gymeriadau neillduol a digrif. Yr oedd pawb a'i hadwaenai yn ei hoffi, yn neillduol y gweision a'r morwynion, a gweithwyr y tŷ. Os buasai rhywbeth y dymunent ei guddio rhag y meistr neu y feistres, nid oedd dim perygl y buasai John yn ei ddatguddio. O na, yr oedd efe fel un o honynt hwythau yn eu golwg. Yr oedd efe hefyd yn un hylaw a gwisgi iawn yngwaith hwsmonaeth. Clywais ei dad yn dyweyd, 'Mi gefais i golled ar ol John; efe oedd y gweithiwr goreu o'r plant.' Ond yr oedd ei Dad nefol wedi trefnu iddo ef faes arall i weithio, a gŵyr miloedd yn Nghymru a Lloegr hefyd, ei fod yn weithiwr i bwrpas ar y maes hwnw yr ordeiniwyd ef iddo.

"Yn mis Mai, 1835, yr urddwyd y seraphaidd Williams, Llandilo, yn weinidog yn y Tabernacl ac Ebenezer, ac yr oedd ei ddyfodiad i Lansadwrn yn 'rhodd nefol.' Ymdyrai y bobl i'w wrandaw. Cyfododd ei lef yn erbyn pechod; dadleuai dros Dduw a'r bobl; cyhoeddai felldithion y ddeddf yn ei hechryslonrwydd yn erbyn ei throseddwyr, trallod ac ing ar bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg. Gwaeddodd ar hen gysgaduriaid esmwyth arnynt yn Sion, dihunodd y difraw, llosgodd yn ulw eu hen obenyddion a'u clustogau, a dechreuodd yr hen wrandawyr deimlo eu hunain yn noeth a hunangondemniol. Safai y dorf o'i flaen yn ddifrifol, ac aml un yn gofyn, 'Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?' Cyfarwyddai y cyfryw yn uniongyrchol at yr hen feddygin-

iaeth anffaeledig hono, 'Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi.' Yn y blynyddau 1837 a 1840 cafwyd diwygiadau grymus, ac yn y diwygiad cyntaf a nodwyd y derbyniwyd Williams, Castellnewydd, i gymundeb y saint yn Ebenezer, Llansadwrn. Ymddidolodd ar unwaith oddiwrth ei hen gyfeillion ysgafn a chellweirus. Yr oedd yn ddyn newydd yn ei holl agweddion. Ymneillduai i gonglau 'r caeau a dirgelfanau i weddio, a'i hen gyfeillion yn gwawdio ac yn chwerthin am ei ben, elai yntau yn mlaen yn dawel a dirwgnach.

"Cofus genyf ei fod bob yn ail a'i dad yn gwasanaethu wrth yr allor deuluaidd, mewn teulu mawr, lle yr oedd o ddeunaw i ugain yn wastadol yn bresenol, heblaw crefftwyr a dyeithriaid a fyddai yno yn achlysurol, a'r rhan fwyaf o'r rhai hyny yn galed ac annuwiol, a buasai yn dda ganddynt pe buasai y bachgen ieuanc crefyddol hwn yn gwyleiddio ac yn ymddyrysu yn eu presenoldeb; ond cafodd nerth gan Dduw i ddàl ei ffordd, a thywallt ei enaid gerbron gorseddfainc y gras, dadleuai yr hen addewidion, gan ymhyfhau mewn ffydd a thaerni mabaidd, nes y byddai 'r gwawdwyr wedi eu taraw â mudanrwydd a chywilydd trwy 'r lle. Aeth son am ei ddoniau mewn gweddi trwy 'r wlad, a chan ei fod yn ffyddlawn ddilyn pob cyfarfod, cafodd aml gyfleustra i annerch gorseddfainc y gras yn gyhoeddus, pan yn dechreu ei fywyd crefyddol, a dywedai aml un, 'Nid oes dim dadl na wna J. Williams bregethwr campus. Clywais ef un prydnawn Sabboth yn Ebenezer yn darllen a gweddio, a'r Parch. W. Williams yn pregethu, a chyfarfod hynod yn ei effeithiau ar y bobl oedd y cyfarfod hwnw. Nid oedd braidd lygad heb ddeigr yn y lle. Yr oedd y weddi hono yn hynod yn fy ngolwg y pryd hwnw, wrth ei glywed yn defnyddio gweddiau Dafydd o'r Salmau, ac yn eu cydwau mor fedrus a'i ddymuniadau ei hunan ar y pryd, nes eu gwneyd yn un gadwyn o

ddeisyfiadau, a diolchiadau am fendithion tymhorol ac ysbrydol, a hyny gyda 'r fath newydd-deb mewn arddull a theimlad, fel yr wyf yn credu, er nad oedd ond ieuanc iawn ar y pryd, na chafodd yn ei fywyd lawer eglurach profion o gynorthwyon dwyfol o flaen yr orsedd na 'r waith hono yn Ebenezer.

"Meddianai ddawn rhwydd a pharod i siarad ar unrhyw bwnc a roddid i lawr ar y pryd mewn cyfeillachau crefyddol; deallai y pwnc ar unwaith yn ei holl agweddion, a medrai ddyweyd yr hyn a ddeallai er buddioldeb ac adeiladaeth i ereill yn gystal ag iddo ei hunan. Yr oedd ynddo duedd ac awydd i ddarllen pob llyfr y caffai afael ynddo y pryd hwnw, yn neillduol llyfrau crefyddol, gan barhau i drysori Gair Duw yn ei gof, ac adroddai lawer o bennodau yn yr ysgol Sabbothol, ac ar ddechreu cyfarfodydd yr hwyr ar y Sabbothau; arferai hefyd y pryd hwnw gyfansoddi emynau a darnau barddonol i'r Tywysydd Bach ac i'r Diwygiwr, fel y gellir gweled heddyw lawer dernyn tlws o'i waith yn more ei oes, yn y cyhoeddiadau a enwyd. Cawn eu gweled ganddo yn wastadol cyn eu hanfon i'w hargraffu.

"Cafodd Williams ei eni yn Sion mewn adeg hynod fanteisiol iddo i gael magwraeth briodol yn nhŷ ei Dduw, a'i ddwyn i fynu yn wron ar faes y ffydd; pan yr oedd teimladau yr eglwys yn gynes gan ysbryd diwygiadol; a than weinidogaeth danllyd ac effro Williams, Llandilo; a diameu genyf fod y mesur mawr o lwyddiant a ddilynodd ei lafur gweinidogaethol yntau i'w briodoli mewn graddau i'r manteision boreuol a gwerthfawr hyny. Yr oedd golwg fawr gan ei weinidog arno, a rhagwelai ynddo ddefnyddiau gwerthfawr i fod yn filwr da i Iesu Grist, ac am hyny annogodd ef yn daer i ymroddi at waith y weinidogaeth; a chafodd gymhelliad unfrydol yr eglwys hefyd at yr un peth; ac wedi iddo ymgynghori â'i rieni, a rhai o'i gyfeillion mwyaf neillduol, ymgymerodd at y

gwaith o bregethu yr efengyl, a chafwyd ar ddeall yn dra buan ei fod yn feddianol ar y cymwysderau angenrheidiol i wneyd pregethwr poblogaidd a chymeradwy.

Chwith i'r byw, och! aeth i'r bedd—ein Williams
Yn wael mewn mud annedd;
I fynu daw genad hedd
I rodio mewn anrhydedd.

---

## PEN. II.

### DECHREUAD EI FYWYD CYHOEDDUS.

WEDI ei ddychweliad at grefydd ymroddodd â'i holl egni i feithrin egwyddorion a chyflawnu dyledswyddau y bywyd newydd Ymwrthododd yn hollol â'i hen arferion, a chefnodd am byth ar y pethau hyny oeddynt yn fagl ac yn dramgwydd iddo. Nid gwisgo enw o grefydd yn unig a wnaeth, ond ymofynai yn ddidwyll am y gwirionedd. Diflanodd ei gellwair, a gwisgodd ei wynebpryd wedd ddifrifol, yr hyn oedd mewn gwirionedd yn arddangos teimlad y galon.

Ymroddai i ddarllen y Bibl a llyfrau da eraill—dilynai y cyfarfod gweddi i gyrau pellaf y cylch yn ogystal a phan gynhelid ef yn ymyl ei artref—adroddai bennodau ar ddechreu oedfaon yn y capel, a mynegai ei brofiad yn fywiog a theimladwy yn y gyfeillach wythnosol. Nid oedd dim rhodres na rhagrith yn perthyn iddo—yr oedd trwyadledd cyfnewidiad ei gyflwr yn cael ei wireddu gan ddifrifwch ei ysbryd, purdeb ei fuchedd, ac ysbrydolrwydd ei deimladau. Cynhyddai yn gyflym mewn doniau gweddi, torai ei eiriau a'i frawddegau yn fyrion, ac yr oedd yn hawdd deall fod ffydd yn elfen

fywiol yn ei holl weddïau. Cydrhwng y cwbl, arweiniwyd meddwl yr eglwys i'w gymhell i ddechreu pregethu, ac wedi cymeryd amser i ystyried ac ymgynghori, cydsyniodd â'r cais a thraddododd ei bregeth gyntaf mewn cyfarfod parotoad ar nos Sadwrn yn Ngwanwyn 1839. Ei destun cyntaf oedd Exodus 4. 10—12.—testun tra phriodol i ŵr ieuanc ofnus a chrynedig, pan yn dechreu llefaru dros Dduw wrth bechadur-iaid gwrthnysig a gwargaled. Sabboth y Pasg y flwyddyn hono yr esgynodd yr areithfa gyntaf i annerch y gynulleidfa gyhoeddus, a gadawodd argraff hynod o ffafriol ar feddwl ei wrandawyr. Llifai ei ymadroddion allan yn naturiol a dinacâd, a thaflai dôn ddifrifol i'r holl wasanaeth nes argy-hoeddi pawb ei fod yn teimlo pwysigrwydd y gwaith, a difrif-oldeb y genadwri. Ymgasglodd amryw o'i hen gyfeillion cellweirus i'w wrando, gan ddistaw obeithio y caffent fodd i chwerthin am ei ben; ond siomwyd hwynt oll—deallasant yn fuan fod John Williams yn byw mewn byd newydd, ac yn ymhyfrydu mewn gwrthrychau newydd. Hawliai ei ddifrif-wch wrandawiad astud ganddynt, a gwnelai taerineb, a grymusder ei apelion iddynt wrido, wylo, ac addunedu. Diwrnod hynod yn y teulu oedd y Sabboth hwnw—gwrthodid i'r plant ieuangaf gael myned i'r capel o gwbl, ac yr oeddym yn methu amgyffred y dirgelwch ar y pryd. Ofnai ein rhieni y buasai ein cywreinrwydd a'n syndod wrth glywed John yn pregethu yn tori dros y terfynau, a barnent yn fwy diogel ein cadw gartref, a mawr oedd ein rhyfeddod pan aethom i'r ysgol dranoeth i glywed y plant yn dyweyd mai John ni oedd wedi bod yn pregethu yn Ebenezer y Sabboth. Taenwyd yr hanes trwy yr eglwysi cymydogaethol fod pregethwr newydd yn Llansadwrn—derbyniai wahoddiad i bregethu i wahanol fanau, ond ni chydsyniai a'r un cais nes cael barn Mr. Williams yn gyntaf. Wedi pregethu felly am ychydig Sab-bothau yn yr eglwysi o gylch, dywedodd Mr. Williams fod

yn rhaid iddo fyned i Llandilo am Sabbath—fod pobl y Tabernacl yn anghyffredin am ei glywed. Nid gwiw meddwl am wrthod, ond anturiaeth bwysig yn ngolwg ein rhieni oedd gadael iddo fyned i le mor bwysig am Sabboth cyfan. Bernid hefyd nad oedd y dillad yn weddus i fyned i dref barchus fel Llandilo. Gwisgai ef, megis eraill, y pryd hwnw, ddillad cryf o frethyn gwlad, ac edrychai mor drwsiadus ag eraill o gyffelyb sefyllfa, ond ofnid nad oeddynt yn gymhwys i bwlpud y Tabernacl. Yn y cyfyngder ymofynwyd am ein hen gyfaill Iorwerth i roddi barn ar y mater, oblegid efe oedd awdurdod bwysicaf y plwyf ar waith edau a nodwydd. Wedi gwrando y rhesymau o bob tu, a beirniadu y dillad mor fanwl a phe buasent yn cystadlu am gadair mewn Eisteddfod, traethodd Iorwerth ei farn y gwnaethai y dillad y tro i unrhyw bwlpud yn Nghymru ond newid y botymau—tynu y rhai melyn-loyw ymaith a gosod rhai duon, yn edrych dippyn yn fwy pregethwrol yn eu lle. Hyny a fu, a chychwynodd yn lled fore y Sabboth appwyntiedig, a phregethodd ddwywaith i gynulleidfa y Tabernacl, gan adael argraph ar feddwl lluaws fod iddo ddyfodol tra gobeithiol. Wedi pregethu fel hyn am ychydig fisoedd, anfonwyd ef i'r ysgol i Ffrwdyvâl at Dr. William Davies. Adeg bwysig yn ei fywyd oedd hon. Ni bu oddi cartref am nemawr amser cyn hyn, ac er nad oedd Ffrwdyvâl ond saith milldir o ddyffryn Tywi, eto yr oedd yn ardal ddieithr iddo, yr athraw, y myfyrwyr, a phreswylwyr yr ardal oll yn estroniaid iddo, a'r gwaith y daethai i'w gyflawnu yn anghynefin iddo. Gwyddai am galedwaith, yr aredig, y dyrnu, a'r lladd gwair; a medrai chwibanu wrth eu cyflawnu oll; ond yr oedd dadrys cylymau rhifyddiaeth, a meistroli rheolau grammadeg Seisnig yn iau drom ar ei feddwl. Profodd ar unwaith yr anfantais ddeilliedig oddiwrth ddiffyg addysg foreol, a chan nad oedd ei wybodaeth o'r iaith Seisnig ond bychan iawn, llafuriai felly dan anfanteision dirfawr i

wneyd cynnydd cyflym a sylweddol. Nid ydym ychwaith yn tybied fod cynllun addysgol yr athraw y mwyaf manteisiol i fechgyn ieuainc yn ei sefyllfa ef. Gan ei fod yn pregethu bob Sabboth, a hyny yn fisol mewn rhai lleoedd, gorfodid ef i wneyd o leiaf ddwy bregeth newydd bob mis. Collai y rhan fwyaf o ddydd Sadwrn a dydd Llun i fyned a dyfod gyda'r cyhoeddiadau, ac yr oedd hyny drachefn yn anaddasu rhyw gymmaint ar ei feddwl at ei brif waith yn y tymhor hwn. Ond ni chafodd rhwystrau fel hyn ddigaloni dim arno—ymosododd yn egniol i gasglu gwybodaeth, ac yn ystod y ddwy flynedd a dreuliodd yma gwnaeth gynnydd canmoladwy yn ei efrydiaeth, a gosododd i lawr sylfaeni cedyrn ar gyfer llafur personol yn y dyfodol. Enillodd iddo ei hun air da gan ei athraw a'i gydfyfyrwyr, fel gwr ieuanc caredig, ymroddgar, a chrefyddol. Cynhyddai yn barhaus yn ei boblogrwydd fel pregethwr, ac yr oedd y ceisiadau am dano i bregethu mewn gwahanol fanau yn amlhau. Derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Siloa, Llanelli, ac hefyd oddiwrth eglwysi Llangadog, Sardis, a Myddfai. Dyma gyfyngder pwysig, a buwyd am dymhor yn methu gwybod pa lwybr i gymeryd. Ymofynwyd Dr. Davies i'r Brownhill i gael ymddiddan wyneb yn wyneb ar y mater, a chael ei gyngor ef yn yr amgylchiad. Teimlad personol ein brawd oedd gwrthod y ddwy alwad a myned i'r athrofa i Aberhonddu. Dywedodd y Dr. os oedd yn meddwl am weinidogaeth mewn tref fel Llanelli, y buasai yn well iddo fyned i athrofa, ond os oedd yn meddwl am weinidogaeth mewn gwlad, nad oedd angen iddo fyned i athrofa o gwbl. Trodd hyn, ynghyd â dylanwad grymus Mr. Williams, Llandilo, y fantol o blaid Llangadog. Llindagwyd yr awyddfryd am addysg athrofaol yn ei fabandod—ysgrifenwyd gwrthodiad i Llanelli, a pharotowyd ar gyfer dechreu ei weinidogaeth yn Llangadog. Mae genym lawer o barch i goffadwriaeth Dr. Davies, ond yr ydym yn ystyried y cyngor a roddodd i'n

brawd yn yr amgylchiad hwn yn annoeth ac yn gyfeiliornus hollol. Gan fod ar y bachgen awydd am ragor o addysg, a'r llwybr yn agored iddo gael ei ddiwallu, paham na buasai yn cymhell dadblygiad y tuedd yn lle ceisio rhoddi ergid marwol iddi. Buasai cwrs o addysg reolaidd yn gwneyd lles dirfawr i'n brawd, ac yr ydym yn hollol argyhoeddedig y buasai yn well iddo yn mhob ystyr i dreulio pedair blynedd dan ddiwylliant athrawon medrus na rhuthro i'r weinidogaeth yn ieuanc ac yn gymharol anwybodus fel yr oedd. Modd bynag, cefnodd ar Ffrwdyvâl, gwnaeth gyngor y Dr., cymerodd ei urddo yn Llangadog, ond wylodd ddagrau hallt, yn nyfnder y nos wedi hyn, am iddo gael ei gamarwain ar adeg mor bwysig: oblegid buan y teimlodd fod gwybodaeth gyflawn a pharod yn hanfodol i gyflawniad effeithiol y weinidogaeth yn y wlad yn ogystal a'r dref. Cymerodd ei urddiad le megis y cofnodir yn y Diwygiwr am fis Medi, 1841, yn y drefn ganlynol:—"Ar y 4ydd, y 5ed, a'r 6fed o Awst, 1841, cadwyd cyfarfod er neillduo y Parch. John Williams, diweddar fyfyriwr yn Athrofa Ffrwdyvâl, i waith y weinidogoeth yn y *Providence Chapel*, Llangadog, Sardis, a Chapel Sion, Myddfai. Nos Fercher am saith, yn Llangadog, dechreuodd y Parch. D. Williams, Bethlehem; a phregethodd y Parchn. H. Evans, Pembre a J. Evans, Capel Sion. Dydd Iau am ddeg, dechreuodd Mr. J. Evans, Ffrwdyvâl. Pregethwyd ar natur eglwys gan y Parch. D. Rees, Llanelli; holwyd y gofyniadau gan y Parch. D. Jones, Gwynfe; dyrchafwyd yr urdd-weddi gan y Parch, W. Williams, Tabernacl; anerchwyd y gweinidog gan y Parch. D. Davies, Pantteg; a'r eglwys gan y Parch. D. Williams, Llanwrtyd. Am dri dechreuodd y Parch. G. Griffiths, Carmel; pregethodd y Parchn. E. Jones, Crugybar ac R. Price, Cwmllynfell. Yr un amser yn Sardis, dechreuwyd gan Mr. Stephens, Ffrwdyvâl; pregethodd y Parchn. D. Thomas, Troedyrhiw, Merthyr, ac R. Powell, Cross Inn; ac

am chwech, Mr. J. Evans, Ffrwdyvâl, a'r Parch. D. Williams, Bethlehem. Am chwech yn Myddfai, dechreuodd Mr. Stephens, Ffrwdyvâl; pregethodd y Parchn. W. Williams, Tabernacl, a J. Stephens, Brychgoed. Dydd Gwener am ddeg, dechreuodd Mr. Joseph Jones, Gwynfe; pregethodd y Parch. T. Jenkins, Penygroes, ar y pwnc gosodedig, sef, "Natur yr undeb rhwng gweinidog ag eglwys;" gofynwyd boddlonrwydd yr eglwys a'r gweinidog gan y Parch. W. Davies, Llanymddyfri, yr hyn a wnaed trwy godi dwylaw o bob tu; a phregethodd y Parch. R. Price, Cwmllynfell. Am dri, dechreuodd Mr. T. Silvanus, Ffrwdyvâl; pregethodd Mr. J. Evans, Ffrwdyvâl, a'r Parchn. T. James, Tabor, a D. Jones, Aber. Yr oedd y cynulleidfaoedd yn lluosog, y gwrandawiad yn astud, a'r pregethu yn wresog: gobeithio y bydd effeithiau da yn canlyn."

Mae y rhan fwyaf o'r gweinidogion a gymerasant ran yn ngwasanaeth yr urddiad wedi myned i ffordd yr holl ddaear, ond y mae ychydig o honynt yn aros hyd heddyw. Mae yr hybarch dad o Droedrhiwdalar megys cedrwydden henafig, wedi dal yr holl ystormydd, ac yn parhau i flodeuo fel y lawryf gwyrdd. Mae Mr. Jones, Crugybar wedi cyrhaedd oedran teg, ond y mae ei galon mor gynes a'u ysbryd mor selog ag erioed gyda gwaith ei Dduw. Yr oedd yn yr urddiad dri myfyriwr o'r un ysgol a'n brawd; y mae un wedi marw er ys blynyddau, tra mae Mr. Evans, Maendy, a Mr. Stephens, Liverpool, yn aros yn gryf a llwyddianus ar y maes. O! 'r fath gyfnewidiadau mae angeu yn wneyd mewn deg mlynedd ar hugain. Yn fuan iawn byddwn oll wedi ein hysgubo ymaith, a chenedlaeth arall yn gofalu am arch Duw. Mae yn briodol fod yr ystyriaeth o hyn yn peri i ni fod yn ddiwyd i weithio gwaith yr hwn a'n danfonodd, tra yr ydyw hi yn ddydd; y mae'r nos yn dyfod pan na ddichon neb weithio.

## PEN. III.

### EI WEINIDOGAETH YN LLANGADOG.

WEDI i'r urddiad fyned heibio, ymaflodd yn ei waith pwysfawr a'i holl egni. Yr oedd gwaith mawr yn ei aros yn yr eglwysi, a gwaith mawr yn ei aros yn ei lyfrgell. Nid oedd yr eglwysi ond gwanaidd a'r cynulleidfaoedd yn fychain, ac yr oedd angen gweinidogaeth rymus i ddeffro y preswylwyr a galw eu sylw at yr Efengyl. Nid oedd sefyllfa fewnol eglwys Llangadog yn hollol ddedwydd ar y pryd, ond yn fuan gwasgarwyd y cymylau, a sicrhawyd heddwch a chydweithrediad mewn ffordd dra effeithiol. Am y ddwy flynedd gyntaf o'i weinidogaeth, blinwyd ei ysbryd gan gwerylon personol ychydig o deuluoedd, ond yn fuan darfu i ddylanwad ei weinidogaeth ladd pob ymryson, diarfogi pob gelyn, tangnefeddu pob terfysgwr, a dysgu yr eglwys i fod yn "ddyfal i gadw undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd." Nid ydym yn cofio ei glywed yn achwyn ar ddiffyg tangnefedd a chydweithrediad yn Sardis a Myddfai erioed, ond gwyddom fod ei holl siarad am danynt yn gadael yr argraff ar ein meddwl ei fod yn eu caru a chariad dwfn. Pan oedd eglwys gyfagos heb weinidog, cynhygiwyd galwad iddo ar y dealltwriaeth ei fod i roddi Sardis a Myddfai i fynu, ond gwrthododd yn benderfynol, gan dystio nad allai feddwl ymadael â'r ddwy eglwys hono er mwyn cyfleusdra personol. Ni chafodd ofidiau neillduol yn Llangadog, ond rywfodd yr oedd ei enaid wedi ymglymu yn llwyrach am y ddwy eglwys arall. Yr oedd maes ei lafur yn eang. Gan ei fod yn aros gyda'r teulu yn y Brownhill, yr oedd ganddo tua chwech neu saith milldir i'r terfyn eithaf, ond nid oedd oerni na gwres, sychder na gwlaw, rhew nac eira, yn cael ei rwystro i lanw ei gylch y Sabboth, na dilyn cyfeillachau yr wythnos. Prynodd ferlyn at ei wasanaeth, ac yr oedd y creadur bach fel wedi ei gymhwyso gan y Creawdwr i fod yn "*bony* pregeth-

wr." Yr oedd yn galed fel callestr, yn ysgafndroed fel yr ewig, ac yn ddigon cyfrwys i ofalu am dano ei hun lle bynag y byddai. Cyflawnodd ein brawd ei weinidogaeth yn ffyddlon, ac yn fuan dechreuodd yr eglwysi adfywio, a'r cynnulleidfaoedd i gynhyddu. Cyn pen tair blynedd yr oedd capeli Llangadog a Myddfai yn orlawn, ond nid ydym yn deall i Sardis fod yn llawn er dyddiau yr anfarwol a'r enwog Davis o Sardis, oblegid teneurwydd y boblogaeth ac amlder y capeli Annibynol o gylch. Nid oedd ei gyflog ond £32 y flwyddyn ar y dechreu, ond cynhyddodd i gymaint arall cyn symud i gylch eangach. Taflodd fywyd newydd i Ysgolion Sabbothol yr eglwysi, ac arferodd hwynt i ddysgu ac adrodd pynciau, yr hyn oedd yn dra phoblogaidd ac adeiladol. Galwodd sylw at yr angen am ddiwygiad yn ngherddoriaeth y cysegr, ac er nad oedd yn fawr o gerddor ei hun, eto llwyddodd i greu chwaeth i ganu â'r deall ac â'r ysbryd yn mhlith y bobl, yr hyn fu o wasanaeth pwysig i ennill serch yr ieuenctyd at wasanaeth tŷ yr Arglwydd. Am y deg mlynedd y bu yn gweinidogaethu yn y cylch hwn, llafuriodd yn ddibaid i gyflawnu dyledswyddau amryfath ei swydd. Anaml y caffai ddiwrnod iddo ei hun, canys yr oedd cyfarfod gweddi, cyfeillach, angladd, bedydd, &c., yn galw am ei wasanaeth yn barhaus, ac nid oedd efe yn ŵr i fwynhau esmwythid tra yr oedd gwaith eisiau ei wneyd. Nid oedd musgrellni a segurdod yn brofedigaeth iddo o gwbl. Gwaith, gwaith, gwaith, oedd ei arwyddair gartref ac oddicartref, yn y llyfrgell yn ogystal ag yn yr eglwysi. *Rhaid* oedd iddo weithio ei hun, ac nid oedd dim yn aflonyddu ei feddwl yn fwy na gweled eraill yn ymollwng i ddifaterwch a diogi tymhorol neu grefyddol. Gadawodd yr ysbryd hwn ei argraph ar yr eglwysi. Ymaflasant o ddifrif yn eu gwaith, codwyd allor i Dduw Israel ar lawer aelwyd, adgyweiriwyd hen allorau oeddynt wedi malurio er ys amryw flynyddau, ymdyrai yr ieuenctyd i'r Ysgol Sabbothol, dy-

chwelai yr afradlon dan gerdded ac wylo tua thŷ ei Dad, ac ennillwyd ugeiniau i arddel crefydd yn gyhoeddus. Bu tymhor ei weinidogaeth yma yn nodedig o ddedwydd a llwyddianus, ac y mae ei goffadwriaeth yn berarogl yn yr ardaloedd hyny hyd heddyw.

Teithiai lawer oddicartref hefyd. Nid oedd cledrffyrdd i'w cael yr amser hwnw, ond er hyny gwelid ef â'i ferlen fach yn y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Sir. Tòrai dros y terfynau i Siroedd eraill weithiau, a dyoddefodd lawer o dywydd gwlyb ac ystormus wrth groesi mynyddoedd Brycheiniog a Morganwg i wahanol gyfarfodydd. Treuliai bythefnos neu dair wythnos bob mis Rhagfyr oddicartref yn casglu arian y Diwygiwr, a thrwy fod y Golygydd yn rhybuddio ei ddarllenwyr bob blwyddyn mai tri pheth oedd yn lladd pregethwr—"gwely *damp*, ceffyl cloff, a dyn yn cysgu yn y cwrdd," diangodd yn ddianaf trwy y teithiau hyn oll, ac ni chlywsom ef yn achwyn ar angharedigrwydd neb tuag atto ef na'i anifail. Cynhyddai ei ddoniau a'i ddylanwad fel pregethwr poblogaidd ac effeithiol yn dra chyflym, fel y gelwid am ei wasanaeth yn aml i bregethu am Sabboth mewn eglwysi gweigion, mewn Cymanfaoedd, ac yn uchel wyliau y saint. Un tro galwyd am ei wasanaeth am Sabboth i Heol Awst, Caerfyrddin. Aeth yno yn galonog, oblegid yr oedd gweinidogion ieuainc y Sir yn ei theimlo yn dippyn o anrhydedd i gael llanw pwlpud Heol Awst am Sabboth. Pan oedd ein brawd yno digwyddodd fod cyhoeddiad pregethwr cynorthwyol i fod yno gydag ef nos Sabboth. Pan aeth ein brawd i oedfa'r nos, yr oedd y pregethwr yn eistedd yn y gadair dan y pwlpud, eisteddodd yntau ar ei gyfer, tynodd ei oriawr allan, ac wedi gwneyd yn sicr o'r amser, dywedodd wrth y pregethwr, "Mae yn bryd dechreu y cwrdd." "Felly," meddai y pregethwr, "a fyddwch chwi yn arfer dweyd tippyn weithiau?" "Byddaf," meddai ein brawd, "myfi sydd yn *supplio* yma heddyw."

"O, efallai y dechreuwch chwi dippyn ar y cwrdd i fi ynte, gan eich bod chwi yma eisoes. Pwy weda I i chwi?" "Myfi yw Williams, Llangadog," meddai ein brawd. "O," meddai yntau, "chwi yw yr un *bach* sydd yn Llangadog; mi glywais fod yno ryw un *bach*. Nid wyf fi yn adnabod y rhai *bach* yma. Efallai y pregethwch dippyn *bach* o mlaen I heno." Nid ydym yn gwybod pa un o honynt ddechreuodd yr oedfa, ac a bregethodd yn gyntaf, ond gallem dybied i ymddyddan a barn ddibris yr hen frawd dynu cryn dippyn oddiwrth yr anrhydedd o *supplio* Sabboth yn Heol Awst. Tro arall, pan oedd mewn cyfarfod blynyddol yn Soar, Merthyr Tydfil, lladrattaodd rhyw ddyhiryn ei anifail o'r ystabl, lle y trigai, a daeth gartref yn isel ei ysbryd, ac yn bruddaidd ei galon oblegid yr anffawd. Ychwanegid at ei ofid oblegid mai benthyg oedd yr anifail hwnw; ac er i ymchwiliadau manwl gael eu gwneuthur ar y pryd, ni ddaethpwyd o hyd i'r lleidr. Bu megis eraill o weinidogion ieuainc addawus yr enwad, yn pregethu am fis i'r eglwysi Cymreig yn Manchester, Liverpool, a Llundain, ac yr oedd yr ymweliadau hyn a threfydd mawrion y deyrnas yn symbylu ei feddwl, yn adloni ei ysbryd, yn puro ei uchelgais, ac yn rhoddi arwedd eangach i'w weinidogaeth. Ond yr oedd un peth yn hynod ynddo mewn cysylltiad â'r teithiau hyn oll—nid oedd yn bosibl cael ganddo i roddi dim o hanes ei ymgyrchion i'r teulu gartref. Nid dyn dystaw, dywedwst, ydoedd mewn un modd—siaradai yn llon, chwedleuai yn ddifyr, ac adroddai ei hanes wrth bobl ddyeithr, ond ni chaffem ni wybod dim o'i hanes oddicartref. Pan ddychwelai o gyfarfod chwarterol mewn cwr pellenig o'r Sir, byddem yn ei holi am faterion y gynhadledd, a phwy fu yn pregethu yno, ond ni ddywedai air i foddloni ein cywreinrwydd, a gorfodid ni i aros mewn anwybodaeth nes delai yr adeg i ni gael y Diwygiwr, ac yna delem o hyd i'r dirgelion oll heb ddiolch

iddo. Yr oedd pawb o honom yn ei garu yn fawr, ac yr oedd pob brawd a chwaer, gwas a morwyn, yn foddlon gweini arno os buasai galwad. Edrychem arno fel prophwyd yr Arglwydd yn ein plith, a bu ei arosiad yn y teulu yn fantais fawr i ddiwyllio meddyliau a chrefyddoli teimladau y plant ieuengaf a'r gwasanaethyddion. Efe oedd llywydd y ddyledswydd deuluaidd, ac y mae argraph ei weddiau taer a difrifol wrth yr allor yn aros gyda dwysder ar ein meddwl hyd y dydd hwn. Gallwn ddwyn tystiolaeth ddiamwys fod ei holl ymddygiadau yn peri i bawb o honom feddwl yn uchel am weinidogaeth y gair, ac mai braint fawr oedd i bechadur gael ei alw a'i gymhwyso gan ras i fod yn gennad y Duw Goruchaf.

Nid oedd gwaith cyhoeddus y weinidogaeth artrefol, na theithio i gyfarfodydd, yn cael bwyta ei holl amser. Fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd gwaith mawr yn ei aros yn y llyfrgell. Darpariaeth addysgol anmherffaith iawn a gafodd, ac yr oedd hyny yn ychwanegu ei lafur yn bwysig. Medrai ddarllen Seisneg yn weddol, ond o'r braidd yr oedd yn alluog i werthfawrogi llyfrau duwinyddol yn yr iaith hono. Cyfyng iawn oedd ei wybodaeth mewn hanesyddiaeth fydol ac eglwysig, daiaryddiaeth gyffredin ac ysgrythyrol, ac nid oedd wedi talu dim sylw i symudiadau gwleidyddol y teyrnasoedd, ond yr hyn a ddysgid iddo yn y Diwygiwr. Dengys hyn yr anfanteision y llafuriai danynt, ond mynodd orchfygu y cwbl. Gweithiai yn ddiarbed yn ei lyfrgell bob dydd, prynai lyfrau newyddion yn barhaus, a darllenai hwynt yn fanwl. Gan nad oedd yn talu dim i'n rhieni am ei gynhaliaeth, yr oedd yn gallu defnyddio ei holl arian i'r perwyl hwn, a chasglodd yn fuan ddetholiad o lyfrau rhagorol. Codai yn fore, a threuliai oriau bob dydd i ddarllen a myfyrio, ac nid oedd neb yn meiddio aflonyddu arno, os na fuasai amgylchiad o bwysigrwydd anarferol yn galw am hyny. Daeth yn fuan i feistroli llyfrau Seisnig, derbyniai gyhoeddiadau misol Seisnig, dar-

llenai bapyr wythnosol Seisnig, a thrwy hyn oll casglodd gronfa werthfawr o wybodaeth fuddiol mewn byr amser.

Tua 'r flwyddyn 1845, pan oedd y mudiad addysgol yn dechreu cynhyrfu y wlad, penderfynodd gychwyn ysgol ddyddiol yn Llangadog. Yr oedd yn y dreflan hono ysgol eglwysig o'r blaen, ond nid oedd yr ymneillduwyr yn gofalu am anfon eu plant iddi. Nid oedd ganddo un bwriad i barhau i gadw ysgol, ond yn unig gosod i lawr sylfaen rhywbeth gwell ar gyfer y dyfodol. Methwyd a chael ystafell gyfleus yn y dref, a chymerodd dŷ bychan ar Waunystradfeirus, tua milldir o Llangadog. Chwalodd ei raniadau pridd, trefnodd ychydig feinciau a byrddau ynddo, a gwnaeth ef yn lle bychan lled daclus i gadw ysgol. Y bore cyntaf ymgasglodd torf o blant yno, a bu yntau yn dra llwyddianus i'w hyfforddi yn elfenau cyntaf gwybodaeth. Bu yno dri o bregethwyr ieuainc yn dechreu tori gwndwn y gwybodaethau. Yr ydym wedi colli golwg ar un o honynt er ys amryw flynyddau, aeth y llall i'w fedd yn mlodau ei ddyddiau, ac y mae y trydydd wedi dringo i enwogrwydd mawr, sef y Parch. R. G. Jones, Utica, America.

Dechreuad cyfnod pwysig ar addysg yn yr ardal oedd yr ysgol ddinôd ar y Waun, canys ni orphwysodd ef a chyfeillion eraill nes sefydlu Ysgol Frytanaidd yn Llangadog. Cafwyd tir mewn man cyfleus, adeiladwyd ysgoldy eang trwy gydweithrediad y gwahanol enwadau, sicrhawyd gwasanaeth ysgylfeistr medrus, talwyd yr holl ddyled agos cyn iddo ymadael â'r cylch, ac y mae yno ysgol lewyrchus ar hyd y blynyddau.

Mehefin 16, 1846, ymunodd mewn priodas â Marietta Isabella, unig ferch Dr. Havard, Blaengwthan, plwyf Llangeler, Sir Gaerfyrddin. Yr oedd hi yn ddynes garedig a synwyrol, ac yr oedd ei haddysg foreol a'i diwylliant meddyliol yn ei haddasu i lanw unrhyw gylch yn anrhydeddus. Wedi

priodi, gadawodd y Brownhill yn hollol, a symudodd i fyw i Llangadog. Yn fuan wedi priodi cyfarfyddodd ein brawd â hen foneddwr a breswyliai mewn palasdy cyfagos, yr hwn oedd yn heliwr mor gadarn a Nimrod ei hun, a dywedodd wrtho, "Well, Mr. Williams, I hear that you are married," meddai. "Such is the case, Sir," atebai ein brawd. "And I am told," meddai y boneddwr drachefn, "that you are married to Dr. Havard's daughter—I knew him well; he always came out with me to hunt when down that way; he was an excellent man; he is sure to have gone to heaven—*he kept a splendid horse.*" Mae yn dra thebygol nad oedd yr hen bechadur yn golygu dyweyd, er mor baganaidd oedd ei syniadau am grefydd, fod Dr. Havard wedi myned i'r nefoedd am ei fod yn cadw ceffyl da. Ond yr oedd llon'd calon yr hen foneddwr o natur dda, ac nid ychydig oedd ei barch a'i garedigrwydd i'n brawd, am fod ei dad a'i dadynghyfraith yn dra hoff o hela llwynogod.

Yn mis Medi, 1846, bu farw yr anwyl a'r poblogaidd Williams Llandilo. Ar gais gweinidogion y Sir yn benaf, ymgymerodd ein brawd â'r gorchwyl o ysgrifenu Cofiant iddo. Daeth y llyfr allan yn 1848. Dywed fel hyn yn y rhagymadrodd, "Dymunaf yn flaenaf a phenaf gydnabod Rhagluniaeth ddoeth y nef am i mi gael byw yn yr un oes, ac i'm 'llinynau syrthio' yn yr un gymydogaeth a gwrthrych y Cofiant hwn. Mae lluaws mewn dyled i Dduw am dano, ond 'myfi yn fwy,' oblegid yr oeddwn 'megis un wedi ei feithrin gydag ef.' Fy amddifadu o'i bresenoldeb siriol, ei gyngorion doeth, a'i gyfeillach adeiladol, yw y golled fwyaf a wnaeth angeu i mi hyd yn hyn." Dengys hyn fod cyfeillgarwch diffuant rhyngddynt. Treulient lawer o amser gyda eu gilydd, a bu marwolaeth Mr. Williams yn golled anadferadwy i'n brawd. Cafodd y Cofiant dderbyniad croesawus, a gwerthwyd yr oll o hono mewn ychydig fisoedd. Mae wedi ei

ysgrifenu yn llithrig a destlus, ac yn cynwys darluniad hollol gywir o'r gwr mawr hwnw.

Tua diwedd y flwyddyn 1851, derbyniodd alwad oddiwrth eglwysi Castellnewydd a Chapel Evan, ac wedi ystyried y cwestiwn am gryn ysbaid, daeth i'r penderfyniad i gydsynio â'r alwad, ac ymadael â'i faes cyntaf. Yr oedd hwn yn faes eangach; ond hefyd, yr oedd dylanwad "y wraig a roddaist i mi" yn tueddu yn gryf i'w dynu i sefydlu yn agos i'w hen gartref. Disgynodd y newydd am ei fwriad fel plwm i galonau y bobl. Wylai rhai, digiai eraill, ac nid ychydig oedd yn prophwydo barn i ddisgyn arno am ymadael â phobl oedd yn ei garu fel eu plentyn. Modd bynag, cyn ymadael, tynerodd eu teimladau, ceisient berswadio eu gilydd fod a fyno Rhagluniaeth â'i symudiad, a daethant yn gymodlon â'r oruchwyliaeth. Derbyniodd anrhegion gan yr eglwysi fel arwydd o'u parch a'u cariad tuag atto, ac y mae hanes cyflwyniad y cyfryw yn deilwng o gofnodiad yma:—

"Yn ngwyneb fod ein parchus weinidog, y Parch. John Williams, ar ymadael, a rhoddi i fynu ei ofal gweinidogaethol yn *Providence*, Llangadog, darfu i'r Ysgol Sabbothol deimlo, (gwna yr eglwys eto yr un modd,) a phenderfynu nad oedd iddo ymadael heb ddangos arwydd o'u parch iddo a'u serch ato. I'r perwyl hwnw cynhaliwyd cyfarfod gweddi yn y capel, ar nos Lun, y 10fed o Dachwedd diweddaf, pryd yr ymgynullodd yr Ysgol Sabbothol i'w anrhegu â llyfrau fel arwydd o'u diolchgarwch am ei ffyddlondeb gyda yr Ysgolion Sabbothol a dyddiol. Wedi darllen, canu, a gweddio, cyflwynwyd yr anrheg ganlynol iddo gan Mr. George Morgan, arolygwr yr ysgol, a Miss Anne Rees, Cefngornerth, un o'r athrawesau, sef,

Dr. Guyse' Exposition of the New Testament. 3 vols.
Carpenter's Scripture Natural History.
Sturm's Reflections.

Roberts' Oriental Illustrations of Scripture.
Keith on the Prophecies.
Life of Harlan Page.
Life of the Missionary Serjeant.
Scales' Principles of Dissent.

Y rhai oeddynt oll yn werth £3 3s. Wedi derbyn yr anrheg, cyfododd y Parchedig Mr. Williams ar ei draed, ac mewn araeth fyr a chynwysfawr adroddodd helynt yr achos yn y lle yn ystod ei weinidogaeth; teimlai pawb; collwyd lluaws o ddagrau, a chyn ymadael nesäai y plant ieuainc atto i ysgwyd llaw, efallai am y tro olaf yn y fuchedd hon. Yr oedd yr olygfa yn dangos ymlyniad calon wrth galon, a gobeithiwn y bydd i bethau daionus ddilyn y cyfarfod."*—

Hefyd,

"Ar ddydd Llun, y 9fed o Chwefror, 1852, cynhaliwyd cyfarfod er anrhegu y Parch. John Williams, ar ei ymadawiad er cymeryd gofal gweinidogaethol y canghenau hyny o eglwys Crist sydd yn ymgyfarfod Ynghapel Iwan a Chastellnewydd-Emlyn. Am ddau a chwech yn y prydnhawn, pregethodd y Parch. J. Jones, B.A., Hermon; T. Jenkins, Penygroes; D. Jones, Bethlehem; D. Matthias, Elim; a T. Davies, Llandilo. Yna derbyniodd Mr. Williams yn anrheg oddiwrth gasgliad yr eglwys a'r gwrandawyr, drwy law Mr. John Davies, y plentyn cyntaf a fedyddiodd wedi iddo ymroddi i waith y weinidogaeth, yr hon oedd yn gynwysedig o'r llyfrau canlynol.

Cobbin's Condensed Commentary.
Dr. Pye Smith's Scripture Testimony to the Messiah. 2 vols.
Do., do., Priesthood and Sacrifice of Jesus Christ.
Dr. Payne's System of Theology. 2 vols.
Do., do., Sovereignty and Election.
Dr. Davidson's Biblical Criticism.

* Diwygiwr, 1851. Tudal. 307.

Dr. Henderson's Divine Inspiration.

Moral and Religious Anecdotes.

Wedi derbyn yr anrheg, cawsom araeth ddwys a theimladwy ganddo, yn yr hon y darluniodd helynt ac amgylchiadau y lle yn ystod ei weinidogaeth.

Dymunem hysbysu fod Mr. Williams wedi ymadael mewn tangnefedd, a phawb yn teimlo oblegid ei ymadawiad, yr hyn a ellir ei weled a'i brofi yn rhwydd oddiwrth yr anrhegion a gafodd. Yn ystod y deg mlynedd y bu yn gweinidogaethu yn Llangadog, Sardis, a Myddfai, bu yn weinidog ffyddlon a defnyddiol, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd. Ymdrechodd lawer gyda yr ysgolion, yn enwedig yr ysgolion dyddiol; ac yn Llangadog gallwn ddywedyd i'r fechan ddyfod yn fil, a'r wael yn genedl gref. Dymunwn iddo lwyddiant mawr yn ei gylch newydd, yn ardaloedd poblogaidd Capel Iwan a Chastellnewydd-Emlyn. Bydded i air yr Arglwydd lwyddo yn ei law, nes ennill pechaduriaid lawer at y Ceidwad digonol. Dymunem i dangnefedd Ior aros yn nheulu ein hanwyl weinidog ymadawedig. Deallwn ei fod wedi derbyn anrheg mewn arian oddiwrth eglwysi Sardis a Myddfai." *

---

## PEN. IV.

### EI WEINIDOGAETH YN CASTELLNEWYDD.

Rhoddir hanes cyfarfodydd ei sefydliad fel y canlyn:—

"Ar y 3ydd, 4ydd, a'r 5ed o Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod sefydliad y Parch. J. Williams (diweddar o Langadog), yn Castellnewydd a Chapel Evan. Nos Fawrth yn y dref, pre-

* Diwygiwr, 1852. Tudal. 123.

gethodd Morgans, Caerfyrddin; Davies, Llandilo (y gynaraeth); a Thomas, Trefdraeth. Dydd Mercher am ddeg, pregethodd Jones, Crugybar; Rees, Llanelli, ar y Weinidogaeth, a Davies, Pantteg, i'r Eglwys. Am ddau, dechreuodd Mr. Henry Jones (mab yr hen weinidog), a phregethodd Jones Bwlchnewydd, ac Evans, Capel Sion. Am chwech, Jones, Llwynon, a Griffiths, Horeb. Nos Fercher, yn Capel Evan, Jones, Nebo, a Lewis, Henllan (y gynaraeth). Dydd Iau, am ddeg, Evans, Penygroes, a Stephens, Brychgoed i'r eglwys. Am ddau, Stephens, Llanfair, a Jones, Glynarthen. Am chwech, Jones, Abergwily, a Thomas, Penrhiwgaled. Dechreuwyd yr oedfaon gan Jones, Cilcenin, Evans, Hermon, Miles, Tyrhos, a Davies, Trelech."* Dengys yr hanes uchod fod pedwar o weinidogion, sef Davies, Pantteg, Rees, Llanelli, Jones, Crugybar, a Stephens, Brychgoed, yn ei sefydliad ag oeddynt yn ei urddiad yn Llangadog. Awgryma hyny ei fod yn cadw cyfeillgarwch, ac os yn gwneyd cyfeillion newydd, nad oedd yn ymwrthod â chyfeillion boreol ei weinidogaeth.

Wedi symud i lafurio yn y cylch hwn, aeth i fyw i'r Gelli, fferm fechan yn mhlwyf Cilrhedyn. Yr oedd ganddo fedr a chwaeth at amaethu, a phrofodd yn fuan ei fod yn llawn cystal amaethwr a neb o'i gymydogion. Yr oedd ei gartref mewn cwr lled bell oddiwrth ei eglwysi, a'r ffordd yn anwastad a garw; ond nid oedd pellder ffordd na gofal am y tyddyn yn cael ei luddias i gyflawnu ei waith priodol. Yn mhen ychydig amser cymerodd ofal Brynsion, yn mhlwyf Cenarth, ac yr oedd hyny yn eangu ei gylch ac yn ychwanegu ei lafur. Ond yr oedd wedi ei gyfaddasu gan gorph cryf, iechyd da, ac ysbryd bywiog i ymgymeryd â mwy o waith caled mewn teithio a phregethu na gweinidogion yn gyffredin. Pregethai dair gwaith bob Sabboth, a theithiai tua phymtheg milldir yn rheolaidd. Dyna ddigon o waith am un diwrnod

* Diwygiwr, 1852. Tudal, 89.

beth bynag. Ond nid oedd iddo lonyddwch ar yr wythnos, oblegid gan fod y cylch mor eang, yr oedd galwad am ei wasanaeth yn barhaus. Yr oedd yn agos i fil o aelodau yn y tair eglwys, ac yr oedd hyny yn cynrychioli o leiaf ddwy fil o bobl oeddynt yn edrych ato fel eu cyngorwr a'u hathraw. Yr oedd priodasau, bedyddiadau, ac angladdau yn cymeryd llawer iawn o'i amser, heb law cyfarfodydd neillduol yr eglwysi. Ni chlywodd neb ef yn achwyn ar galedrwydd y gwaith, oblegid yr oedd ei galon yn y weinidogaeth, ac nid oedd cyflawniad ffyddlon yr oll o'i ddyledswyddau ond llafur cariad iddo. Teithiai lawer iawn oddi cartref. Yr oedd bellach wedi dyfod yn dra adnabyddus trwy y Dywysogaeth oll, a gelwid am ei wasanaeth i bregethu a darlithio yn barhaus. Yr oedd ei enw mor adnabyddus yn y Gogledd ag oedd yn y De. Fel Williams Castellnewydd y cyrhaeddodd ei enwogrwydd penaf, ac wrth yr enw hwn yr adnabyddir ef yn hanesyddiaeth grefyddol ein cenedl. Trwy ystod ei weididogaeth yn Nghastellnewydd, nid oedd nemawr i weinidog yn teithio gymaint ag oedd ef: aeth unwaith mewn ychydig ddyddiau trwy y rhan fwyaf o gapeli Sir Fôn, gan bregethu *bedair* gwaith bob dydd. Cof genym am dano yn pregethu mewn cymanfa yn Rhymney; myned i Cendl y noson hono, a phregethu yno; pregethu dranoeth am saith y bore yn Sirhowy; pregethu yn Dowlais am ddeuddeg, a myned gartref y noson hono. Mae y pellder o Cendl i Gastellnewydd yn agos iawn i gan milldir; ac er fod y *train* yn ei gario o Ferthyr i Gaerfyrddin, yr oedd yn gryn orchest. Nid llawer fedrai wneyd gorchestion fel hyn heb deimlo canlyniadau poenus, eithr diangodd ef heb deimlo dim yn uniongyrchol; ond mae yn rhaid fod llafur anarferol felly yn effeithio ar y corph hefyd. Nid oedd pregethu am ddeg a dau o'r gloch, a darlithio y noson hono am ddwy awr a hanner, yn effeithio dim arno mewn ymddangosiad. Ond er fod ei lafur yn fawr

oddi cartref, nid oedd yn esgeuluso yr eglwysi mewn un modd. Trefnai fod yn mhob cyfarfod pwysig; ac nid oedd derbyn na diarddel, ceryddu na disgyblu, bedyddio na chladdu, yn cael ei esgeuluso oblegid ei fod yn teithio llawer. Pan gartref, byddai yn gweithio â'i holl egni, a gwnelai mewn mis fwy o waith na llawer o honom mewn blwyddyn. Taflodd cynhesrwydd ei ddawn, a bywiogrwydd ei ysbryd, fywyd newydd i'r eglwysi. Cynyddodd y cynulleidfaoedd, a disgynodd ysbryd newydd ar bobl yr Arglwydd. Bu tymhor ei weinidogaeth yn y cylch hwn yn hynod lwyddianus a dedwydd. Yr oedd ganddo gariad mawr at ei eglwysi. Pan oddi cartref, byddai yn canmol tangnefedd a gweithgarwch ei bobl yn barhaus, ac yr oedd ganddo resymau cedyrn dros fynegu felly am danynt. Yr ydym yn dra sicr fod gan yr eglwysi gryn olwg arno yntau. Perchid ef gan bob dosbarth ac oedran, ac nid oedd gan neb fwy o barch iddo na'r plant a chrefyddwyr ieuainc. Cafodd gydymdeimlad yr eglwysi yn ei holl gynlluniau i helaethu yr achos a chrefyddoli y boblogaeth. Mae ei enw yn gysegredig mewn llawer teulu, a pheru ei goffadwriaeth yn anwyl tra byddo yr efengyl yn cael ei phregethu yn y wlad.

Chwythodd ystorom erwin arno yn marwolaeth ei anwyl briod. Bu farw yn Ngorph., 1863, yn 37 mlwydd oed, a chladdwyd hi yn mynwent Capel Evan. Gadawyd ef a *saith* o blant—chwech o ferched ac un mab, yr henaf o honynt yn 16 oed a'r ieuengaf yn 2 flwydd oed—yn ddiymgeledd a galarus. Collodd briod ei ieuenctyd, ac yr oedd yr amgylchiad fel saeth wenwynig yn brathu ei deimladau, ac yn peri iddo wylo yn achlysurol am oriau yn ddibaid. Siglwyd ef trwyddo gan y brofedigaeth hon, a dechreuodd wargrymu ac heneiddio, a gwelid llawer o arwyddion mai pridd oedd yn ei gorph ef megis ereill. Ond yn herwydd bywiogrwydd naturiol ei feddwl, ymadnewyddodd drachefn, ac ymaflodd

yn holl ranau ei waith megis o'r blaen. Symudodd i breswylio i Bengelli Fawr—fferm fraf iawn yn mhlwyf Cenarth, ac mewn safle ganolog, hynod o gyfleus rhwng y tair eglwys. Tua'r amser hwn ymgymerodd ef yn rhanol, gyda'r Parch. W. M. Davies, Blaenycoed, a golygiaeth "Cyfaill y Werin"—papyr wythnosol a gyhoeddid yn Nghastellnewydd. Wedi i'r "Cyfaill" roddi fyny yr einioes, anturiodd i gyhoeddi a golygu papyr newydd ei hun. Cychwynodd y "Byd Cymreig:" bu yn dra phoblogaidd gyda dosbarth lluosog am rai blynyddau; ond yn 1867, trosglwyddodd ei hawl ynddo i gwmni y "Tyst Cymreig." Anturiaeth bwysig oedd hon, a chafodd brofiad chwerw, a cholled drom yn ffrwyth oddiwrthi. Nid ydym mewn un modd yn cymeradwyo y symudiad hwn o'i eiddo. Cam annoeth a roddodd wrth osod i fyny y wasg, a dwyn allan bapyr newydd. Yr oedd ganddo gyflawnder o waith cyn hyn; ac wrth ychwanegu argraphwasg at ei ofalon, yr oedd yn rhaid i ryw bethau gael eu hesgeuluso. Nid oedd ychwaith yn deall dim oll am argraphu na golygu newyddiadur. Gwyddai beth oedd pregethu, darlithio, a ffermio, ond ni wyddai ddim am argraphu; ac yr oedd hyny yn ei gwbl anaddasu at y gwaith. Canlyniad y cwbl oedd, collodd ganoedd o bunnau yn yr anturiaeth, ac yr oedd hyny fel cancr yn bwyta ei gysur ddydd a nos. Meddyliodd yn ddiddadl y buasai yr anturiaeth yn troi yn fantais iddo, ond siomwyd ef yn ddirfawr, ac yr oedd hyny yn un o'r gofidiau fu am rai blynyddau yn cloddio dan sylfaeni ei iechyd. Am yr hanner blwyddyn diweddaf y bu fyw, yr oedd yn hawdd canfod ar y wedd ddyeithr a wisgai ei wynebpryd, fod ei oes yn tynu at y terfyn. Ciliai ei gwsg agos yn hollol; pallodd ei archwaeth at ymborth, suddodd ei feddwl i brudd-der torcalonus, diflanodd ei serchawgrwydd fel niwl boreol, a chyrhaeddodd y *climax* yn Hydref, 1869, pan ymaflodd y *brain fever* ynddo gyda phoethder a ffyrnigrwydd digyffelyb. Cafodd wasanaeth

meddyg galluog, a thynerwch llu o gyfeillion, ond cryfhau yn ei gafael oedd y *fever* bob dydd. Am dair wythnos dyoddefodd boenau angerddol, ond hyd y ddeuddydd diweddaf, yr oedd ei feddwl o'r dechreu wedi colli pob ymwybyddiaeth. Pan liniarodd poethder y dwymyn, dychwelodd ei ymwybyddiaeth, ac yna teimlodd fod awr ei ymddattodiad yn agosäu. Treuliodd oriau diweddaf ei fywyd i ganu, mewn llais dwfn, toddedig, ei hoff bennill,—

"Ymado wnaf â'r babell
'R wy 'n trigo ynddi 'n awr;
Colofnau 'r tŷ ddattodir,
Fe'i cwympir oll i lawr;
A pob gwahanglwyf ymaith,
Glân fuddugoliaeth mwy;
'R wy 'n canu wrth gofio 'r bore
Na welir arnaf glwyf."

Dydd Mawrth, Tachwedd 9fed, 1869, am hanner awr wedi naw y bore, hunodd yn yr angeu yn 50 mlwydd a chwe mis oed. Dydd Sadwrn canlynol ymgasglodd torf anarferol o luosog i'r angladd. Cyn cychwyn o'r tŷ, yn nghanol wylofain tor-calonus y plant amddifaid a llu o gyfeillion, darllenodd a gweddiodd y Parch. W. E. Jones, Treforis. Wedi cyrhaedd Capel Evan, pregethodd y Parch. T. S. Jones, Drewen, ac O. Thomas, Brynmair. Gweinyddwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. Phillips, Horeb, a J. Williams, Trelech (Pantteg yn awr). Gosodwyd y corph i orwedd yn yr un bedd a'i briod oedd wedi ei ragflaenu er ys agos i saith mlynedd. Dychwelodd pawb adref mewn hiraeth trwm ar ol cyfaill ffyddlon, pregethwr doniol a gweinidog da i Iesu Grist.

Wele ni wedi dilyn camrau ein hanwyl frawd o'r Ffrwdwen i fonwent Capel Evan. Nid oedd ei fywyd yn berffaith, ac nid ydym am awgrymu nad oedd diffygion pwysig yn

perthyn iddo, ond y mae cariad yn ein dysgu ar amgylchiad fel hyn i guddio lluaws o bechodau. Yr ydym wedi ceisio nodi ffeithiau ei fywyd heb lywio dim yn ormodol, gan hyderu y bydd y darlleniad o honynt yn cyfleu adeiledaeth i'r meddwl a daioni i'r galon. Bellach mae y tafod ffraeth, yr arabedd parod, a'r dawn cyffrous, wedi distewi. Ni welir ei wyneb hawddgar, ac ni chlywir ei lais cryf ar esgynlawr y gymanfa mwyach. Cymysga ei esgyrn â phridd y gweryd, a bodola ei enaid ar un o lenyrch y byd ysbrydol. Teithiodd fryniau a dyffrynoedd, dinasoedd a phentrefi Cymru, am ddeng mlynedd ar hugain, gan bregethu yr Efengyl yn ei phurdeb a'i chyflawnder, ond y mae 'r arfau wedi eu diosg, y gwaith a roddwyd iddo i'w wneuthur wedi ei gwblhau, ac yntau ei hun wedi myned o ganol ei lafur caled, ar ganol dydd ei fywyd, i fwynhau gwobr y gwas ffyddlon. Traddododd lawer darlith a phregeth gyda ffrydlif o hyawdledd tanllyd, ond er nad yw yn alluadwy cael ei wasanaeth i lefaru megys cynt yn ein gwyliau blyneddol, eto mae efe yn ei fywyd, ei lafur, a'i ymroddiad, er wedi marw, yn llafaru etto.

O. S.—Dylasem fod wedi crybwyll i weinidogion ieuainc Sir Aberteifi, a chyfeillion eraill, ymuno a'u gilydd rai blyneddau yn ol i gyflwyno "Tysteb" iddo fel arwydd o'u parch iddor Cawsant gydymdeimlad lluaws o gyfeillion tu allan i'r cylch hwn, a galluogwyd hwy i gyflwyno swm anrhydeddus i wrthrych eu parch. Deallwn hefyd fod cyfeillion eraill yn Castellnewydd a'r cylchoedd yn prysur ddarparu er gosod beddfaen hardd yn goffadwriaeth am dano yn y fonwent lle gorwedda ei lwch. Dengys hyn oll fod y rhai a'i hadwaenent orau yn meddu parch trylwyr iddo, ac yn chwilio am gyfleusdra i roddi prawf ymarferol o hyny. Nid ar air ac ar dafod yn unig y perchir ef, ond mewn gweithred a gwirionedd.

# PEN. V.

## MR. WILLIAMS FEL PREGETHWR.

GAN Y PARCH. THOMAS DAVIES, PH.D., PEMBROKE DOCK.

PA ragoriaethau a chymwysderau bynag oedd yn perthyn i Mr. Williams mewn cylchoedd ereill, at y rhai y cyfeirir yn y Cofiant hwn, ei nodweddion fel pregethwr oeddynt ei ragoriaethau mwyaf rhagorol. Gofynwyd i mi draethu ar y rhai hyn, a dyma ben trymaf y Cofiant. Y mae adgofion o'i dalentau dysglaer, ei garedigrwydd cynnesol, a'i wasanaeth i achos y gwirionedd, yn gwresogi fy nghalon, oblegid nid oes ar neb byw fwy o rwymau cofio a chydnabod y cyfryw nac sydd arnaf fi, ac y mae yn ddywenydd genyf allu dwyn ychydig o feini i'r golofn hon, fel y byddo ar gôf a chadw goffadwriaetn un fu yn seren oleu yn ffurfafen yr eglwys yn ei ddydd. Y mae rhai o'r argraphiadau a dderbyniais dros ugain mlwydd oed, eto, er yn hen, y maent yn gryf a heinyf. Y cyfnod hwnw, arweiniwyd fi i Gastellnewydd Emlyn, er parotoi ar gyfer Athrofa Aberhonddu. Yr oedd Mr. Williams ar y pryd wedi ymsefydlu yn dawel a chysurus yn ei gylch gweinidogaethol newydd—Castellnewydd a Chapel Evan. Cyfnod hâfaidd ydoedd, ïe, cyfnod canol-ddydd ei oes, heb na chwmwl ar wyneb haul, na chorwynt yn ysgwyd amgylchiadau. Yr oedd ei feddwl yn oleu, ei gorph yn gryf, ei galon yn hael, ei bregethau yn rymus, ei weinidogaeth yn orlwyddianus, ei eglwysi yn flodeuog, ei boblogrwydd yn gyffredinol drwy Dde a Gogledd, a'i ddylanwad, mewn llawer cylch, yn dra phwysig. Y pryd hwnw y magwyd cyfeillgarwch rhyngom. Gwneir y cyfeiriadau canlynol ato fel y gwelais, y clywais, y teimlais, ac y deallais ef yn yr adeg werthfawr hono. Er mwyn bod yn drefnus, cynygiaf draethu am dano

fel *Meddyliwr*, fel *Traddodwr*, ac fel *Gweddiwr*. Peth anghyffredin, feallai, fydd y cyfeiriad olaf, ond nid annaturiol. Fe gollir argraphiadau o'i bregethau yn mhell cyn y dilëir dylanwad ei weddïau.

I. Yr oedd cymaint o gyflymder a sydynrwydd yn perthyn i'w holl symudiau cyhoeddus fel ag i rwystro pob ymgais reolaidd at ddeall troellau ei feddwl. Y gofyniad cyffredin oedd, "Pwy yw y dyn gwyllt yna?" Nid oedd ond ychydig lonyddwch yn ei natur. Pan yn cerdded, càmai yn frâs a chyflym; pan yn marchogaeth, carlamai yr anifail; pan yn pregethu, ymwthiai y brawddegau yn blith draphlith dros ei wefusau; ac hyd yn oed pan yn cysgu ymrwbiai dau o'i gilddanedd, i ddangos fod y gallu mudol yn effro pan yr ymorphwysai y corph. Er edrych i mewn i feddwl unrhyw ddyn, a deall ysgogiadau y meddwl hwnw, rhaid cael cyfleusderau i ddynesu ato, a mwynhau ei gyfeillach fwyaf gyfrinol. Nid hawdd ydyw darllen meddwl ar wyneb bywyd, Wedi bod, am ychydig amser, yn dyst o'r ffrydiau a ddylifent o'i groth, teimlais awydd dyfod yn agosach at y ffynon. Cynyrchodd y dyfroedd oerion, a melus i enaid sychedig, chwant cydnabyddiaeth â lle eu tarddiad. Pan yn dyheu am fwy o'i gymdeithas, wele lais un diwrnod, fel sŵn taran, yn gofyn wrth y drws, "B'le mae'r pregethwr newydd yma? d'wedwch wrtho am dd'od i'r Gelli yforu, erbyn canol dydd, i ga'l tipyn o gino; wneith cino dda ddim drwg iddo, doed a ddelo." Yr oedd myned i'r Gelli i giniaw un dydd yn golygu aros yno hyd brydnawn y dydd canlynol. Felly, dro ar ol tro, cysgais dan ei gronglwyd, eisteddais yn ei fyfyrgell, a threuliais lawer o amser yn ei gymdeithas. Hyn a'm cynorthwyodd i edrych ychydig i gelloedd ei feddwl, a ffurfio barn am dano fel meddyliwr, ac fel cyfansoddwr pregeth.

Arweinid ei feddwl at destunau, gan amlaf, pan yn darllen y Gair ar adegau y weddi deuluaidd. "Gwaith diflas,"

meddai, "yw chwilio am destun; mae'n well gen' i i destun gydio yno' i, nag i fi gydio ynddo fe." Os arosai foment uwch ben adnod, a'i hail ddarllen, gellid bod yn sicr fod yr adnod hono wedi bachu yn ei ysbryd. "Dyna destun eto," oedd yr amnaid. Yr oedd ei gof, nid yn unig yn gyflym fel mellten, ond yn afaelus fel angor; oblegid wedi darllen yr adnod ddwywaith, nid oedd angen ei darllen drachefn er ei chofio, nac ychwaith blygu cornel y ddalen i adgofio y llyfr a'r bennod. Cyn wired a bod yr adnod wedi tynu ei sylw, yr oedd y côf wedi cofleidio pob brawddeg a gair o honi. Weithiau arweinid ei feddwl at destunau gan "grefyddwyr yr un adnod," pan yn adrodd eu profiadau yn y gyfeillach grefyddol. Yr oedd clywed yr un person yn adrodd yr un adnod drosodd a throsodd yn flinder i'w feddwl. "Dyna Feibl byr sy' gan hwna," meddai, "dim ond un adnod. Fe bregetha i Feibl hwna i gyd bore Sabboth nesa'." Amcan hyn oedd tywys y person i chwilio mwy ar yr Ysgrythyrau, yn lle ymdroi yn barhaus o gwmpas un pegwn. Fe gariodd un o'r dosbarth uchod y dydd arno un tro. Dyn bychan o gorpholaeth, a thlawd ei amgylchiadau, ond lled barod i ddyweyd ei brofiad ydoedd. "Rhwyme mawr sy arno ni i gofio daioni'r Arglwydd, frodyr a chwiorydd. Mae geiriau'r Salmydd yn dwad i meddwl i yn y fan yma, "Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf." Dyna ddechreuad, os nid diwedd profiad y dyn bach, o dro i dro. Un boreu Sabboth adnod y dyn bach oedd y testun. Ar ddiwedd yr oedfa dacw'r dyn bach yn gwasgu drwy'r dyrfa, gan estyn ei fraich i ysgwyd llaw â'r pregethwr. "Diolch i chi, Mr. Williams, am bregethu ar yr adnod yna heddy', dyna'r adnod felusa' yn y Beibil. Pryd rhowch i bregeth i ni eto ar yr adnod yna?" Felly nid oedd y dyn bach wedi cael digon ar ei adnod wedi'r cyfan. "Wel," meddai yntau, "y mae y dyn bach wedi cario'r dydd. Gadewch iddo, pwy bynag

sydd wedi myn'd o'r cwrdd yn waglaw, y mae 'r dyn bach wedi ca'l digon am heddyw.'' Barnai fod pregethu ar adnodau y gyfeillach yn help i ddwyn y weinidogaeth i gydymdeimlad â'r eglwys, ac i gyflenwi meddwl y pregethwr ag amrywiaeth profiad crefyddol. Y mae amrywio testunau yn ddull effeithiol i gyfodi y meddwl o'r hen draul y mae yn arferol o redeg ynddo. Amcanai Mr. Williams at amrywiaeth, am y rheswm fod gweinidogaeth yr un profiad, sylfaenedig ar destunau o'r un natur, yn ddifudd, ac yn ddinewydd-deb i gorph y gynulleidfa. Weithiau cynnygid testunau iddo gan rai beirniadol eu hysbryd. "Rhaid boddloni y rhai yna hefyd" oedd ei nodiad cyffredin. Ar un adeg, yr oedd cryn ddadleu yn yr ardal rhwng yr Arminiaid a'r Calfiniaid ar bwngc etholedigaeth gras. Gofynid yn aml, "Pa un ai Armin ynte Calfin yw Mr. Williams, Ebenezer?" Nid oedd neb fedrai ateb yn gadarnhaol. "Ma'r bobol yma am i chi bregethu ar etholedigaeth, Mr. Williams," ebai rhywun wrtho, "Purion, fe gewch bregeth gen i pythefnos i heddy'; dewch yma i gyd i chlywed hi." Boreu 'r Sabboth ddaeth, y gynulleidfa yn fawr, a'r ddwyblaid yn gwrandaw yn astud. Dyma frawddeg gyntaf y bregeth, "Etholedigaeth ddwyfol, dragwyddol, a diammodol, wedi parotoi ar gyfer pawb, yn gwrthod neb, yn gwahodd y neb a fyno, yn cynwys ac yn cadw y rhai a gredant yn ewyllysgar yn Mab Duw, yw etholedigaeth y llyfr hwn." Ar ddiwedd y cyfarfod, dechreuodd y bobl daeru â'u gilydd; "Armin yw e," meddai un; "Nag e, Calfin yw e," meddai arall; ond digon anmhenderfynol oedd y ddadl. Mentrodd un, fodd bynag, i ofyn iddo, pa un ai Calfiniad ynte Arminiad ydoedd. Dyma'r ateb, "Rwy 'n Galfin tuag at Dduw, ac yn Armin tuag at bechadur, 'Cleddyf yr Arglwydd a Gideon.'" Y testunau oedd yn gorphwys hapusaf ar ei feddwl oedd y rhai a ymafaelent ynddo pan yn darllen y Beibl gyda 'i deulu.

Codwr boreu ydoedd; yr oedd holl waith myfyriol y dydd drosodd cyn naw o'r gloch. Cyfodai am bedwar yn yr hâf. Troi allan i edrych am yr anifeiliaid oedd y ddyledswydd gyntaf. Os, "pobpeth o'r gore," yna i'r fyfrgell cyn pump, er rhagflaenu gofalon y dydd. Wedi troi at yr adnod, a darllen y cyd-destunau, ymaflai yn yr ysgrifbin, a rhoddai i lawr, ar ddarn diwerth o bapyr, bob sylw a ymruthiai i'w feddwl yn blith drafflith. "Rhaid i ddyn greu pregeth fel y creodd Duw 'r byd—defnyddiau yn gyntaf, yna *order*," oedd ei sylwad. Yn y cyffredin troai at "hen esboniad efengylaidd Matthew Henry, ond os byddai rhyw amheuaeth am ystyr gair neu frawddeg, gelwid cynnadledd o'r holl esbonwyr, a holid hwy yn fanwl am y peth hwnw. Yna cyhoeddai ei farn ei hun, "hwn a hwn sydd yn iawn, y fi sydd i farnu." Wedi cael goleu clir ar y mater, troai at y darn papyr y cyfeiriais ato, ar yr hwn oedd wedi ysgrifenu fel y canlyn, "'Rhodiwch yn weddus megis wrth liw dydd,' &c. Llwybr yw crefydd, teithwyr yw proffeswyr, trefnus a rheolaidd yw y daith, a phob manteision i'w chyflawni—wrth liw dydd. Ol traed Iesu yw y llwybr, cadw at ei esiampl ef yw y gamp, a dal ati hyd fachludiad haul. Rhaid i grefyddwyr beidio siarad gormod â'r byd; y mae Demas wedi troi i ochr y ffordd i ganol y drysni. Rhaid bod dillad glân am danom ac esgidiau am ein traed a ffŷn yn ein dwylaw i rodio yn weddus. Rhaid camu yn gyson, rhaid cyraedd pen y daith cyn yr â yr haul o'r golwg," &c. Wedi edrych dros yr uchod, trefnai ei feddyliau yn y modd mwyaf destlus a tharawiadol, ac yn ffurf pregeth ysgrifenai hwynt ar ddarn arall o bapyr, gan adael lle gwag rhwng y rhaniadau i dderbyn adnodau, cymmariaethau ac hanesion, neu yn hytrach gyfeiriadau atynt. Wedi gosod i lawr yr holl fynegbyst, a gorphen y *sketch*, troai at destun arall. Yr oedd cyflymder ei feddwl y fath fel i wneyd dwy ran o bregeth mewn awr a hanner neu ddwy awr,

a chwedi gorphen y ddwy, *good-bye* i'r fyfrgell am y dydd hwnw. "I'r adladd a hwy," meddai, "am ddiwrnod, beth bynag."

Pan yn Llangadog, arferai ysgrifenu ei bregethau yn dra chyflawn, ond wedi symud i Gastellnewydd cyfnewidiodd ei ddull, am fod ei feddwl yn rhedeg yn gyflymach nag erioed, ond ei law yn ysgrifenu yn arafach. Barnai y dylai pob gweinidog ieuainc ysgrifenu yn gyflawn, am rai blynyddoedd, er ffurfio arddull brawddegu yn glir a chryno. Nid esgyrn, er hyny, oedd ei bregthau y tymor hwnw, oblegid ysgrifenai tuag wyth neu ddeg o dudalenau. Dibynai hyn ar yr hwyl a gai ar ysgrifenu. Weithiau yr oedd ysgrifenu mor naturiol iddo ag anadlu, ond brydiau eraill yn boenus dros ben. Yr oedd ysgrifenu, ar y cyfan, yn gofyn gormod o arafwch a manylwch i ateb y dull brysiog o feddwl a fabwysiadodd. Ond i'w ddilyn fel cyfansoddwr, ac felly ymdrechu ei ddeall fel meddyliwr; dacw fe yn ymafael yn y ffurf pregeth, *sketch*, ac yn dechreu ei ragymadrodd. Yn flaenaf oll, amcanai gael gafael ar ddwsin o frawddegau tlysion, tarawiadol, a sydyn. Gwrthwynebai yn ddirfawr yr hen ddull o ragymadroddi yn hir, dystaw, a dibwynt, oblegid am bob un a lwyddai i gyfodi cynulleidfa i hwyl gwrando, ar ol cysgadrwydd o ddeng mynud, methai ugain. Ei gyngor oedd, "Peidiwch byth a chware â chynulleidfa. Gadewch i bawb deimlo, yn swn y gair cyntaf, fod gwirioneddau gwerth eu gwrando i ddilyn." Yr wyf yn cofio rhai o frawddegau agoriadol ei bregeth ar "Yr Arglwydd a gyfododd yn wir, ac a ymddangosodd i Simon:" rhedent yn debyg i hyn, "Cyn wired a bod llygaid Simon wedi gweled, a'i galon wedi teimlo, fe gân cloch yr adgyfodiad hyd ddiwedd oesau 'r ddaear. Tawed Saduceaid anghrediniol Jerusalem, a chrach feirniaid Judea, '*yn wir*' y mae Iesu o Nazareth wedi cyfodi o'i fedd. Y mae'r maen wedi ei dreiglo, y llieiniau wedi eu gosod o'r naill du, y bedd yn

wâg, â'r Iesu yn nghanol ei ddysgyblion. Yn nghanol y tywyllwch y mae yr haul wedi codi, a'i oleu yn tywynu ar y dysgyblion bach fu yn crynu am dridiau yn awr y brofedigaeth. Dyna hwy bellach yn myned drwy heolydd Jerusalem, ac ar hyd y ffordd drwy ganol Samaria, i fyny i Galilea, gan dd'weyd wrth bob dyn a gyfarfyddent, '*yn wir*,' y mae 'r Arglwydd wedi cyfodi, ac wedi ymddangos i Simon. Dyma newydd cysurus i galon ddrylliog, gwirionedd melus i ddal pen i'r lan yn awr y brofedigaeth: Iesu yn fyw. Fe ga 'r byd glywed yr hanes; y mae tafod Simon fel pin yr ysgrifenydd buan, all e ddim tewi. 'Nis gallwn ni na ddywedom am y pethau a welsom ac a glywsom.' Calon y weinidogaeth yw adgyfodiad Iesu," &c. Nid oedd y rhagymadrodd un amser yn faith, nac ychwaith yn esboniadol, ond bob amser yn gysylltiadol. Ei amcan oedd deffroi, a thynu sylw y gwrandawyr. Dywedai ef ar ddechreu y bregeth yr hyn a ddywedai llawer ar ei diwedd; a mwy na hyn, ymdrechai yn ei ragymadrodd greu dyddordeb a rwymai feddwl a chalon y bobl wrth y testun.

Rhanai y testun yn ol y meddyliau a gynwysai, ac nid yn ol y geiriau. Nid, "y person a nodir, y gwaith a enwir, yr oruchafiaeth a enillir, a'r wobrwy a addewir," oedd safonau y bregeth ond gwirioneddau yn cyfodi yn naturiol oddiar yr adnod neu yr adnodau dan sylw mewn cysylltiad â'r cyd-destunau. Os byddai ganddo dri o brif raniadau, y drefn oedd rhoddi y cryfaf yn gyntaf, y gwanaf yn ail, a'r mwyaf teimladol yn olaf. Wedi dyrchafu dysgwyliad y gynulleidfa yn y rhagymadrodd, y mater nesaf oedd llenwi y dymuniad â'r sylw mwyaf nerthol yn y bregeth. Cynwysai y sylw hwnw ei brif nodiadau ar y mater dan sylw. Hon oedd adeg yr esbonio a'r egluro, adeg y gosodiadau a'r ffeithiau, adeg difynu gweithiau awduron, a chyfeirio at syniadau athronyddol ac anianyddol, ac adeg datguddio trysor y testun. Yn y sylw

blaenaf y cynwysid mêr meddwl y pregthwr. Nerth meddyliol oedd prif linell yr ymadrodd. Pan yn neshau at yr ail sylw, os clywid, "dim ond gair bach ar y pen yma," gellid bod yn sicr mai hwn oedd sylw gwanaf y bregeth. "Rho'wch geffyl cryf yn *leader*," meddai, "a cheffyl cyfarwydd yn y *shaft*, fe wna 'r ebol tair y tro yn y canol." Gwasanaethai y sylw gwan ddyben arall, llaesu sylw a theimlad y gwrandawyr—hamdden i gymeryd anadl. Cynwysai y sylw cyntaf ei nodiadau mwyaf rhyfeddol; yr ail sylw, ei nodiadau mwyaf cyffredin. "Rhaid i'r hen wragedd a'r plant gael tamaid." Yr ail sylw, yn aml, oedd y tamaid hwnw. Dechreuai y trydydd sylw yn debyg i'r cyntaf, ond wedi ychydig o frawddegau cryfion, symudai at y teimladol. Yn fuan clywid am werth y materion mewn profedigaeth, ac ar wely marw; digonoldeb y gwirioneddau yn nghlorian y farn, a'u melusder y tu draw yn gystal a'r tu hwn i'r afon. Hynodrwydd y sylw oedd ei argymwysiad i ddeffroi rhyw un teimlad. Nid amcanai gymysgu teimladau. Os llawenydd fyddai y teimlad i'w ddeffroi, cynwysai y sylw ddigon o fater i wneyd y meddwl yn orlawen; os difrifwch, difrif anghyffredin fyddai y sylw. Credai fod yn hawddach taflu cynulleidfa i eithafion un teimlad, nac o un eithafion i'r llall. Amcanai weithiau at y dull olaf, ond anaml y llwyddai. Pan yr oedd yr holl sylw wedi ei gymwyso at un teimlad, y pryd hwnw y byddai y dylanwad yn fwyaf anorchfygol. Y gwir oedd fod yr archollion a roddai i deimlad yn rhy ddyfnion i'w gwella mewn eiliad. Wedi pum mynud o ddifrifwch ni theimlai neb awydd gwenu, a thrais oedd treio; neu wedi teimlo awelon llawenydd, nid oedd neb am ddisgyn i dywydd gwlyb edifeirwch ac wylo. Gogoniant y trydydd, neu y sylw olaf, oedd ymchwyddo i derfynau eithaf un o'r teimladau dynol, gan adael pob un yn y mwynhad o'r eithafion hyny. Dichon fod rhai wedi ffurfio barn wahanol am dano fel cyfansoddwr, a'i

fod yn ddigynllyn, a damweiniol, ond camsyniad dirfawr yw hyn, oblegid, er ei fywiogrwydd, yr oedd pob peth yn cael ei feddwl a'i adrodd yn ol cynllun. Yr oedd hyd yn oed pregethau y cyfarfodydd parotoad ar gynllun cryno, er nad oedd y meddyliau ond ysgafn a didrafferth; a meddyliais lawer tro mai gresyn oedd gwastraffu cynllun mor dda i ychydig ddyben. Llwyddais ganddo rai troion i weithio allan ambell gynllun; y rhai hyny oeddynt ei bregethau goreu.

Wedi rhoddi y braslun blaenorol o waith y fyfrgell, nodaf yn mhellach y priodoleddau mwyaf amlwg a berthynent i'w feddwl.

1. *Meddwl craff a chyflym ydoedd.* Yr oedd llygad ei feddwl fel llygad barcut, yn gweled o bell, ac yn gweled pob peth gwasanaethgar. Edrychai i'r nefoedd, ac ar y ddaear, am ddefnyddiau yr adaeladaeth. Rhedai fel llew trwy'r goedwig i chwilio am ysglyfaeth. Sylwedydd ydoedd yn nghanol cloddfa, yn dewis y meini mwyaf llithrig a phwrpasol. Meini anghyffredin a chryfion osodai yn nghonglau yr adeilad, a nodiadau mwy cyffredin yn nghanol y mur. Yr oedd yn fwy o fyfyriwr nag o ddarllenwr; yr oedd ei bregethau, gan amlaf, yn gynyrchion y sylw a gymerai o bethau ac amgylchiadau. Gwelai y prydferth o bell, a rhedai yn naturiol at yr ardderchog a'r rhyfeddol. Llyfr Natur a llyfr Gras oeddynt y prif feusydd, ac yn nesaf at y rhai hyn amgylchiadau bywyd. Yr oedd yr oll a ddarllenai yn gynorthwy iddo i feddwl am fod meddyliau eraill yn yspardynu ei feddwl ei hun, ac nid am ei fod yn efelychu eraill. Nid oedd yn efelychwr o gwbl. Y pregethwr a adawodd fwyaf o argraph ar ei feddwl o neb oedd y diweddar Mr. Williams, o Landilo; ond nis gwn fod dim cyffelybiaeth rhyngddynt. Edmygai y dyn hwnw â'i holl enaid, ond yr oedd arddull y ddau yn dra gwahanol. Yr oedd ei ddull o feddwl yn wreiddiol, er fod y meddyliau yn perthyn i bob dosbarth yn gyffredin. Cyflym

iawn oedd ysgogiadau ei feddwl. Os na welai ei ffordd yn glir i wneud pregeth ar destun, nid oedd dim amser i'w golli, taflai y testun hwnw o'r neilldu, a dywedai, "Ddaw hwna ddim yn awr; gadewch iddo, fe ddaw ei dro yntau rywbryd." Yr oedd cryn lawer o farddoniaeth yn ei natur, a dywedir i mi na ddaw barddoniaeth wrth ei chymell, a'i dwrdio; boneddiges ydyw yn hoffi ei hamser a'i ffordd ei hun. Yr oedd ei feddwl yntau yn annibynol ar gymellion mewnol, ond yn agored i ddylanwadau 'allanol. Wrth graffu deuai amrywiaeth i'r bregeth, ac wrth gyflymu deuai llawer mewn ychydig amser, er cyflenwi y ffynnon, ffrydiau yr hon a redent yn fuan buan dros ei wefusau. Ceir yma ateb i'r gofyniad ofynwyd ganwaith gan y rhai a'i gwrandawent, "B'le mae'r dyn yn cael cymaint o bethau i ddyweyd yn mhob pregeth?" Ysgogai ei feddwl yn gyflym i gyfarfod gofynion ysgogiadau cyflym ei dafod. Yr oedd ystorfa lawn y tu cefn i'r ffrydiau cyhoeddus. Dyn ydoedd yn meddwl llawer ar unwaith.

2. *Meddwl clir a thlws ydoedd.* Amcanai ddwyn pob sylw i gydgordiad â synwyr cyffredin, fel y gallai pawb ei ddeall. Gwisgai y sylw âg amrywiaeth lliw a llun, fel y byddai i bawb ei hoffi. Edrychai ar yr efengyl fel apeliad at natur dyn, a chredai fod pob arddangosiad o honi i fod yn eglur a thlws er cael croesaw gan y meddwl. Ni byddai un amser yn arwain ei bobl at ddirgelion anesboniadwy crefydd. "Os arweiniwch chi bobol i ddryswch," meddai, "thynwch chi ddim o honyn' nhw allan yn dragywydd." Yr oedd ei farn ei hun yn ddigon clir ar etholedigaeth, ac iawn, a chyfiawnhad, a'r milflwyddiant, &c., ond rhag ofn na byddai y farn hono yn glir i feddyliau eraill, cadwai at ochr ymarferol yr athrawiaethau, ïe, at etholedigaeth i gadw, at iawn i brynu, at gyfiawnhad yn symud euogrwydd, ac at lwyddiant cyffredinol yr efengyl. Yr oedd ei esboniad yn loew fel y grisial, a'i nodiadau yn dlws fel y lili; rhaid oedd deall yr hyn a eglurai,

a derbyn yr hyn a ddywedai. Dyma y fan y methodd beirniadaeth. Pan yn dychwelyd o gyfarfod cyhoeddus, clywid beirniadu pregethau pawb ond pregeth Williams Castellnewydd. Y mae yn anmhosibl synu a beirniadu ar yr un pryd. Tarawai y bobl â syndod, a chiliai beirniadaeth i'r cysgod." "Un rhyfedd yw bachgen Castellnewydd yna," a glywid rhwng pob dau. Nid oedd neb yn ei gamddeall; nid oedd neb yn croes ddeall, neu yn deall yn wahanol i'w gilydd. Ymdywynai goleuni ar bob meddwl; llewyrchiadau meddwl goleu oedd syniadau y bregeth, yn cael ei hadlewyrchu gan iaith oleu, nes peri dysglaerdeb yn ystafelloedd y galon. Yr oedd ef o'r farn nad oedd pregethwr yn deall ei feddwl ei hun, os methai eraill a'i ddeall, oddieithr fod ei fater yn fwy dyrus na 'r cyffredin. Y "pethau amlwg a roddwyd i ni" oedd asgwrn cefn ei weinidogaeth. Nid suddo cynulleidfa i'r dyfnder a wnai, ond cyfodi o'r dyfnder berlau er cyfoethogi 'r gynulleidfa. Nid oedd yn ei weinidogaeth duedd i greu awydd yn y bobl i feddwl, oblegid ei bod yn llawn meddyliau parod a chryno. *Mwynhau* yr oedd y bobl o Sabboth i Sabboth; a chan fod y wledd bob amser yn gyflawn a danteithiol, nid oedd neb yn orbrysur i chwilio am ddefnyddiau gwybodaeth ysgrythyrol, o'r hyn leiaf, anaml y parai y pregethau ddadlu ac ymchwilio yn mhlith y gwrandawyr. Yr oedd ei feddwl yn gryno fel gardd, a'i gynyrchion meddyliol yn gyflawn a difwlch. Nid oedd neb a gynygiai welliant ar un sylw o'i eiddo, oblegid os rhosyn bychan fyddai, yr oedd yn rhosyn llawn a phrydferth wedi y cwbl. Yr oedd "prydferthwch yr Arglwydd ein Duw" yn gorphwys ac yn addurno ei feddwl.

3. *Meddwl cynes ac ymarferol oedd.* Yr oedd bod yn ei gymdeithas, neu wrando arno yn pregethu, yn debyg i ddyn yn nesau at dân nerthol yn nghanol y gauaf. Nid yn unig yr oedd bywiowgrwydd yn ei nodiadau, ond gwres hefyd; ac

nid yn unig yr oedd ei bethau yn ddetholiad o'r dosbarth mwyaf gwresog, ond yr oedd cynesrwydd meddwl fel bywyd yn rhedeg drwyddynt. Yr oedd ei galon—ei enaid—yn wresog o'i fewn. Nid oedd yn feddyliwr *tanllyd* yn yr ystyr gyffredin o'r gair; ond yr oedd naws gwresog yn rhedeg drwy ei bregethau. Yr oedd hon yn elfen gref yn ei boblogrwydd. Cyffroai yr elfen hon deimlad o hyfrydwch cartrefol yn meddyliau ei wrandawyr. Deallai y natur ddynol yn drwyadl, a sylwai ar amgylchiadau ei bobl yn graff. Un tro, pan yn pregethu mewn angladd bachgenyn, teimlwyd mewn modd neillduol ei allu i ymgorphori amgylchiadau a theimladau eraill yn ei feddwl ei hun. Gwraig weddw oedd y fam, a hwn oedd ei hunig fachgen. Ei destun oedd, "Unig fab ei fam, a hi oedd weddw." Yn gyntaf, cariodd y gynulleidfa luosog yn ol i Nain. Gwelai y bobl angladd mab y wraig weddw; clywent y galarwyr o bob tu i'r heol: edrychent ar Iesu yn cyfarfod yr elor, y wraig weddw yn cyfodi ei phen i edrych beth oedd yn bod, y bachgen yn fyw, y bobl yn llawenhau, y wraig weddw mewn breuddwyd yn methu credu fod ei bachgen wedi marw, ac yn awr yn methu credu ei fod yn fyw. Yr oedd y desgrifiad mor naturiol fel yr anghofiodd y bobl ei bod wedi cyfarfod â'r amgylchiad arall. Wedi gorphen hyn, trôdd feddwl y dorf at yr hyn oeddynt wedi anghofio. "Cyfaill goreu pob gwraig weddw yw Iesu o Nazareth. Y mae pob peth oedd yn Nain yma heddyw ond y wyrth, a 'd oes arno ni ddim eisieu hono. Y mae marw unwaith yn ddigon poenus. Gorfod i fab y wraig weddw o Nain farw ddwywaith, a dichon fod marw yr ail waith yn fwy poenus na marw 'r tro cyntaf. Y mae yn well i ni fod heb y wyrth; cael Iesu yw y pwngc," &c. Pan yn Chicago, adroddodd Mr. Bartlet, gweinidog y *Plymouth Church*, wrthyf am ddau weinidog yn pregethu mewn agoriad capel y Sabboth canlynol i'r tân mawr difaol ddinystriodd yn agos hanner y

ddinas. Yr oedd y boneddwr apwyntiedig i bregethu yn yr hwyr yn ofni fod cyfeiriadau at y tân wedi eu gwneyd yn y boreu, ac y buasai cyfeiriadau yr hwyr yn ddiflas a diwerth; ond er ei syndod clywodd mai mater pregeth y boreu oedd, Arddull Adeiladaeth Eglwysig, (*The Style of Ecclesiastical Architecture,*) ac nad oedd na thân na chyfeiriad at dân yn mhregeth y boreu. Pregeth yr hwyr, gan hyny, oedd y bregeth dderbyniol. Yr oedd llawer o gryfder gweinidogaeth Mr. Williams yn gynwysedig yn y cymwysiadau ymarferol a wnai o amgylchiadau ei wrandawyr. Nid meddwl y tu allan i'w bobl a wnai, ond yn eu canol; nid meddwl am danynt, ond cyd-feddwl â hwynt. Am hyn gwerthfawrogid ef fel cyfaill a brawd. Yr oedd gwres ymarferol ei ddull o feddwl yn llinyn cydymdeimlad rhyngddo â'r eglwysi; felly anwylid ef gan bawb.

Ni wnaf ond crybwyll pethau eraill. Meddwl diflino, di-ildio, llawn, a chyffredinol oedd, yn moldio pob peth i'w ddelw ei hun. Meddwl oedd yn derbyn ac yn croesawi gwirionedd o bob math ac o bob cyfeiriad. Yr oedd elfenau pregethu yn ei natur, a thueddiadau poblogaidd yn ei naws. Mewn gair, meddwl yn meddwl ydoedd.

### FEL TRADDODWR.

Yr oedd y llais yn gryf, cras, a threiddiol. Nid oedd na bloeddiwr na chanwr. Pan y cyfodai ei lais yr oedd y sain yn aflafar, ond yn gwasanaethu un dyben da, sef tori ar unrhywiaeth y swn oedd yn debyg o fyddaru y glust. Cadwai yn agos at gywair y llais drwy y bregeth. Ychydig o nodau y raddfa a ddefnyddiai; yr ail a'r trydydd uwch law, a'r chweched a'r pumed is law'r cywair oedd y nodau mwyaf arferol. Disgynai i'r chwechfed pan yn ymdrin â'r teimladol, ac i'r pumed pan yn cyffwrdd â'r rhyfeddol. Ond gan mai desgrifio y byddai fynychaf, nid oedd angen amrywio y llais, oddi eithr

taro y pedwerydd uwch law er tynu y merwindod oedd yn debyg o gael ei greu gan swn y pistyll. Yr oedd y llais yn anystwyth, ac o ganlyniad nid amcanai wneyd troellau peroriaethol. "Dylai pob pregethwr gyfansoddi ei bregethau fel y gallo fe ei hunan eu d'weyd hwy," oedd ei reol. Egluro y byddai ac nid profi; dyweyd rheswm ac nid ymresymu, am nad oedd *inflections* yn y llais. Torai ei eiriau yn grwn, dywedai ei frawddegau yn gyflym a chryno. Ni chymerai ei anadl ar ganol brawddeg. Ni ddechreuai frawddeg heb wybod ei diwedd. Yr oedd anesmwythder yn y rhagymadrodd, fel y *rapids* uwch law gwefus craig y Niagara. Dilynai y rhaiadr, nes y gorchfygid y gwrandawyr gan orlawnder. Ymarllwysai y cenllif i'r crochan berwedig oddi tanodd, a thua diwedd y bregeth llonyddai y dyfroedd i raddau o esmwythder a phleser. Dacw dyrfa o bobl yn tynu at gapel Ebenezer ar foreu Sabboth cymundeb. Cyn i'r amser ddyfod i fyny, y mae yr adeilad yn boenus o lawn. Tuag amser dechreu, wele gynwrf yn y drws, y penfelyn yn ymwthio drwy 'r bobl, ac yn ymwasgu i'r pulpud heibio i'r hanner byddariaid oedd yn sefyll ar y grisiau. Y peth cyntaf oedd taflu y cydyn gwallt o ochr y pen dros y coryn moel. Yna rhoi gair allan i ganu, "Marchog Iesu yn llwyddianus," &c. Cyn gynted a bod y nodyn cyntaf wedi ei seinio, tarewid nodyn yn yr isalaw (*bass*) ar ei gyfer fel tarawiad taran. Wedi darllen, gweddïo, a chanu eilwaith, at y testun—

"MERCHED JERUSALEM YN WYLO.

Iesu o Nazareth oedd y dyn gwaethaf a fu ar y ddaear erioed. Yr oedd yn gablwr, yn derfysgwr, ac yn deyrnfradwr—pechodau mwyaf rhyfygus y wlad. Yr oedd yn haeddu marw yn ol barn y dynion doethaf yn Jerusalem. Cydunai y doethion, y crefyddolion, a'r lluaws, fod hwn, beth bynag, yn haeddu marwolaeth waradwyddus y groes, am dori deddfau ei wlad.

Yr oedd Iesu o Nazareth y dyn goreu a fu yn y byd erioed. Y mae calonau miloedd yn teimlo yn gynes tuag ato. Parchwyd ef, a chydymdeimlwyd ag ef yn ei wasgfeuon trymaf, a chladdwyd ef yn ogoneddus. Tyrfa sydd yn y testun yn cydymdeimlo, a'r rhan luosocaf o'r dyrfa hono yn ferched. Ni sylwn yn

I. PAHAM YR OEDD Y MERCHED YN WYLO?

1. *Hiraeth ar ei ol fel cyfaill.*

Yr oedd pawb naill ai yn gyfeillion neu yn elynion iddo. Ar ddiwedd y bregeth, gwrandewch ar y dyrfa fawr yn adrodd eu barn, "Y mae cythraul ganddo," meddai un. "Nid yw y rhai hyn eiriau un â chythraul ganddo," meddai un arall. Y trydydd yn bigog fel draenen yn dywe'yd, "Y mae hwn yn cablu;" a'r pedwerydd, â'r dagrau ar ei rudd-iau, yn hanner gorfoleddu, "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Y mae merched Jerusalem yn wylo am fod eu cyfaill anwylaf yn cael ei arwain i Golgotha. Ffrynd pechadur yn marw, pwy na wylai!

2. *Wrth adgofio ei gymwynasau.*

Efe oedd y meddyg mwyaf medrus yn y wlad, y boneddwr mwyaf haelionus yn y cylchoedd, a'r prophwyd mwyaf dysgedig a feddai Israel. "Dyweded yr henuriaid a fynont yn ei erbyn, chreda i ddim gair o'r achwynion," meddai gwraig Jairus, "fe wnaeth gymwynas fawr â ni." Do, do, oedd cyd-sain y merched. Dyma golled anadferadwy i ddeillion, cloffion, byddariaid, a thlodion gwlad Canaan—y mae y meddyg mawr, a'r pregethwr digyffelyb yn myned i'r groes. Wyled pawb.

3. *Gwel'd ei fod yn cael cam mawr.*

Holwyd yr un tyst o'i blaid. Cenfigen orchfygodd. Y diniwed wedi ei gondemnio. Y dieuog wedi ei gollfarnu. Dim chware teg o'r dechreu i'r diwedd. Cyhoeddwyd y ddedfryd cyn holi y tystion.

4. *Oblegid eu bod wedi eu siomi yn eu dysgwyliadau goreu.*

Y mae ffynon dyddanwch yr Israel wedi sychu. O ba le bellach y daw gwaredigaeth? Y mae yr Arglwydd wedi digio am byth wrth ei bobl.

II. Paham y gomeddai Crist iddynt wylo?

1. *Am ei fod wedi rhagweled y storm er tragywyddoldeb.*

Nid damwain ddall oedd marw Calfaria, ond ffrwyth hen gytundeb boreu amser. Yr oedd wedi ei ysgrifenu yn rhol y llyfr. Daeth i wneuthur ewyllys ei Dad.

2. *Peidiwch wylo, o'm bodd yr wyf yn myned.*

Fe sathrwyd fy nghymeriad gan y cyn-dduliwiaid; methais ddal. Diystyrwyd fi gan drigolion Sodom a Gomorrah; nis gallaswn ddal. Heddyw fi fedraf ddal pwys euogrwydd pechodau 'r byd. Marw yn lle pechadur yw dymuniad penaf fy enaid.

3. *Peidiwch wylo, y mae genyf ddigon o nerth i fyned trwy'r storm.*

Nid marw yn eiddil a wnaf. Y mae cryfder yn fy mraich, y mae gwroldeb yn fy nghalon. Cewch glywed y gair *Gorphenwyd* yn fuan.

4. *Peidiwch wylo, ni wna eich dagrau ddim lles mwyach.*

Pe buasai dagrau mam yn gwneyd y tro, buasai bywyd llawer bachgen afradlon wedi ei achub. Dim iawn. Pan yn y *trial,* nid oedd na brawd na chyfaill yno i ddywe'yd gair o'm hochr. Pe buasai y dagrau hyn wedi eu colli yn y llys, dichon y meddalasid calonau rhai, ond yn awr y mae yn rhy ddiweddar. Wele luaws yn cydymdeimlo i ddim pwrpas. Ni bydd marw 'r groes ddim yn llai poenus oherwydd dagrau rhy ddiweddar.

5. Peidiwch wylo, drwy farw mi sychaf eich dagrau oll. Try achos galar y dydd hwn yn llawenydd a gorfoledd i filoedd. A napcyn marw 'r groes y sychir dagrau yr edifeiriol.

III. Y LLWYBR GANIATAODD I'W DAGRAU.

1. *Eich pechodau chwi gyfododd y storm.*

Y mae pechod wedi lladd, a llosgi, a dinystrio ei filoedd, ond dyma'r peth mwyaf a wnaeth pechod erioed—lladd Gwaredwr y byd.

2. *Daw adfyd mwy na hwn i'ch cyfarfod chwi yn fuan.*

Bydd rhyw rai o ferched Jerusalem, y pryd hwnw, yn bwyta cnawd eu babanod.

CASGLIADAU.

1. Peth da yw gweled marw Crist yn peri teimlad.

2. Peth gwell yw gweled marw Crist yn creu teimlad o edifeirwch am bechodau."

Dyna fraslun anmherffaith o'r bregeth. Llefarwyd hi mewn gwres meddwl a chalon. Collwyd mwy o ddagrau yn yr oedfa, nag a gollodd merched Jerusalem, a theimlwyd nerth gwirionedd y Gwaredwr yn fwy trwyadl nag y teimlodd merched Jerusalem y cyfryw. Yr oedd y desgrifiad a roddodd o ddinystr Jerusalem mor nerthol, fel y teimlwyd fod cyflawniad y brophwydoliaeth yn galw ar bob pechadur edifarhau am ei bechodau cyn y deuai ei ddinystr.

Yr oedd ei feddwl a'i galon yn agos at y gwirioneddau a draddodai. Nid ymyrai â phethau o bell. Yr oedd y cwbl yn bresenol, mewn meddwl a theimlad. Nid goruchwyliwr oedd yn ymgais at gyfryngdod rhwng meistr a gwas, ond ymgorphorwr o awdurdod y naill a theimlad y llall. Cydgyfarfyddai y Gwaredwr a'r pechadur yn ei weinidogaeth wyneb yn wyneb, calon wrth galon. Hoffder oedd pregethu, ac nid baich; pleser, ac nid dyledswydd. Nid y llythr-gôd oedd yn cludo y newydd, ond y llythyr ei hun. Yr oedd y genadwri yn ysgrifenedig ar ei feddwl ef. Ymwybyddiaeth y gwrandawr oedd fod y traddodiad yn ddarlleniad cywir o'r genadwri hono. Dolen oedd y traddodiad rhwng meddwl a meddwl, teimlad a theimlad.

Nid oedd dim neillduol yn ymagweddiad y corph. Yr oedd y mudiadau, ar y cyfan, yn afrosgo, eto yn naturiol iddo ef. Yr oedd y llygad yn fywyd i gyd. Ysgydwai ei ddeheulaw a chauai ei ddwrn; ymsymudai o'r naill ochr i'r llall, gan bwyso ar y troed dehau yn awr, yna ar yr aswy. Y gwir yw fod cyflymder y traddodi yn rhwystr i bob symudiad areithyddol teg. Symudai y tafod, y llygad, y troed, a'r llaw yn ol y dull hwnw oedd yn briodol iddo ef yn unig. Credai mai nid da bod yn rhy goethedig mewn dull, tra yr oedd y meddwl yn amddifad o'r coethder hwnw ddylai fod yn safon pob coethder arall—diwylliaeth. Yn y cyfnod y cyfeiriaf ato, yr oedd ei edrychiad personol yn dra boneddigaidd, ei wisg yn drwsiadus dros ben, a'i ymddygiad yn foneddigaidd a phleserlawn.

### FEL GWEDDIWR.

Yr oedd yn rhaid eistedd dan ei weinidogaeth artrefol er cael mantais i wrando arno yn gweddïo. Anaml y clywir ein dynion poblogaidd yn gweddio yn ein cyfarfodydd cyhoeddus, oddieithr y weddi fèr ar ddiwedd yr oedfa. Yr wyf yn ystyried fod gweddïau Mr. Williams yn llawer ardderchocach na 'i bregethau; a barnwyf mai asgwrn cefn ei weinidogaeth oedd ei ddawn gweddïo. Ymaflai, yn y cyffredin, mewn priodoledd ddwyfol i ddechreu, a daliai hono o flaen y meddwl mewn pob goleu, nes y gwelid ei holl ogoniant. Yn fuan teimlid ysbryd addoli yn gordoi y meddwl. Yna symudai at ryw deitl o eiddo yr Arglwydd Iesu, gan gyfeirio at y moddau neillduol y cyflawnid y teitl hwnw gan y Gwaredwr. Yn ddiweddaf cyfeiriai at gyfaddasrwydd y person a lenwai y teitl i fod yn Waredwr pechadur. Yn mhell cyn diwedd y weddi teimlai pawb mewn hwyl addoli. Agorai y weddi y drws i'r bregeth fyned i mewn i'r galon. Gan fy mod eisioes wedi cymeryd mwy o le nag a ddylaswn, gadawaf allan fy

nodiadau mwyaf penodol ar ei arddull fel pregethwr a gweddïwr. Y mae y dalent yn gorphwys, â'r tafod clochaidd wedi tewi, ond erys argraphiadau y dyddiau o'r blaen am byth. Heddwch i'w lwch.

FEL PREGETHWR, ETO.

GAN Y PARCH. J. ROBERTS, CONWAY.

Clywais eich bod yn ysgrifenu Cofiant am eich anwyl frawd, y Parch. J. Williams, Castellnewydd Emlyn. Tybiwyf fod genyf beth mantais i ddywe'yd gair am dano fel *pregethwr*. Bum gydag ef mewn cymanfa yn Penybont-fawr, y tro cyntaf y daeth i'r Gogledd, a Phatriarch Troedrhiw-dalar gydag ef. Yr oedd yn ieuanc a phrydferth y pryd hyny. Cefais flas arno yn pregethu. Syrthiais mewn cariad â'i ddull, ac ni newidiais fy marn am dano hyd y dydd hwn. Yn fuan wedi hyny clywais ei fod i bregethu yn Machynlleth. Aethum o Lanbrynmair, 13 milldir, i'w wrando. Yr oedd hyny cyn dyddiau y reilffyrdd. Cydsyniodd â'm cais i ddyfod i gyfarfod Ruthin: ac efe a "Tanymarian" a wnaethant wyliau y Nadolig i fod yn *great facts* yno. Bychain oeddynt cyn hyny. Bum gydag ef mewn cyfarfodydd mawr yn Llanuwch-llyn a manau eraill. Gwyr pob enwad yn Nghymru mai peth lled anghyffredin yn awr yw llenwi capel o wrandawyr hyd yn oed ar *nos* dydd gwaith: ond medrai enw Williams lenwi capeli cymydogaeth Conway am ddeg dydd gwaith prysur y cynhauaf. Ymgynullai pawb o bob enwad a'i clywsent *unwaith* i'w glywed, pa bryd bynag y deuai yn agos. Yr wyf yn dywe'yd hyn er dangos nad wyf yn sefyll arnaf fy hun fel un oedd yn ei edmygu fel *pregethwr*.

Cefais yr anrhydedd o fod yn Gadeirydd iddo fwy nag unwaith, pan oedd yn darlithio ar "Paul," ac ar ei "Ymwel-

iad â Geneva." Clywais y medrai weithiau dynu i'w ddarlith, ambell hanesyn lled ddigrifol ac ysgafn; ond ni wnaeth felly pan y gwrandewais i ef. Yr oedd ei ddarluniadau o rai golygfeydd yn mywyd Paul yn deilwng o hyawdledd yr Apostol ei hun; a'i ddarluniad o'r golygfeydd o amgylch Geneva, yn enwedig y ffrydiau cynddeiriog yn disgyn o'r mynyddau, ac yn llonyddu yn y llyn sydd wrth y dref. Yr oedd hyn yn fwy na theilwng o hywadledd John Calfin; ac yr oedd yr oll o'r ddwy ddarlith yn ddifyrus, coethedig, ac o duedd crefyddol.

Bu eich anwyl frawd yn ein tŷ pan oedd yma afiechyd; ac yr wyf heddyw yn methu atal fy nagrau wrth gofio am ddisgwyliad y glâf am dano, ei ymddygiad priodol yn yr ystafell, ei eiriau melus wrthi, a'i weddi daer drosti, a'i hiraeth hithau ar ei ol.

Er nad oedd Mr. Williams yn golegwr, yr oedd yn hawdd gwybod wrtho ei fod wedi ei fagu mewn llawnder, a'i ddwyn i fynu yn barchus. Y mae rhyw beth yn hyny nad ellir prin ei gael mewn coleg. Y mae y rhai hyny bob amser yn fwy gostyngedig, haws eu boddloni, ac yn medru ymddwyn yn well yn mhob math o gwmni. Medrai Williams gadw ei le yn mhob man, bod yn wylaidd a boneddigaidd yn gofyn cymwynasau, a bod yn hŷf fel llew pan yn hawlio iawnderau. Pan oedd ei gyhoeddiad unwaith yn y Rhos, deallodd yn yr Amwythig nad oedd yr unig *drain* allasai efe gael yn sefyll yn Rhuabon, ac erbyn yr aethai i Wrexham, bum milltir yn mhellach, ni buasai modd iddo ddyfod yn ol mewn pryd i'w gyhoeddiad. Aeth yn wylaidd a hŷf at yr awdurdodau, a dymunodd yn enw ei Feistr am i'r *train* aros yn Rhuabon er ei fwyn ef: a llwyddodd! Parch i awdurdodau *station* yr Amwythig. Boneddigaidd y gwelais i hwy bob amser. Y mae yn amheuaeth a allasai Syr Watkin, yr hwn y mae ei "stay" yn ymyl Rhuabon lwyddo i gael yr hyn a roddwyd i

Mr. Williams; clywais iddo fethu. Diau y teimlai y *station master* ei fod wrth wrando cais pregethwr mewn cyfyngder, yn plygu i awdurdod Brenin brenhinoedd.

Ond pa fath oedd poblogrwydd Williams fel pregethwr! Y mae rhai yn boblogaidd am ffraethineb dichwaeth, yn debyg i'r hen weinidog a soniai yn aml am "ychain yn tynu allan berfedd hen gaseg," ac "uffern wedi ei phalmantu â phenau plant bach." Y mae eraill yn boblogaidd o herwydd eu lleisiau, ac anwyl yw llais! y peth agosaf i dduwioldeb mewn gweinidog ydyw. Ond ni fedrai Mr. Williams ymffrostio llawer yn hwn. Y mae rhai yn boblogaidd o herwydd eu *digrifwch* ynfyd, yn debyg i'r hyn a glywir yn rhy aml yn y *penny readings*. Y mae eraill mewn rhan yn boblogaidd o herwydd eu digrifwch goddefol ac ysgrythyrol; megis, yr hen bobl a ddarlunient y pysgodyn yn taflu Jonah i'r tir sych; a'r cryddion yn galaru am y genfaint foch a ruthrodd dros y dibyn i'r môr. Ond y *tyner* oedd poblogrwydd Williams. Ar y llygaid yr effeithiai efe, i'w llenwi â dagrau, ac nid ar y geneuau i'w llenwi â chwerthin. Yr oedd ei boblogrwydd yn debyg i'r eiddo Griffiths Hawen, pan yn dadleu am i addolwyr Duw bach Ceylon gael efengyl. Neu, Harris Mynyddyslwyn, yn pregethu yn Machynlleth ar "Gwelaf Dduw a gwelaf ddyn." Neu, Williams Wern, gyda phregeth y "mamau." Neu Lewis Llanelli, yn Llansadwrn, yn pregethu ar "ganu y nos."

Ni chlywais Mr. Williams erioed yn pregethu ar bwnc, ac yn traddodi yr hyn a elwir gan rai yn bregeth fawr. Yr oedd ei fawredd ef yn ei ddamhegion eglurhaol. A'm cred yw ei fod fel hyn yn rhoddi mwy o oleuni i'w wrandawyr ar athrawiaethau gras, nag a roddwyd erioed gan Edwards, nac Owen, na Lewis, i'w darllenyddion wrth ysgrifenu ar ryddid ewyllys, cyfiawnhâd, etholedigaeth, &c. Gŵyr pawb o ddarllenwyr y Testament Newydd, mai trwy ddamegion y

byddai Iesu Grist yn egluro ei feddyliau. Y mae ei bregeth ef ar y mynydd, fel ei holl bregethau eraill, yn llawn o ddamegion eglurhaol: a dyma fel y dywed yr ysgrifenydd ysprydoledig am effeithiau hono,—"Y torfeydd a synasant wrth ei ddysgeidiaeth ef, canys yr oedd efe yn eu dysgu hwynt fel un ag awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion."

Yr wyf yn haner cofio am lawer o ddamegion egluriadol Mr. W.; ond y mae arnaf ofn eu rhoddi i lawr, rhag gwneyd cam â hwy. Trueni fyddai eu darnio. Gobeithio y bydd rhai o'i bregethau yn ei Gofiant, ac y ceir y damegion yn gryno yno. O! mor dda fyddai genyf gael cyfle i ddarllen pob gair fel yr oedd efe yn eu traddodi. Ei bregethau ar "Iesu yn sefyll wrth y drws;" "Tynu i lawr yr ysguboriau, ac adeiladu rhai mwy;" "Duw yn profi ei blant â phethau chwerwon;" "Y Duwiol yn darfod â'r byd;" "y mwyaf duwiol," meddai, "sydd yn cael y profedigaethau chwerwaf pan ddeuant oddi wrth Dduw. Dyna Abraham, Job, Tri Llanc, Daniel, &c. Nid yw efe yn codi i ben pinacl i'w dangos i nef a daear ac uffern rai na ddaliant eu profi. Yr oedd y wêdd, er gwneyd llawer cynyg, wedi methu tynu y llwyth i ben y bryn, a rhai o'r meirch yn ymgyndynu yn lle tynu. Rhedodd y pen gwas i'r marchdy i ymofyn cynorthwy. Wrth y drws yr oedd march du mawr; aeth heibio i hwnw. Yn y canol yr oedd un glas, mwy a thewach; aeth y gwas heibio i hwnw hefyd. Ai i ben draw y marchdy, at un llawer llai, a mwy diolwg: a dyma y llanc yn rhoddi ei law ar hwnw, yn ei gerio, yn ei arwain allan, ac yn ei fachu wrth y llwyth. Pa ham y dewisodd y llanc hwnw? am y gwyddai fod gwaelod ynddo. Nid oedd am ddianrhydeddu ei feistr drwy roddi march cryf wrth y llwyth yn ngwydd yr edrychwyr, pan na wyddai neb pa un a wnai dynu neu beidio. Rhai â gwaelod ynddynt y mae Duw yn ddewis i'w profi.

Ni ryfeddwn na ddywed ambell un o'r *would be* coethedig wrandawyr, nad yw y ddameg hon yn chwaethus a chlasurol. Mae hyny yn dybynu ar yr un fydd yn ei hadrodd, a'r cysylltiadau y dygir hi fewn. Nid yw yn anhebyg i ddamegion yr un "na lefarodd dyn erioed" fel efe.

Yn ei bregeth ar "Iesu yn sefyll wrth y drws," dygai Mr. W. i fewn hanesyn am Williams o'r Wern yn y Dê, wedi cael ei wahodd i balasdy i letya. Nid oedd y pâr ieuanc a'i croesawent yn arddel Iesu. Y mae yr ystafell yn ysplenydd, y tân yn dysgleirio ac yn cynhesu, y bwrdd wedi ei hilio â dewisol ddanteithion. Ond y mae y dymestl yn curo allan. Ar ganol y swper dywedodd Mr. Williams yn ddirodres ac effeithiol wrth y pâr ieuanc, "Rhyfedd fod y gwas annheilwng yn cael y fath roeso i fewn, a'r Meistr, yr hwn hefyd sydd yn Frenin, yn cael ei gadw wrth y drws i guro a bloeddio, a'i ben yn wlyb gan y gwlith, a'i wallt gan ddefnynau y nos." Cafodd yr awgrymiad yr effaith amcanedig, ac agorwyd y drws i'r Gwaredwr ddyfod i'r teulu.

Pan yn darlunio y duwiol yn gollwng ei afael o'r byd, dangosai y tad ar ei wely angeu heb fod yn sâl iawn, na neb ond efe ei hun wedi ei roddi i fyny i farw. Eisteddai ei briod wrth erchwyn ei wely; soniai yn wylaidd am bethau y byd, a dywedai, "Yr oeddych yn son am droi y gwartheg dwyflwydd i'r Ffridd; a ydyw yn well gwneyd? Gwnewch fel y mynoch, fy anwyl briod. Yr oeddych yn son am dori y gwndwn mawr i hau gwenith: a fyddai yn well gwneyd? Gwnewch fel y mynoch, anwyl briod. Yr oeddych yn son am gychwyn John bach i'r ysgol y mis nesaf: a fyddai yn well gwneyd? Gwnewch fel y mynoch, anwyl briod. Gobeithio y bydd efe yn fachgen da, yn caru Iesu Grist. Yr wyf fi yn eich caru gymaint ag erioed, ond mae arnaf chwant i'm datod, a bod gyda Christ; ac yr wyf wedi fy llwyr ddatod oddi wrth y byd."

Anwyl Syr,—Dyma ychydig o'm barn am eich anwyl frawd fel pregethwr. Ysgrifenwyd gyda brys yn nghanol galwadau lluosog os nad pwysig. Os byddwch yn dewis gwneyd defnydd o'r hyn a ysgrifenais, neu ran o hono, yn y Cofiant, y mae at eich gwasanaeth. Gallaswn ysgrifenu cyfrol; ond troaf y pin at bethau eraill. Felly yr wyf yn terfynu ar hynyna, gyda'r serch puraf atoch chwi, eich teulu, a'ch perthynasau, a hiraeth dwys am eich diweddar frawd anwyl.

---

## PEN. VI.

### MR. WILLIAMS FEL GWEINIDOG.

GAN Y PARCH. W. E. JONES, TREFORIS.

Y PARCH. J. WILLIAMS roddodd ddeheulaw cymdeithas i'r ysgrifenydd, a than ei weinidogaeth ef y bu yn eistedd hyd y flwyddyn 1861, pan y derbyniwyd ef fel myfyriwr i Goleg Aberhonddu. Yn ystod yr amser hyny, cawsom fantais i ffurfio barn am dano fel gweinidog. Ychydig feddyliasom ar y pryd y gofynid i ni byth gyhoeddi ein barn. Gwell fyddai genym adael y gorchwyl i ryw un o brofiad helaethach, a barn addfetach; ond pan ofynwyd i ni, anhawdd, yn wir anmhosibl, oedd dywe'yd "Na."

Er mor uchel oedd y farn a ffurfiasom am Mr. Williams fel gweinidog yn ystod yr amser uchod, gwyddom y cyhoeddid ni yn euog o ddywe'yd yr hyn na fyddem yn feddwl, pe dywedasem ei fod yn berffaith. Ar yr un pryd, nid chwilio am

golliadau fydd ein gorchwyl yn yr ysgrif hon, ond yn hytrach croniclo rhai o'r nodweddion mwyaf eglur (*prominent*) i'n tyb ni, yn nghymeriad Mr. Williams fel gweinidog.

*Ei adnabyddiaeth manwl o aelodau a gwrandawyr y cynulleidfaoedd dan ei ofal.*

Yr oedd ganddo ar yr adeg a nodwyd, rhwng naw cant a mil o aelodau dan ei ofal, a'r pellaf o honynt yn byw tua deg milldir oddiwrth y lleill. Cryn orchwyl oedd cyrhaedd adnabyddiaeth o gynifer—cymerai flynyddoedd i lawer cyn eu hadnabod, yn enwedig wrth eu henwau. Ond trwy ei graffder naturiol, a'i awydd i adnabod pobl ei ofal, gorchfygwyd yr anhawsder yma yn fuan gan Mr. Williams. Yn wir, credwn nad oedd ond ychydig trwy yr holl gylch, na fedrai eu cyfarch wrth eu henwau. Nid oedd fod dyn yn dlawd yn un rhwystr i'w adnabyddiaeth. Ac nid oedd fod dyn yn gyfoethog, yn sicrhau iddo adnabyddiaeth o'i weinidog o flaen ei gymydog tlawd.

Mae yn bosibl yr ystyrir hyn gan lawer yn beth dibwys, yn neillduol lle byddo y *pulpit* yn cael ei lanw yn effeithiol. Mae yn wir y cuddia *pulpit power* luaws o bechodau—y gwna i fyny dros lawer o ddiffygion. Ond meddyliwn, ar yr un pryd, y rhydd adnabyddiaeth o'r bobl fantais i wneud daioni nas gellir ei chyrhaedd mor effeithiol mewn un ffordd arall. Credwn y gwna hyn rwyddhau y ffordd i'w serchiadau. Ac unwaith y cyrhaeddir eu serchiadau, byddir yn sefyll ar dir mwy manteisiol i wneuthur daioni iddynt. Rhaid i ni ddywe'yd nad ydym yn adwaen neb sy 'n rhagori ar wrthrych y Cofiant hwn, yn y gras yma.

*Ei allu a'i fedrusrwydd i lywodraethu ac i drefnu materion eglwysig.*

Nid ydym mewn un modd am gyfleu y syniad ei fod yn tra-arglwyddiaethu. Ni fu neb yn mhellach nag ef o goleddu syniad o'r fath. Pan fyddai galwad am benderfynu rhyw

fater neillduol, gwahoddai ymddiddan cyffredinol arno, a gwrandawai yn y modd mwyaf parchus ar bob un yn traethu ei farn. Ei arwydd-air gwastadol wrth ymdrin â materion felly oedd, "trwy lawer o gynghorwyr y bydd diogelwch."

Eto i gyd *efe* oedd yn llywodraethu. Mewn materion o bwys ei farn a'i gynllun ef fyddid bron yn ddieithriad yn fabwysiadu. Priodolwn hyn, nid i unrhyw ddiffyg yn y bobl, ond i'w fedr a'i graffder ef i dynu allan gynlluniau. Pan ddygai ei gynllun ger bron, argyhoeddai bawb ei fod wedi ei *feddwl yn dda*, a'i fod yn gynllun effeithiol er cyrhaedd yr amcan mewn golwg. Nid ydym yn cofio ei wel'd yn ymylu ar fethiant ond unwaith erioed (a chyfrwysdra Benhadad oedd yr achos o hyny).

Anaml, os byth, y byddai yn dwyn unrhyw fater neu gynllun o bwys gerbron yr eglwys, heb ei fod yn flaenorol yn meddu gwybodaeth lled gywir o farn y lluaws mewn perthynas iddo. Mae yn mhob eglwys gynrychiolwyr (*representative men*). Wrth glywed barn un, byddwch ar yr un pryd yn clywed barn hanner cant, nen ychwaneg. Ymgynghorai Mr. Williams â rhai o'r cyfeillion hyn, ac os gwelai eu bod hwy yn cymeradwyo, ni phetrusai osod y mater gerbron yr eglwys. Dichon y priodolir hyn gan rai i yspryd llwfr, ac y condemnir ef fel ymddygiad gwasaidd annewr. Os felly, priodolir i'r dyn yspryd nad adwaenai, a chondemnir un o'r nodweddion mwyaf canmoladwy yn ei gymeriad fel gweinidog. Ei amcan syml yn yr uchod oedd, nid cael ei farn ei hun i fuddugoliaeth, na chydnabod personau neillduol, ond osgoi pleidlais hyd y byddai yn bosibl, a diogelu undeb a heddwch yr eglwys. Yr oedd yn hawdd deall wrtho fod hyn yn gorwedd yn agos iawn at ei galon. Byddai yn arfer tiriondeb wrth ddysgyblu, fel rheol, ond os gwelai ryw un yn gwneyd cynyg i derfysgu, codai mewn tarawiad ar ei draed, ac yno y byddai yn taranu yn y modd mwyaf dychrynllyd, nes y byddai y terfysgwr yn

gyfoethog o edifeirwch, ac o waelod ei galon yn dymuno am i'r *storm* fyned heibio.

Yr oedd yr yspryd gonest a ddangosai pan ddygwyddai anghydfod rhwng pleidiau, yn enill edmygedd cyffredinol. Pan yn ymdrin â materion fel hyn, ni fyddai yn adwaen neb yn ol y cnawd. Os byddai ei gyfeillion mwyaf mynwesol mewn ymrafael, neu y cyfoethocaf a'r mwyaf diamddiffyn yn yr eglwys yn anghytuno, cyfiawnder fyddai yn dàl y glorian, ac nid cyfeillgarwch na pharch i gyfoeth. Pan yn cyfeirio at hyn, na feddylied neb fod ei goelbren wedi syrthio i fysg pobl ymrafaelgar. Gŵyr pawb a'u hadwaenant eu bod yn rhagori yn eu hyspryd heddychlawn a charedig, a chafodd Mr. Williams brawfion eglur o hyn trwy ystod ei weinidogaeth yn eu plith.

*Ei gydymdeimlad dwfn â'r claf a'r trallodedig.*

Nis gallwn ddywe'yd fod Mr. Williams yn ymwelydd cyson ag aelodau yr eglwysi, ac nid ydym yn dygwydd gwybod beth oedd ei farn a'i deimlad ar y pen yma. Ond hyd yn oed pe yn credu mewn ymweliadau mynych, yr oedd eangder cylch ei weinidogaeth y fath, fel nas gallai wneyd hyny. Er cyflymed y teithiai ar gefn ei *bony*, (a gwyddom mai nid cyflymder cyffredin oedd hwnw,) byddai raid iddo wrth gryn amser cyn ymweled unwaith â phob teulu, serch iddo daflu pob gorchwyl arall o'r neilldu. Ond os nad oedd yn ymwelydd cyson gellid ymddibynu ar ei bresenoldeb, pa le bynag y byddai galw am dano. Ni chaniatäi i amgylchiadau cyffredin i'w luddias. Gwelid ef yn aml wrth wely y claf, yn mwthyn y tlawd, ac yn ystafell y trallodedig. Buom yn synu lawer gwaith wrth weled un mor iach a bywiog yn ymollwng i deimladau mor ddwys, ac yn arddangos cymaint o gydymdeimlad. Yr oedd llef y tlawd yn archolli ei galon. Ni feddyliai ei borthi ag "adnod;" ond bob amser, byddai adnod o'r geneu, a swllt (neu ychwaneg) o'r boced, yn canlyn

eu gilydd. Ffordd effeithiol i gael gwared o'r tlawd yw ei gyfeirio at "yr hen addewidion;" ond yn sicr, y ffordd effeithiolaf i gael bara i'w fwrdd, yw rhoi swllt yn ei law, a'r olaf yn wastad fabwysiadai gwrthrych y Cofiant hwn.

Yr oedd ei ymddyddan syml, pwrpasol, a charuaidd wrth wely cystudd yn effeithiol dros ben. Byddai rhyw ddifrifoldeb neillduol yn ei feddianu; a phob amser cymerai ei ymddyddan gyfeiriad fyddai a thuedd uniongyrchol ynddo i gymodi meddwl y claf â goruchwyliaethau yr Arglwydd. Ar adegau fel hyn, byddai ffraethineb y *pregethwr*, a bywiogrwydd yspryd y *dyn*, yn cael eu colli i raddau helaeth. Brawd fyddai yno yn cydymdeimlo â brawd mewn cyfyngder.

Ni welsom neb erioed yn meddu ar yspryd mwy hyblyg. Buom yn rhyfeddu lawer gwaith wrth ei weled yn llanw yr amrywiol gylchoedd y troai ynddynt—mor naturiol ac effeithiol. Wrth ei weled yn y pulpud, wrth fwrdd y cymmundeb, yn y gyfeillach a'r cyfarfod gweddi, wrth wely y claf, mewn angladd, mewn priodas, yn *vestry* y plwyf, yn areithio mewn cymdeithasau dyngarol, &c., teimlid ei fod yn yspryd yr amgylchiad, ac yn berffaith naturiol a chartrefol yn yr oll. Yr oedd ei yspryd bywiog yn ei wneyd yn llawen gyda'r rhai oedd yn llawen, ac yr oedd cydymdeimlad dwfn ei natur yn gwneyd iddo wylo gyda'r rhai oedd yn wylo.

*Ei garedigrwydd a'i diriondeb i ddynion ieuainc pan yn dechreu pregethu.*

Nis gwyddom am ddim fyddai yn rhoddi mwy o hyfrydwch iddo na chefnogi a chynorthwyo pregethwyr ieuainc. Cododd amryw i bregethu o'r eglwysi oeddynt dan ei ofal, a bu yn noddwr ffyddlon i lawer ddaethant i Gastellnewydd o eglwysi eraill, i dderbyn eu haddysg ragbarotoadol yn ysgolion rhagorol y diweddar Mr. Davies, (Llanybri,) a Mr. T. T. Elias, athraw galluog yr ysgol ramadegol bresenol. Credwn nad ä y caredigrwydd a'r gefnogaeth a gawsom ganddo byth yn

anghof genym, a diau fod pawb o'r brodyr o'r un deimlad a ninau ar y mater yma. Gan fod hon yn nodwedd mor eglur yn ei gymeriad, credwn y goddefir i ni fanylu ychydig arni.

Yr oedd yn awyddus am i'r dynion ieuainc fod yn ysgolheigion da. Aml y cymhellai hwynt i ymroddi o ddifrif i ddysgu, gan gadw eu golwg ar yr arholiad, a'u safle yn y dosbarth wedi cael derbyniad i'r coleg. Diamheu fod ei gymhellion tadol a thaer wedi profi yn symbyliad effeithiol i lawer o honynt. Fel y byddai yr arholiad am dderbyniad i'r coleg yn agosäu, byddai ei bryder ef yn ychwanegu, a'i ymweliadau â Mr. Elias yn amlhau. "Beth ydych yn feddwl am dano? Wnaiff e' basio? Os na wnaiff, rhaid i ni dreio cael blwyddyn arall o ysgol iddo." Aml y clywid gofyniadau felly ganddo. Ar ddydd yr arholiad byddai ef, fel rheol, yn bresenol. Ac yn wir nid *rhyw fath* o bresenoldeb ydoedd, fel y gŵyr y profiadol, ond rhyw beth i roddi yspryd a bywyd mewn dyn ieuanc, mewn man lle yr oedd cynifer o elfenau fel pe yn cydgyfarfod gyda 'r unig fwriad i'w lethu. Wedi pasio yr arholiad yn llwyddianus, dychwelai Mr. Williams wedi cael digon o fwynhâd i'w yspryd i'w ad-dalu am y treuliau yn ol a blaen.

Heb law hyn, teimlai y dyddordeb mwyaf yn y dynion ieuainc fel *pregethwyr*. Dangosai hyn yn ei gyfarwyddiadau caredig i gyfansoddi pregethau, yn y cyfleusderau aml a roddai iddynt i arfer eu doniau, ac yn ei feirniadaeth onest a thyner o'u pregethau a'u traddodiad. Byddai yn wastad yn anog y dynion ieuainc i gyfansoddi ar destunau syml ac ymarferol; a byddai dilyn yr anogaeth yn rhoddi boddhâd neillduol iddo. Weithiau byddid yn anghofio y cyfarwyddyd, ac yn anturio i ddyfroedd dyfnion; ond mor wir a hyny, byddai yn rhaid i'r troseddwr arfer ei ddawn i hunanymwadu, a dyoddef cynghor caredig i gadw dipyn yn nes i dir, rhag ofn iddo ef a'i bregeth fyned o'r golwg am byth. Gofynai yn aml, "Ydych chi 'n

parotoi pregeth newydd 'nawr?" Tebyg mai yr ateb fyddai, "Ydwyf, Syr." "Da iawn; beth yw 'r testun?" "'Y 15fed adnod yn y benod gyntaf o Epistol Titus,—'Pur yn ddiau yw pob peth i'r rhai pur; eithr i'r rhai halogedig—'" "Dyna, dyna; Da 'machgen anwyl i, gadewch destunau fel yna hyd rhyw amser i dd'od; cewch gyfleusdra i feddwl am bethau fel yna eto. Dyma destun i chi; a byddwch yn siwr o wneud pregeth arno erbyn y cyfarfod parotoad nesaf—'Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb.'" Ar y pryd gallai fod rhyw duedd ddirgelaidd i wingo yn erbyn y symbylau; ond wedi ad-feddwl, a chofio y dyddordeb tadol a deimlid ynom, byddid yn eithaf parod i "gyfrif ein dyddiau," ac yn awyddus i gael pregeth goreu medrem erbyn y cyfarfod parotoad.

Hefyd yr oedd ei awydd yn fawr i gael *cyfleusderau* i'r dynion ieuainc i arfer eu doniau. Gan fod ei gylch gweinidogaethol mor eang, yr oedd angen pregethwr bob Sabboth yn un o'r eglwysi, ac fel rheol, y pregethwyr ieuainc fyddent yn ei *supplio.* Ac yn wir, er clod i'r eglwysi, rhaid i ni ddywe'yd eu bod yn hyn yn cyfranogi yn helaeth o yspryd eu hathraw.

Yn adeg gwyliau yr hâf a'r Nadolig, byddai weithiau yn trefnu teithiau i rai o'r dynion ieuainc. Gofalai eu hanfon i eglwysi y byddent yn sicr o gael derbyniad croesawus. Ysgrifenai y cyhoeddiadau ei hun weithiau. Brydiau eraill, ol-ysgrif yn unig, ac yr oedd yn hynod nodweddiadol. Mewn ambell fan byddai y cyhoeddwr yn cael ar ei feddwl i ddarllen y cyhoeddiad yn agos fel y daethai i'w law, ac yn ddieithriad byddai darlleniad yr ol-ysgrif yn cynyrchu gwên foddhaol yn y gynulleidfa.

"Nos Fawrth nesaf bydd Mr.—— a Mr.—— o Gastellnewydd, yn pregethu yma am 7 o'r gloch.

*Rhaid magu lloi cyn cael ychain.* WILLIAMS."

Weithiau pan yn myned ar daith i'r Gogledd, byddai yn

myned âg un dyn ieuanc gydag ef. Gallai ei amcan yn hyn ymddangos yn hunanol, ond gŵyr pob un fu gydag ef mai nid fel *gwas* yr edrychai arno, ond yn hytrach fel brawd a chydymaith. Pan yn teithio yn ei *dog cart* am bythefnos neu dair wythnos, byddai ef yn *actio* mwy o'r *gwas* o lawer, mewn codi yn y bore, a gofalu am yr anifail, na 'r cydymaith ieuanc fyddai ganddo. Os byddai galwad am i un godi awr o flaen y llall, efe ei hun fyddai hwnw yn *ddieithriad.*

Byddai y teithiau hyn yn talu eu ffordd yn dda i'r dyn ieuanc. Pan yn teithio o fan i fan, cawsai glywed beirniadaeth deg, garedig, ac adeiladol ar ei bregeth, ei ymddangosiad, a'i ddull o draddodi, ac fel rheol, byddai yn dychwelyd wedi enill cryn dipyn at ei faintioli fel pregethwr. Yr oedd naturioldeb mewn ymddangosiad a thraddodiad, yn cael sylw arbenig yn ei feirniadaeth. Ceisiai argraphu ar feddwl dyn ieuanc y pwys o fod yn *naturiol.* A phan sylwai ar ryw symudiad annaturiol mewn llais neu ystum, byddai yn dra sicr o lwyddo i'w ddileu. Dechreuai trwy roddi awgrymiadau caredig, ond os na fyddai hyny yn llwyddo, llefarai yn eglur, heb un ddameg. Ei amcan oedd gwneuthur daioni. Byddai weithiau yn tori i'r byw, ond yr oedd yn hawdd gweled mai tori fel meddyg yr oedd, gyda 'r amcan syml o symud y drwg. Ond nid oedd ei garedigrwydd yn darfod yn y fan yma. Pan y byddai cwrs colegawl un o'r dynion ieuainc yn tynu tua 'r terfyn, byddai Mr. Williams yn barod i wneud yr oll a allai drosto. Wedi rhoddi dyn ieuainc yn y coleg, bydd ambell un yn barod i ddywe'yd, "Wel, dyna chwi ar y ffordd yn awr, fy machgen i, ymladdwch drosoch eich hun bellach." Nid felly Mr. Williams. Diwrnod yr *ordination* y clywid hyny gyntaf ganddo ef. Ymladdodd ef ei ffordd heb gymorth athrofaol, eto yr oedd yn teimlo dyddordeb dwfn yn y myfyriwr, ac yn arddangos parodrwydd i'w gynorthwyo hyd eithaf ei allu.

Gwel y darllenydd ein bod yn rhoddi cryn eglurder i'r nodwedd yma yn nghymeriad Mr. Williams fel gweinidog. Cymaint, fel y gorfodir ni i adael amryw eraill heb sylwi o gwbl arnynt. Ond nis gallwn beidio, wedi ei brofi mor eithafol o garedig i ni. Diolchasom yn galonog iddo lawer gwaith, ac yr ydym pan yn ysgrifenu mewn hwyl i ddiolch eto—ac eto. Ond i bwy? Mae y corph cadarn bywiog yn y bedd! Mae yr enaid mawr yn ei gartref tragywyddol!! Gwir, gwir. Ond nis gall *angeu* ladd caredigrwydd, na'r *bedd* lyncu cydymdeimlad.

---

## PEN. VII.

### MR. WILLIAMS FEL DARLITHIWR.

GAN Y PARCH. T. DAVIES, LLANDILO.

MAE darlithio wedi bod yn boblogaidd iawn yn Nghymru yn ystod y Chwarter canrif diweddaf, ac wedi bod yn foddion i gyfranu llawer o wybodaeth fuddiol ar wahanol bynciau. Y mae gwahanol farnau am ddarlith, darlithio, a darlithwyr. Myn rhai nad oes ond ychydig o ddarlithwyr o fri a mawredd wedi eu magu yn Nghymru eto, ac nad yw y lleill, er eu bod yn dyrfa fawr, ond bychain a dinod fel darlithwyr. Addefwn yn rhwydd fod rhagor rhwng seren a seren yn y ffurfafen ddarlithyddol, ond nis gallwn weled fod nifer y mawrion mor lleied ag y myn rhai eu bod, ac mai bychain, man, a main yw y lluaws. Mae Cymru wedi magu tyrfa o ddarlithwyr da, a phob un o honynt yn rhagori yn ei ffordd ei hun. Mae

amrywiaeth yn fanteisiol i gyfarfod â'r amrywiaeth sydd yn meddyliau, gwybodaeth, a chwaeth dynion.

Yr oedd Mr. Williams yn arfer darlithio---darlithiodd lawer, ac yr oedd yn feddianol ar y cymwysderau gofynol er bod yn ddarlithiwr cymeradwy a phoblogaidd. Denai ei hyawdledd dyrfaoedd i'w wrando yn mhob lle yr elai iddo. Tynai sylw y gynulleidfa gyda ei fod yn dechreu llefaru. Nid oedd yn crwydro ar hyd ac ar led y byd, gan flewyna ar bob bryn ac ymweled â phob cornel, cyn dyfod at ei destun, ond byddai bob amser yn ngafael â'i bwnc yn ddiatreg, ac yn dywe'yd i bwrpas arno. Nid oedd modd i'r gwrandawr mwyaf musgrell gael amser i brynu na gwerthu, planu nac adeiladu, na theithio ar fôr nac ar dir, tra byddai efe yn siarad; rhaid oedd gwrando, bodd neu anfodd. Fel rheol, pan fyddai yn darlithio, cariai bawb gydag ef: yr athronydd, yr ieithydd, y bardd, yr hanesydd, pobl ddiwylliedig ac anniwylliedig, call a ffol, hen bobl, canol oed, gwyryfon a gwyryfesau, a phlant ieuainc, cân deced a'r wawr, a wrandawent arno---yr ymadroddwr ffraethlym, yn llon a siriol, heb flino dim. Yr oedd fod Mr. Williams yn feddianol ar feddwl parod a chyflym, tymer fywiog, a thalentau da, yn ei alluogi i roddi gwledd i'r dysgedig a'r annysgedig ar yr un bwrdd, a phawb yn canmol am yr uwchaf wrth ymadael.

Yr oedd yn *areithiwr hyawdl.* Nid oedd dim yn llibyn ac annyben yn ei frawddegau: ni wnai er dim ymostwng at yr isel, salw, garw, coeg ac annaturiol, ond yr oedd ei ddesgrifiadau o bersonau, lleoedd, ac amgylchiadau yn naturiol a didramgwydd i'r chwaeth buraf. Clywsom ef yn darlithio lawer o weithiau, ac ar wahanol destunau, megis "Paul yr Apostol," "Dyn yn Arglwydd y Greadigaeth," "Ymweliad â Geneva," &c. Yr oedd yn hawdd canfod fod ganddo ryw amcan i'w gyrhaedd bob tro; a siaradai o'r dechreu i'r diwedd er cael gafael ar nod ei amcan. Defnyddiai iaith syml

a diaddurn, hawdd i bob dyn ei ddeall: yr oedd ganddo gyflawnder o eiriau at ddewisiad bob amser. Ni bu erioed o dan yr angenrheidrwydd o ymdroi mewn un cylch bychan, gan arfer yr un geiriau yn eglurhaol am yr holl faterion a ddeuai o dan ei sylw. Yr oedd yn fedrus iawn mewn gosod geiriau a brawddegau wrth eu gilydd yn rheolaidd, a hyny heb ond y nesaf peth i ddim o ffwdan a gorbryder i lyfnhau a thaclysu ymadroddion. Yr oedd ei hywadledd fel ffynon loyw yn bwrlwmi o'r graig. Yr oedd siarad mor rhwydd iddo ag anadlu. Gwisgai ei ddrychfeddyliau mewn iaith lyfndeg a phriodol, a thaflai hwy i ganol y gynulleidfa gyda bywiogrwydd deffrous. Yr oedd ei *arddull* yn gynhyrfus. Wrth ystyried pa mor fywiog a chyflym y byddai yn traddodi, y mae yn syn ei fod yn gallu dwyn allan ei feddyliau gyda y fath eglurder. Yr oedd ei frawddegau bob amser yn rhydd oddiwrth feithder afreidiol, yn tueddu at fyrder yn hytrach nag at chwyddo yn fawr. Nis gallesid ei wrando yn darlithio heb weled fod llawer o'r "prydferth" yn ei arddull. Yr oedd yn gwisgo ei feddyliau gyda chryn brydferthwch iaith, ond anaml y byddai yn eu gorlwytho gydag un gwychder afreidiol: yr oedd yno addurn, ond nid gormodedd o addurn. Yn ei ddarlith ar "Ddyn yn Arglwydd y Greadigaeth," llamai o fynydd i fynydd, o ddol i ddol, o graig i graig, ac o afon i afon, er dangos mor ardderchog yw enw "Arglwydd ein Iôr ni" ar yr holl ddaear. Esgynai i'r nefoedd uwchben, gan syllu ar fawrion ryfeddodau Duw yn yr encyd eang, a hyny nid er mwyn casglu blodau anmherthynasol, a'u gosod ar draws eu gilydd er boddhau rhyw rai yn yr olwg arnynt, ond er dangos doethineb a gallu Duw yn y cwbl. Yr oedd yn siaradwr *naturiol:* Williams Castellnewydd oedd bob amser ac yn mhob man. Dygai lawer o hanesion i'w ddarlithiau, ac adroddai hwynt mewn modd cyffrous iawn; yr oeddynt yn disgyn mor esmwyth ar glustiau ei wrandawyr

a'r ffugchwedlau mwyaf llithrig a swynol. Gallesid meddwl weithiau wrth ei wrando fod ei ddychymyg a'i nwydau ar dân, ac nad oedd yn gofalu fawr pa beth a ddywedai; taflai eiriau a brawddegau.allan mewn ffurf mor ddibris a phe deuai y cwbl iddo ar y pryd. Ar adegau fel yma, gwelsom gynulleidfaoedd mawrion yn methu llonyddu eu peirianau chwerthin am gryn amser. Nid ydym yn coffâu hyn i'w gymeradwyo na'i anghymeradwyo: dim ond nodi y ffaith, gan adael i'r darllenydd farnu fel y gwelo yn oreu. Ond pe dygwyddai i ryw rai feddwl yn anffafriol am yr elfen yma yn ei gymeriad fel darlithydd, rhaid addef fod y ffrwd fawr o hyawdledd grymus a fwrlymai allan o'i enau ar yr adegau rhagenwedig, yn peri fod pawb yn cydymollwng mewn edmygiad a molawd, gan synu a rhyfeddu at eglurder ei ddawn, cyfoeth ei ymadrodd, tlysni a symledd ei gyfansoddiad, ystwythder ei ymadroddion, bywiogrwydd ei athrylith, a naturioldeb ei gymhariaethau. Yr oedd ynddo lawer o elfenau gwerthfawr —elfenau y rhaid i bob darlithiwr o fri wrthynt, ac elfenau a fynant fyw er gwaethaf pob ymosodiad, ac a hawliant sylw cyhyd ag y byddo y Gymraeg yn llafar gwlad ac yn destun efrydiaeth. Er nad oedd yn fardd wrth fraint a defod beirdd Ynys Prydain; ni wyddai fawr am ddyrus byncian y gynghanedd, cleciadau y cydseiniaid, clogyrnach cyhydeddau o wahanol natur, a phethau eraill cyffelyb, yr oedd llawer o'r bardd ynddo er hyny. Pan y byddai mewn hwyl a gwres yn siarad ar un o'i hoff bynciau, deuai llawer o ergydion awen rywiog ac ehedlym i'r golwg. Cyfranai lawer o addysg a difyrwch yn ei ddarlithiau. Yr oedd pob darlith a wrandawsom ganddo yn dangos cryn ymchwiliad, a sylw manwl ar arferion gwlad a dywediadau gwahanol bersonau, yn enwedig dywediadau plant. Fel darlithiwr, nid oedd yn debyg i neb ond iddo ei hunan.

# PEN. VIII.

## MR. WILLIAMS FEL CYMYDOG A CHYMWYNASWR.

GAN Y PARCH. T. PHILLIPS, HOREB.

NID un seren sydd yn gwneyd ffurfafen, nid un dòn sydd yn gwneyd y cefnfor, nid un lliw sydd yn cyfansoddi yr enfys brydferth, ac nid un math o flodau sydd yn gwneyd haf; felly nid un arlinell ragoriaethol wnelai gymeriad Mr. Williams i fyny. Cydymgyfarfyddai ynddo i raddau tra arbenig yr anhebgorion i wneyd pregethwr, gweinidog, darlithiwr, a chymydog da ac enwog.

> Ei ragorion yn ddiamheu
> Yn ddiadfail golofn fydd.

Meddai ar hanfodion cymydog da. Yr oedd yn gymydog cariadus, call, parod, galluog, a chymwynasgar. Yr oedd yn ddiarhebol yn ei gymydogaeth am lettygarwch. Cariai allan y gorchymyn dwyfol, "Nac anghofiwch lettygarwch," yn ei yspryd yn gystal ag yn y llythyren. Gwelid y gweinidog a'r myfyriwr, y masnachwr a'r gweithiwr, y cyfoethog a'r tlawd, pob gradd a dosparth, yn eofn ac hyderus yn cyrchu at ei anedd-dy i dderbyn ei roesaw dirodres: a diau ei fod, "wrth hyny, wedi llettya rhai angelion yn ddiarwybod." Mae llettygarwch bob amser, fel rheol, yn dadguddio dyn, oblegid awgryma yspryd caredig, calon fawr, haelfrydig, ystyriaeth a gofal dros ddyn. Mae yr hwn nad yw yn caru llettygarwch mewn perygl o fyw iddo ei hun, ac ymwahanu oddi wrth ei gyd-ddynion. "Groesaw i bell ac agos," oedd iaith ei galon yn gystal a'i enau.

Teimlid ei werth fel cymydog yn gystal â gweinidog, yn ei fedrusrwydd i heddychu pleidiau ymrafaelgar. Yr oedd yn

gyflafareddwr gonest a gochelgar. Mae swynwyr i'w cael yn y Dwyrain yn gallu trwy ryw ddyfais i arferu dylanwad mawr ar rywogaeth y seirff. Pan o dan eu swyn, y mae 'r *Cobra* wenwynig yn berffaith ddiniwed. Ac yr oedd Mr. Williams, trwy ei graffder a'i ffraethder, yn alluog bron yn ddieithriad i dawelu cynddaredd tymherau nwydwyllt, a gyru pob *salamander* cynhenllyd "i'w le ei hun." Llwyddai i wneyd hyn, efallai, yn fwy fel "mab y daran," yn hytrach nag fel "Mab dyddanwch."

Mewn cwerylon plwyfol, rhaid oedd cael presenoldeb a chynorthwy Mr. Williams. Tra dyddorol oedd ei wrando yn *vestry* y plwyf yn dadleu iawnderau y plwyfolion. Ymarllwysai o'i enau raiadrau o hyawdledd ymresymiadol, fel y teimlai ei wrthwynebwyr am dro y fraint o gael bod yn ddystaw. Ac wrth ddychwelyd adref cysurent eu hunain, a'u gilydd trwy ddywe'yd,—"Ni chaiff neb agor ei ben gan dafod yr hen Williams!" Ond dychwelai yr "hen Williams," (ys dywedent,) adref â'i fynwes yn orlawn o deimlad y bardd Seisnig:—

"Ahead then keep pushing,
And elbow your way,
Unheeding the envious,
And asses that bray."

Yr oedd bob amser yn *bleidiwr* i'r tlawd, ac yn *noddwr* pob amcan a sefydliad fyddai yn ffafriol i ddyrchafiad y gweithiwr, ac i anrhydedd cymdeithas. Gwelid yn cyrchu ato am gyfarwyddyd, bobl fyddai wedi eu gorddiwes gan ryw ofid neillduol. Rhoddai wrandawiad astud i'w cwynion, ac oddiar adnabyddiaeth ddwfn o'r natur ddynol, byddai ei gyngor iddynt yn gaffaeliad mawr. Bu yn offerynol i sicrhau swyddau enillfawr i amryw fechgyn tlodion y gymydogaeth, y rhai a arddangosent arwyddion o dalent—bechgyn o gymeriad dych-

lynaidd, ac o addysg deilwng. Ac y mae amryw o'r cyfryw fechgyn yn bresenol yn addurn i onestrwydd a llwyddiant masnachol. Talodd am addysg i laweroedd o blant tlodion yr ardal, do, pan yr ydoedd ganddo ef ei hun deulu lluosog i ddarbodu ar gyfer eu rheidiau corfforol a meddyliol. Diameu genym na fuasai ardal Capel Iwan, ac amryw ardaloedd eraill, yr hyn ydynt heddyw, mewn dysg a gwareiddiad, oni buasai ymdrechion diflino y dyngarol Williams! Crefydd ydyw ochr ddwyfol dyngarwch, a dyngarwch ydyw ochr ymarferol crefydd.

Yr oedd ef a Mrs. Williams (ei hoff briod) yn angelion trugaredd i gleifion yr ardal. Cyfranent iddynt ymborth, dillad, arian, meddyginiaeth, a phob ymgeledd o fewn eu gallu. Fel hyn cyneuent lusern y nef yn nghalon drist llawer i glâf—a gwasanaethent fel "cymylau dyfradwy," ar sychder gwely cystudd ac angeu. Yr oedd llawer i Ruth yn lloffa eu maesydd, llawer i Mephiboseth yn eistedd wrth eu bwrdd, a groesaw i Barzilai i dreulio gweddill ei oes o dan eu cronglwyd—yr oedd yn "hawdd ganddynt roddi a chyfranu."

Ni chaniata ein gofod i ni enwi holl arlunellau cymeriadol Mr. Williams fel cymydog a chymwynaswr. Ond nis gallwn ymattal rhag crybwyll yr ymddadblygiad o'i gymwynasgarwch yn yr *interest* a gymerai mewn dynion ieuainc fyddai yn ymgeiswyr am y weinidogaeth. Nid gormod ganddo oedd gwneuthur pob aberth gyfreithlawn dros y pregethwr a'r myfyriwr ieuanc. Teithiai, myfyriai, siaradai, ysgrifenai, a darlithiai—cyssegrai ei gorff a'i feddwl er sicrhau llwyddiant yr efrydydd ieuanc. Yr ydym yn cofio yn dda yr adeg y dechreuasom weddio a phregethu yn gyhoeddus "mewn ofn a dychryn" yn ei bresenoldeb. Ond yn fuan yn swn ei "amenau" cynorthwyol ciliodd ein hofn, "Y nos a gerdded yn mhell, a'r dydd a nesaodd."

Weithiau cymerai y dyn ieuanc gydag ef am daith fèr trwy

ychydig o eglwysi cymydogaethol, er cael mantais i roddi *drill* iddo mewn pregethu. Ambell dro byddai'r genad ieuainc yn cael hwyl ar ryw frawd neu chwaer, nes eu cynhyrfu i ddywe'yd,—"Mr. Williams, rhaid i chwi ddiosg eich *coat*, neu fe aiff y dyn ieuanc yn fuan o'ch blaen." "Nid oes yr un tad," atebai, yn ei ddull cynhyrfus ei hun, "yn digio am fod ei blentyn yn drech nag ef." Ychydig, os dim, a wyddai am feddyliau cul a rhagfarnllyd—nodau dynion corachaidd o feddwl a duwioldeb. Nid oedd yn byw iddo ei hun. Y gwlith a ddisgynai ar ei gangau, mewn myfyrdod a gweddi, a wasgarai yn y cyhoedd er "lleshad llaweroedd." Yn y gauaf oer, pan y mae tân ar yr aelwyd, yn cynhesu y teulu, ac yn dadlaith y rhew ar y ffenestri, gellir gwneud heb *araeth* i brofi ei bresenoldeb croesawus. Felly yr oedd y llygad llon, a'r galon lawen, oedd yn *adsain* i garedigrwydd Mr. Williams yn brawf o agosrwydd i *focus* o gymwynasgarwch. Gwelsom ef un diwrnod, ar ei eithaf, fel yn gyru ei agerbeiriant rhag blaen, ar hyd rheilffordd dyngarwch ac elusen, dan lusgo cerbydres yn llawn o'r tlawd, y cloff a'r dall. I ba le yr amcanai eu cludo? I orsafoedd digonedd ac annibyniaeth anrhydeddus. Mor fywiog oedd yn ei waith! Cynlluniai yn gyflym, ac yr oedd yn fynych fel yn cymeryd benthyg aden y corwynt i wasgar ei roddion o garedigrwydd ar hyd y wlad. "Fel rhedegfarch yn llawn yni a thân. Yr oedd ei fywyd ar flaen-troed, a'i hoffder oedd ymsymud dros y tir." Ond nid byth y gallasai ei gyfansoddiad naturiol cryf ddal y fath ymdrech. Yr oedd fel gwaedu y balmwydden—y nodd hyfryd a lifai a lonai yr archwaethwyr, ond difethwyd y balmwydden!

Cuddir ei gorff yn y bedd, yn mynwent brydferth Capel Iwan.—Mynwent y bu ef yn offeryn penaf i sicrhau ei helaethiad; fel y dywedai, "Erbyn yr oes a ddel." Mynwent! lle y noswylia llwch cannoedd o rai anwyl y nef, y

rhai y bydd eu "rhan yn yr adgyfodiad cyntaf." Credwn fod Williams wedi uno â'r "cwmwl tystion." Tafler mantell cariad dros ei holl wendidau, a gosoder ei holl ddiffygion yn yr un man ag y gesyd Duw (ys dywedai Powell o Gaerdydd), feiau y pechadur edifeiriol, sef yn "swyddfa 'r maddeu."

A gaiff y cymwynaswr a'r hyawdl Williams ei anghofio yn y bedd? Dywed Solomon, "Canys ni bydd coffa mwy am y doeth nac am yr annoeth yn dragywydd." "Gwell yw ci byw na llew marw." Dywedai yr enwog Lavengro, "Onid yw pob peth wedi ei dynghedu i anghof? . . . . Beth wyf wedi wneud yn barod? Yr wyf wedi dysgu Cymraeg, ac wedi cyfieithu Caniadau Ap Gwilym. A wyf wedi gwneud digon i sicrhau coffadwriaeth am fil o flynyddoedd? Ond beth yw mil o flynyddoedd wedi 'r cyfan, neu ddwy fil o flynyddoedd? Gwae fi! byddai cystal i mi eistedd yn llonydd." Ond llefaru y mae Solomon yn iaith yr anffyddwr, ac nid yw Lavengro yn codi yn uwch na 'r bydol a'r gweledig. Y mae llawer blwch wedi ei dori, a'r gemau swynol wedi ei gwasgar ar y byd, ac enw y doethwr hunan-bwysig wedi disgyn i ebargofiant,—ond bydd coffa am y wraig dorodd flwch o enaint gwerthfawr ar ben yr Iesu, trwy holl amser—nofied y perarogl yn mlaen o oes i oes. Lle bynag y bydd efengyl y bydd ei chofadail hithau hefyd. "Gosodwch haul-ddeial ar fy medd; ac anghofier fi," ebai Howard. Teimlad o adgasrwydd at bob math o weniaith, a wnaeth i Howard ddyngarol lefaru fel hyn. Y mae 'r dyn da yn *byw* trwy 'r oesau—yr *anifail* sydd yn marw. Ni fu Milton erioed yn canu i dyrfa luosocach nag heddyw; ac ni chafodd Bunyan gymaint o ddarllenwyr i'w freuddwyd anfarwol ag yn bresenol. Mae 'r storm yn diffodd canwyllau brwyn y "dynion sydd â'u rhan yn y byd hwn—ond bydd ser Duw yn disgleirio tuhwnt i aden ddu y dymhestl. Y mae Williams, er "wedi marw yn llefaru eto." "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

## PEN. IX.

### ADGOFION ADOLYGIADOL AM MR. WILLIAMS.

GAN Y PARCH. W. M. DAVIES, BLAENYCOED.

YCHYDIG a feddyliais, pan nad oeddwn eto ond llencyn ieuanc, wrth gael fy swyno gan hyawdledd Mr. Williams yn Nghymanfa Dinas Mawddwy, oddeutu 'r flwyddyn '52, y daethwn yn gymydog mor agos iddo yn mhen llai na deng mlynedd. Dyna 'r pryd y gwelais ei wyneb gyntaf yn y cnawd, yn sefyll i fyny yn ail bregethwr, am ddeg o'r gloch, a'r son am dano fel "y dyn â'r tafod arian," (ys galwai yr hen batriarch-gawr o Lanfyllin ef), wedi cynhyrfu miloedd i gael cipolwg arno. Credwn y diwrnod hwnw, ac eithriadau yn y dorf oeddent y rhai na chredent yr un peth, nad oedd y fath bregethwr ar wyneb y ddaear. Os bu rhyw "feistr" i ryw "gynulleidfa" yn rhywle yn gallu "sicrhau hoelion" y weinidogaeth yn effeithiol yn meddyliau ei wrandawyr, yr oedd Mr. Williams felly ar yr adeg hono. Yr oedd bywiogrwydd y traddodiad, tlysni ei iaith, ffraethder ei arabedd, naturioldeb ei ddarluniadau, a difrifoldeb ei apeliadau, wedi ei wneud yn fath o hanner-dduw gan y miloedd. Ei bwnc oedd Darostyngiad a Dyrchafiad Crist, a'i sylwadau yn seiliedig ar eiriau Paul, "Yr hwn, ac efe yn ffurf Duw," &c. Ni chlywais byth mo'r bregeth wedi hyny, er i mi lawer gwaith "trwy ddagrau" braidd "ei thair geisio hi;" ac nid wyf yn credu fod yn ei feddiant drech cyfansoddiad. Nid oedd ynddi nemawr ddim o'r hyn a allesid wneud hebddo, fel y bum yn teimlo amrywiol weithiau wrth wrando rhai o'i bregethau eraill.

Nid oes amheuaeth nad ydyw yn un o nodweddion neillduol llefarwyr cyhoeddus, i newid eu harddull (*style*) o

gyfansoddi a siarad, fel y maent yn heneiddio. Y mae hwn yn wirionedd a gadarnheir o'r *stage* a'r Sennedd yn gystal ag o'r pulpud. Yn y cyffredin mae y dyn pan yn ieuanc, yn fwy manwl at gadw deddfau cyfansoddiad, ac i ddilyn rheolau areithyddiaeth, nag y cawn ef wedi myned yn mlaen dipyn mewn oedran. Tra yn ymgyrhaedd yn fwy at yr oruchel y mae hefyd yn fwy gwylaidd a phryderus. Dyna 'r fath oedd ein cyfaill Mr. Williams. Ni bu erioed yn drech cyfansoddwr na phan yn ddyn ieuanc yn Llangadog, nac ychwaith yn gymaint o areithiwr; ond credaf i'w arddull wedi hyny fod yn fwy naturiol, er nad mor uchel; ei arabedd yn fwy grymus, er nad mor bur; a'r traddodiad trwyddo yn fwy dyddan. er nad mor effeithiol. Yr oedd llawer iawn o Williams Llangadog yn Williams Castellnewydd, ond nid oedd y naill yn ddarlun *perffaith* o'r llall. Credaf na chamgymeraf rhyw lawer pe dywedwn na bu, nid oes yn awr, ac na ddaw byth, i'r pwlpud Cymraeg. well pregethwr, wedi ei gynysgaeddu felly yn fwy, gan natur, nag oedd efe. Y mae dysgeidiaeth a chelfyddyd weithiau yn peri i ambell bregethwr golli ei naturioldeb, ond nid felly ein cyfaill. Plentyn natur oedd efe; ac fel y siaradai ar yr aelwyd, neu ynte ar y ffordd, felly y gwnai hefyd yn y pwlpud. Meiddiaf awgrymu fod cuddiad ei gryfder ef yn yr un man a chuddiad cryfder ei Feistr mawr o'i flaen. Yr oedd llonaid ei bregethau o'r elfen ddymunol. Cymerai afael mewn amgylchiadau bychain cyffredin bywyd, pethau hollol adnabyddus i'w wrandawyr, er dwyn gwirioneddau y weinidogaeth yn nes atynt, i fwy o eglurdeb. Nid wyf yn amheu nad ydoedd yn rhy agored weithiau i roddi gormod o liw ffeithiau ar ei ddamegion hanesiol. Gwyddwn ei fod yn ffugio hanesion. Nid oeddwn, ac nid ydwyf, yn ei feio am hyny, fwy nas gallwn feio y Gwaredwr am ddefnyddio yr un dull yn ei ddamegion yntau. Pa beth a ellir ddywe'yd "Yr hauwr a aeth allan i hau," &c., neu "Rhyw wr golu-

dog, yr oedd ganddo oruchwyliwr," &c., neu "Yr oedd *rhyw* wr goludog, ac a wisgid â phorphor," &c. Nid yw Iesu Grist yn gosod y rhai hyn allan fel ffeithiau, er y gallasent ar y pryd fod yn seiliedig ar amgylchiadau neillduol y gwyddai ef am danynt; ac y mae yn eithaf posibl eu bod yn cynrychioli llawer o ffeithiau a gymerasant le yn y byd wedi hyny. Ond "pechod parod" ein cyfaill Mr. Williams oedd gosod ei ddamegion o flaen ei wrandawyr fel hanesion gwirioneddol, a'r rhai hyny wedi cymeryd lle mewn cymydogaethau neillduol.

Yr wyf yn cofio i Mr. Bowen, Plasyparce, Trelech, ei gymeryd i fynu unwaith mewn digrifwch, ar ol i'n cyfaill fod yn pregethu yn Capel y Graig. Gŵyr pawb a adwaenant Mr. Bowen, ei fod yn hen foneddwr gwledig, braf, wedi ei gynysgaeddu â cnryn lawer o ffraethder, ac yn lled ddiofn i ddywe'yd ei feddwl. "Mr. Williams," meddai, "a wyddoch chi debyg i bwy 'wy 'n eich cyfri." "Wel, na wn i," Mr. Bowen," meddai ein cyfaill. "Yn wirionedd fach anwl i, tebyg i'r Seintie (y Mormoniaid wrth gwrs). Pan ddaw y gweilch 'rheiny i Drelech, 'rochr draw i Gaerfyrddin y mae 'r gwyrthie i gyd; a phan 'ran nhw yno, yn Trelech y mae 'r gwrthie. Rhwle draw o hyd mae 'r rhyfeddode." "Ie, ü," meddai yn cyfaill, "de'wch chwi 'n mlaen, beth sydd genyf fi yn debyg iddyn' nhw?" "Wel, yn *seriws*, 'chlywes i mo'noch chi 'rioed yn dywe'yd stori ar eich bregeth na bydde hi wedi dygwydd rhywle draw, gyda 'r *Northmen*, neu 'r Cardies, neu ynte yn y pen arall i'r sir; a phan ewch chi i bregethu bant, gyda ni yn ddigon tebyg y mae 'r cwbl wedi cymeryd lle." Mwynhaodd y pregethwr y *joke* yn ardderchog, a gwyddai yn dda pa beth oedd oreu iddo, oblegid ofer fuasai "gwingo yn erbyn y symbylau."

Ond yr oedd un rhinwedd arbenig yn Mr. Williams, yn wahanol i rai o'i frodyr o'r "hoelion wyth," nid oedd byth yn

dyfod â blodau llawer o bregethau i mewn i'r un. Efallai y dywedwn ormod wrth awgrymu fod hwn yn *nodwedd gyffredin* pregethwyr ein cyfarfodydd blynyddol a'n cymanfaoedd. Pe dilyner rhai o honynt am dri neu bedwar mis yn yr hâf, o esgynlawr y naill gymanfa a chyfarfod i'r llall, er na newidid y testunau yn rhy fynych, eto wedi eu newid, nid rhyw lawer o newydd-deb a ddaw i sylw y bobl. Megis y maent yn Mai y byddant hefyd yn Medi. Os oedd ein cyfaill yn gwneyd gormod o ddilyniad o ambell bregeth, nid oedd yn euog o daflu llawer i'r un. Clywais ef amryw weithiau yn halltu noethder euogion y cyfrwyswaith hwn.

Yr oedd cyfansoddi pregeth bron mor rhwydd a naturiol iddo a'i thraddodi. Nis gellir amhau na bu ugeiniau o weithiau yn dibynu gormod ar barodrwydd ei ddawn, ac na wnaeth lawer o bregethau ar fore Sabboth cydrhwng ei gartref yn y Gelli, a'i gapel yn Ebenezer, Castellnewydd. Gwn am rai o honynt a ddaethant wedi hyny i gael eu hystyried ganddo yn mysg prif bregethau ei fywyd. Yr oeddynt, ys dywed yntau, "fel y gaseg eira," yn casglu atynt wrth gael eu treiglo o fan i fan. Yr oedd "mewn teithiau yn fynych," yn cychwyn boreu dydd Llun, ac heb ddychwelyd cyn nos Sadwrn, fel y credwn ei fod "mewn prinder" erbyn y Sabboth. Ond pan yn wan, teimlai lawer pryd ei fod yn gadarn, a bod ei ofnau yn troi i'r ochr oreu. Bu ei bobl rai troion yn selog dros ei geryddu oblegid ei absenoldeb mynych oddiwrthynt. Plethid "ffiangell o fân reffynau," i'w gosod ar ei wàr, erbyn y Sul. Rhedai ambell Pedr â'r newyddion hyn i'w glustiau, a phenderfynai ymddangos yn ei ddillad goreu ger eu bron y tro nesaf: ac os cawsai afael ar bregeth, a chael "deuparth" o hwyl cyffredin i'w thraddodi, maddeuid iddo "y cwbl oll." Clywais rai o honynt yn dywe'yd dan amgylchiadau fel hyn, eu bod yn foddlawn iddo, ond cael gafael arno unwaith bob mis neu chwech wythnos. Yr oedd yn hynod o boblogaidd

gartref. Ni bu gweinidog yn Nghymru yn fwy felly yn ei gylch ei hun.

Cof genyf i mi unwaith tua dechreu '62, fod yn myned gydag ef o Gastellnewydd i Brynsïon. Yr oeddym ein dau y diwrnod hwnw wedi bod yn prysur ysgrifenu i'r newyddiadur anhymig hwnw a elwid "Cyfaill y Werin." Nid wyf yn cofnodi hyn ond fel engraifft i ddangos ei barodrwydd anghyffredin i gyfansoddi pregeth, neu ynte i adgofio sylwadau a feddyliasid ganddo o'r blaen. Yr oedd yn gyfarfod parotoad yn Brynsïon y noson hono, ac yntau yn ol ei arfer i bregethu yno. Gofynais iddo ar y ffordd, a oedd ganddo rywbeth ar gyfer ei bobl, oblegid gwyddwn na chafodd hamdden drwy 'r dydd i feddwl am ddim. Dywedodd yn bendant nad oedd ganddo ddim, ond nas gwyddai pa beth a allasai "droi i fyny erbyn yr adeg." Fodd bynag, aethom i'r capel, dechreuwyd yr oedfa; ac wedi darllen a gweddïo, gwelwn ef yn codi, ac yn cymeryd ei destun yn 1 Cor. xv. 6,—"Wedi hyny y gwelwyd ef gan fwy na phum cant brobyr," &c. Siaradodd fel *critic* am hanner awr. Aeth heibio i'r tystion gwahanol, a'r tystiolaethau amrywiol oedd i adgyfodiad y Gwaredwr, a phrofodd gyda deheurwydd fod anghysondeb ymddangosiadol yr efengylwyr o'r amgylchiad yn myned yn mhellach i gadarnhau y ffaith o'r adgyfodiad na phe dywedasent yn eglur yr un geiriau. Teimlais ar y pryd fod ynddo barodrwydd tu hwnt i'r cyffredin—parodrwydd i allu cofio, i allu beirniadu, ac i allu d'weyd. Gwir ddywed Bacon, "Fod darllen yn gwneyd dyn llawn, ysgrifenu yn gwneyd dyn cywir, a siarad yn gwneyd dyn parod." Pe buasai ein cyfaill yn eistedd i lawr i ddarllen mwy, ac i ysgrifenu ychwaneg, credaf am dano y buasai yn un o addurniadau penaf ei oes, heb son am ei genedl.

Nid oedd ein cyfaill, fel llawer, yn ddall i'w wendidau. Yr wyf yn sicr na bu erioed yn "synied" am dano ei hunan "uwchlaw yr hyn y dylasai synied." Os teimlai yn mha

bethau yr oedd yn rhagori, gwyddai hefyd fod ganddo ei ddiffygion. Yr oedd yn ddigon hunanymwadol i gyfaddef y blaenaf, ac mor onest a hyny i ymffrostio yn yr olaf. Cewch ambell bregethwr, os yn mlaen ar ei ddosbarth ei hunan mewn *un* peth, a gred hefyd ei fod yn mlaen yn *mhob* peth. Nid oedd Mr. Williams felly. Gwn am dano na fynai gredu ei fod yn y radd flaenaf o fugeiliaid Cymru, er ei fod felly fel pregethwr. Pell ydwyf o gredu nas gallasai fod yn fugail da; ond yr oedd ei absenoldeb mynych oddi cartref o angenrheidrwydd yn lluddias ei ddefnyddioldeb yn y fugeiliaeth. Nid yw ei hanes yn yr ystyr hwn yn eithriad i eiddo pregethwyr mawr ei gydgenedl i gyd. Er y cydnabyddwn y gall pregethwr mawr fod yn fugail da, nid bob amser y cawn y ddau yn cydgyfarfod yn yr un dyn. Nid yw 'r bugail yn wastad yn bregethwr, na'r pregethwr yn fugail.

Clywais ein cyfaill hefyd yn d'weyd am ei ymwybyddiaeth o wendid arall oedd ynddo. Bu, fel y gŵyr darllenwyr y Cofiant hwn, yn olygydd i "Gyfaill y Werin," ac wedi hyny i'r "Byd Cymreig;" a chredaf iddo gyflawnu y gorchwyl arno ei hunan, bron gystal i foddio 'r lluaws, ag a wnaeth yr amryw olygwyr a fu ar olynwyr y newyddiaduron hyn. Ond nid oedd ef er hyny yn credu am dano ei hunan ei fod erioed wedi ei gymhwyso i gymeryd gofal unrhyw gyhoeddiad, bydded yn gylchgrawn misol neu yn newyddiadur wythnosol. O angenrheidrwydd, neu o orfod yn unig, y cymerodd arno y swydd. "Eisteddwch chwi i lawr wrth y *post* i ysgrifenu," meddai wrth gyfaill adnabyddus iawn iddo, "yr ydych chwi wedi eich galw i'r gorchwyl; ac mi wnaf finau fy ngoreu i gael cylchrediad da i'r papur wrth fyn'd yma ac acw ar hyd y wlad i bregethu a darlithio. Dyma yw fy nghryfder i." Nis gallwn gredu ei eiriau yn hollol, er y teimlwn rai gweithiau, wrth ddarllen ei erthyglau, fod gormod o'r elfen areithyddol yn rhedeg drwyddynt.

Yr oedd ein cyfaill fel dyn yn llew ac yn oen—yn "fab y daran" yn gystal ag yn "fab dyddanwch." Os "trigai" fel oen yn "ddiofal" a diniwaid yn ymyl ei gymydog, gallasai hefyd ymladd fel llew pan y sethrid ar ei iawnderau. Achwynodd cymydog iddo unwaith ei fod yn trafaelu yn rhy fynych trwy ei fuarth (*farmyard*); a chan nad oedd yr hen ffordd o'r Gelli i Gastellnewydd yn myned trwy y cyfryw fuarth, ond trwy ganol y caeau, mynodd ein cyfaill agor y ffordd hono allan o law. Yn mhen ychydig, gorfu ar y cymydog yn ostyngedig iawn geisio ganddo wedi hyny ddyfod trwy ei fuarth, gan fod y golled o fyned trwy y caeau gymaint yn fwy. Ni phetrusodd fyned cyn plygu "fel oen" i gymeryd ei "arwain" y ffordd hono drachefn. Er ei fod yn Annibynwr selog, nid oedd ganddo un math o gydymdeimlad â'r dynion bychain a redent i eithafion gwahaniaethol gyda 'u credo. Rhuai fel llew pan y clywai am ambell i weinidog o fysg y Bedyddwyr, a daerai ar lan y pwll neu yr afon, "nad oedd yn ddichonadwy i neb fod yn gadwedig heb ei drochi." Rhoddodd fflangell i un o'r cyfryw unwaith, ac ymddengys iddi gael effaith dda ar y brawd, gan na chlywyd byth mo hono wedi hyny yn gwneyd yr haeriad penboeth. Ond eto nid oedd gweinidog yn Nghymru yn fwy parod i ddarllen a gweddïo wrth erchwyn gwely claf o enwad arall nag yr oedd efe. Fel hyn gallasai fod yn oen ac yn llew pan y byddai galw.

Clywais y llygadog a'r doeth, ond y diweddar Mr. Stephen o'r Brychgoed (parch byth i'w enw), yn cynghori myfyrwyr Aberhonddu unwaith, ar amgylchiad neillduol, ac yn dyweyd wrthynt, "Fechgyn anwyl, pan y teimlwch ac y credwch fod eich hachos yn dda, ymladdwch yn wastad fel llewod,—byddwch yn wŷr; ond cofiwch hefyd, pan fyddo eisieu, i ymddwyn fel ŵyn a cholomenod." Dyma 'r fath oedd ein cyfaill. Os na fedrai "dori y gorsen ysig," a diffodd y "llin oedd yn

mygu," gallasai yn hyf roddi ei droed ar yddfau dynion ymhongar a maleisus. Nid gwiw oedd "bwrw arfau" yn ei erbyn mewn ambell ryfel felly. Gŵyr y sawl a'u hadwaenent oreu nad yw hyn ond "y gwir, a'r holl wir," am dano.

Fel brawd yn y weinidogaeth, gallesid cyfrif Mr. Williams yn un o'r rhai mwyaf rhyddfrydig yn Nghymru. Mentraf na bu yn ail i neb am gredu y goreu am bawb, yn gystal ag am ymddwyn yn garedig tuag at bawb. Yr oedd yn ddiarhebol am ei garedigrwydd; ac er "wedi marw," llefara yn uchel am dano ei hunan yn yr ystyr hwn. Ni chafodd cenfigen erioed lechu yn ei fynwes; ac nis gwyddai pa beth oedd galaru yn ngwyneb llwyddiant ei frodyr, na pha beth oedd llawenydd yn ngwyneb eu cwymp. Os edrychai dipyn "ar yr eiddo ei hun," yr wyf yn berffaith sicr yr edrychai lawn cymaint ar "yr eiddo ereill hefyd." Ni wnai ddrwg i neb, ond gwnaeth ddaioni i gannoedd. Yr wyf yn dywedyd hyn, nid yn unig oddiar adnabyddiaeth am dano, ond hefyd oddiar brofiad o hono. Y mae i mi ddegau o frodyr ieuainc yn y weinidogaeth a allant ddwyn tystiolaeth i wirionedd yr haeriad hwn; a dylem deimlo ein hunain dan deyrnged i edmygu yr elfen hon yn ei goffadwriaeth. Os yn gryf ei hunan i fyned trwy gylchoedd y weinidogaeth, byddai hefyd yn wastad yn barod i gyfranogi o feichiau a thrafferthion ei frodyr lleiaf. Gwnelai ei hunan yn "bobpeth i bawb" o'r dosbarth ieuainc.

Ond fel y rhan amlaf o weinidogion Crist, bu ein cyfaill yn rhwyfo yn y "dyfroedd dyfnion" yn nannedd y tonau, ac yn wyneb y gwyntoedd croesaf. Cafodd ei ran o ofidiau a gorthrymderau y byd; ac er nas medrai fel Paul "orfoleddu" o danynt, eto hyderwn i'r cwbl gydweithio er ei addfedu i'r bywyd. Bu Milton unwaith am "wingo yn erbyn symbylau" y nefoedd yn ei ddallineb; ond cyn ei farw, cawn ef ar ei liniau yn cydnabod Duw am dano. Sut y dywedai,—

"On my bended knee
I recognise *Thy* purpose clearly shown;
My vision *Thou* hast dimmed that I may see
*Thyself*, *Thyself* alone."

Gwn yn helaeth am brofiad Mr. Williams ddyddiau marwolaeth ei anwyl briod, a thrachefn, y misoedd olaf y bu ar y ddaear. Bum yn ei gymdeithas lawer yn yr amgylchiad cyntaf, a chryn tipyn wedi hyny yn yr ail. Synais yn fawr lawer gwaith at y *command* oedd ganddo ar ei deulu gartref wedi colli *y fam*, ac edmygwn ei sel dros, a'i ddefnyddioldeb gyda'r rhai bach, yn y gwasanaidd teuluaidd. Ond gobeithio yr ydwyf fod yr holl "ddagrau" a hauodd mewn bywyd, wedi troi yn fantais iddo "fedi" gorfoledd yr ochr draw. Hauodd lawer o'r cyntaf fisoedd olaf ei ymdeithiad, a diolch byth am le i gredu, oddiwrth ei ganiadau melus ddyddiau ei "ymddattodiad," iddo fyned i'r byd hwnw i fedi y diweddaf. Nid oes gweinidog yn Nghymru a wyddai yn well am ein cyfaill y deng mlynedd diweddaf na 'r ysgrifenydd; ond y mae 'r oll a ysgrifenais yn codi oddiar farn onest, ddiduedd, yn cael ei llywodraethu gan gariad at, a parch i goffadwriaeth yr hwn y credaf y mae "parch yn ddyledus."

# TRAETHODAU.

## I.—BUDDIOLDEB CREFYDD FOREUOL.

GAN mae crefydd yw y peth penaf i ddyn, a'r unig beth a rydd ddedwyddwch sylweddol iddo, hi ydyw y peth blaenaf ddylai pob un ymofyn am dano ; ac wrth wneyd hyn, byddai yn cyflawni cyngor Crist—"Eithr yn gyntaf ceisiwch deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg." (Mat. vi. 33.) Mae buddioldeb crefydd foreuol i'w ganfod yn amlwg wrth ystyried y dylanwad neillduol a gaiff ar ei pherchenog yn y rhan ddilynol o'i oes.

*Mae yn effeithio yn dda ar y corff.* Y mae yn wirionedd nad yw crefydd yn sicrhau iechyd corfforol, eto, mae yn arwain ei pherchenog ar hyd y llwybrau sydd â thuedd ynddynt i ddiogelu iechyd y corff: mae yn arwain yr ieuenctyd yn neillduol i'r manau hyny sydd â thuedd ynddynt i ddiogelu y corff yn gystal a gwellhau yr enaid. Mae hi yn tueddu yr ieuenctyd a'i meddant i ddewis myned i Sion yn hytrach nag i'r tafarndy, i'r Ysgol Sabbothol yn hytrach nag i'r twmpath chwareu, i gwrdd yr ysgolion yn lle y ffair, i'r cwrdd gweddi yn lle i'r neithior, i'r gyfeillach grefyddol yn lle y *cwrw bach*, &c. Mae 'r manau ag y mae crefydd yn arwain ei pherchenog iddynt, a'r gwaith mae yn ei osod o'i flaen, nid yn unig yn ei addasu erbyn y byd a ddaw, ond yn ei arwain yn fwy diogel a chysurus trwy y byd hwn.

*Mae yn effeithio yn dda ar gymeriad ei pherchenog.* Mae dyn yn dyfod i'r byd hwn yn amddifad o gymeriad, ond aiff pob un i'r byd nesaf a'i gymeriad ganddo. Mae dyn yn

dechreu cyfansoddi ei gymeriad yn fore iawn: mae pob gair sydd yn diferu dros ein gwefusau, a phob ymddygiad o'n heiddo, yn bwyth yn ein cymeriadau nas gellir yn hawdd eu dadwneyd; nis dichon y celfyddydwr gyfansoddi dodrefnyn defnyddiol heb offeryn addas i'r gwaith, felly, nis dichon dyn gyfansoddi cymeriad gwir dda heb grefydd. Mae crefydd yn dyrchafu ei pherchenog i anrhydedd gyda Duw, ac yn ganlynol i hyny mae yn ei ddyrchafu i barch ac anrhydedd yn nghyfrif pob bod rhinweddol. Llawer o ieuenctyd oedd a'u cymeriadau yn hardd cyn iddynt fyned i wyneb profedigaethau y byd, ond collasant hwy yno, fel y ddafad yn colli eu gwisg yn nyrysni yr anialwch; ond y mae crefydd yn nerthu ei pherchenog i gadw ei wisg yn lân yn ngwyneb profedigaethau; mae ganddi, "yn nghyd â'r temtasiynau ddihangfa;" mae i'w pherchenog "air da gan bawb, a chan y gwirionedd ei hun;" ac y mae "enw da yn well na 'r enaint gwerthfawr."

*Mae yn effeithio yn dda ar gysylltiadau y bywyd hwn.* Pan mae dyn yn dyfod i'r byd, nis gellir gwybod yn mha ran o hono y bydd yn treulio ei oes, pwy fydd ei gyfeillion, na pha beth fydd ei waith. Pa le bynag y bydd yn byw, pa un ai rhwng bryniau Cymru, ar grâsdir Affrica, ar hyd freision ddolydd Asia, neu baradwysaidd dir America, fe wna crefydd ddaioni iddo yn mhob man; mae yn gwbl addas i bob hinsawdd; a pha swydd bynag fyddo ei pherchenog yn gyflawnu, mae gan grefydd wersi doeth i ddysgu iddo. Os morwr fydd, crefydd a'i dysg i beidio rhoddi ei lestr ar y tònau nes yn mlaenaf gyflwyno ei hun i ofal yr Hwn a roddodd ddeddf i'r môr, ac i'r dyfroedd na thorent ei orchymynion; a phan yr êl allan i'r dyfnder mawr yn gwbl o olwg y tir, ac yn mhell o glyw y cyfaill anwylaf, y gwaelodion yn ymgynhyrfu, y gwyntoedd yn rhuthro yn ofnadwy, y tònau yn taflu i fynu eu ffrydiau cynddeiriog, yr hwyliau yn cael eu darnio, a'r cyfeillion o fewn yn ofni, fe geidw crefydd ei pherchenog

y pryd hwn mewn heddwch â'r Duw mae'r gwyntoedd a'r môr yn tawelu wrth ei orchymyn. Os masnachwr fydd, crefydd a'i dysg i bwyso a mesur yn gyfiawn, oblegid fod ei Feistr mawr yn gweled, a bod y pethau dirgel i gael eu hamlygu; a hi a ddwg ar gof iddo mae "gwell yw ei marsiandiaeth hi na marsiandiaeth o arian, a'i chynyrch hi sydd well nag aur coeth." Os tyddynwr fydd, crefydd a'i dysg i daflu yr hâd i'r ddaear dan yr ystyriaeth mai llaw Duw yn unig ddaw âg ef i fyny; a phan wedi casglu cnydiau'r maesydd yn nghyd, hi a'i harwain ef i dŷ yr Arglwydd â chalon ddrylliog yn aberth o ddiolchgarwch iddo am ei ddoniau; ac a draetha wrtho beunydd, os am gael ysguboriau llawn, "Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth penaf o'th holl ffrwyth." Os gwas fydd, crefydd a'i dysg i fod yn ufydd i'w feistr, i ddywe'yd y gwir yn ei erbyn ei hun yn gystal a chyda ei hun, ac yna fe gaiff barch, oblegid ni fethodd yr ufydd a chael parch erioed. Os morwyn fydd, crefydd a'i hyfforddа i fod yn ddiwyd, yn onest, yn eirwir, ac i fod yn debyg i'r gaethes yn nheulu Naaman. Os penteulu fydd, crefydd a'i cyfarwydda i gynghori ei deulu, i weddio yn eu plith fore a hwyr, ac i roddi cynyg iddynt hwy i wasanaethu yr un Duw ag yntau, ac i roddi y fath esiamplau o'u blaen fel na byddo yn gwrido i weled deg o deulu yn dilyn ei ôl tua'r byd tragywyddol. Os tad fydd, crefydd a'i dysg i fagu ei blant yn ofn yr Arglwydd, gan ystyried mai hwy ydyw yr unig roddion a gafodd y rhieni ag a fydd gyda hwynt mewn byd arall. Os mam fydd, crefydd a'i dysga i fod yn addfwyn, i siarad yn grefyddol yn nghlyw y plant, i'w cynghori yn ddwys, ac i ireiddio ei chynghorion â'i dagrau, ac i ddadleu eu hachos *lle y clywant* ger bron yr Arglwydd. "Duwioldeb sydd fuddiol i bob peth."

*Mae yn effeithio yn dda ar amgylchiadau y bywyd hwn.* Mae y byd hwn yn gyfnewidiol iawn, heddyw yn gwenu, y

fory yn gwgu; weithiau bydd y da yn lluosogi, yr anifeiliaid yn myned ar gynydd, cyfoeth yn dylifo i mewn fel afon, a chyfeillion y pryd hyn yn ei amgylchynu o bob tu. Fe geidw crefydd ei pherchenog mewn llwyddiant rhag myned i fyny mewn balchder a hunanoldeb; hi a'i dysg i gofio fod cyfoeth fel yr aderyn, er ei fod yn canu yn beraidd ar y llwyn hyn hedd-yw, 'does neb yn gwybod ar ba lwyn bydd y fory; dywed wrtho yn barhaus mewn llwyddiant:—"Os cynydda golud, na rodd-wch eich calon arno;" brydiau eraill bydd lliw gwahanol ar y byd, yr eidion yn myned o'r beudy, a'r ddafad o'r gorlan, ffrwyth y ddaear yn pallu, a'r cyfeillion (y rhai a wnawd trwy gyfoeth) yn cilio draw, ond fe geidw crefydd ei pherchenog mewn adfyd rhag myned i dir anobaith; hi a ddwg ar gof iddo am Job fu unwaith yn gyfoethog iawn, wedi hyny heb ddim ond cragen i ymgrafu ar y domen, a'i wraig ei hun wedi troi yn ei erbyn. Iaith wastadol crefydd i rai mewn adfyd yw—"Nid yw bywyd neb yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo." Os nad yw crefydd yn cadw rhag gorthrymder, mae yn cynal mewn gorthrymder; os na ddaw â'r sefyllfa at y meddwl, hi ddaw â'r meddwl at y sefyllfa; os na ddaw â chyfoeth i mewn, hi a ddysg ei pherchenog i fod yn foddlon ar yr hyn sydd ganddo.

*Mae yn effeithio yn dda ar ddyddiau henaint.* Mae dyn fyddo wedi treulio ei oes gyda chrefydd, yn gallu edrych yn ol yn gysurus arni pan y bydd ar ei therfyn; gall gyduno i ddywe'yd gyda Phêr-ganiedydd Israel, "Ti yw fy ymddiried o'm ieuenctyd, na fwrw fi ymaith yn amser henaint, ac na wrthod fi pan ballo fy nerth." Y mae hen ddisgybl ar faes crefydd, fel hen filwr a fyddo wedi treulio blodau ei ddyddiau ar faes y gwaed; y mae nodau un teilwng o gymorth arno—ei fraich wedi ei thori yn y frwydr hyn, a'i glun wedi ei hanurddo yn yr ymladdfa arall; y llygad wedi ei dynu gan y gelyn arall, o hyny allan fe gaiff wobr-gyflog

(*pension*) gan y llywodraeth i'w gynal yn gysurus yn ei henaint. Felly mae Duw yn ymddwyn at yr hen ddisgybl, pan mae y cefn wedi crymu, y pren almon yn blodeuo, y traed yn methu teithio i'r oedfaon fel y buont, a'r llygaid yn methu craffu ar addewidion y Bibl fel cynt; ond y mae ei Dduw yn cofio am dano, ac yn ymddwyn ato fel gwas fu yn ffyddlon tra y gallodd: mae yn ei wledda yn ei fwthyn gartref. Ni chaiff fod arno eisiau dim daioni; ac O! mor hyfryd fydd edrych yn ol ar ei yrfa trwy y glyn, meddwl am y bregeth dan ba un y gwelodd ei gyflwr gyntaf, am y tro cyntaf yr aeth i blith teulu Sion dan wylo, am yr ystafell yr aeth ar ei liniau flaenaf, ac y meddyliodd na chawsai nerth i godi, am gornelau y caeau y bu yn ymdrechu am y fendith, pan nad oedd ond Duw ag yntau, am y bwthyn bach rhwng y bryniau y dechreuodd weddio yn gyhoeddus yn mhlith y brodyr, a llawer cyfarfod hwylus a gafodd pan y bu ei delyn yn melus ganu clodydd y Gwr a'i cofiodd yn ei isel radd. Fy anwyl gyd-ieuenctyd, mae 'r oes yn fer, a'r bywyd yn ansicr, ac iechydwriaeth yr enaid yn bwysig; gan hyny, ymofynwch grefydd yn moreu eich dyddiau.*

---

## II.—Y PAGAN.

Yn y traethodyn canlynol, amcenir i gyffroi yn yr eglwysi yn gyffredinol deimladau dwysach dros y pagan pell. Er cymaint sydd wedi ei ddyweyd a'i argraffu am y pagan, dichon fod llawer o ddynion o fewn cylchrediad y *Diwygiwr* mewn graddau mawr o anwybodaeth am dano; ac oblegid hyny, yn amddifad o deimladau priodol drosto, ac yn ganlynol

* Diwygiwr, Mai 1842, Tudal 139.

yn gomedd gwneyd ymdrechion teilwng i'w waredu o "gaethiwed llygredigaeth i ryddid gogoneddus plant Duw." Cawn ymdrîn ag achos y pagan yn y dull syml a ganlyn:—

*Beth yw'r pagan? Dyn ydyw.* Creadur rhesymol. Mae yn meddu corff ac enaid—corff o'r un defnyddiau gwreiddiol, yn ddeiliad yr un deddfau, yn agored i'r un angenion, ac yn ddarostyngedig i'r un dynged a'r eiddom ni. "Pridd yw ac i'r pridd y dychwel." Nid yw corff y pagan mor dlws a chorff y Cristion; nid yw mor hyfryd ei liw, mor landeg ei wedd, nac mor wych ei wisg. Mae cymaint o gywreinrwydd a doethineb *creadigol* i'w ganfod yn nghorff y pagan ag eiddo y Cristion; ond nid oes cymaint o brydferthwch *addurniadol* yn perthyn iddo. Nid yw ei wyneb yn myned dan weinidogaeth y dwr a'r sebon bob boreu, ei ên yn cael teimlo yr ellyn bob wythnos, na chnwd ei ben wedi dygwydd bod dan fin y gwelleifyn erioed. Nid yw yn cael ei wisgo â'r gwlân cynhes, na'i harddu â'r sidan teg. Mae anwareiddiwch ei feddwl yn peri iddo esgeuluso triniaeth ei gorff i gymaint graddau, fel, pe cyfarfyddem ag ef heddyw, byddai i ni ddychrynu rhagddo, er mai *dyn* ydyw. Mae ganddo *enaid*—gwreichionen anfarwol. Hyn sydd wedi ei ddwyn yn destun siarad, ymdrech, a gweddi y byd Cristionogol. Mae llawer o greaduriaid hynod, perlau gwerthfawr, a phethau drud yn y byd paganaidd, nad ydynt yn ein gwlad ni. Paham y daeth y pagan yn destun ein siarad yn rhagor i'r pethau hyn? Oblegid ei fod yn berl gwerthfawrocach na hwynt oll; oblegid fod anfarwoldeb yn argraffedig ar ei fynwes; oblegid ei fod yn ymgeisydd am ailfyd. Ond er fod enaid ganddo, enaid heb faeth ydyw, ac felly enaid aflan ei foes; "Enaid heb wybodaeth" ydyw, ac oblegid hyny "nid yw dda" Mae yn meddu galluoedd cryfion, ond nid ydynt wedi cael cyfle i ddadblygu erioed. Mae tonau anwybodaeth yn ei rwystro i ddyfod i weithrediad, fel dyrysni yr anialwch yn atal agoriad blodeuyn mis Mai.

Mae y maen sydd yn y gloddfa mor *werthfawr* a'r hwn sydd yn y mur, ond nid yw mor *hardd*, oblegid y driniaeth gafodd yr olaf. Felly mae enaid y pagan mor werthfawr, a'i alluoedd mor gryfion ag eiddo y Cristion; pe ca'i yr un driniaeth dadblygai mor hardd, llanwai gylch mor ddefnyddiol ag yntau. Medrai weithio pe ca'i rhywun i'w gyfarwyddo. Medrai ddringo grisiau holl wybodaethau y byd gwareiddiedig, pe ca'i rhyw gyfaill i agor y dorau, a'i ollwng yn rhydd.

*Pwy yw 'r pagan?* Ein *brawd* yw. Nid yw holl genedloedd y ddaear amgen amryw fân gangenau, tarddedig oddi ar yr un boncyff. Er mor wasgaredig yw y cangenau, dilyner hwynt yn ol, ceir eu gwraidd yn Eden. Yr oeddem oll un boreu gyda 'n gilydd yn nhŷ ein Tad, ond y mae rhagluniaeth Iôr, erbyn hyn, wedi ein gwasgaru yn mhell oddi wrth ein gilydd. Ond er fod sefyllfa y blaned ddaearol wedi gosod tonog furiau rhyngom, gwahanol hinsoddau (yn nghyd â phethau eraill), wedi ein gwneyd yn amrywiawg ein lliwiau, cymysgfa Babel wedi ein gwneyd yn annealladwy i'n gilydd, eto mae yr un berthynas yn aros, a hi a erys byth. "Brodyr ydym ni oll." Os ynfyd yw y pagan i ymdrechu mewn afonydd i buro ei gydwybod euog, ein *brawd* sydd yn ynfyd. Os ffol yw fod dyn yn cymeryd pererindodau pell i gael maddeuant pechod, un ffol yw ein *brawd.* Onid creulawn yw fod dyn yn ymborthi ar gnawd dyn arall? mae ein *brawd* ni yn euog o hyn. Gan mai ein brawd sydd yn y cyflwr hwn, mae yn bryd i ni wrido, teimlo, a gweithredu.

*Pa le mae 'r pagan?* Nid un o frodorion y lleuad, neu breswyliwr dyeithriol y planedau ydyw; ond un wedi ei feithrin ar y blaned ddaearol. Mae heddyw yn sengu yr un ddaear, yn yfed yr un awyr, yn ymbleseru yn ngoleu a gwres yr un haul, ac yn llechu dan fantell glud yr un Rhagluniaeth a'r darllenydd. Nid yw ein planed ni ond un palas hardd, rhanedig i amryw ystafelloedd. Mae y pagan a ninnau yn yr un

palas, ond nid yn yr un ystafell. Yr ydym yn ymddifyru ar yr un maes, ond nid ar yr un cŵr o hono; "y maes yw y byd." Mae llydain ddyfrllyd gloddiau rhyngom. Er nad ydym wedi gweled gwynebau ein gilydd erioed, eto nid ydym yn gwbl ddyeithr. Mae y Negro du a'r Cymro gwŷn yn gweled yr un haul bob dydd. Pe elem dros frigwyn donau Môr y Werydd i hoff dir America—Eden bresenol y blaned ddaearol, caem yno filiynau o'n brodyr "yn eistedd yn mro a chysgod angeu." Pe elem drosodd eilwaith i bumed dorbarth ein planed, a brâs-deithio mân ynysoedd Môr y De, cyfarfyddem â lluoedd o'n brodyr yn byw mewn trigfanau tywyll yn llawn trawsder. Pe elem trwy yr India Orllewinol, ac Affrica Ddeheuol, a'r ynysoedd Affricanaidd, Mauritius a Madagascar, maes y bu bechgyn a fagwyd ar fryniau Cymru yn llafurio ynddo, mae yn y parthau hyn dyrfaoedd o'n brodyr yn "methu o eisieu gwybodaeth." Pe cymerem daith gyda'r awel orllewinol dros Fôr y Canoldir, i feusydd Asia, awyr pa un a burwyd gan anadl Iachawdwr y byd, tir a sancteiddiwyd ag ôl traed brodorion nef, ac a anrhydeddwyd ag anthemau prophwydi boreuol; a phe teithiem o eithafoedd yr India Orllewinol trwy wastadedd Hindwstan, i mewn dros uchel furiau China; yn y gwledydd eang hyn caem gannoedd o filoedd o'n brodyr yn eistedd mewn tywyllwch a thrueni, yn gofyn i ni sydd yn y goleu, "Beth am y nos?" Wrth hyn ni welwn nad *estron* yw y pagan, ond brawd a chymydog yn cyd-deithio â ni tua'r gymanfa fawr. Pe byddai y darllenydd ond cymeryd taith gyffelyb i'r hon a nodwyd, ca'i brofion digonol mai "gwir yw y gair" ddywedir ac a argreffir am y pagan, a'i fod "yn haeddu pob derbyniad." Ond tybiaf fod miloedd y byd Cristionogol yn barod i dd'weyd am y pagan, "Yr hwn, er nas gwelsom, yn ydym yn ei garu;" ac y mae grym ein cariad ato, yn nghyd â dylanwad cariad y Crist fu farw drosom ni ac yntau, yn myned â ni mewn ymdrechion blyneddol ato.

*Beth yw cyflwr a sefyllfa'r Pagan.* Mae ei sefyllfa yn waelach nas gall tafod draethu, a'i gyflwr yn druenusach nas gall meddwl ddychymygu. Nid oes ganddo ddillad i'w gludo, na gwisg i guddio ei noethni. Nid oes ganddo dŷ i fyw, na lloches i'w ymgeleddu rhag yr ystorom. Pan y mae lleni y nos yn ymdaenu dros gŷrau y llawr, nid oes ganddo annedd i fyned iddi, aelwyd glud i'w ymgeleddu, canwyll i'w oleuo, bwrdd i ddynesu ato, na thamaid parotöedig i roi arno, ystafell i orphwys, na gwely i huno. Pan ddaw y gauaf oer, a'r eira gwŷn dros y ddaear, byddwn ni yn casglu y praidd, a'n gwisgoedd gwlanenog cynes oddiar glogwyn y mynydd, gan farnu fod y tywydd yn rhy arw iddynt fyw yno: ond y mae ein brawd, y pagan, allan yn yr awyr noeth, hâf a gauaf, oerni a gwres. Ei groen yw ei wisg, yr anialwch yw ei breswyl, bwystfilod yw ei gymdeithion, y llawr yw ei wely, a'i greulondeb yw ei gweidwad. Mae gan adar Cymru fwy o barch i'w rhai bach nag sydd gan y pagan i'w blentyn. Genir ef ar y maes heb un wisg i roi am dano, na thamaid i roi iddo. Dygir ef i fyny o'r bru yn wylltiad anwâr. Os digwydd fod yn anffurfiog ei gorff, rhydd ei dad ef i farwolaeth oblegid hyny. Os bydd eisiau boddloni y duwiau, rhydd y tad ei gyntafanedig yn aberth iddynt. Os bydd newyn ar y tad, gesyd ei blentyn i farwolaeth, tŷr ei newyn a'i gnawd, a'i syched â'i waed. Caiff y mân greaduriaid o gylch y tŷ fwy o barch gan wragedd Prydain, nag a gaiff y wraig gan y pagan. Mae llawer o wragedd gan yr un, a dim parch *gwraig* iddynt i gyd. Pan yw yn glaf, nid oes meddyg i dd'od ato, perthynasau i weini iddo, tamaid blasus i gymeryd, na llymaid melus i roi ar ei enau. Mae mwy o ofal gan dyddynwyr Cymru am eu hanifeiliad mewn cyfyngderau nag sydd gan y paganiaid am eu gilydd. Mae y pagan yn gwneyd duw o bob peth ond y "gwir Dduw." Meddylia am y Duw mawr ei fod yn bob peth ond yr hyn ydyw. Mae ganddo amryw dduwiau, ond

nid oes ganddo un a all ei waredu. Mae ganddo ryw dybiau dychymygol am sefyllfa ddyfodol, ond *dychymygol* ydynt. Mae yn deimladwy o euogrwydd mynwesol—ei fod wedi digio rhyw dduw mawr, ond nis gwyr pwy mae wedi ddigio, pa fodd y digiodd ef, na pha fodd i gael cymod âg ef. Nid yw yn gwybod am yr hwn sydd yn "cymodi y byd âg ef ei hun heb gyfrif iddynt eu pechodau." Mae ei drueni yn fawr arno.

*Beth wnawn ni i'r pagan?* Anfon iddo brif drysor ein gwlad, etifeddiaeth benaf ein talaith, "Efengyl y tangnefedd," "dyrchafydd ein pen" o ffos anwybodaeth a phydewau llygredig. "Y mae i ni etifeddiaeth deg," rhaid i ni ranu â'n brawd sydd heb ddim, ac wedi rhanu, ni bydd ein rhan ni ddim yn llai, mae ganddo gystal hawl iddi a ninau, yn ol ewyllys ein Brawd henaf. Er fod ein brawd yn mhell, mae llwybr tramwy agored rhyngom: mae ffordd y môr yn rhydd, llwybrau y dyfroedd cryfion yn adnabyddus i fechgyn Prydain; mae y pyrth wedi eu hagor, a'r dorau wedi eu taflu led y pen. Mae y pagan yn garedig iawn i ni—mae yn anfon goreuon ffrwythau ei wlad drosodd i ni. Mae y caethwas Affricanaidd yn yr India Orllewinol yn llafurio yn galed yn mhoethder gwres yr haul i barotoi *rice*, triagl, a siwgr, i'w ddanfon drosodd i lenwi ein byrddau a melusu ein tamaid ni. Pe elem i China, caem weled degau o filoedd o'n brodyr yn ddiwyd yn y cynhauaf *tea*—rhai yn planu y pren, rhai yn tynu ei ddail, rhai yn eu gosod wrth agerdd dwfr berwedig i addfedu, eraill yn eu taenu allan i sychu, ac eraill yn eu cludo i'r traeth i'w hanfon naw mil o filldiroedd, fel byddo i wyr a gwragedd Prydain gael diod sobr hyfryd gyda eu bwydydd foreu a nawn. Mae bechgyn a genethod India a Persia yn ofalus iawn am drwsiad a meithriniad pryf y sidan—yn ddiwyd yn dirwyn a chyfrodeddu yr edafedd teg a ddeillia oddiwrtho, fel y byddo i foneddigesau Cymru gael eu haddurno â goreuon bethau natur a chelfyddid. Wrth hyn mae yn

eglur fod llwybr tramwy agored rhyngom a'r pagan, a'n bod mewn *dyled iddo.* Os nad ydym wedi gweled *gwyneb* y pagan erioed, yr ydym wedi bwyta llawer tamaid ddaeth trwy ei *law* ef—mae yn anfon pethau goreu ei wlad i ni, dylem ninau wneyd yr un gymwynas iddo yntau. Os yw ein pethau ni yn well, canmolwn ein braint. Mae yr unig feddyginiaeth angenrheidiol ar y pagan yn ein meddiant ni, a phob cyfleusdra i'w hanfon drosodd. Mae y môr a'i gryfion donau yn dywe'yd *parod*—y llongau a'r morwyr yn dywe'yd *parod*—cenadau cyfarwydd yn iaith y pagan yn dywe'yd *parod*—y pagan a'i drueni yn dywe'yd *parod.* Mae y peiriant cenadol mewn gweithrediad. Pe byddai i haelioni y byd crefyddol ddiferu digon o olew ar ei olwynion, byddai iddo cyn hir dywallt ffrydiau iachusol dwfr y bywyd dros holl derfynau ein planed hoff. Mae Cristionogion Cymru yn barod i ofyn erbyn hyn, Beth sydd genym ni i wneud? Rhoddi. Beth a roddwn? Eich cyfraniadau iddo a'ch gweddïau drosto. Gofala Duw am eich gweddïau, a'i bobl am eich rhoddion. Er nad yw y pagan yn alluog i dd'od drosodd ei hun, mae yn anfon ei gais atom bob blwyddyn; mae yn estyn ei law yn y casgliad cenhadol sydd yn cael ei wneud yn eglwysi Cymru bob blwyddyn, a'i iaith wrth y bwrdd yw, "*Pity the sorrows of the poor pagan.*" Wyr! a ellwch chwi wrando cwyn mor deilwng, wedi ei ddanfon o wlad mor bell, heb deimlo, a *rhoi iddo.* Wragedd! a fedrwch chwi edrych ar fôd anfarwol mewn sefyllfa mor resynol, heb wylo *a rhoi iddo.* Feibion a merched! a ydyw yn ddichonadwy i chwi roi clust i gais mor ostyngedig, heb gael eich cyffroi i wneud aberth, *a rhoi iddo.* Blant bychain! a all eich llygaid chwi syllu ar law y Negro du yn estynedig atoch yn nhrysorfa y Gymdeithas Genhadol heb gadw eich dimeuau *a'u rhoi iddo.* Mae rhyw rai yn barod i ofyn, Faint ddylaswn i roddi? "Nac edrychwch ar eich gilydd," nac "ymgynghorwch â chig a gwaed." Peid-

iwch siarad â blys, ond ewch yn hytrach i Galfaria, sefwch ronyn yn awyrgylch y groes, syllwch ar Iachawdwr y byd yn marw, rhoddwch glust i ddisgyniad y "gwerthfawr waed" dywalltwyd drosoch—pwyswch eich pen ar fonwes waedlyd y Ceidwad, a gosodwch eich llaw yn ymyl y waywffon, ac yna gofynwch, "A pha faint o ddyled sydd arnaf fi i'm Harglwydd?" Dychwelwch gyda ffrydiau y gwaed hyd at drysorfa y pagan, yna teflwch i mewn iddi. Tebyg genyf y gellir dywe'yd am eich rhodd yn ol llaw, "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth."

Gristionogion hoff! mae y byd wedi myned o'i le, mae Crist wedi *marw* er mwyn ei adferu—a wnewch chwi fyw i'r un dyben? Mae yr amcan mawr wedi ei gyrhaedd mewn rhan; mae y gorchwyl bendigaid o adferu y byd yn myned rhagddo. Pe buasem wedi hau mwy, buasem wedi medi ychwaneg. De'wch yn fyddinoedd i'r maes, yna fe fedir "cynhauaf y ddaear" yn y man. Teflwch eich rhoddion, a diferwch eich dagrau ar olwynion y peiriant cenhadol, dyrchefwch eich gweddïau at yr orsedd lân, yna ni gawn gwrdd cyn hir yn y gymanfa fawr ar fynydd Sion, pryd bydd y pagan du yn ei ŵn gwŷn, a ninau yn d'od i'w gyfarfod heb wrid ar ein gwynebau. Ydwyf dros y pagan, yr eiddoch yn serchog.*

---

## III.—Y MAE DYN I FYW BYTH.

EGLUR yw fod dyn i farw. Llais Dadguddiad Dwyfol, a hanesiaeth y teulu dynol, a gyd-dystiant am dano yn ei ogoniant mwyaf a'i harddwch penaf, "y marwol hwn." Nid dygwyddiad anghyffredin, neu ddamwain anffodus, yw fod

* Diwygiwr, Chwef., 1845. Tudal 43.

dyn yn marw, ond deddf sefydlog Llywydd y byd. "Gosodwyd i ddynion farw unwaith." Mae marwoldeb dyn yn beth hollol amlwg: "Y byw a wyddant y byddant feirw." Y llinell olaf yn hanesiaeth goffadwriaethol pob un o enwogion yr oesoedd gynt, yw "Efe a fu farw." Deallwn yn rhwydd, heb i neb fynegu i ni, mai cenedl ieuanc a breswylia y ddaear yn bresenol; nid oes hen bobl yn y byd i'w cael. Y mae yma hen dyrau, cestyll, a choedydd, dim hen ddynion. Ceir ambell un yma a thraw wedi byw cant o flynyddoedd. Gwr ieuanc yw hwnw wrth ei gymharu â'r dderwen gadarn, dewfrig, a leda ei gwraidd, ac a estyn ei changau wrth gefn ei dŷ. Yr oedd ei changau hi yn ddigon cryfion i dori grym yr awelon y noswaith ystormus y ganwyd ei dadcu; yr oedd yn wyrddlas gan ddail y boreu y daeth ei dad i'r byd, a bydd ei brigau yn dyferu dagrau hiraeth dydd ei angladd yntau. Pobl ieuainc a dyfodiaid diweddar yw holl ddynion y byd. Mae barn pawb yn unol am *farwoldeb* dyn; ond hynod yw eu dychymygion, ac amrywiol eu tybiau am ei *anfarwoldeb.* Marwoldeb dyn sydd wirionedd a addefir yn mhob gwlad, ac yn erthygl gymeradwy yn mhob credo. Yr Ymeillduwr a'r Eglwyswr, y Protestant a'r Pabydd, yr Iuddew a'r Cristion, y Mahomedan a'r pagan, yr annuwiol a'r anffyddwr, oll a addefant fod dyn i farw. Medrwn yn rhwydd, ond cael lamp hanesyddiaeth yn ein llaw, ddilyn olion traed ein hynafiaid i'r bedd, a gwybod y fan y disgynodd "y pridd i'r pridd." Wedi rhoi y corff yn y bedd, dechreua y byw ddadleu am dynghed y marw. Mŷn yr anffyddiwr iddo fyned i lawr i'r bedd yn gyfan a chyflawn—ei fod ar ben ei daith, wedi cyrhaedd ei artref bythol, ac na bydd mwy o hono. Dychymyga y pagan iddo fyned lawr yn gyfan, ond y cyfyd cyfran o hono ryw bryd i ryw le; nis gwyr pa bryd y cyfyd, nac i ba le yr â wedi hyny. Solomon yntau, yn ngoleuni Iuddewaeth, a rydd ei farn ar y pwnc: "Ac y dychwel at Dduw yr hwn a'i

rhoes ef." Iesu Grist yn nameg y goludog a Lazarus, a rydd oleu pellach, boddhaol a therfynol, ar y pwnc pwysig hwn. Dygwyd "bywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl." Gofynwyd i mi unwaith gan blentyn bychan, A fydd dyn byw ar ol iddo farw. Atebais ar y pryd yn gadarnhaol, *Bydd.* Wedi hyny bum yn meddwl am ychydig ffeithiau i brofi fy ngosodiad, ac wele hwynt mewn dull syml y gall plentyn eu hamgyffred.

*Bydd byw, oblegid y mae am fyw.* Mae bywyd yn anwyl gan ddyn: hoffa fywyd pe byddai ganddo ond ychydig o'i gysuron. Dymuna y tlawd gael byw, er bod ei wisg yn garpiog, ei fwth yn wael, a'i damaid yn brin. Y claf ar ei wely, yn "bwyta bara gofidiau, ac yn yfed dwfr gorthrymder," sydd yn awyddus i gael byw. Gwell gan y carcharor yn ei gell dywell, dan ei gadwyn drom, gael byw i mewn na marw maes. Dewisa y troseddwr alltudiaeth am ei oes i wlad estronol, yn hytrach na marw ar y pren. Cariad at fywyd yw y ddeddf; blino arno yw yr eithriad. Credwyf yr hoffai ambell adyn pechadurus gael ei ddifodi; nid am fod difodaeth yn beth dymunol ynddo ei hun, ond dewis y drwg lleiaf o ddau y mae—difodaeth yn hytrach na chosb. Gwelwyd cymydog weithiau yn dyfod ar neges at y tŷ pan oedd ychydig ymwelwyr trwsiadus i fewn; gomeddodd ddyfod i mewn atynt, nid am nad hoffai yr ymwelwyr; buasai yn dda ganddo eu cwmni, a chael rhan o'r wledd, ond gwyddai nas gallai fwynhau ei hun, gan ei fod mewn gwisg wael, ac y gwyddai eu bod hwy oll ar eu goreu. Yr un modd y mae dyn annuwiol, wedi treulio oes lygredig, a gorphen gyrfa aflan, yn ymyl marw; dymunai guddio ei hunan dros byth dan aden y graig fawr; nid am fod hyny yn beth dymunol ynddo ei hun, ond am fod hyny yn well na gwynebu ar ganlyniadau bywyd pechadurus. Gŵyr nad yw yn gymwys i gwmni gwych gwlad "y goleu a'r gân," ac nid yw yn hoffi bod byth yn nghymdeithas

tylwyth gwael a thruenus y pwll obry; gan hyny gwell fyddai ganddo fyned o olwg pob peth am byth. Blina y Cristion weithiau ar fywyd yn ei drafferthion presenol. Felly yr oedd Job, "Ffieiddiais einioes; ni fynwn fyw byth." Dro arall dywedai, "O na chuddit fi yn y bedd, na 'm cedwit yn ddirgel." Nid yn y bedd am byth a feddyliai yr hen batriarch; "Nes troi dy lid ymaith." Dymuno yr oedd gael llechu mewn dirgel fan nes elai yr ystorom heibio—myned i'r gwely cudd tra byddai y gafod yn pasio. Yr oedd Job, er y cwbl, yn dymuno bod mewn cof a chadw: "Na osodit amser nodedig i mi a'm cofio." Ni hoffai anghofrwydd bythol. Mae awydd byw, gan hyny, yn naturiol i ddyn. Gosodwyd y duedd hon ynddo gan law Awdwr natur ei hun. Pob tuedd wreiddiol a diniwed sydd yn y natur ddynol, y mae y Creawdwr wedi bwriadu eu boddhau i'r eithaf. Teimla dyn awydd bwyd a diod, ac y mae natur yn llawn defnyddiau i dori ei angen. Mae yn awyddus i gymdeithas, a threfnodd y Llywydd doeth gymdeithas ar ei gyfer. Gan ei fod am fyw, efe a gaiff fyw—y mae oes fyth-barhaol o fywyd o'i flaen: gan hyny, nid yw dyn wrth farw ond dechreu byw—myned trwy borth amser i deml fawr anfarwoldeb—gadael y porthladd, a hwylio i gefnfor bywyd, lle y bydd yn nofio mewn bywyd byth.

*Bydd byw, oblegid y mae yn fod cymwys i fyw.* Nid yw byw yn effeithio arno. Nid yw yn gwaelu ac yn heneiddio wrth fyw. Gwaela ac heneiddia y wisg, sef y corff; ond gwych ac ieuanc yw y dyn—yr enaid. Mae yr enaid o natur rhy ysbrydol a goruchel i wanhau a darfod fel y corff, yr hwn sydd ddaearol. Dengys hanes cread dyn y gorucheledd hwn: "A'r Arglwydd a anadlasai yn ei ffroenau ef anadl einioes, a'r dyn a aeth yn enaid byw." Gorchymyn yn awdurdodol holl ddefnyddiau y cread i'w dullwedd presenol a wnai y Creawdwr, "Bydded," ac ufyddhaodd yr oll; ond pan yn rhoddi

bywyd yn y dyn, "*anadlodd ynddo.*" Dyma fôd uwch, nes perthynas i'r Creawdwr nâ dim a grewyd yn flaenorol. Rhywbeth o fynwes y Duwdod yw y dyn. Gwir i'w gwymp buan ddiosg ei ddelw hardd, annurddo ei gymeriad pur, a sychu prif ffynonell ei gysuron; ond nid effeithiodd yr ystorom hono ar nerth ei natur; y mae mor gryf i fyw ag erioed. Trwy eu trosedd collodd yr angelion eu trigfan ddedwydd, eu hadd-urn sanctaidd, eu cwmni urddasol, a'u mwyniant goruchel; ond dim o'u nherth. "Y cryf arfog" yw Satan heddyw. Rhodia oddiamgylch, nid fel eiddil llesg ac ofnus, ond fel "llew rhuadwy." Nid oes traul na thrafferth i gadw yr enaid yn fyw. Pridd yw y corff, ac i'r "pridd y dychwel" ar waethaf pawb a phob peth. Os byddir yn ddiofal am dano, ceir teimlo yn fuan. Nis gall fyw yn faith heb fwyd. Yn mhen ychydig flynyddoedd y mae yn tynu tua 'r bedd. Nid yw yn bosibl ei attal. Er ei attegu â moddion a meddygin-iaeth, dwfr y môr ac awel y mynydd, i lawr yr â; y mae yn rhy drwm, daearol a marwol i sefyll i tyny. Cwbl wahanol yw yr enaid Nid yw y blynyddoedd yn gwneyd eu hôl arno. Bydd farw y corff heb gyffwrdd â bywyd yr enaid—mor fyw drannoeth i angeu ag y bu erioed—yn ddyn cyfan a chyflawn yn rhywle, ond fod angeu wedi diosg ei wisg. Gall enaid fyw mewn lle gwael a chyflwr truenus. Anmhosibl i fynyddoedd o euogrwydd nac afonydd o drueni wasgu allan y wreichionen fywiol. Bydd byw yn uffern byth. Heblaw bod dyn yn meddu natur digon cryf i fyw, mae ganddo ddoethineb i ddarparu ar gyfer y byw byth. Dealla yn burion fod cysylltiad rhwng yr hyn yw a'r hyn fydd, yr hyn wna a'r hyn ga. Hyn a'i cyfansodda yn ddeiliad llywodraeth foesol. Dyn yw yr unig fôd yn y byd hwn a all dderbyn argraff oddiwrth addewidion a bygythion am bethau dyfodol. Ond i'r ŷch gael gwledd o feillion braf, gorwedda i lawr yn dawel ar y weirglodd, gan gnoi ei gil ar ei damaid, yn hollol fodd-

haol ar yr hyn a gafodd, a'i feddwl ddim yn codi yn uwch na 'i gorn. Nid oes ganddo gynllun am ddim yn mlaen, ac nis medr weled yn mhell. Nid yw dyn felly; mae yn fwy ac uwch bôd. Medr weled yn mhell, a chredwn nad yw yn gweled yn mhellach nag y ca fyned. Credwn na fuasai y Creawdwr doeth yn gwneyd dyn yn fôd mor fawr, oni bai fod rhywbeth mawr o'i flaen. Mae yn ormod o fôd i'r byd hwn. Nis gellir cadw ei feddwl o fewn ei derfynau; y mae yn agor yn naturiol am sefyllfa uwch a gwell.

*Bydd byw, oblegid mae yn gwella wrth fyw.* Medr yr anifail ddysgu ychydig; ond dysg ei gwbl yn dra buan. Cyrhaedda ganolddydd ei yrfa yn mhen ychydig flyneddau, a phe cai oes Fethuselamaidd i fyw, ni ddeuai byth yn well. Mae meddwl yn gwella wrth fyw. Medr wella ei waith ei hunan. Anghelfydd, annyben, a thrafferthus iawn oedd y llong gyntaf; ond y mae y gelfyddyd hono yn cael ei pherffeithio yn raddol. Llestri mwy a rhagorach yn cael eu hadeiladu o hyd. Medrant rwygo yr eigion yn rhwyddach, a chyrhaedd pen y daith yn gyflymach. Darperir llestri yn awr i groesi y Werydd mewn pnm niwrnod. Yr un fath mae gwelliant cyflym mewn cyfleusdra i deithio, cludo newyddion, &c. Gwelwyd ambell un yn ysgrifenu llyfr ar bwnc dyrus pan yn ddyn ieuanc. Yn mhen deng mlynedd daeth allan ail argraphiad, a hysbysiad ar y ddalen gyntaf ei fod wedi ei wella, a'i helaethu i raddau mawr. Argraphwyd ef y drydedd waith, pan oedd yn awr yn ei hen ddyddiau, a dywedai yr un peth wrth ei ddarllenwyr, wedi ei wella eto. Darllen a myfyrio, yn nghyd â phrofiad blyneddau, yn galluogi yr awdwr i wella ei waith ei hun. Diau pe cai yr awdwr duwiol a dysgedig edrych dros y copi yn mhen blwyddyn wedi myned i athrofa y drydedd nef, a chael cenad i ddanfon argraphiad o hono drwy y wasg, y byddai y gwelliant yn hynod iawn. Nid yw yr anifail yn fôd cymwys i gael aros

yn hir ar chwareufwrdd bywyd, gan na fedr dd'od â dim newydd i'r golwg. Rhaid i bob un gilio ffwrdd o'r ffordd pan nad oes ganddo rywbeth newydd i'w ddangos. Dengys yr anifail ei holl gywreinrwydd ar fyr amser. Y mae dyn yn alluog i chwareu ei ran yn enwog yn *nrama* fawr bywyd. Y mae ganddo ei gynlluniau a'i ddyfeisiau newyddion. Ceidw gymdeithas mewn cyffro parhaus, a gwna i'w edrychwyr chwerthin ac wylo pan y myno. Y mae ganddo ryw chwedl ddifrifol i'w hadrodd, newydd hynod i'w fynegu, neu ddarganfyddiad diweddar i'w arddangos. Byddai yn drueni i'r fath fôd i fyned o'r golwg am byth—diflanu gyda ei fod yn dechreu dysgu, cael ei droi o'r ysgol wedi cymeryd blyneddau i ddysgu yr egwyddorion cyntaf, dybenu byw gyda ei fod yn gorphen ei brentisiaeth yn y gwyddonau a'r celfyddydau. Nis gallwn gredu y fath athrawiaeth oeraidd a hon. Mae y cynydd rhyfeddol a wnaeth y dyn mewn byr amser, yn nghyd â'r cynydd mwy a wna pan y ca fanteision gwell, yn eglur ddangos fod bywyd parhaus o'i flaen.

*Bydd byw, oblegid nad yw ei Greawdwr wedi gorphen ag ef eto.* Gwir fod y dyn pan yn marw yn gorphen ei ddiwrnod gwaith; ond y mae y cyfrifon heb eu gwneyd. Pe na bai byd dyfodol, ymddangosai y bywyd presenol yn annrhefnus a phruddaidd iawn. Mae y gosb ranol sydd yn nglŷn â throseddiad deddf Duw yma, yn awgrym eglur fod cyflawn gosb i fod; ac y mae y dedwyddwch sydd wedi ei gysylltu â rhinwedd yn y byd hwn, yn dangos yn eglur fod "taledigaeth y gwobrwy" yn mlaen. Annrhefnus iawn yw sefyllfa y byd moesol er y cwymp yn Eden, ac nid oes llawer o drefn i fod ar beth wedi cwympo hyd nes ei godi a'i unioni. Y casgliad annaturiol a dŷn rhai oddiwrth agwedd annrhefnus y byd moesol yw, nad oes un Duw yn bod. Eraill a dybiant fod Duw yn bod, ond nad yw yn talu sylw neillduol i helyntion y byd a greodd. Addefa y Cristion annrhefn bresenol y byd

moesol, ac eto efe a gred fod "Duw a farna y ddaear," a'i fod wedi "gosod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder trwy y Gwr a ordeiniodd efe." Llawer a gamgasglant, "am na wneir barn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan, nad oes un farn i fod, na chyfiawnder i gael ei weinyddu byth, heb ystyried mai "hirymarhous yw Efe" tuag atom ni —ddim yn awyddus i gosbi, ac nad oes brys arno i daro, oblegid y mae tragywyddoldeb digon maith yn ol i weinyddu y gosb. Unionir amgylchiadau y byd moesol, ceir byd y dynion i drefn. Daw pob gweithred i farn. Abel uniawn yn ei fedd, a Chain yn rhodio yn rhydd—Elias y Diwygiwr pur yn ffoadur, ac Ahab lygredig yn gwledda yn ei balas—Job dduwiol ar y domen, a'i wraig yn ei wawdio—pen Ioan Fedyddiwr ar y ddisgl, a phen Herod annuwiol ar ei gorff—Cristionogion yn llosgi, a Nero yn canu wrth eu gweled. Nid fel hyn mae pethau i fod byth. Cyn y gorphena y Llywydd mawr ei driniaeth ar ddynoliaeth mŷn gael tri pheth—y cyfiawn wedi ei wobrwyo, yr annuwiol wedi ei gosbi, a'i gymeriad ei hun wedi ei glirio byth, fel y byddo Duw "oll yn oll."

*Bydd byw, canys y mae ei Greawdwr wedi hysbysu hyny iddo.* Anfarwoldeb derbyniol sydd gan ddyn. Darfu i'w Luniwr ei gyfansoddi yn greadur cymwys a galluog i fyw, a hysbysir ni yn ei Air ei fod i gael byw byth. Yr un yw Tad yr ysbrydoedd, Lluniwr y corff, ac Awdwr y Gair. Y mae tystiolaeth y Gair yn eithaf digon i Gristion ar y pwnc. Gadawn y Gair i lefaru drosto ei hun: "Ac nac ofnwch rhag y rhai a laddant y corff, ac nad allant ladd yr enaid." Un rhwydd i'w ladd yw y corff, ond y mae yn anmhosibl lladd yr enaid. Nis gall cell a chadwyn y carchar, mîn y cledd, na'r fflam dân gyffwrdd âg ef; mae yn rhy gryf i neb i'w ladd, ac nis gall ladd ei hun; "a minau ydwyf yn rhoddi iddynt fywyd tragywyddol, ac ni chyfrgollant byth." Yr

enaid yw etifedd bywyd. Y mae Iesu yn cyfranu i'w eiddo, ac nid ânt byth ar goll. "Y rhai hyn a ânt i gospedigaeth tragywyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragywyddol." Wedi i'r farn eistedd, y drwg a'r da gael eu didoli, y mae tragywyddol fwynhad o fywyd dedwydd o flaen y naill dyrfa, a chospedigaeth ddiddarfod o flaen y llall. "Yr hwn a ddiddymodd angeu, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl." Rhydd yr efengyl oleu cyflawn ar dynged ddyfodol dyn. Yn llewyrch lamp yr efengyl yr ydym yn canfod drwy galon y bedd, yn gweled llanerchau pryd-ferthwch trwy niwl tywyll ddyffrynoedd marwolaeth; ac yn y Testament Newydd ni a glywn bobl byd arall yn siarad am y pared a ni. Y mae byd dyfodol o'n blaen, ac wedi ei ddwyn i'n hymyl yn y Gair sanctaidd. Ddarllenydd, y byw byth sydd bwysig. Ymofyn yn brydlon am yr iechydwriaeth a fydd byth, a'r cyfiawnder ni dderfydd.*

* Diwygiwr, Ebrill 1853, Tudal 101.

# BARDDONIAETH.

## I.—Y GWANWYN.

AETH heibio y gauaf a'i wyntoedd aruthrol,
Ei stormydd rhyfeddol ddarfuant o'r bron,
Y duon gymylau yn hollol wasgarwyd,
A natur ddadebrwyd—mae 'n edrych yn llon:
Y ddaear glöedig gan rew a ddadlaethodd,
Gwisg wen y mynyddoedd diflanu a wnaeth;
Mae pob peth mewn natur yn cyd-dystiolaethu
Ac eglur fynegu—"Y Gwanwyn a ddaeth."

Y gwanwyn, hoff wanwyn, mor llon dy ddyfodiad,
Mor ddoeth yw dy drefniad gan Grëwr y byd;
Pan ddelych, holl anian mewn cyffro a welir,
A hyfryd sain glywir o'n hamgylch i gyd:
Holl natur ar unwaith o'i chwsg a ddeffroa,
Ei hagwedd a lona 'r edrychwr o draw,
Ei harddwch a ddena y meddwl i weithio,
A'r corff i adfywio o'r droed hyd y llaw.

'R amaethwr ddaw allan o'i 'stafell yn fore,
Gan hwylio ei gamrau i ddeffro 'i holl dŷ,
O'r llangciau bach dengmlwydd i'r hynaf o'r teulu,
Deffroant yn wisgi, dônt allan yn llu;

Bydd un yn myn'd ymaith â'i wêdd i aredig,
  Yr hauwr 'mhen ychydig i'w ganlyn i'r ma's;
A'r ôg sydd yn olaf yn tori y ddaear,
  Gan wneuthur yn fraenar y broydd oedd fras.

Y gwartheg am wel'd eu hanwyliaid sy 'n brefu,
  A hwythau 'n hiraethu 'r ol colli eu mam;
Y mân greaduriaid yn gwaeddu am damaid,
  Gan ddilyn y merched mewn lludded bob cam:
Y merched a'r gwragedd adawant eu hannedd,
  Tu allan yn fwynaidd edrychant am waith
I borthi y gwartheg, a maethu 'r diniawed,
  A chasglu'r ffrwyth addfed—y Gwanwyn a ddaeth.

Y bugail a edy ei fwthyn yn fore,
  Gan ddringo y grisiau i'r bryniau gwyrdd draw,
Ei lwybr cul dyrus a deithia heb ddychryn,
  Ei gi yn ei ganlyn, ei ffon yn ei law;
Bydd yno 'n ymdramwy yn mhlith y praidd mwynaidd,
  Ei lais er yn wanaidd adseinia trwy 'r fro,
Ei galon yn llamu, ei wyneb yn lloni,
  Mae 'r cyfri 'n chwanegu pan rifa bob tro.

Mamogiaid ar grwydr draw 'n nannedd y creigiau,
  Gan chwilio yn rhywle am 'chydig o faeth
I gynal eu natur wasgedig eu hunain,
  A rhoi i'w rhai bychain gyflawnder o laeth:
Odd' yno, pan gofiant, yr ŵyn bach a alwant,
  A hwythau adseiniant, "Fy mam, pa le 'r aeth?"

Gofalon y bugail a brefiad y defaid
  Yn amlwg a ddywed, Y Gwanwyn a ddaeth.

Pan droaf fy ngolwg i'r goedwig las-impiog,
  Ei changau mân brigog ymdaenant ar led,
Ei sothach a fwria, ei harddwch a wisga,
  'R anifail gysgoda, 'r hwn iddi a rêd;
Y dail yn d'od allan o'u dirgel lochesau,
  Gan harddu 'r canghenau o'r brigau i'r gwraidd,
Lle cymhwys i nythu i'r adar a roddant,
  A'r eiddew ddisgwyliant ddyfodiad y praidd.

Mae 'n amser i ganu, medd adar y goedwig,
  Telynau 'ddi ar helyg, medd bychan a mawr;
Cydblethwn ganiadau o fawl yn soniarus,
  Dewch, canwn yn hwylus—mae 'n Wanwyn yn awr!
O'r isel swn trymaidd a rodda 'r ysgythan
  I'r hedydd bach gwiwlon a welir uwch ben,
Un garol fwyn hylon o leisiau melusion
  A roddant o galon i Frenin y nen.

Hwy gludant eu llwythau i weithio eu nythau,
  Rhai dan y ceulanau osodant eu sail,
Un arall mwy ofnus, y graig fydd ei sylfaen,
  A'r frân ar y dderwen dan aden y dail;
Un wrth y tŷ a'r llall ar y mynydd,
  Fwyalchen trwy'r cwmydd a edrych am lwyn,
Y wenol sylfaena o dan y cromenau,
  A'r ŵyddwyllt mewn "cyfle corsenau a brwyn."

Y llysiau amryliw yn awr a flagurant,
Rhosynau aroglant 'fewn muriau yr ardd;
Y garddwr crymedig ei hwyneb fraenara,
Y cwbl sydd yma yn llawen a chwardd:
Gwyryfon prydweddol a driniant y blodau,
Gan drwsio 'r eirionau, mae 'n orchwyl tra mawr,
Yr hedyn o'r briddell heb gymhell ddaw fyny,
A ninau 'n trafaelu eu llwybrau yn awr.

Y meillion mân gwyrddlas orchuddiant y bryniau,
A hyfryd bêr-lysiau trwy 'r bröydd y sydd,
Y gwaunydd gan flodau 'r briallu yn wynion,
A'r caeau yn frithion gan lygaid y dydd;
Y bröydd a'r bryniau, y gwaunydd a'r caeau,
Ddywedant mewn geiriau, "Y Gwanwyn a ddaeth;"
Daw hafddydd 'mhen gronyn, y cwbl newidir,
Yn fuan dywedir, "Y Gwanwyn a *aeth.*" *

* Diwygiwr, Mehefin, 1842. Tudal 182.

## II.—MYFYRDOD YN Y GOEDWIG.

AR dd'wrnod teg yn Ebrill aethum ma's,
I goedwig hardd gylchynai fonedd blas,
O fewn i'r hon ce's lonydd gan y byd—
Ol llaw yr Iôr yn hollol ddenai 'mryd;
Y gwastad ffyrdd yn llawn cerbydau sydd,
Marchogion lu yn gyru nos a dydd;
Ar y llwybr draw mae 'r teithiwr uwch ei ffon,
Ar ael y bryn mae 'r bugail yntau yn llon.
Trwy 'r bröydd brâs mae 'r arddwyr yno 'n llu,
A dadwrdd plant yn llawn o gylch y tŷ.
Ond *yma* 'r wyf o olwg pawb a'u clyw,
Yn syllu 'n awr ar ryfedd orchwyl Duw.
O'm hamgylch mae rhyw bêr hyfrydawl sŵn,
A natur oll yn ei sidanaidd ŵn.
'R aberig fach sydd yma 'n fawr ei chri:
Nid oedd ond gwàn pan ar y bryniau fry;
Ond ffrwd at ffrwd o hyd 'chwanegodd nerth,
Wrth dreiglio rhwng danneddog greigiau certh;
Trwy rwystrau lu yn mlaen o hyd yr â:
O gylch pob twyn dolenu 'n fwyn a wna;
Ar hyd ei glàn y tyf yr helyg gwyrdd,
Eu gwraidd bob tu, a'u brigau fry yn cwrdd.
Y wernen frau trwy 'r clai ei gwraidd a red,
A'i breision ddail yn gyflym daen ar led:
O tàn ei chyff rhyw gell ddirgelaidd sydd:
Y ffrydiau mân dreiglasant ffwrdd y pridd.
I mewn i'r hon y rhed y brythyll bach,
A thybia 'i hun yn awr yn ddigon iach

Rhag bach, tryferau, a holl nwydau 'r byd,
Caiff lonydd mwy o fewn ei gaban clyd.
Pysgottwr yntau 'n wlyb ei wisg a ddaw,
Heb unrhyw arf, estyna i mewn ei law,
A'i fraich yn noeth, trwy ymdrech tỳn ef ma's,
A theifl draw i drengu ar y ma's.
Y lili fwyn sydd yn blaguro 'n awr,
Mae 'n hardd ei lliw, mae 'n hyfryd iawn ei sawr;
Oddiar un cyff corsenau lawer dyf,
Pob un o'r rhai 'n wyneba ma's yn hyf;
O ddydd i ddydd dadlyga 'r blodau hardd,
Er bod yn wàn, pob un yn llon a chwardd.
'R arglwyddes draw sydd yn ei phalas gwych,
Yn gwisgo 'i hun bob dydd yn ngoleu 'i drych,
A'i pherlau drud, a'i hoff gadwynau aur,
Sidanaidd ŵn o'r defnydd goreu geir;
Ni wisgwyd hon erioed o fewn ei phlas,
I'r filfed ran mor hardd a lili 'r ma's.
Rhyw olwg wych sy ar briallu mân
Yn llwyni bach, pob corsen ar wahan.
Ymdrwsio maent yn eu gwanwynaidd wisg,
Nis gwn pa un sydd harddaf yn eu mysg;
Maent oll yn *hardd*, ond *hardd* a *harddach* sydd
Yn eu plith hwy fel pobpeth dardd o'r pridd.
O! flodau braf, ansicr yw eu ho's,
Agored y'nt gael niwed ddydd a nos:
'R anifail gwyllt a'u sathr dan ei droed,
Neu 'r awel gref a'i darnia rhwng y coed;

Neu 'r plentyn bach wrth deithio gam i gam,
Dŷr lon'd ei law, dug adref at ei fam.
Ardderchog yw 'r gymdeithas goedaidd hyn,
Maent res uwch rhes i'r lan i ben y bryn.
Cangenau 'n cwrdd fry yn yr awyr glir,
A gwraidd am wraidd yn ddwfn yn y tir;
Rhagoriaeth sy 'n berthynol i bob un,
Rhai ran eu maint, lleill ran eu lliw a'u llun:
Mae uchder un yn enill iddo glod,
D'wed blodau 'r llall nad oes ei fath yn bod.
Y trydydd sydd a'i ddail cysgodawl braf,
Rhag gwres yr haul mae 'n nodded ganol hâf.
Yr ŷch lluddiedig yn ei iaith a dd'wed,
Mai hwn sydd ben, a than ei gangen rhed.
Y nesaf ddwg ei ffrwythau pêr yn llawn,
I'r genau mae eu blas yn hyfryd iawn;
O gylch yr hwn bydd torf o'r llanciau glân,
A dringo wnant i frig ei gangau mân;
Dywedant hwy,'n ol cael pob un ei lwyth,
Mai hwn sydd ben, rhaid barnu wrth y ffrwyth.
Yn agos im' mae 'r dderwen gadarn gron,
Ei pherchen dd'wed, 'Does yma debyg hon;
Ei ffrwyth a rydd i'r gwrychaidd deulu mân,
Ei brig a rydd i'r wreigan gyneu 'r tân;
Ei gwisg a rydd i drwytho gwisg i mi,
Ei chorff a fydd i mi yn olaf dŷ.
Dystewch i gyd, mewn rhyw hen foncyff crin,
Myfi sydd ben, er gwaeled yw fy llun,

Ymddifad wyf o flodau, ffrwyth, a dail,
Er hyny gyd 'does yma ddim o'm hail:
Wyf hen yn awr, mi fum yn ieuanc gynt,
Cysgodais chwi pan oeddych wan eich hynt,
O *fewn* i mi mae trigfan glyd yn bod,
Ddylluan dd'wed na bu eu gwell erio'd;
*Tu allan* i'm y tyf yr iorwg glas,
Mae f' addurn i mor wych a llawer plas;
Y praidd o'r maes i'r goedwig ddon't yn llu,
Ymchwilio maent o hyd am danaf fi;
Mamogiaid ddaw trwy 'r dyrysni yn ddinam,
A'r ŵyn yn hyf, pob un ar ol ei fam;
Y bugail yntau ar eu hol a ddaw,
O gylch i mi—fe 'u cenfydd oddi draw:
Eu cydsain hwy wrth 'madael fydd yn un,
Trwy 'r goedwig hon 'does fath y boncyff crin.
Mawr gyffro sydd trwy 'r goedwig ar bob llaw,
Yr adar bach yn gydwedd yma a thraw,
Yn ddiwyd iawn pob dau yn gwneyd eu nhyth,
O'r henaf rai i'r ieuengaf yn eu plith;
Dewisol fan gan bob un at y gwaith,
Mae 'n rhaid ei gael, er teithio pellder maith:
Y graig medd un, y graig yn sail i mi,
Yn agen hon cyfodaf ddiogel dŷ.
Mewn dirgel fan o dan y geulan frau,
Fwyalchen hithau gwyd ei phalas clai;
Mae 'n ddiogel yno rhag y 'stormydd blin,
Yn sŵn y dŵr caiff gysgu tawel hûn.

Y draenog lwyn yw 'r man ddewisa 'r llall,
Pwy 'n agos ddaw i lymion ffrwyth y fall?
Y llall, fry, fry, ar gangen uwcha'r pren,
Diofal yw, er bod yn wlyb ei ben.
Defnyddiau oll a gludant yn eu pig,
Pob un â'i lwyth ganfyddir yn y wig;
Aiff un ar daith i lwybrau'r defaid mân,
Daw 'n ol cyn hir â llwyth o'r gwanaidd wlân.
Daw un at *sail* a llwyth o'r brigau brau,
I'w wychu *mewn* ddaw 'r llall â'r lleidiog glai.
Ceir gweled un yn ddiwyd gylch y pren,
Oddiyno daw â mwsogl lon'd ei ben.
Ei gydmar draw 'n bugeilio wrth y tŷ,
Os cyfle ga, cyrhaedda 'r tegaidd blu',
A dychwel o'r lladradaidd daith yn llon,
Heb unrhyw och na blinder dan ei fron.
'Nawr wrth y nyth fe gwrdd y ddau yn nghyd,
Ymosod wnant ar godi preswyl glyd:
Nid oes na llif na bwyell ganddynt hwy,
Na morthwyl chwaith, nac un haiarnaidd lwy.
Y naill â'i big a weithia 'n gelfydd iawn,
Y llall o hyd a phob rhyw glod yn llawn.
Cywreinrwydd sy 'n berthynol idd eu gwaith,
Er nad oedd ffurf na mesur ganddynt chwaith.
Y crefftwr dreulia ddyddiau lawer iawn
I godi 'r plas, a'i weithwyr ganddo 'n llawn;
Ond nid yw ffrwyth celfyddid o un rhyw
Mor hardd a gwaith y reddf a roddodd Duw.

Ust! ust! yn awr nis gallaf fyn'd yn mla'n,
Ar goll yr wyf wrth glywed teulu 'r gân.
Ehedydd gwiw a chwifia ei aden fraith,
Yn fore iawn dechreua ar ei daith.
(Cyn cychwyn ma's o'r bugail at y praidd,
Na 'r gweithiwr yntau i dynu 'r hadau haidd,
Y foreu wraig heb godi yn y tŷ,
'Does whit i glywed gylch eu theulu hi,)
Fry mae yn canu bellder uwch ei phen,
Ei foliant rydd i'r hwn wnaeth da'r a nen.
Fe eiliw 'r ceiliog du o'r tewfrig lwyn,
Y fronfraith hithau etyb iddo 'n fwyn;
Esgyna fry i gangau uwcha 'r gwydd,
Ar foreu teg, yr oreu dôn a rydd;
Ei safle sydd ar fan cyhoeddus iawn,
Ei pheraidd lais adseinia 'r fro yn llawn;
Cymhella bawb o'u trafferth dd'od yn rhydd,
I ganu 'n iach ar doriad bore ddydd.
Nis gwn pa le mae 'r tamaid nesa' i gael,
Pa un ai gwych ai ynte tamaid gwael;
Nis gwn pa 'stormydd arna'i 'n fuan chwyth;
Pa lencyn bach a ddryllia 'm cynes nŷth,
Er hyn i gyd mi ganaf heddyw 'n llon,
Caf wylo ddigon pan b'wy 'n brudd fy mron.
O swynawl gân! Sawl llais sy 'n plethu 'nghyd?
Ai pedwar? Nage; llawer mwy 'r un pryd.
Pwy ddysgodd hwy i chwareu llais mor fwyn?
Oes ysgol gân mewn rhyw neillduol lwyn?

Oes blaenor, llyfrau, a rheolau 'n bod?
A raid i bob un gywir daro 'r nod?
O na raid ddim, mae rhyddid i bob un,
I ganu 'r dôn ddewiso ef ei hun;
Ond rhoi ei lais fel cafodd ef gan Iôr,
I chwareu 'n rhywle mhlith y peraidd gôr:
O'r ëos fwyn i'r scythan arw 'i llef,
Un *gorus* wnant o foliant iddo ef.*

* Diwygiwr, Mai 1843, Tudal. 150.

## III.—AR FARWOLAETH TRI PHLENTYN Y PARCH. J. THOMAS, BETHLEHEM, GER LLANGADOG.*

Tri phlentyn tlws a roddwyd mewn un bedd,
Pob un â'i arch—rhai bychan, gwael eu gwedd.
Mewn dystaw dŷ cymerant dawel hûn,
Heb yngan gair, heb angen dim ar un.
Rosynau heirdd, paham yr aethoch ffwrdd?
Ni ddaeth braidd ddim o waeau 'r byd i'ch cwrdd.
Paham gadawsoch breswyl glyd eich tad,
Cymdeithas fwyn eich hoff rieni mâd?
Pan syrthiech lawr caech godi wrth law *tad;*
Sawl gwaith y dydd caech gusan mam yn rhad?
Prif dlysau 'r tŷ, gobeithion tad a mam,
Pa'm 'r aethoch ffwrdd? dywedwch i'n paham?
"Ein hanwyl fam! mae 'n teimlo 'n ddwys mae 'n wir,
I'n serchus tad, wrth 'madael rhoisom gur,
Ond myn'd oedd raid, a myn'd oedd *well* i ni,
Dedwyddach y'm nag yna gyda chwi;
Nis gwelsom ddim yn y daearol fyd
Werth bod yn hwy, werth rhoddi arno 'n bryd;
Digonwyd ni â'r byd yn fuan iawn,
Trallodion blin sydd ynddo ef yn llawn.
Ni gawsom ni ein tri ryw ryfedd fraint,
Do, fwy yn wir nâ hen filwraidd saint:
Cael gorsedd dlws heb gledd erioed mewn llaw,
A'r palmwydd aur—un frwydr mwy ni ddaw.

* Y Parch. J. Thomas, Salem, Aberdâr, yn awr.

Cael coron hardd, heb fod erioed dan groes,
Buddugol gân, heb ymdrech hirfaith oes;
Cael medi maes, heb hau un grwn erio'd,
Cael nef am ddim—i'r Iesu byddo 'r clod.
Eich nefol Dad ddanfonai i'n cyrchu ni;
'Roedd perlau 'n brin yn nghoron Iesu cu,
Gorseddau gwag, telynau mewn llawn hwyl,
Y bwrdd yn llawn, a chawsom fyn'd i'r ŵyl.
Daeth engyl nef mewn cerbyd aur i'n cwrdd,
A gair o'r llys fod brys i'n cael i ffwrdd;
A chyda hwy myn'd ymaith wnaethom ni,
Trwy 'r tywyll lŷn, heb deimlo grym y lli';
Cyflymu wnaem yn chwyrn trwy 'r awyr las,
Nes d'od cyn hir at borth y breiniol blas;
I mewn heb feth; pawb yma ar eu gwên;
Hardd ieuanc lu, 'does yma neb yn hen.
'Nol tremio 'n fyr ar dlysion flodau 'r lle,
A theyrnged roi i Frenin pur y ne',
Dysgasom gân gan y gwaredol gôr,
'Y clod, y clod' dros byth i ras ein Iôr.
Rieni hoff, na flinwch mwy na mwy,
'Ry'm ni ein tri uwch law pob ing a chlwy';
Dim gofid mwy nis cewch o'n plegid ni,
*Un* 'storom *fach* a wnaethom ni ein *tri;*
Ewch at ein bedd, ac wylwch ddagrau 'n lli',
Gwnaeth Iesu hyn wrth fedd ei gyfaill cu;
Dychwelwch 'n ol, bendithiwch Duw mewn hedd,
A de'wch ar frys gael rhan o'r nefol wledd." *

* Diwygiwr, Mawrth, 1845. Tudal. 89.

## IV.—LLINELLAU AR FARWOLAETH SYDYN THOMAS MORGAN EVANS,

### MAB B. EVANS, YSW., CASTELLNEWYDD EMLYN.

EIN mynwes, ein mynwes sydd heddyw yn llwythog,
Teimladau amrywiol orlanwant ein bron,
Mae 'n anhawdd i dewi, peryglus yw traethu,
Mae 'n hawdd cyfeiliorni mewn 'storom fel hon;
Cymylau tywyllion amgylchant ein llwybrau,
Awyrgylch ein teulu gymysgwyd hyd nen;
Ymgasglodd y 'storom, tywalltodd y cwmwl,
Mae 'r gafod yn bwysig, rhaid gostwng y pen.

Symudwyd yn sydyn o'n cylchoedd teuluaidd
Un garem yn anwyl, un hoffem i gyd,
Sirioldeb ei wyneb a lonai 'n hysbrydoedd,
Pob gofid a giliai pan fyddem yn nghyd;
Fel telyn hyfrydlon ei lais a'n difyrai
Pan ganai rhyw donau melusol a chu;
Wrth gofio yr oriau difyrus a gawsom,
Mae 'n calon yn glwyfus a'n dagrau yn lli'.

Gobeithion tra uchel goleddem am dano,
Iawn addysg roed iddo yn moreu ei ddydd,
Dysgwyliem i'w ddoniau ddadblygu yn raddol,
I lanw rhyw gylchoedd o elw a budd;
Castellau mawreddog ddyrchafai 'n dychymyg
Yn awyr dyfodiaeth i'r bachgen mwyn mâd,
Un awel wrth'nebus wnai 'n ddarnau y tyrau,
Cynlluniau mam anwyl, arfaethau y tad.

Siomedig yw 'n teimlad wrth golli 'n dymuniad,
  Yr oedd genym fwriad i'r bachgen gael byw,
Yn gysur i'w riaint, yn addurn i'w deulu,
  Yn lles i gymdeithas, 'n ogoniant i Dduw;
Trafferthion pleserus y magu sydd drosodd,
  Holl dreuliau 'r addysgu sydd heddyw 'r un wedd;
Y dillad, y llyfrau, a'r holl fân deganau
  Yn llonydd mewn blychau, ac yntau 'n y bedd.

Er garwed y tywydd i deimlad, rhaid tewi,
  Nid addas beirniadu doeth Lywydd y byd,
Cawn weled rhyw foreu holl droion ein gyrfa,
  Er garwed ŷnt yma, o'n hochr i gyd;
Mae gan ein Tad nefol ryw amcan daionus
  I'w gyrhaedd yn drefnus trwy droion fel hyn,
Amynedd am ronyn, boddlonrwydd gawn wed'yn,
  Esbonir y cynllun a ninau yn syn.

Er marw 'n hanwylyd, mae eto 'n bodoli,
  Nid pruddaidd ddiflanu ond symud a wnaeth,
Gadawodd wisg farwol i ni i'w addurno,
  A'i roddi mewn amdo i'r gweryd yn gaeth;
Mae 'r dyn wedi dianc o ganol cystuddiau,
  Uwch loesion oer angeu a dychryn y bedd,
I fywyd dyfodol, O! fywyd dedwyddol,
  Gwirionedd sylweddol—mae 'n gyflawn o hedd.

Gorphwysa ei babell wiwedig mewn gweryd,
  Cyweiriwyd ei wely mewn daear oer laith,

Mewn perffaith lonyddwch mae yno yn huno,
Heb feddu gwybodaeth, dychymyg, na gwaith;
Nis gellir ei ddeffro gan dwrw y daran,
Na seiniau holl anian pe byddent yn un;
Waeth wylo na chanu o gwmpas ei wely,
Ef yno nis cyffry—myn gysgu ei hun.

Noswylio raid iddo mewn dystaw unigedd,
Yn nhŷ ei hir gartref ryw 'gyfnod tra maith;
Mae 'n gysur i gofio nid tŷ ei byth artref,
Mae boreu i godi—gwaredir y caeth:
Yr udgorn a seinia, fe deimla cre'digaeth,
Hen fro lawn marwolaeth mewn cyffro a fydd,
Duwiolion yr oesau a godant mewn eiliad
I fywyd anfarwol, tragwyddol haf ddydd.*

* Diwygiwr, Mai, 1857. Tudal. 154.

## I.—PENNILLION.

ANWYL SYR,—Pan ydoedd eich diweddar anwyl frawd wedi dychwelyd o'r Gogledd, aeth ar daith i ddarlithio i Abertawy, Gwynfe, a Llandilo. Pan yn dychwelyd adref, bu y *pony* ac yntau mewn eira dros eu penau ar y mynydd. Cafodd anwyd, a bu yn glaf iawn am ddau ddiwrnod—y diweddaf yn y flwyddyn 1860, a'r cyntaf o'r flwyddyn '61. Pan y daeth ychydig yn well, cyfansoddodd y pennillion canlynol ar ei gefn yn y gwely. Gan eu bod yn bennillion chwaethus, tyner, teimladwy, a gwir ragorol, yr wyf yn anfon copi o honynt i chwi, gan ddysgwyl y gadewch iddynt gael ymddangos yn y Cofiant a fwriadwch ei gyhoeddi, fel y gallont fod ar gof a chadw i'r oesau dyfodol. NI bydd y golofn farddonol yn gyflawn hebddynt.—T. D. JONES, Pont-y-styllod.

O MOR fuan mae fy nyddiau
  A'm blynyddau ffwrdd yn ffoi!
Un yn chwaneg ymaith lithrodd,
  Llwyr ehedodd heb ymdroi;
Mae tuhwnt fy nghyrhaedd heddyw,
  Fel dyddiau diluw 'r cynfyd pell,
Ni cha' neb ail gynyg arni,
  Er 'ddunedu 'i threulio 'n well.

Blwyddyn newydd wawriodd arnaf,
  Daeth yn araf ar ei hynt;
Talodd foes ei llongyfarchiad
  I mi yn nghanol gwlaw a gwynt;
Gwlaw yn tywallt, eira 'n toddi,
  Minau 'n methu 'n llonydd fod,
Mewn cryn boenau ar amserau—
  Dyeithr bethau i mi 'rioed.

Plant y tlodion sy 'n llawn trydar,
  Fel mân adar fore hâf,
I'w cylchdeithiau am gardodau,
  Neu geiniogau, amser braf;
At y drws daw 'r bach yn sydyn,
  Gan ymofyn beth a ga,
Am gyfarchiad hen, cyffredin,
  Gan dd'weyd, "Blwyddyn newydd dda."

Dynion tlodion o bob oedran,
  Hwy ânt allan yma thraw;
Cydau bychain ar eu cefnau,
  Neu fasgedau yn eu llaw;
At amaethdai lle bo llawnder
  Heb betrusder ânt yn hy';
Rhaid yw rhoi—hwy bia 'r diwrnod,
  Neu bydd hynod wraig y tŷ.

Beth a fydd i mi eleni?
  Sydd o ddifri 'n gwestiwn mawr;—
Pa gystuddiau, pa helbulon,
  Pa drallodau ar y llawr?
Neu a wyf i gael fy symud
  Trwy ryw ddamwain, pla, neu haint?
Newid byd! O! newid hynod!
  Os yn barod, bydd yn fraint.

Beth a fydd i'm gwraig serchiadol,
  A'm plant swynol yr un wedd?

A yw 'r cylch teuluaidd eang,
  I fod yn gyfan tu yma 'r bedd?
Beth a fydd i'r mil aelodau
  Agos dan fy ngofal sydd?
Ofni 'r wyf gwna llu ein gado,
  Gan noswylio yn y pridd.

Beth a fydd i'r byd cynhyrfiol?
  Cyfnewidiol yw i gyd;
Beth a ddaw o gynwrf China,
  A'r ddwy India 'n eitha 'r byd?
Gwledydd Ewrop sydd yn berwi,
  Garibaldi 'n chwythu 'r tân;
Llysg gadwynau caethion Ital,
  'Does a'i hattal—aed yn mlaen.

Gwell yw gadael y dyfodol,
  Mae yn hollol eiddo Duw;
Da i mi fod doeth Arweinydd,
  Hen gyfarwydd wrth y llyw:
Llechaf dan ei gysgod tawel,
  Rhag pob awel gref a chroes;
Bwriaf fy holl ofal arno
  Tra parhao dyddiau f' oes.

## II.—ACROSTIC POEM.

Composed on the occasion of the marriage of Miss Emily Collingwood Fitzwilliams, of Adpar House, Newcastle Emlyn, to Captain A. J. Ogilvie, Royal Horse Artillery, and of Gloucester Terrace, Paddington, March 7th, 1867.

E ternal Spirit, be Thou my Muse's guide;
M y theme is pleasant—a young and handsome bride;
I thee beseech, on this her nuptial day,
L ove, peace, prosperity, to the fair and gay
Y oung bride and bridegroom now in Hymen's tie.

C reator of the heavens, and earth, and all,
O h! hear their prayer when on Thy name they call;
L eave Thy blessing rest on the newly wedded pair,
L et both commit themselves to Thy parental care,
I nvest Thou them with Thy power and Thy light,
N e'er to depend on human sway or might;
G rant them both on sea a pleasant voyage through,
W ith wind and wave pledged in their favour too;
O ff British Isles to India distant land,
O mniscient Father, let the little band
D epart assured of Thy protecting hand.

F avour Thou them with a kind reception there,
I n foreign land let them be a happy pair,
T ogether with the captain's personal fame,
Z ealous may he be of the great British name,
W henever called to stand on battle field
I n him be found a courage ne'er to yield;
L et parents, kith and kin, and friends that are so kind,
L eave them to Him, who every harm can bind;
I mmortal glory in India may they gain,
A nd then return with laurels of their native plain;
M ay each be bless'd with new and pure heart,
S alvation be their everlasting part.

## III.—UCHENAID Y GROES.

O'R nef i'n daear ni,
Y daeth yr Iesu cu,
O'i gariad rhad;
Cymerodd arno daith
I wared enaid caeth,
Dywedai 'r oll a wnaeth,
"O! maddeu, Dad."

Ai Crëwr mawr y byd
Fel oen i'r lladdfa 'n fud,
Heb un nacâd;
Oddiar y groes daeth llef
O'i fynwes glwyfus Ef,
Adseiniodd dae'r a nef,
"O, maddeu, Dad."

Meddianai ysbryd mwyn,
Pan ar y pren yn rhwym—
Ddwy law a thra'd;
Er bod dan hoelion dur,
A dyoddef poen a chur,
Ni pheri hyn yn hir,
"O, maddeu, Dad." *

* Diwygiwr, Mawrth, 1843. Tudal. 87.

# PREGETHAU

## SEFYLL YN NHY YR ARGLWYDD Y NOS.

"Wele holl weision yr Arglwydd, bendithiwch yr Arglwydd, y rhai ydych yn sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos."—PSALM cxxxiv. 1.

WRTH "dŷ yr Arglwydd" yn y testun, y deallir y deml gan Solomon yn Jerusalem, yn yr hon y dygid gwasanaeth Duw ymlaen dan yr Hen Oruchwyliaeth. Y Lefiaid oeddynt y rhai oedd yn "aros yn nhŷ yr Arglwydd y nos." Hwy oedd tylwyth y tŷ, ac arnynt hwy yn benaf y gorphwysai y gorchwyl o ofalu am dano, a gweini ar yr offeiriaid. Byddent yn y deml yn wastad ddydd a nos. Attynt hwy y cyfeiriai Dafydd pan yn dywedyd, "Gwyn fyd preswylwyr dy dŷ, yn wastad i'th folianant." Mae unrhyw adeiladaeth fyddo yn cael ei neillduo i addoli Duw yn cael ei alw "tŷ yr Arglwydd." a'r bobl sydd wedi ymgyfamodi ag ef yno yn breswylwyr neu deulu y tŷ hwnw.

I. YR ADEG Y CYFEIRIR ATI YMA. "Nos yn nhŷ yr Arglwydd," neu gyfnod tywyll, marwaidd ar grefydd ac eglwys y Duw byw.

1. *Mae yn adeg dywyll.* Diffyg goleuni sydd yn gwneyd nos naturiol—y ddaear sydd yn troi oddiwrth yr haul. Felly mae yn y byd crefyddol. Pan na byddo yr eglwys yn rhodio yn ngoleuni Haul Cyfiawnder, rhaid ei bod yn dywyll iawn arni. *Mae yn dywyll yn yr areithfa y pryd hwn.* Mae y drychfeddyliau yn myned yn llai wrth eu trafod. Pregeth hir yn myned yn fyr pan mae yn cael ei thraddodi yn y nos. Mae y gweddiwr yn y tywyllwch hefyd—mae yn methu cael

geiriau i fyned ymlaen. Y cynghorwr yr un modd yn methu dyfod â'i feddyliau allan. 'Does dim profiad goleu, addfed, gan neb mewn adeg fel hyn. Maent yn methu gwybod beth i wneyd gan ddüwch y tywyllwch a'u hamgylchyna. Megis y dyn yn myned trwy y cwm ar noswaith dywell —nid oes ganddo ddim i ddyweyd am dano ei hun—nis gŵyr yn gywir pa le y mae, ond ei fod yno yn fyw. Felly mae pobl Dduw pan yn y tŷ y nos, nid ydynt yn gwybod yn iawn pa fodd maent yn myned ymlaen. Dyma yw y rheswm fod pob un yn foddlon i grefydd fel y mae. Nid yw o bwys gan ddyn am ei wisg, pa mor frwnt na pha mor wael ydyw, yn y nos. Mae pob aelod mewn rhyw ysbryd marwaidd yn y nos, yn frwnt ei fuchedd, yn wael ei agwedd, ac yn isel ei brofiad.

2. *Adeg ddiwaith ydyw.* Teyrnasa distawrwydd trwy y greadigaeth pan mae hi yn nos, a'r holl waith wedi ei roddi heibio. Yr un modd pan fyddo eglwys gyfan wedi myned i gysgu—mae yn dawel iawn. Wrth weithio y mae grwgnach, ac wrth geisio deffro eu gilydd y mae swn mawr. Mae pob peth fel wedi aros—y cwrdd gweddi yn fychan, y gyfeillach yn oeraidd, a gwaith yr achub wedi peidio yn hollol. Dim ennill tir newydd, llawer o waith gan yr eglwys i amddiffyn ei hun a sicrhau y pethau sydd ganddi yn "barod i farw" heb feddwl am ddim newydd. Mae ofn ar yr aelodau i ymaflyd yn unrhyw anturiaeth o bwys. Mae yn gwneyd tippyn o waith yn y tŷ y nos, ond nid yw yn myned allan i waith mawr y maes. Nid yw yn ffurfio cangenau nac yn sefydlu eglwysi newyddion. Mae yr eglwys yn cael gwaith cadw ei thir y nos. Llawer o'r aelodau yn marw—rhai yn myned allan, a nemawr neb yn dyfod fewn i lanw eu lle. Dydd goleu y diwygiadau grymus sydd wedi gwneyd eu hôl ar Gymru. Hwy sydd wedi cychwyn yr achos ymlaen, wedi gwneyd "y bychan yn fil," wedi codi eglwysi newyddion a helaethu yr hen. Llais lluaws genedigion newydd sydd yn

dywedyd, "Helaetha le dy babell, ac estyn gortynau dy breswylfeydd."

3. *Adeg anghysurus iawn i'r rhai sydd yn neffro yw y nos.* Mae y nos yn hir, yn oer, a diymgeledd iawn i fod ar ddihun. Felly yn gywir y mae yn Sion i grefyddwr bywiog. Mae ef yn ei theimlo yn oer iawn—dim tân yn y gyfeillach na 'r cyfarfod gweddi. Os gofyn rywbeth i'r cysgadur sydd yn ei ymyl, mae yn debyg o gael tafod cas a geiriau pigog yn ol. Mae y cysgaduriaid yma yn yr eglwysi mor bigog a'r draenog ac mor frau a'r gwydr. Mae ganddynt lu o esgusodion dros gael cysgu eu hûn allan. "Ni ddaeth yr amser eto," meddant. Mae yn foreu iawn, mae y diwrnod yn arw iawn, nis gallwn wneyd gwaith ar hyn o bryd. Mae y crefyddwr bywiog yn gweled y nos yn hir iawn, ac yn gofyn yn aml, "Y Gwyliedydd, beth am y nos?" Poen mawr i grefyddwr bywiog yw bod yn ymyl un marwaidd. Mae siarad rhai cysglyd bron a'i ladd ef. Mae yn brofedigaeth i'w dymer ef gyffroi wrth glywed ei frawd marwaidd sydd yn cysgu yn Greenland oer, yn ceisio adrodd ei brofiad llwydaidd yn y gyfeillach grefyddol.

4. *Adeg nad oes fawr o dramwy i'r tŷ yw y nos.* Mae y dynion yn dyfod at yr eglwys i edrych pa fodd y mae pethau, a dim yn ychwaneg. Maent yn cael digon ar yr olwg farwaidd allanol. Mae gweled agwedd gysglyd yr aelodau yn gwrando yr efengyl yn peri i'r byd gael digon ar grefydd yn yr olwg ar ei phroffeswyr mor glaear. Pan fyddo hi yn nos yn Sion nid oes tân na gwres, nac ymborth i gymhell neb i mewn. Mae y drws yn cael ei gau yn y nos, a neb yn ymofyn am y tŷ. Pan fyddo rhyw wrandawr yn teimlo am ei gyflwr, nid oes neb yn ymofyn am ei enaid. Mae y byd yn gweled yr eglwys yn rhy ddihun i droi atti. Nis gallant edrych ar yr eglwys fel meddyg na chysurwr, a dyweyd, "Ha wyr frodyr, beth a wnawn ni." Yr oll mae yr eglwys yn

ymofyn yn y nos yw llonydd i gysgu, ac y mae hithau yn foddlon gadael llonydd i'r byd, pechod, a diafol.

5. *Adeg fanteisiol i'r rhai sydd yn ewyllysio gwneuthur drwg yw y nos.* Pan ddaw y nos, daw y llew allan o'i ffau, a'r llwynog llon i edrych am ysglyfaeth, a'r lleidr i ddifrodi meddianau ei gymydogion. Ond "pan godo haul, ymgasglant a gorweddant yn eu llochesau." Mewn digon o dywyllwch y gallant hwy wneyd eu goruchwylion—nis gallant ddal y goleu. Felly pan mae hi yn nos yn Sion, mae cyfeiliornadau yn ffynu, a chyfeiliornwyr yn blaguro. Tra yr oedd perchenog y maes yn cysgu, yr hauodd ei elyn ef efrau yn y maes. Tra mae Sion yn cysgu, mae y gelynion yn gweithio. Mae holl gyfeiliornadau yr oesoedd wedi ffynu a blaguro pan oedd eglwys Dduw yn cysgu ei hûn hir a thrwm, ac erbyn iddi agor ei llygaid a deffro, deallodd yn fuan fod efrau cyfeiliornad wedi eu hau gan ei gelynion yn ei maes hi. Mewn cyfnod tywyll fel hyn ar grefydd mae dynion o synhwyrau cryfion, penau goleu, ond calonau llygredig, yn dyfod allan, ac yn ffurfio cyfundraethau cyfeiliornus, yn taro eu calonau arianol a'u bucheddau aflan hwy eu hunain—y pen yn gwneyd credo i ateb dymuniad y galon ddrwg. Pan mae dyn yn cysgu mae yn dueddol i freuddwydio pethau hynod, dieithr, a disail, ac fe ddichon eu hadrodd drannoeth i ddynion gweiniaid a hygoelus, a'r rhai hyny drachefn yn eu credu a'u taenu fel gwirioneddau pwysig. Dyma fel mae wedi bod gyda chyfeiliornadau pob oes a gwlad. Tra fu yr eglwys yn cysgu y gwreiddiodd Mahometaniaeth, ac y dechreuodd Pabyddiaeth. Tra mae yr eglwys yn cysgu mewn llawer ardal mae anffyddiaeth a Mormoniaeth yn blaguro. Dynion llygredig yn dechreu dymuno na fyddai byd ar ol hwn—yna yn credu nad oes un, ac wedi hyny yn ysgrifenu a thystio nad oes sefyllfa ddyfodol, a'r oll wedi tarddu yn llygredigaeth calon y dyn ei hun, oblegid nad all ei fuchedd aflan ef ddal goleu byd arall.

Pan mae eglwys yn cysgu fel hyn *mae ei bywyd mewn perygl.* Nis gall y gelynion creulonaf ladd yr eglwys ond medr ladd ei hun yn rhwydd. Methodd y fflangellau, y dirwyon, y carcharau, a'r tânau a lladd saith eglwys Asia, ond lladdasant eu hunain bob un. Yn eu cwsg y mae yr eglwysi yn marw. Nis gall gwaith mawr, na thywydd gerwin, nac erledigaeth greulon ladd yr eglwys, ond gall yn ei diogi gysgu ei hun i farwolaeth.

II. Y NODWEDDIAD A GRYBWYLLIR. "Rhai yn AROS yn y tŷ y nos."

1. *Dengys hyn mai yno mae eu cartref.* Mae pob peth yn tynu at ei artref tua 'r nos. Daw yr ychain i lawr o'r bryniau tua 'r nos. Mae y brain yn tynu at eu cartref yn dyrfaoedd at y nos. Mae yr adar yn edrych am y llwyni tewfrig lle yr arferant gysgu at y nos. Mae y plentyn sydd yn chwareu yn ddifyr yn ymofyn ei fwth ei hun erbyn nos, a'r gweithiwr lluddiedig ei fangre ei hun i orphwys. Pe edrychem ar faes y cynhauaf—mae yno lawer o ddynion, ond nid pobl y tŷ yw pawb. Mae yno estroniaid yn gweithio trwy dalu—mae yno gymydogion caredig yn rhoddi help llaw, a phlant tylodion yn cael tamaid o fwyd. Mae pawb yn gymysg ar y maes, a phawb yn gryno wrth y bwrdd, ond yn mrig yr hwyr mae yr holl estroniaid yn myn'd adref, a dim ond y teulu yn aros. *Dyma fel y mae yn eglwys Dduw.* Nid yw yn deg cyfrif yr aelodau yn adeg boeth y diwygiad crefyddol. Nid pawb sydd yn aelodau sydd yn blant. Nid pawb sydd yn cyfranu, gweddio, canu, a chymuno sydd yn deulu Duw. Pan ddaw nos oeraidd dirywiad mae llawer yn cilio—Demas yn myned at y byd, oblegid mae yno yr oedd ei artref. Disgyblion y torthau yn myned 'nol i'w gwlad—yno yr oedd eu calon. Mae y rhai hyn yn eglwys Dduw fel plant yn myned i weled eu perthynasau, yn ddifyr ac wrth eu bodd tra mae y dydd a'r chwareu yn parhau, ond pan ddaw y nos, mae

hiraeth yn codi ac awydd myned adref: ond y mae 'r Cristion fel plentyn yn ei artref. Ni chymer ei fywyd am fyned allan yn y nos. "Un peth a ddeisyfais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf, sef caffael trigo yn nhŷ yr Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd."

2. *Dengys hyn y gŵyr y gwir Gristion am bob tywydd ar grefydd.* Gŵyr ef beth yw llawenhau wrth weled gwawr diwygiad yn tori, a gweled lluaws o weithwyr newydd—hen ac ieuanc—yn dyfod yn fywiog a brysiog at eu gwaith. Gŵyr hefyd beth yw bod yn dyst o'r dirywiad yn dyfod, a gweled llawer o weithwyr yn gadael ar hanner eu gorchwyl—rhai yn gadael yn sydyn iawn—rhai yn gadael yr Ysgol Sabbothol heb rybudd, a'r cyfarfod gweddi heb neb i lanw ei le. Gŵyr y gwir Gristion beth yw ceisio cadw y tân yn fyw yn y tŷ y nos. Gŵyr am bob tymor gyda chrefydd, hâf a gauaf, oerni a gwres, dydd goleu y llwyddiant mawr, a nos dywell yr aflwyddiant digalon. Ond yn nghanol pob tywydd "Y cyfiawn a ddeil ei ffordd, a'r glân ei ddwylaw a ychwanega gryfder."

3. *Dengys hyn ei fod yn* DDIOGEL. Maent yn y tŷ. Nid oes dim damnedigaeth i'r rhai sydd yn *iawn* yn y tŷ. Mae y rhai aeth allan o'r tŷ yn llawen iawn tra parhao diwrnod teg eu llwyddiant, ond pan ddaw ystormydd cystuddiau ac angeu, maent yn druenus iawn, a llawer o honynt y pryd hyn am ddyfod yn ol i'r tŷ, ond angeu yn eu dal cyn cyrhaedd y trothwy. Mae cyfeillach a'n gilydd i adrodd ein teimladau yn felus yn y nos. Os nad yw yr Haul yn tywynu, mae goleu y ser—gweinidogion ffyddlon y cysegr—genym. Nid oes neb na dim all wneyd niwed i'r rhai sydd yn y tŷ y nos. Nid yw ystormydd euogrwydd na dafnau chwerwon melldithion y ddeddf yn cyrhaedd yno. Mae yr Arglwydd ei hun yn "fur o dân o'u hamgylch, ac yn ogoniant yn eu canol"—"pyrth uffern nis gorchfygant hi." Mae afon gysur lawn

gan breswylwyr y tŷ nas gall un gelyn ei thryblu na 'i sychu. "Y mae afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw." "Am hyny nid ofnwn pe symudai y ddaear a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr."

4. *Gan eu bod yn y tŷ, dengys hyn eu bod wrth alw pan fydd taro.* Gallem feddwl fod y tŷ yn dra diogel os bydd rhai preswylwyr ynddo. Os gwneir ymosodiad, byddant yn effro i glywed y gelyn yn dynesu, ac i amddiffyn os bydd galwad am hyny. Pan fydd y plentyn yn anfoddlon iawn, teifl y fam ef yn ddibrys o'r neilldu, ond pe ymosodai estron arno, hi fyddai y cyntaf i deimlo a rhedeg atto. Er fod Sion weithiau yn cysgu, eto pe ymosodai rhywun ar grefydd yn ein gwlad, byddai i fynu ar ei thraed yn uniongyrchol, ac yn llawn bywyd a nerth yn amddiffyn.

5. *Maent mewn man cyfleus pan ddaw y bore.* Dichon y daw y gwrthgiliwr druan yn ol pan dŷr y wawr, ond y mae fel yr afradlon gynt, a chanddo ffordd bell i deithio cyn cael gafael ar y tŷ. Mae y rhai arosodd yn y tŷ y nos lawer o'i flaen ef yn awr. Maent fel myfyrwyr yn lletya yn y tŷ gyda'r athraw, yn dysgu llawer tra fyddo y rhai pell yn myn'd a dyfod. Mae y rhai sydd yn y tŷ y nos yn cael pleser mawr i weled y wawr yn tori, i agor y drws a groesawi y genedigion ydynt yn dyfod ynghyd dan "gerdded ac wylo," ac yn gofyn y ffordd i Sion "a'u wynebau tuag yno."

6. *Maent mewn man y bydd yn dda ganddynt fod pan ddaw y Meistr.* Gwell gan y Meistr pan ddaw gael y gwas yn cysgu yn y tŷ, na 'i fod yn crwydro allan. "Gwyn fyd y gwas hwnw, yr hwn y caiff ei Arglwydd ef, pan ddelo, yn gwneuthur felly." Gwell peidio myned allan am un awr, rhag ofn mai yn yr awr hono y daw ein Harglwydd.

### CASGLIADAU.

1. *Gwell bod yn y tŷ y nos na bod allan.* Er nad oes fawr

goleu, na gwres, na thân, na chysur, eto mae cysgod rhag yr ystormydd i gael yn y tŷ,

2. *Yn y nos dywyllaf mae rhai yn effro.* Pan oedd yr hen fyd yn cysgu, yr oedd Noa ar ddihun. Pan oedd yr eglwys Iuddewig yn cysgu, yr oedd prophwydi ffyddlon ar y muriau yn gwylio. Pan mae Sion yn cysgu, mae gweinidogion y cysegr yn wylo rhwng y porth a'r allor.

3. *Priodol yw dyweyd yn y weinidogaeth y dyddiau yma, "Deffro, deffro, gwisg dy nerth, Sion."* Dylai y rhai sydd ar ddihun gadw swn a gwaeddu nes deffro y rhai sydd yn cysgu.

4. *Diolch ei bod yn ddydd i raddau mawr yn Sion y dyddiau hyn.* Miloedd yn America wedi troi y llynedd.* Cannoedd a miloedd yn mysg pob enwad crefyddol yn Sir Aberteifi eleni. Mae yr Iwerddon yn fyw, a bryniau Scotland yn deffro. Rhai manau yn Lloegr mewn cynwrf mawr, a Sweden yn dân goleu. Meirion a Maldwyn wedi codi—gwawried yn Morganwg a Mynwy—a lleded y goleu dros derfynau yr holl fyd. Ein gweddi ninau fyddo—"O anadl tyred." Amen.

* 1858.

# EGLWYS IACH.

"A'th iechyd a dardda yn fuan."—ESAIAH lviii. 8.

DENGYS y prophwyd yma fod y genedl a Duw yn methu cydweled o berthynas i ympryd. Yr oedd y genedl yn ymprydio ond nid oedd Duw yn cymeradwyo eu hympryd. Cawn yma ddarlun o'r fath ympryd oedd gan y bobl ynghyd â'r ympryd oedd raid i Dduw ei gael cyn ei gymeradwyo. Ympryd y bobl oedd—gostwng pen, gwisgo sachliain, gorfoleddu yn eu calonau, ymryson â'u gilydd, mynu ein dyledion gan y tlodion, taro â dwrn anwiredd, a pheri clywed eu llais yn yr uchelder. Ond yr ympryd a gymeradwyai Duw oedd—dattod rhwymau anwiredd, tynu ymaith feichiau trymion, gollwng y caeth yn rhydd, tori bara i'r newynog, dilladu y noeth, a dwyn y crwydriaid i dŷ. Dim ond i'r genedl wneyd hyn, mae yr Arglwydd yn sicrhau llewyrch arni yn fuan. Pwnc ein hanerchiad fydd EGLWYS IACH.

I. HANFODION EGLWYS IACH.

1. *Cyfansoddiad Ysgrythyrol.*—Gwnaeth Moses y Tabernacl yn ol y portread, a Noa yr Arch yn ol y gorchymyn—y defnyddiau a'r maintioli yn ol fel yr oedd Duw yn d'weyd. Mae yn y Testament Newydd reolau o barthed i gyfansoddiad eglwys, a rhaid fod yr eglwys yn ol y rheolau hyny cyn y gall fod yn iach. Rhaid i bob peth fod yn ei le priodol—Crist yn ei le, y gweinidog yn ei le, y diacon yn ei le, a phob aelod yn ei le. Dylai gynal ei hun a threfnu a therfynu ei materion ei hun. Mae yr eglwys wladol yn rhy wan i sefyll heb gyfraith i'w chynal, a dengys hyny nad yw yn iach. Nid yw y dyn sydd yn gorfod pwyso ar ffyn baglau yn iach, ac nis gall eglwys sydd yn gorfod pwyso ar attegion dynol fod yn iach ychwaith. Ni waeth beth fyddo yr adeiladaeth os bydd y sylfaen yn ddrwg. Ni waeth beth fyddo rhagoroldeb defnyddiau y peiriant os na fyddant

wedi eu trefnu yn ol y ddeddf a berthyn iddo. Nid yw o fawr bwys pa fantais gaiff y corph gwanaidd, os nad yw yn rymus naturiol, gwan fydd o hyd. Felly eglwys—ni waeth pa mor hardd fyddo yr adeilad, pa mor lluosog fyddo yr aelodau, na pha mor ddoniol fyddo y gweinidog, ni fydd yno wir nerth os na fydd y cyfansoddiad yn ysgrythyrol.

2. *Ymborth Iach.*—Rhaid i gorph gael maeth priodol—pethau iach i fwyta, ac i yfed. Mae miloedd wedi llyncu eu hangeu eu hunain. Yr hyn yw ymborth i'r corff yw gwirionedd i'r meddwl. Peth mawr i blant ieuainc yn yr eglwys yw cael "didwyll laeth y gair,"—Y gair yn syml heb ei gymysgu â dim arall. Mae y pwlpud wedi gwenwyno llawer eglwys—pregethu pethau hynod, cywrain, yn unig er mwyn bod yn rhyfedd. Taflu lliw amheuaeth ar bob gwirionedd. Darllen llyfrau o duedd ddrwg a llygredig. Mae darllen llyfr da fel gwledd flasus, a llawer llyfr drwg fel bwyd trymaidd yn terfysgu ac yn anesmwytho y meddwl

3. *Awyr Iach.*—Mae a wnelo yr awyr ag iechyd y corff. Yr un modd yr awyrgylch foesol â'r meddwl. Awyr y byd yn un ddrwg iawn. Rhy fydol i ddarllen a myfyrio—rhy fydol i brynu llyfrau na rhoddi amser i'w darllen wedi eu prynu—rhy fydol i golli amser i gael cwrdd gweddi, na chyfeillach eglwysig. Nid oes grân na grym i fod ar eglwys felly. *Eraill yn byw yn awyrgylch cymdeithiau llygredig.* Hoffi eu cwmni, gwrando ar eu cabledd, dysgu eu iaith, arfer eu cellwair, nes myned yn rhy wan i fyned i weddio. Yn awyr y groes, y dylai yr eglwys fyw. Myfyrio, gweddio, pregethu a dymuno yn ymyl y groes. Purion fyddai i ambell eglwys fyned i newid awyr am ddau fis—byddai agwedd arall arni yn fuan.

4. *Arferion Rheolaidd.*—Mae lluaws yn marw, mewn ystyr naturiol o ddiogi. Pe byddent yn myned i gysgu yn brydlon, codi yn foreu, ac arfer eu haelodau yn gymhedrol,

gallent deimlo yn iach, hebgor y meddyg, a byw yn hir. Mae purdeb yn hanfodol i iechyd eglwys. Pob aelod yn byw yn bur, d'weyd y gwir wrth bawb, masnachu yn onest, cadw y ddisgyblaeth yn anrhydeddus, a pheidio goddef y rhai drwg. Dyfod i'r cyfarfodydd yn aml ac yn brydlon,—cyfranu yn llawen at bob achos teilwng. Mae bod yn rheolaidd gydag arferion crefyddol felly, yn hanfodol i iechyd eglwys.

II. Nodau Eglwys Iach.

1. *Gellir barnu iechyd i raddau pell wrth yr agwedd allanol.*—Dywed lliw y wyneb, i raddau, beth yw sefyllfa iechyd y cyfansoddiad. Wrth yr un rheol gellir barnu iechyd a nerth eglwys. Gellir ei ddeall mewn ambell fan wrth drefn y capel i fewn ac allan—wrth ddull y gynulleidfa yn dyfod ynghyd ar forau Sabboth, a'u dull yn addoli wedi dyfod. Mae *un* cyfarfod eglwys mewn ambell fan yn ddigon o brawf nad ydynt yn iach iawn. Nid oes dim yn ei le mewn teulu, pan fyddo pobl y tŷ yn glaf—mae y cwbl allan o le mewn eglwys os na fydd iechyd yno.

2. *Gellir barnu iechyd wrth y chwaeth.*—Mae chwaeth y claf yn ddrwg. Nis gall gymeryd nemawr o ymborth, a rhaid i hwnw fod yn wan a melus. Felly eglwys afiach. Gwell ganddi Farwnad nâ'r Beibl. Llais a dawn yn y pwlpud yn fwy na sylwedd a gwirionedd. Rhodd i pwys mawr ar ffurfiau a hen ddefodau, pe byddent heb seiliau. Darllen llawer, ac esbonio dim. Condemnio pethau newyddion cyn eu profi. Mwy o bwys lawer ar Sabboth Cymundeb nae un arall. Mwy o bwys bod yn fanwl wrth gladdu y marw, na gofalu am ei enaid tra yn fyw.

3. *Tymher foddhaol.*—Nid yw dyn afiach wrth ei fodd un amser—rhy anhawdd ei foddloni. Nid oes dim wrth fodd eglwys afiach. Mae rhy fach neu ormod o athrawiaeth yn y pregethau. Nid yw trefn dygiad yr achos ymlaen yn iawn;

mae lawer yn well mewn lleoedd eraill. Gwell canu, gwell pregethu, gwell cyfranu, &c., mewn eglwysi eraill. Cwyno yn y cyfeillachau yw ei phrif waith, a braidd na byddai yn achwyn ar Iesu Grist a'r Ysbryd gan mor anfoddhaol yw ei thymer.

4. *Gellir adnabod a ydyw eglwys yn iach wrth ei gwaith*—Os bydd yn iach bydd yn hawdd ganddi fyned i ymweled â chleifion, a chasglu tippyn at y tlawd pan mewn angen. Gwna ymdrech i gael y crwydriaid yn ol i dŷ. Ymgymera yn llawen â'r llafur o ddysgu y plant ac egwyddori y rhai ieuainc. Cynal y weinidogaeth heb gwyno, casglu at bob achos teilwng heb rwgnach, meddianu tir newydd yn y gymydogaeth, ac ennill llawer o eneidiau at Dduw. Os na fydd eglwys yn iach nis gall fod yn gryf ac unol i wneyd ei gwaith.

III. Dymunoldeb Eglwys iach.

1. *Mae eglwys iach yn gysur mawr iddi ei hun.*—Ni waeth beth fyddo gan ddyn os na fydd yn iach. Pe yn byw mewn palas, yn gorwedd ar wely o fân blû, yn ymdroi mewn moethau o bob math, cerbyd i'w gario, gweision ddigon i weini iddo, cyfoeth lawer mewn meddiant, ond os bydd yr iechyd yn pallu, ni waeth beth fydd ganddo. Yr un ffynud mewn eglwys. Gadael fod yno gapel hardd, cynulleidfa fawr, aelodau lawer, *endowment* at gynal yr achos, os na bydd yn iach nid yw yn gysur myned yn agos atti. Rhyw derfysg yn gyson, rhai yn llithro yn barhaus. Nid oes amser i roddi bwyd i'r plant yn y gyfeillach, gan gynifer o gleifion sydd yno i'w trin. Ond os bydd yn iach, mae yn bleser bod yn weinidog iddi, ac yn aelod ynddi. Mae eglwys o ychydig, a'r rhai hyny yn dlodion, yn dra dedwydd os byddant yn iach.

2. *Hi ddeil dywydd garw iawn*—Ond i ddyn cryf o gyfansoddiad gael digon o fwyd, mawr y tywydd garw a ddeil ef. Ni waeth ganddo gael gwlaw ac ystormydd, tywydd garw, colli cysgu, &c. Dim ond i ddyn gwanaidd gael awel groes, mae bron bod yn ddigon am ei fywyd. Felly eglwys—mae

ystorm fach mewn eglwys afiach yn ddigon i'w lladd. Ond os bydd yn iach, yspeilier hi o'i meddianau, hi fydd yn llawen. Cauer hi mewn carcharau, hi gân. Tafler hi i'r tân, hi rodia yn ddifyr yno. Medr orwedd yn ddigyffro am noswaith gyfan wrth ochr y llew. Rhoddir tân ynddi, nid yw yn bosibl ei difa. Tra byddo yr eglwys yn iach i fewn nis gellir ei lladd â dylanwadau allanol; ond pan fyddo afiechyd dirywiad i mewn, mae yn magu y darfodedigaeth ac yn marw heb i neb gyffwrdd â hi. Dyna fel y darfu i'r saith eglwys yn Asia Leiaf. Goddefasant erledigaeth greulon, a daliasant eu tir yn wrol, ond pan ddaeth diogi ac afiechyd i mewn buont oll feirw yn raddol.

3. *Gwna eglwys iach ddenu llawer i uno â hi.*—Mae pobl yn hoffi rhoddi tro i wlad iach, a symud i fyw i ardal iach. Mae tynfa y bobl at eglwys iach. Os bydd ei thangnefedd, ei hyspryd gweddi, ei chanu a'i phregethu, &c., yn dangos ei bod yn iach, bydd yn anogaethol i eraill ymuno â hi. Os bydd yn iach, bydd yn gwella pawb ddaw o hyd iddi. Y meddwyn wedi sobri, y cybydd wedi do'd yn hael, y cablwr yn gweddïo. Dylai eglwys fod fel *hospital* yn yr ardal.

4. *Os yw yn iach mae gobaith y bydd byw.*—Os bydd eglwys yn wan, ac afiach iawn, aiff y bobl i siarad am ei hangeu, ei hangladd a'i bedd. Ni ddaw neb yn agos atti oblegid mae ei golwg yn creu tosturi atti. Os yw yn iach, hi fydd byw, er fod yr aelodau yn marw, yr ardalwyr yn newid, y capel yn heneiddio, y coed yn crino, a'r tô yn syrthio, bydd yr eglwys yn blodeuo.

ADDYSGIADAU.

1. *Melldith mewn ardal yw eglwys heb fod yn iach.*

2 *Gorau oll i lawer eglwys pa mor fuan y gwna newid awyr a myned at y meddyg.*

3. *Dow yr eglwys yn hollol iach yn fuan.*

4. *Pan ddaw yn holliach, ni fydd yn derbyn cleifion mwy.*

## SIMEON.

"Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol air: canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth."—Luc ii. 29, 30.

SIMEON ydoedd yr hwn a gyfenwai ei hun yn y testun yn was yr Arglwydd. Ymdrecha rhai ysgrifenwyr roddi manwl gyfrif am y Simeon hwn. Dywed y cyfryw ei fod yn fab Hillel, yn brif lywydd y Sanhedrim, ac mai ei fab ef oedd Gamaliel y dysgawdwr mawr, wrth draed yr hwn yr eisteddodd Paul i gwblhau ei ddysgeidiaeth athrofaol. Nis gellir casglu oddiwrth hanes ysgrythyrol pwy oeddynt ei rieni, fath oedd ei sefyllfa, na phrif amgylchiadau ei oes. Dysg y Bibl ni mai yn Jerusalem yr oedd ef yn byw, ei fod yn ddyn cyfiawn, yn hynod mewn duwioldeb, yn gyfaill mawr â Duw, ac yn disgwyl yn hiraethus am ymddangosiad Crist yn y cnawd.

Wedi i Grist ymddangos, ac amser puredigaeth ei fam fyned drosodd (sef deugain niwrnod), daeth ei riaint âg ef i'r deml i wneuthur drosto yn ol defod y gyfraith. Defod cyfraith Moses ar y cyfryw amgylchiadau oedd, fod pob gwryw cyntafanedig i fod yn eiddo cysegredig i'r Arglwydd, ac yn ngwaith y rhieni yn ei gyflwyno i'r Arglwydd, fod oen i gael ei roi yn boeth offrwm, a phâr o ddurturod i fod yn bech aberth. Felly, pan ddug Joseph a Mair y dyn bach i wneuthur drosto yn ol defod y gyfraith, daeth Simeon, trwy gyfarwyddyd yr Yspryd, i'r deml, a chymerodd yr Iesu yn ei freichiau, ac a fendithiodd Dduw, ac a ddywedodd, "Yr awr hon," &c. Yr oedd Simeon wedi cael addewid na byddai efe farw nes gweled Crist yr Arglwydd, a phan y gwelodd ac y cafodd ef yn ei freichiau, yna y dywedai, Yr wyf wedi cael cyflawniad o'r addewid. Cefais brif ddymuniad fy oes; gan hyny, gollwng dy was. Mae arnaf awydd gadael y byd. Gwnaf y sylwadau canlynol,—

I. Y GWAS.

II. EI DDYMUNIAD.

III. EI RESWM DROS EI DDYMUNIAD—"Canys fy llygaid a welsant," &c.

I. Y GWAS.

1. *Yr oedd yn was cyfiawn.* "A'r gwr hwn oedd *gyfiawn.*" Yr oedd yn gywir ei egwyddorion, ac yn onest ei ymddygiadau. Bendith fawr mewn teulu yw cael gwas gonest tuag at enw, meddianau, a gwaith ei feistr; ei fod yn ddidwyll. Mae yn neillduol bwysig i broffeswyr Cristionogaeth ymddwyn yn gyfiawn yn eu trafodaeth fasnachol â'r byd. Mae sefyllfa pob un yn rhoddi mantais iddo weithredu cyfiawnder. Dylai y tyddynwr ofalu fod y nwyddau yn ddidwyll—y swm mawr cystal a'r *sample* fach—canol a gwaelod y sach o'r un rhyw a'r gwyneb. Gwerthu gartref yn mhris y farchnad. Gwerthu i'r gweithiwr sydd dan rwymau i brynu yr un bris a'r estron pell â'i geiniog barod. Pan yn gwerthu gofalu fod y mesur yn gyflawn a'r pwysau yn ddigonol. Pan yn myned â'r anifail i'r ffair, dyweyd ei oedran yn gywir a'i feiau yn llawn, neu beidio dyweyd dim am dano. Trist fod crefyddwr yn gwerthu cymeriad oes am bunt o arian, pan mae enw da yn well na chyfoeth lawer. Dylai y masnachwr werthu yr un pethau yn yr un prisiau i bawb—tlawd fel y cyfoethog, pell fel yr agos, gwas fel i'r meistr. Peidio dàl mantais ar anwybodaeth bechgyn a merched y mynyddau, a derbyn ceiniogau o ddwylaw plant am bethau nas gwyddant eu gwerth. Dylai y celfyddydwr wneud dirgel gysylltiadau ei waith mor sicr a'r amlwg fanau, a pheidio gofyn mwy am dano wedi ei orphen, na phe buasai ammod wedi bod yn ei gylch cyn gosod llaw arno. Os gweithiwr, bod yn debyg pan mae ar hir a phan mae ar *job.* Gweithio ar faes ei feistr, fel mae ar ei ardd ei hun. Taro mor ddiwyd pan y gwyr fod ei feistr yn Llundain a phan mae ar y maes gydag ef. Bwyta

bara ei feistr trwy "chwys ei wyneb," fel yr eiddo ei hun.—"Gwnewch i eraill fel y dymunech i eraill wneud i chwithau." Bernir y pren, nid wrth ddyfnder ei wraidd, breisgni ei gorph, rhifedi ei ganghenau, gwyrddlesni ei ddail, nac arogledd ei flodau, ond wrth ei ffrwyth. Yr un modd mae y byd yn ein barnu ninau; nid wrth burdeb yr egwyddorion a broffeswn, nefoleidd-dra y teimladau a feddwn, lluosawgrwydd y dyledswyddau a gyflawnwn, na rhifedi y seremoniau a wnawn, ond "wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Cyfiawn ac uniawn yw efe, ac oni wyddoch chwi fod yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder wedi ei eni o hono ef.

2. *Yr oedd yn was* DUWIOL—*Cyfiawn a* DUWIOL. Dynoda y gair cyfiawn yn benaf yr hyn oedd tuag at ddynion, a'r gair duwiol sefyllfa ei feddwl tuag at Dduw. Nid priodol dyweyd duwiol a chyfiawn, oblegid os yn dduwiol, y mae y cyfryw o angenrheidrwydd yn gyfiawn; ond gall i raddau weithredu cyfiawnder heb ei fod yn dduwiol. Gall gwahanol bethau gymhell dyn i wneud cyfiawnder—gall fod hyny yn dueddfryd naturiol iddo—ei fod wedi ei arfer i wneud hyny—awydd clod neu ofn cosp, ond nid oes a gymhella ddyn i fod yn dduwiol ond cariad at Dduw. Gall dyn ddringo grisiau moesoldeb nes bydd yn uchel iawn, eto heb gyrhaedd bryn dedwyddwch; "Oni bydd eich cyfiawnder yn helaethach na chyfiawnder yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, nid ewch i mewn i deyrnas Dduw." Os ceir gan ddyn roddi "eiddo Duw i Dduw," sef deall ei ewyllys a'i gwneud, ei garu â'i holl galon, ufyddhau iddo, boddloni i'w holl drefniadau, a gwneud ei oreu drosto yn y byd, mae yn naturiol i'r cyfryw ddyn "roddi eiddo Cæsar i Cæsar." Mae o bwys bod yn dduwiol er bod yn ddefnyddiol gyda gwaith Duw. Mae y gwas duwiol tu hwnt i'r doniol, cyfoethog, dysgedig, a'r hen. Yn y gymdeithas eglwysig mae hyn yn amlwg. Mae tröad llygad y duwiol yn myned yn mhellach na gwallt gwỳn yr

hen wr; ei amnaid yn drymach na *sovereign* y cyfoethog, a'i bedwar gair sathredig yn trechu araeth y doniol a'r dysgedig. "Pan lefarodd Ephraim y bobl a grynodd." Dysged Duw ni i fyw yn sobr, yn gyfiawn, a *duwiol,* yn y byd sydd yr awr hon.

3. *Yr oedd y gwas hwn yn gyfaill mawr gyda ei Arglwydd.* Yr oedd yn cael graddau helaeth o feddwl ei Arglwydd; "ac yr oedd wedi ei hysbysu iddo gan yr Ysbryd Glân na welai efe angeu nes gweled Crist yr Arglwydd." Mae dynion yn datguddio eu *secrets* i'w cyfeillion neillduol, felly mae Duw yn gwneud yn mhob oes o'r byd Pan yn myned i daro dinasoedd y Gwastadedd â barn, dywedai, "A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf?"—Mae ef yn gyfaill ffyddlon, ymwrthododd âg eilunod tŷ ei dad, daeth ar fy ngair i wlad estronol, mae yn cadw rhag llygredigaeth Sodom, ac mae yn gorchymyn i'w deulu gadw o honynt ffydd yr Arglwydd, yna mynegaf y *secret* iddo. Pan ddaeth y tân i lawr ar Sodom yr oedd yn beth *newydd* iddynt hwy, ond *hen* i Abraham.

"Moses yn wir a fu ffyddlon ar ei holl dy ef, megis gwas." Dadleuodd yn deg dros ryddid Israel. "Dewisodd adfyd fy mhobl o flaen mwyniant pechod; dirmyg Crist o flaen trysorau yr Aifft." Safodd fel dyn ar làn y môr coch, a dystawodd fel cawraidd Gristion pan oedd Israel yn grwgnach. Pan mae dynion yn myned i adrodd pethau dirgelaidd iawn i'w gilydd, dewisant ganol y cae fel na byddo i neb glywed. Felly y gwnaeth Duw â Moses ei was, cafodd fyn'd ato i fynydd Sinai dros ddeugain niwrnod; bu yn siarad âg ef wyneb yn wyneb, a datguddiodd iddo y *secrets* mwyaf pwysig gafodd dyn erioed—deddf i lywyddu y bydoedd am byth. Mae yn wir nad yw Duw yn awr yn rhoddi cymaint o'i feddwl i'w weision ag y bu, eto, dan yr oruchwyliaeth hon, "Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda y rhai a'i hofnant ef." Y ffordd oreu i adnabod dyn yw bod yn aml yn ei gyfeillach. Yr un modd

"Rhodio gyda Duw," yw y llwybr sicraf i ddeall ei feddwl ef Bod fel Dafydd, un meddwl gydag ef yn wastad—"Pan ddeffrowyf gyda thi yr ydwyf yn wastad." Dyma y bobl sydd yn deall ei air, ei ragluniaeth, a'i holl weinyddiadau oreu, "Deall da sydd gan y rhai a'i hofnant ef."

4. *Mae yn dra thebyg fod Simeon yn hen yn ngwasanaeth ei Arglwydd.* Golwg brydferth iawn yw gweled dyn ieuanc gobeithiol yn eglwys Dduw. Mwy prydferth eilwaith yw gweled dyn wedi dechreu yn ieuanc, ac yn awr yn nghanol ei ddydd, yn llond ei gylch o ddefnyddioldeb. Ond yr olwg harddaf o'r cwbl yw gweled yr "hen ddysgybl" gyda chrefydd yn ffyddlon yn y prydnawn, wedi bod gyda hi yn ffyddlon trwy "bwys a gwres y dydd." Mae ei beiriant corphorol wedi ei dreilio allan yn ngwaith crefydd. Gall yr hen was ffyddlon edrych o gylch iddo yn yr eglwys, a dyweyd, Dacw weinidog y bûm i yn arwyddo ei alwad, diaconiaid y bûm yn eu dewis, blaenoriaid côr y canu bûm yn eu cynghori pan yn blant yn yr Ysgol Sul. Cyn gosod sylfaenu y capel, cyn ei newid i'w ffurf hardd helaeth bresenol, cyn dechreu yr Ysgol Sabbothol, na ffurfio y cwrdd gweddi, "yr oeddwn i yno." Erbyn hyn mae ei ddylanwad yn fawr—pawb yn yr eglwys ag ofn digio yr hen wr, a'r annuwiolion yn cilio o'r ffordd pan glywant drwst traed fy ewythr Dafydd. Mae ei air yn ddeddf, a'i amnaid yn gyfraith y tŷ, yntau yn dywedyd, "Awr fy ymddatodiad i a nesaodd." Gyda hyn mae yr eglwys yn wylo, y byd yn teimlo, angylion yn ymawyddu cael llywyddu y cerbyd i gyrchu ei enaid gartref, tonau yr Iorddonen wedi ymlonyddu am foment, dau tu yr afon wedi eu gwneud yn oleu gan lewyrch lampau tŷ ei Dad, sisial y dyfroedd wedi ei foddi yn swn caniadau engyl gwlad y goleu, ei Feistr ar y trothwy aur yn gwenu ac yn dywedyd, "Da was, da a ffyddlon, dôs i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

II. Dymuniad y Gwas: "Yr awrhon y gollyngi dy was mewn tangnefedd yn ol dy air."

Mae ei ddymuniad yn cynwys, yn—

1. *Ei fod yn was hollol blygedig i ewyllys ei Arglwydd.*—Blodeuyn hardd yn nghymeriad gwas mewn teulu yw ei fod yn cymeryd ewyllys ei feistr, ac nid ei deimladau ei hun yn rheol ei weithrediadau. Dyma fel mae y crefyddwr ffyddlon. Pan yn ieuanc, nid gofyn beth yw barn y cyhoedd, arfer y wlad, neu fasiwn yr oes, ond "beth a fyni di i mi wueuthur?" Pan bydd eisieu myned ar negeseuon dros ei Feistr—myned yn athraw yr Ysgol Sul, myned i weled y claf i'r bwth, myned i gynorthwyo cwrdd gweddi gwan ar ochr y mynydd, neu adferu brawd tarfedig—yn union dywed y gwas ffyddlon, "Wele fi, anfon fi." Pan yn cwrdd â chroesdroion, defnyddiolion yr eglwys yn marw—gweinidog o'r pulpit, neu y diacon o'i swydd, "Mi aethum yn fud, ac nid agorais fy ngeneu, canys Ti a wnaethost hyn." Mae fod y peth wedi ei wneyd gan ei Dad yn hollol foddlonrwydd i'r Cristion. Pan yn cyfarfod â siomedigaethau daearol—colli yr eidion o'r beudy, y ddafad o'r gorlan, plentyn o'i fynwes, hen iechyd o'i gorph—dywed y pryd hwnw, "Yr Arglwydd a roddodd, yr Arglwydd a gymerodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd." A phan ddaw prydnhawn ei ddydd, nid yw yn *barticular* am yr awr i adael y gwaith. Mae yn barod i fyned ac y mae yn foddlon aros. Os bydd ei Arglwydd am iddo adael mewn brys ganol nos, mae yn *barod:* os yw ei Arglwydd am iddo aros gronyn eto ar y maes, mae yn *foddlon.* Ei iaith yn yr oll yw, Dy ewyllys di a wneler.

2. *Dymuniad y gwas oedd cael ei ollwng.*—Rhoddaf ryddid i ddychymyg am foment i ddarlunio teimlad hen Gristion yn awyddu cael marw. "Yr wyf," meddai yr hen bererin, "wedi fy nhroi heibio gan y byd—yn methu myned i wleddoedd crefydd fel y bûm; nis gallaf fyned i'r cwrdd ar Sabboth garw, i'r cwrdd gweddi os yn mhell, na'r gyfeillach wedi y nos. Gan hyny, 'Gollwng fi:' mae fy llygaid wedi gwan-

hau, methu gweled golygfeydd prydferth anian, siriol wên fy nghyfeillion, na hen ddalenau hoff fy Meibl; y clustiau wedi trymhau, nis gallaf glywed y gweddïwr heb fod yn ei ymyl, na'r pregethwr, heb gael myned i ben y grisiau. Mae poen mewn rhyw aelod o hyd. 'Mae y cymylau yn dyfod ar ol y gwlaw.' Erbyn y bo un storm wedi myned heibio, mae y llall yn dechreu: gan hyny, 'Gollwng fi.' Mae fy nghyfoedion wedi blaenu, a'm cyfeillion wedi ymadael, fel nad wyf yn adnabod nemawr o neb ar y ddaear; a chan fod rhaid croesi yr afon cyn myned i dŷ fy Nhad ac at y teulu, 'Gollwng fi.'"

3. *Dymunai y gwas gael ei ollwng mewn tangnefedd.*—Mae yn werthfawr bod o gyflwr a meddwl parod i adael y byd. Mae yn werthfawr bod yn barod i fyned i daith bell gyda y reilffordd, fod dyn wedi cychwyn o'i dŷ yn brydlon, wedi parotoi angenrheidiau y daith, wedi talu a chael tocyn i glirio y ffordd, yna mae ganddo amser wrth ddisgwyl y cerbyd, i siarad â'i gyfeillion, gweled y rhyfeddodau, cael lle cyfleus; yna mae yn mwynhau y daith heblaw cael myned. Dyma fel mae y Cristion pan yn myned i farw. Mae ei fywyd wedi ei guddio, ei anwiredd wedi ei faddeu, ei genedlaeth wedi ei gwasanaethu, ei waith wedi ei gwblhau, a'i dŷ wedi ei drefnu, yna mae yn d'od yn arafaidd i làn yr afon, ei feddwl yn rhodio rhwng porfeydd gwelltog addewidion gras, ac oddiar lànau y dyfroedd tawel yn cymeryd y drem ddiweddaf ar ei yrfa. "Ni frysia yr hwn a gredo." Mae ganddo adeg i gyflwyno ei gyfeillion i'r Arglwydd, canu emynau buddugoliaeth yn y glỳn, bwrw gwialen ei dduwioldeb ar yr afon, nes bydd ei chynddeiriog dònau yn llonyddu, angeu yn distaw ollwng cadwynau marwoldeb yn rhydd, a Brenin y nef yn dywedyd, "Dos mewn heddwch." "Ystyr y perffaith ac edrych ar yr uniawn, canys diwedd y gwr hwnw fydd tangnefedd."

III. Rheswm y Gwas dros ei ddymuniad.—"Canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth."

Wrth yr iachawdwriaeth yma y golygir Crist, yr Iachawdwr, Pwrcasydd yr iachawdwriaeth. Mae tair adeg neillduol yn mywyd pob gwir Gristion pan mae yn dymuno cael marw, yn

1. *Pan mae yn cael prawf amlwg fod yr iachawdwriaeth yn eiddo personol iddo ef.* Dyma y rheswm fod Dafydd yn alluog i rodio glŷn cysgod angeu heb ofni niwed, "canys yr wyt ti gyda mi, dy wialen a'th ffon a'm cysurant." A y plentyn trwy y peryglon mwyaf dan wenu, pan mae ei dad gydag ef. Felly y Cristion gyda ei Dduw. Awyddus oedd Paul i gael ei ddatod, oblegid gwyddai y cai fod gyda Christ. Dyna y rheswm fod Stephan yn llawen dan y gafod gerrig, oblegid y gwelai y nef yn agored. Pan byddo'r nef yn agor i'n derbyn, nid llawer o bwys genym fod y ddaear yn gwrthod ein hymgeleddu.

2. *Pan mewn mwynhad neillduol o'r iachawdwriaeth.* Mae y Cristion weithiau mewn hwyl i wahodd angeu—pan mewn cymdeithas neillduol â Duw—ar ddiwedd cymundeb hwylus neu Sabboth llwyddianus: pryd hyn y ceisia y Cristion farwolaeth, a marwolaeth a gilia oddiwrtho. Nid yw ein grym mewn amgylchiadau fel hyn gymaint ag y'm ni yn feddwl. Meddyliai Pedr ei fod yn ddigon cryf i farw pan yn gwrando Crist yn rhoi ei *farewell charge* i'r dysgyblion, ond cafodd weled yn fuan mai camsynied oedd. "Yn wir, yn wir, (ebe Crist), ni chân y ceiliog nes i ti fy ngwadu dair gwaith."

3. *Pan wedi cael prif ddymuniadau ei oes i ben.* Prif ddymuniad Simeon yn ei oes oedd gweled Crist yn y cnawd, a phan gafodd hyny yr oedd yn foddlon marw. Mae gan lawer Cristion ryw brif beth eisiau gael cyn marw. Hen aelod yn byw mewn ardal baganaidd, yn foddlon marw ond cael tŷ i addoli yn y cwm hwnw. Byddai llawer gweinidog yn foddlon

marw pe cai wel'd llwyddiant ar e ilafur, a hen wrandawyr ei gymydogaeth wedi eu plygu. Llawer tad a mam, yn awr yn eu henaint, fyddent yn foddlon gadael y byd pe caent wel'd eu plant yn uno âg achos Crist.

CASGLIADAU.

1. *Mae holl addewidion Duw yn sicr.* Gall fod tywyllwch o gylch iddynt, a thebygolrwydd yn dyweyd na chant eu cyflawni, ond deuant i ben. "Gair ein Duw ni a saif byth."

2. *Mae Duw yn gwneud cymwynasau neillduol i'w gyfeillion yn mhob oes.* Mae yn garedig i bawb, yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da; ond "am iddo roddi ei serch arnaf, am hyny y gwaredaf ef, dyrchafaf ef am iddo adnabod fy enw."

3. *Nid gorchwyl anhawdd fydd marw os bydd Iesu Grist yn ddigon agos i ni.* Mae wedi addaw bod gyda ni trwy y daith i gyd. "Ni 'th roddaf di i fynu, ac ni'th lwyr adawaf chwaith."

# ENOCH.

"A rhodiodd Enoch gyda Duw, ac ni welwyd ef: canys Duw a'i cymmerodd ef."—Gen. v. 24.

Enoch ydoedd fab Jered. Efe ydoedd y seithfed o Adda. Hyny yw, y seithfed cenhedlaeth: Adda, Seth, Ceinan, Enos, Mahalaleel, Iered, Enoch, felly efe oedd y saithfed genhedlaeth. Ystyr y gair Enoch yw *cyflwynedig*. Darfu iddo ef ateb yn gyflawn i'w enw. Mae llawer mewn swyddau ac yn gwisgo enwau heb feddwl byth am eu llanw. Yr oedd Enoch yn hynod yn ei fywyd a'i farwolaeth yn ol yr hanes byr gawn am dano yn y testun. Yr oedd gyda chrefydd o'i febyd; bu yn ffyddlon gyda hi trwy y dydd, ac aeth gartref yn mlodau ei ddyddiau, a chyfrif hyd cyffredin yr oes y pryd hwnw.

I. Beth sydd gynwysedig mewn "rhodio gyda Duw."

1. *Bod mewn heddwch â Duw.*—"A rodia dau yn nghyd heb fod yn gytun?" Nid tebygol. Nid yw Duw yn holl feddwl yr annuwiol. Mae yn ceisio ymguddio rhagddo. Mae yn gas ganddo am dano. Mae ffordd Duw yn rhy bruddaidd a glân iddo ef. Ni chaiff Duw gynyg ei ffordd i'r annuwiol. "Cilia oddiwrthyf; nid wyf yn ewyllysio gwybod dy ffyrdd." Mae gan yr annuwiol ei ffordd ei hun, ac y mae yn barnu fod hono yn well na ffordd Duw. Mae amryw ffyrdd yn myned i wae, ond nid oes ond un brif ffordd wedi ei hagor i wynfyd. "Aethant bob un i'w ffordd ei hun." Rhaid i'r drygionus adael ei ffordd er dyfod i ffordd Duw, oblegid efe sydd ar yr iawn. Mae Duw yn dangos perygl yr hen ffordd, ac yn foddlon maddeu y drygau a wnaed arni, a dangos diogelwch a phleserau ei ffordd ef, ac addaw cynorthwyo y pechadur i'w theithio, ae ar yr ammodau hyny mae lluaws wedi ymostwng i rodio gyda Duw.

2. *Mae yn cynwys hyder yn Nuw.*—Pechadur yn gadael ei ffordd ei hun, a phob peth a berthyn iddi, ac yn cymeryd i fynu â ffordd Duw ar ei air. Dengys plentyn yr hyder hwn

yn ei dad. Mae ei fod gyda ei dad yn peri iddo ef gredu fod pob peth yn dda. Dengys Abraham yr hyder hwn pan yn gadael tŷ ei dad ac yn myned nas gwyddai ble, yn unig ar gais Duw. Mae y pechadur yn gwybod *ble* mae yn myned, ond nid yw yn gwybod troion y daith, na 'r driniaeth raid iddo gael er ei gymwyso yno. Mae yn sicr o ddilyn ffordd Duw pe byddai hi yn myned i'r ffwrn a'r ffau, y carchar, neu y tân. Mae cymaint a hyny o ffydd ganddo yn yr Arweinydd. Pan fydd yn ystormus ac yn gynhyrfus, nid yw y Cristion yn ofni, oblegid mae fel y teithiwr ar y môr yn gadael y cwbl i'r cadben. Dyna mae yn ddywedyd wrth deithio, "Dilyn yr Oen pa le bynag yr elo." "Pe lladdai efe fi mi a ymddiriedwn ynddo." Ac wedi gorphen y daith fe ddywed, "Ar hyd ffordd uniawn i'm harweiniodd i ddinas gyfaneddol.

3. *Mae hyn yn cynwys bod yn gyson mewn crefydd.* "Rhodio;" arwydda y gair yr hyn yw dyn yn gyffredin. Rhodiodd Enoch yn gyson gyda Duw dros "dri chant o flynyddoedd." Mae y Cristion yn foddlon cymeryd y daith i gyd—y drwg a'r da. Mae yn foddlon myned i Galfaria i gael ei fywyd, ac wedi hyny i'r winllan i weithio. Yn foddlon myned at orsedd gras i gael nerth, ac yn foddlon myned i'r gwaith i'w dreulio. Mae gyda Duw pan mae yn dosbarthu y gwaith yn gystal a phan mae yn tywallt yr addewidion. Gyda Duw mewn cystudd ac iechyd, mewn llwyddiant ac aflwyddiant. Melus fyddai ein bod yn alluog i ddyweyd gyda Dafydd, "Gyda thi yr ydwyf yn wastad." Wrth ein gwaith, ar ein teithiau, hwyr a boreu. Oni byddwn yn gyson ar y ffordd, bydd yn ddiflas fel y wers ar y plentyn, neu y gorchwyl ar y celfyddydwr na fyddo yn gyson.

4. *Mae hyn yn cynwys fod y Cristion yn myned rhagddo.*— "Rhodio;" pob cam mae yn roi mae nes yn mlaen. Wrth rodio gyda Duw mae yn d'od yn fwy gwybodus, ac yn fwy pur, ac wrth fyw yn ei gyfrinach mae yn d'od yn debyg iddo.

Gallai y Cristion feddwl nad yw wedi myn'd ddim hyd nes y byddo yn edrych yn ol. Mae yn gweled draw adeg gyfyng y cyfiawnhau, wedi hyny ei olygiadau plentynaidd am bethau crefydd. Mae yn cwyno am ei anmherffeithrwydd fel pe byddai heb wella dim nes cofio beth oedd ef gynt. "Hyn a fu rhai o honoch chwi, eithr chwi a olchwyd." Mae yn debyg i Dduw. Mae wedi ei enill yn gwbl. Myned rhagddo bydd y Cristion byth; bydd Duw yn ei arwain i ystafelloedd newydd o hyd. Dyma fel mae yn gwneud â dynion yn ei ragluniaeth wedi astudio gwyneb y ddaear myned i lawr iddi, wedi myned at y ser, dangos rhai pellach. Gan fod gan ddynion ddigon o waith myned rhagddynt yn y byd hwn, nid rhyfedd eu bod felly yn y byd nesaf. Bydd ryw ddiwrnod yn edrych gyda syndod ar ei feddyliau rhyfedd pan aeth i fewn gyntaf i'r ddinas. Crefydd ag y mae myned rhagddi ynddi yw crefydd Iesu Grist.

5. *Mae yn cynwys fod y Cristion wrth ei fodd ar y daith.*"— "Rhodio." Gorchwyl difyrus ydyw. Os bydd dyn yn rhodio gyda ei gallach, bydd yn cael hyfforddiant, wrth deithio trwy leoedd ble bydd y golygfeydd prydferthion yn myn'd â'i sylw. Mae awr felly braidd fel pum mynud. Aeth deugain niwrnod Moses yn y mynydd heibio fel dwy awr. Yr oedd yn synu fod y bobl wedi cael amser i wneud y "Llo." Mae ambell i gyfarfod yn pasio, er iddo barhau dwy awr, yr oedd yn ymddangos fel dwy fynud. Mae y Cristion yn nghyfrinach Duw yn cael cymaint o bethau newydd i'w ddifyru, golygfeydd prydferthion trefn gras yn myned â'i feddwl yn hollol; aeth "tri chan mlynedd" heibio fel tri diwrnod, Pleser gan y Cristion yw gweddio; mae yn cael dyweyd ei gwyn a Duw yn rhoddi pleser iddo wrth gymuno ag ef. Pleser i fyfyrio; mae pedair awr wrth gorn yr aradr yn pasio heb yn wybod iddynt. Mae profiad dymunol y Cristion yn nhywydd garw y daith yn eglur ddangos ei fod

wrth ei fodd. Caleb a Joshua yn gwaeddi, "Awn, a meddianwn y wlad;" Job yn dyweyd, "Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd;" Paul yn tystio ei fod yn llawenhau pan yn y carchar yn dyoddef. Er fod y Cristion yn wylo weithiau, ni thry yn ol er dim.

II. Y FRAINT GYSYLLTIEDIG A "RHODIO GYDA DUW."

1. *Mae yn cael mantais i adnabod Duw.*—Nid oes un llwybr i adnabod dyn gystal a bod yn ei gyfrinach yn aml, a byw gydag ef. Yr oeddym yn meddwl yn dda am un dyn, ac yn ddrwg am y llall, nes myned i fyw ato, newidiasom ein barn am dano. Mae yr annuwiol yn rhoi ei farn am Dduw heb fyw ddiwrnod erioed gydag ef. Ond byw gyda Duw, deuwn i'w adnabod, ac os ei adnabod, byddwn yn sicr o'i garu, oblegid cawn weled mai Duw cariad yw. Pe bai addolwyr y duwiau paganaidd ond adnabod eu duwiau, deallent nad oes ganddynt niwed i wneud iddynt, ac ni phlygent iddynt mwy. Mae meddwl Victoria gyda'r *Privy Council*, oblegid maent yn cyfrinachu â hi yn aml. "Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyda y rhai a'i hofnant ef." Maent yn deall ei air yn well, bod yn ei chwilio yn yr un ysbryd ag oedd yn cael ei lefaru. Mae y Cristion yn gweled Duw yn mhob man, tra mae yr annuwiol yn methu ei weled yn unman.

2. *Mae yn anrhydedd mawr i gael "rhodio gyda Duw."*—Mae rhodio gyda'r brenin yn gryn dderchafiad. Dim ond y *royal blood* yn gyffredin geir yno. Ond mae pawb sydd yn ymostwng i gynllun Duw yn cael rhodio gydag ef. Cyfnewidiad rhyfedd iawn yw gweled bachgen oedd gynt yn droednoeth ar yr heol yn awr yn rhodio gyda'r boneddwr anrhydeddusaf yn y wlad; ond mwy yw gweled Cristion yn cael siarad â Brenin y breninoedd, yn cael myned ato yn bersonol, a hyny i ddyweyd ei gŵyn wrtho pryd y myno. "Ein cymdeithas ni yn wir sydd gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef, Iesu Grist."

3. *Yr ydym yn hollol ddiogel tra yn "rhodio gyda Duw."* Cyfaddefa pawb sydd yn credu yn modolaeth Duw, ei fod yn hollol ddiogel. Er cymaint o elynion sydd ganddo, nis gall yr un o honynt ei niweidio. Mae y Cristion sydd yn rhodio gydag ef mor ddiogel rhag gwir niwed ag yw ef ei hun. Mae bywyd y Cristion yn ddiogel; gall y gelynion fyned â'i feddianau, ei gyfeillion, a'i gysuron, ei iechyd, a'i gorph, ond am ei fywyd, y mae wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw. Gwelais gi weithiau yn myned trwy'r dre wrth sawdl ei berchenog; tra yno byddai yn ddiogel, ond os ciliai cawsai y gwaetha yn union. Tra mae y Cristion gyda Duw, nid oes niwed; ond pan yn crwydro, mae yn sicr o gael drwg. Mae y Cristion yn y tŵr yn gweled y ffrwyth, ac yn cael cyfle i ladd ei elynion, ond nis cyffwrdd ag ef; "Ni ddygwydd i ti niwed, ac ni ddaw pla yn agos i'th babell." Nid yw ffordd Duw yn gywir yn mhoen nac yn deg yn nheimlad y Cristion; ond mae yn ddiogel. Mae Duw wedi sicrhau y byddwn yn iach gartref, ac nid oedd Paul yn ymofyn ond hyny: "Gallwyf mewn rhyw fodd gyrhaedd adgyfodiad y meirw."

4. *Ond i ni rodio gyda Duw yma, cawn fyned ato i fyw wedi myned oddi yma.*—"Canys Duw a'i cymerodd ef." Wedi iddo gael ei drwsio yn iawn, caiff fyned i'r palas breninol, fel perthynas yn gosod plentyn mewn ysgol nes cyrhaedd y cymhwysderau angenrheidiol, yna mae yn ei gymeryd i'w balas. Mae ffordd Duw yn arwain yn unionsyth i ddedwyddwch. Ni raid ofni ei cholli tua'r afon, nac wrth fyned i mewn i'r ddinas. Bydd angylion yn ein cwrdd ni yno.

CASGLIADAU.

1. *Gwell bod wrthym ein hunain gyda Duw, na chyda'r lluaws yn myned i drueni.*

2. *Fod y gwir Gristion yn sicr o barhau hyd y diwedd.*

3. *Y rhai sydd yn byw dduwiolaf ac yn gweithio galetaf, gaiff adael gyntaf.*

4. *Yr wyf yn galw yr annuwiol i adael ei ffordd ddrygionus.*

## AMYNEDD JOB.

"Yn hyn i gyd ni phechodd Job â'i wefusau."—JOB ii. 10.

CYNWYS y ddwy bennod gyntaf o'r llyfr hwn hanes Job, ei deulu, ei gyfoeth, ei brofedigaethau, a'i grefydd. Nis gwyddom pwy oedd ei rieni. Yr oedd yn byw yn Us, parth yn anialwch Arabia. Tra thebyg ei fod yn gydoeswr ag Abraham. Ei fod yn byw o gwmpas chwech cant o flynyddoedd wedi y diluw. Yr oedd ganddo wraig, saith o feibion, a thair o ferched. Yr oedd yn berchen llawer o gyfoeth, ac yn etifedd crefydd dda. Tybiai Satan fod grym ei grefydd yn ei gyfoeth, ond wedi tynu y cyfoeth ymaith yr oedd ei grefydd yn dal. Tynodd ei iechyd ffwrdd, a'i gyfeillion i droi yn ei erbyn, "Ond er hyn i gyd ni phechodd Job â'i wefusau."

I. PROFEDIGAETHAU JOB.

1. *Cystudd corphorol.*—Satan a darawodd Job a chornwydydd blin o wadn y troed hyd ei goryn. Yr oedd oll drosto yn gornwydlyd. Gallwn ddeall ei fod yn glâf iawn, ond gwrando ar ei lais ef ei hun yn ei gystudd. "Fy nghroen a dduodd am danaf, a'm hesgyrn a losgasant gan wres," Job xxx. 30. "Fy wyneb sydd fudr gan wylo, a chysgod marwolaeth sydd ar fy amrantau," xvi. 16. "Y nos y tyllir fy esgyrn o'm mewn: a'm gïau nid ydynt yn gorphwys," Job xxx. 17. Nid oedd ganddo yr un man iach ar ei gorph. Nis gallai eistedd, sefyll, na gorwedd yn dawel. Nis gallai gerdded ei hun, nac yn mraich arall, poen yn mhob dull. Mae yn ganolig iawn pan byddo yr holl deulu yn glaf yr un pryd; felly pan byddo holl aelodau y corph, mae yn wael iawn. Nid oedd un amser gwell na'i gilydd—nos fel dydd, dim gorphwysfa. Yr oedd yn waeth fyth, oblegid yr oedd ei galon yn hollol iach, ac felly yr oedd yn teimlo y poen yn fwy. Nid oedd neb yn cynyg ei wella, na neb yn gweini arno; sachlian am dano, lludw

oedd ei wely, a chragen oedd yr oll a feddai. "Er hyn i gyd ni phechodd Job â'i wefusau."

2. *Collodd ei gyfoeth.*—Collodd y cwbl, ac yr oedd ei gwbl ef yn llawer. Yr oedd yn werth yn agos i 40,000 o bunau. Ni adawyd dafad i roi ar lôg, pâr o ychain i fyn'd i enill tamaid, nac asyn a chart i fyn'd i gario pysgod. Pan cafodd Satan genad gwnaeth *sale* ar y cwbl oll. Aeth y Sabeaid â'r ychain a'r asenod bob un. Llosgodd y tân y defaid i gyd. Aeth y Caldeaid â'r camelod oll: collodd y cwbl ar *unwaith.* Pe buasent yn cael eu cymeryd ymaith yn raddol gallasem feddwl y buasai yn d'od yn foddlon, fel y Cristion hwnw oedd yn grwgnach pan aeth Duw â buwch oddiarno, ond wedi iddo fyned â phedair daeth yn foddlon iddo eu cael i gyd. Collodd hwynt mewn *ffordd hynod.* Buasai yn hawddach cymodi pe buasai yr ychain a'r asenod wedi marw o'r clefyd, a'r camelod o'r plâ, na fod y Sabeaid a'r Caldeaid wedi eu dwyn hwynt, pe buasai y defaid wedi trengu o achos geirwindeb y gauaf, na fod tân wedi eu llosgi yn fyw. Collodd y cwbl ar un waith mewn ffordd hynod, ond "er hyn i gyd ni phechodd Job â'i wefusau."

3. *Lladdwyd ei blant.*—Ystyria pawb fod claddu plentyn yn brofedigaeth fawr, ac yn gofyn gras neillduol. Yr oeddynt oll mewn oed, yn gyfrifol; mae hyny yn gwneud y brofedigaeth yn fwy. Collodd hwynt i gyd—*deg plentyn* yr un pryd, heb yr un ganddo i ymgysuro ynddo yn ei llaw. Mae claddu dau yr un flwyddyn yn amgylchiad difrifol; ond deg yr un pryd sydd fwy byth. Lladdwyd hwy mewn ffordd hynod—'storm dros yr anialwch wnaeth y tŷ yn ddarnau. Nid marw marwolaeth deg; ni chafwyd gweini iddynt pan yn glâf, na ymofyn meddyg i'w gwella, na ffarwelio â hwynt.

Lladdwyd hwynt hefyd wrth y *gwin.* Nid oedd sicrwydd eu bod yn feddw, ond yr oedd yma le i dad duwiol ofni. Os bydd dyn farw mewn *ball,* tafarn, neu ar y ffordd nos ffair,

mae lle i gasglu fod drwg. Ni chafodd gyfrif am eu horiau diweddaf: mae hyn yn boenus iawn i rieni. Dim hanes am danynt na gair oddiwrthynt, ond i'r tŷ syrthio arnynt a'u lladd. "Er hyn i gyd ni phechodd Job â'u wefusau."

4. *Cafodd siomedigaeth mewn cyfeillion.*—Mewn cyfyngder mae profi cyfaill; mewn 'storm mae profi y llong; mewn brwydr, milwr; mewn tân, aur; ac felly mewn cyfyngder, cyfaill. "*A friend in need is a friend indeed.*" Yr oedd ei wraig wedi ei siomi. Nis gwn a oedd hi yn arfer bod yn rhinweddol, a bod ei hamynedd wedi diffygio, neu wraig baganaidd annuwiol oedd ganddo. Meddai hi, "Melldithia Dduw, a bydd farw." Danod ei grefydd iddo pan yn ei gyfyngder. Cyfrifa Cristion hyn yn un o'r profedigaethau cryfaf; dyma ei brif gysur yn ei helbul—*ei Dduw.* Yr oedd ei gyfeillion yn penderfynu ei fod ef yn annuwiol neu ei Dduw yn anffyddlon. "Er hyn i gyd ni phechodd Job â'i wefusau."

5. *Daeth yr oll arno yn sydyn ac anysgwyliadwy.*—Yr oedd yr hen wr yn ddifyr gyda'i deulu pan ddaeth y genad i fynegu am yr ychain a'r asenod; cyn cau y drws, wele y llall yn mynegu tynged y defaid, a'r nesaf y camelod, y nesaf a'r gwaethaf y plant: ond wedi colli y cwbl, meddyliai, gan ei fod yn iach, y gallai enill bara iddo ef a'i wraig; erbyn hyny, wele yntau yn cael ei daro yn glaf. Nid oedd erioed wedi meddwl am y fath beth, nac yn disgwyl y fath newyddion. Nid oedd wedi arfogi a pharotoi; aeth yn ystorm ar ganol diwrnod teg. Mae mantais os byddir yn gweled cwmwl du, neu fel Jacob yn gweled llid Esau. "Er hyn i gyd ni phechodd Job."

II. Amynedd Job yn y Profedigaethau.

1. *Yr oedd yn teimlo.*—Nid yw amynedd yn cynwys peidio teimlo. Mae crefydd yn foddlon i ni deimlo, ac amlygu ein teimladau mewn ffordd gyfreithlon, fel Job, trwy rwygo ei fantell a syrthio ar y ddaear, fel yr arferid yn ei wlad a'i oes

ef. Yr oedd Dafydd yn ymdroi mewn sachliain a lludw oherwydd cystudd ei blentyn, a Iesu Grist yn wylo wrth fedd ei gyfaill Lazarus, er y gwyddai y medrai ei godi o'r bedd i'r lan. Mae crefydd fel pe bai yn gwneud y dyn yn fwy rhwydd i deimlo. Pe bai dyn yn colli ei deimlad, elai fel yr anifail. Yr oedd Job yn teimlo ei fod wedi colli ei feddianau a'i blant; ond er yn teimlo, yr oedd yn tewi, ac nid oedd yn pechu.

2. *Yr oedd yn dawel iawn.*—"Ni roddodd ddim yn ynfyd yn erbyn Duw." Nid oedd yn diarebu y Sabeaid nac yn melldithio y Caldeaid, nac yn achwyn chwaith ar y plant eu bod yn arfer gwledda, ac mai rhyw ddrwg a ddeuai iddynt. Y siarad lleiaf mewn profedigaeth yw y siarad goreu. Yr oedd yn cyfiawnhau Duw. "Bendigedig fyddo enw yr Arglwydd." Yr un peth yw Duw eto, ac y mae fy meddwl yr un mor uchel am dano ag oedd. Nid er mwyn yr ychain, &c., oeddwn i yn ei garu. Mae Satan yn cael ei siomi: yn lle melldith, bendith sydd yn dyfod o enau Job.

3. *Fel prawf o gywirdeb ei ymadroddion, wele ef yn nesu yn nes ato, "Ac a addolodd."*—Wedi colli ei feddianau, iechyd, cyfeillion, &c., yr oedd yn barod i ddyweyd, "Pe lladdai efe fi, mi a ymddiriedwn ynddo." Mae cafod yn gyru y plant gartref a'r adar tua'r tŷ, felly mae gofid yn nesu y Cristion at Dduw. Yr oedd Israel yn grwgnach mewn cyfyngderau. Mae y Cristion yn gwneyd mwy o'i Dduw wedi colli pethau ereill, fel mam yn gwneud pob peth o'r plentyn fyddo yn ol, wedi colli y plant ereill. Yma y gwelir amynedd Job, ei fod yn meddianu ei hunan yn nghanol yr ystorm.

III. Y Rhesymau a roddai dros fod mor dawel yn ei brofedigaethau.

1. *Cofio beth oedd gynt.*—"Noeth y daethum o groth fy mam," sef o'r ddaear. Nid oedd bod heb ddim yn beth newydd iddo. Bu felly unwaith o'r blaen. Heb ych, dafad, camel, asyn, plentyn, na gwisg, ac eto gofalodd Rhagluniaeth

am dano, a magwyd ef yn dyner. Er mor uchel yw y dyn yn awr, o'r pridd y daeth; ac er cymaint sydd ganddo, yma cafodd y cwbl: ni ddaeth ef a dim ganddo. Ni waeth i ni ddannod tlodi i'n gilydd, yr ydym wedi bod yn dlawd i gyd.

2. *Meddwl yr hyn fyddai yn fuan.*—"Noeth y dychwelaf yno." Rhai i fyned oeddynt cyn hir. Ni fuasent o les i mi yn y byd arall: os collais i fy mhethau, mae fy mywyd yn ddiogel. Nid yw yr ymfudwr yn prysio colli y cwbl ar y llong, ond iddo ef gael dianc; ac y mae bod heb bethau yn fantais i ddianc. Mae gofalu am ei bethau wedi myned â llawer un i'r dyfnder. Nid wyf yn wahanol i ereill, ond bod fy Nhad wedi fy niosg ar y llawr cyn myned i ystafell fy ngwely.

3. *Ystyried hawl Duw yn ei bethau*—"Yr Arglwydd a roddodd." Duw roddodd yr anifeiliaid, y plant, a'r iechyd. Ni wnaeth dim ond myned â'i eiddo ei hun; a Job yn diolch am eu benthyg cyhŷd. Yr ydym wedi cael yn dda ganddo—miloedd o anifeiliaid am flynyddau, plant ac iechyd, a phalas a danteithion; rhaid boddloni am ychydig ar y domen gyda'r gragen. Goruchwylwyr ar bethau Duw ydym ni, a chofiwn ein bod wedi cael eu benthyg yn hir; os derbyniwn yr hyn sydd dda, dylem dderbyn yr hyn sydd ddrwg hefyd. Pe bai ni yn cael myned i balas am ddiwrnod i weled ei ryfeddodau a mwynhau ei wleddoedd, nid gormod i ni roddi *bow* a thalu diolch wrth fyned allan frig yr hwyr; felly y dylem wneud pan fydd Duw yn galw arnom i ymadael â'r byd hwn a'r pethau sydd ynddo.

4. *Mae yn gweled llaw Duw yn y cwbl.*—"Yr Arglwydd a gymerodd ymaith." Nid aeth i achwyn ar y Sabeaid a'r Caldeaid, y tân a'r ystorm; yr oedd yn gweled un tu cefn iddynt. Pan fydd cynauaf drwg, mae y Cristion yn gweled llaw tu ol i'r cymylau a'r gwynt; felly mewn masnach. Cyn y daw iechyd ac angeu—ystyria fod un sydd uwch na 'r

uwchaf, ac yn llywodraethu ar y cwbl, ac nas gall dim gyffwrdd ag ef heb genad ei Dad. Ffolineb fyddai cospi yr afon am fyn'd â'r ddôl wair i ffwrdd, neu y corwynt am dori y tŷ; felly nid gwiw grwgnach yn erbyn rhagluniaeth Duw. Mae y Cristion yn gwel'd llaw o fewn i'r llen.

CASGLIADAU.

1. *Mae i'r dyn goreu ei brofedigaethau.*
2. *Mae i'r dyn goreu ei ffaeleddau.*
3. *Bydd crefydd dda byw ar Dduw yn unig.*

---

## CRIST YN WYLO DROS JERUSALEM.

"Ac wedi iddo ddyfod yn agos, pan welodd efe y ddinas, efe a wylodd drosti."—Luc xix. 41.

Yr oedd Iesu Grist y pryd hwn ar ei daith o dir Ephraim i Jerusalem. Yr oedd yn myned trwy Jericho; yn agor llygaid dau ddeillion, ac yn argyhoeddi Zaccëus yno. Yr oedd y ddinas hon 19 o filldiroedd o Jerusalem. Daeth yn ei flaen i fynydd yr Olewydd, o dŷ y dwyrain i'r ddinas, oddeutu milldir o ffordd, dyffryn Jehosaphat oddi tano ac afon Cedron, a'r ddinas braidd oll yn ei olwg. "Ac wedi iddo weled y ddinas, efe a wylodd drosti." Yn ymyl yr amgylchiad gwnaf y sylwadau cyffredinol a ganlyn:—

1. *Fod Iesu Grist yn llawn teimladau.*—Meddai holl deimladau y natur ddynol, ac yr oeddynt yn hollol bur a choethus yn eu gweithrediadau. Tair gwaith y cawn hanes am Iesu Grist yn wylo; yn Methania, ar fynydd yr Olewydd, ac yn Gethsemane. Deigryn hiraeth wrth y bedd, deigryn gofid yn yr ardd, a deigryn tosturi ar y mynydd. Gellir rhoi dagrau y byd yn un o'r costrelau hyn, *gofid, hiraeth*, neu *dosturi.* Mae gwres a chaledwaith yn dwyn allan chwys a theimlad, ac yn cynyrchu dagrau. Pan fydd y *blinds* dros y ffenestr, mae yno brawf fod yr hwn sydd yn yr ystafell yn glaf, yn cysgu, neu yn farw. Pe byddai yn gweithio, byddai am oleu. Felly, pan bydd y galon yn llawn teimlad, bydd yn debyg o anfon allan ddagrau. Gellir wylo heb deimlo; ond os bydd y teimlad yn fawr, bydd dagrau yn debyg o fod allan. Mae rhai â'u ffynonau hwy yn rhedeg yn wastad, ac felly nid oes dal arnynt; ond mae ffynonau anghynefin yn tarddu mewn caledi a gwasgfeion. Mae crefydd yn gwella y teimladau, ac yn gwneud ffordd y dagrau yn fwy rhwydd. Meddyliai rhai mai arwydd o ddyn mawr yw ei fod yn peidio wylo; ond wele yr Iesu yn wylo. Nid oedd Alexander yn wylo o dosturi ar faes

y gwaed; ond gallai wylo mewn awydd siomedig am fyd newydd i'w orchfygu. Llawer un nad yw yn wylo wrth glywed am Galfaria, ond yn wylo wrth gladdu plentyn. Yr oedd dynion mawr y Beibl yn wylo. Dafydd—"Cymysgais fy niod ag wylofain." Job—"Fy wyneb sydd fudr gan wylo." Jeremiah—"O na bai fy mhen yn ddyfroedd," &c. Pedr a wylodd yn chwerw dost. Wylodd Iesu dros y ddinas a thros bechod y byd: gwna pechod i bawb wylo rywbryd. Teimlad mewn amgylchiadau yw prif elfen dedwyddwch dyn.

2. *Fod golwg ar y gwrthddrychau yn cyffroi teimladau Iesu Grist.*—"Pan welodd efe y ddinas." Gwyddai am anghrediniaeth ei thrigolion, a thruenusrwydd ei chyflwr; ond yr oedd ei *gweled* yn ei gyffroi, er hyny. Gwyddai ef fod ei gyfaill Lazarus wedi marw cyn iddo gychwyn i'w daith; a dywedai wrth ei ddisgyblion, "Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno:" ond pan yr aeth a gweled ei fedd, "Yr Iesu a wylodd." Mae y natur ddynol yn dangos y ddeddf hon a berthyn iddi mewn amryw amgylchiadau. Pe byddai dyn tlawd claf yn ymofyn elusen wrth y drws, dichon y byddai 'r wraig yn gorchymyn y forwyn i'w anfon i'w ffordd yn waglaw; ond daeth a gwelodd ei glwyfau, tosturiodd yn yr olygfa, a rhoddodd iddo. Pe byddai dyn yn marw yn Llangadog, a phlentyn iddo yn byw yn Llundain, byddai cryn wylo pan gawsai y newydd; ond ni byddai hyny ddim at yr wylo pan gafodd weled ei wyneb. Mae gweled yn cynyrchu teimladau: nis gall ein teimlad fod yn helaethach na'n gwybodaeth. Rhaid i ni gael pethau ger bron y meddwl cyn y gallwn deimlo. Y dyn ag sydd yn gweled Duw sydd yn ei barchu. Yr hwn sydd yn gweled ei hun fel Paul sydd yn marw iddo ei hun. Pe byddai y pechadur ond sefyll yn yr olwg ar Grist yn marw drosto, nis gallai lai na galaru. "Edrychant arnaf fi, yr hwn a wanasant: *galarant* hefyd am dano," &c. Yr hwn sydd yn gweled cyflwr yr eglwys a'r gwrandawyr oreu, sydd yn

teimlo fwyaf drostynt: yr hwn sydd yn gweled golygfa y byd paganaidd o flaen ei feddwl, sydd yn teimlo fwyaf drosto, ac yn ymdrechu fwyaf i'w wella.

3. *Fod gan Iesu Grist deimladau neillduol dros ryw leoedd a phersonau.*—Gwelodd Iesu lawer bedd o'i gryd i ddiwedd ei daith; ond ni wylodd wrth fedd neb ond Lazarus. Yr oedd ef yn gyfaill neillduol. Byddai yn arfer galw yn ei dŷ a chyfeillachu llawer iawn. Yr oedd Jerusalem, hefyd, fel lle hynod yn ei serchiadau ef. Gallem dybied fod y pethau canlynol yn ei fryd pan yn sefyll ar y bryn gerllaw :—Bum i yn ben yn y ddinas hon; yr oedd calon Dafydd frenin yn eiddo i fi; deddfau a chyfreithiau yn ol fy meddwl i; y gyfraith yn myned allan o Sion; yma y deuai y llwythau o'r holl wlad gylchynol, â'u hanrhegion blynyddol ganddynt. Cofus genyf barodrwydd a sel y bobl i ddwyn anrhegion ati pan yn cael ei hadeiladu gan Solomon; y cerrig dan y morthwylion yn y mynydd yn adsain, a'r bwyill yn rhwygo y cedrwydd yn Libanus am saith mlynedd. Bu yma oen yn cael ei aberthu bob boreu a hwyr: mŵg yr arogldarth peraidd yn dyrchafu, a'r Lefiaid ar eu hoffer cerdd yn canu. Bu yma wyliau arbenig. Bu fy swyddfa yma lle cawsai y genedl fy meddwl. Ond, O! Jerusalem, Jerusalem!! Yr oedd gan Dduw deimladau neillduol at y genedl Iuddewig. "Pa fodd i'th roddaf ymaith, Ephraim, i'th roddaf i fyny, Israel!" Yr wyf yn cofio dy enwogion a'u gorchestion—Abraham yn gadael ei wlad, ac yn rhoddi ei unig fab i mi ar ben Moriah; Isaac, y bachgen duwiol; Jacob, y gweddïwr campus; Joseph, y plentyn tawel; Moses a Joshua â'u gwyrthiau mawr; a Dafydd a Solomon ddoeth. Yr oedd yn teimlo yn rhyfedd wrth feddwl gorfod rhoddi cenedl fel hon i fyny. Gallwn feddwl fod Iesu Grist yn teimlo yn hynod pan mae ambell ddrws yn cael ei gau yn erbyn yr Achos, pan wedi bod yn agored yn hir. *Novels* wedi myned â lle y Beibl; gwatwarwr yn

nghadair yr hen weinidog; dynion llygredig lle byddai achos Duw yn cael ei drefni; arian yn myned i deyrnas llygredigaeth, oedd yn arfer myned i deyrnas Dduw. Teimlir yn gyffredin dros un fyddo wedi colli ei le trwy anghyfiawnder. Mae Iesu Grist yn tywallt dagrau uwch ben ambell dŷ y bu yn ben arno yn amser y tad a'r tadcu, ond y mab ieuanc wedi ei droi allan. Gallem gasglu yn naturiol fod Iesu Grist yn teimlo yn rhyfedd wrth roddi ambell berson i fyny, megis plentyn rhieni duwiol fyddo wedi troi yn annuwiol, wedi ei gael ganwaith gan ei dad a'i fam yn unol ac yn bersonol, wedi cael cymaint o gynghorion da, ac addysg mor rhagorol. Myned â phethau crefydd ganddo i'w wneyd yn enwog ar dir y gelyn. Wedi addaw bod yn eiddo iddo hefyd; ond er yr oll, os na ddaw o fodd ei galon rhaid ei roddi i fynu.

4. *Fod gan Iesu Grist lywodraeth neillduol arno ei hun yn mhob amgylchiad.*—Yr oedd Iesu Grist y pryd hwn yn myned i mewn i'r ddinas gyda rhwysg neillduol; ei ddysgyblion a'r plant yn gwaeddi, "Hosanna i Fab Dafydd;" ond yn nghanol eu bonllefau, yr oedd ei feddwl ef gyda chyflwr truenus y ddinas. Nid oedd Iesu Grist yn arfer colli ei hun fel y byddwn ni yn aml. Wedi gorchfygu y doctoriaid yn y deml, yr oedd yn hollol ufydd i'w fam. Byddai y bobl am ei wneyd yn frenin weithiau, ac am ei ladd bryd arall. Pan y bygythiai Herod i'w ladd, âi yn mlaen yn dawel gyda ei waith. Yr oedd ef yn dawel gysgu yn yr ystorom ar y môr. Yr oedd yn alluog i gymuno y nos cyn ei farw. Gwella clust Malchus yn yr ardd a rhoi gofal ei fam i Ioan yn ei angeu. Yr oedd yn rhy drwm i'r awel ei godi, ac yn rhy galed i'r 'storm i'w guro. Colli ein hunain ydym ni mewn 'storm: collodd Moses, Job, a Phedr eu hunain. Yr oedd Pedr yn rhy uchel mewn llwyddiant, ac yn rhy isel mewn aflwyddiant. Nid oes tebygolrwydd yr eris y *weather glass* i fynu yn hir os bydd yn codi yn gyflym iawn. Mae gŵg y byd wedi tori calonau miloedd, ond mae ei wên wedi tori gyddfau mwy.

5. *Rhaid fod colledigaeth pechadur yn olygfa alaethus iawn.* Iesu yn wylo yn yr olygfa arni. Er fod Iesu yn llawn teimladau, rhaid oedd cael golygfa gyffrous cyn y byddai ef yn wylo. Bu mewn llawer o gyfyngderau heb wylo, ond nis gallasai ddal yr olygfa hon heb wylo. Nid colli y ddinas oedd yn ei flino ef. Gallasai gael meini, perlau, aur, arian, a phres wedi hyn. Yr oedd y deml wedi bod ar lawr unwaith o'r blaen; ond gwelai ei feddwl treiddgar ef golledigaeth eneidiau y trigolion. Mae wedi myned i'w lw nad yw yn hoffi marwolaeth yr annuwiol. Mae yn defnyddio pob moddion diwygiad yn flaenorol. Mae yn ei fygwth, "Oni ddychwel yr annuwiol," &c. Wrth ei roi i fynu mae yn gofyn, Pa fodd ni wnaeth fel hyn gyda chreu a chynal y bydoedd lluosog? Amgylchiad torcalonus iawn yw bod tad a mam yn gorfod rhoddi plentyn i fynu i gael ei ffordd ei hun, ond llawer mwy fod Duw yn rhoi pechadur i fynu i ddinystr tragywyddol. Mae fod dyn wedi colli ei iechyd, ei gyfoeth, aelod o'i gorph, yn galw am gydymdeimlad, ond dim mewn cydmariaeth i golli enaid.

6. *Nid o lid a digofaint at bechadur mae Duw yn ei gospi.* Wylai Iesu Grist dros y ddinas er gwel'd y farn yn dyfod. Mae'r tad yn wylo wrth geryddu y plentyn; Victoria yn tywallt dagrau wrth seinio *death warrant* y troseddwr; Darius yn gofidio wrth daflu Daniel i'r ffau; Iesu yn wylo wrth roi y farn ar Jerusalem, ac mae yn wylo wrth golli pob troseddwr. Uniondeb cyfraith a'i ddaioni cyhoedd sydd yn galw am gosp. Mae annedwyddwch y pechadur yn fwy fod yr Iesu yn teimlo yn ei gospedigaeth. Dagrau tad sydd yn lladd fwyaf ar y plentyn. Os na wna ei ocheneidiau ar y groes ei ladd ar dir pechod, gwna mewn cosp ei ofidio byth.

## MAE I MI BUMP O FRODYR.

"Ac efe a ddywedodd, Yr wyf yn attolwg i ti gan hyny, O dad, ddanfon o honot ef i dŷ fy nhad: canys y mae i mi bump o frodyr: fel y tystiolaetho iddynt hwy, rhag dyfod o honynt hwythau hefyd i'r lle poenus hwn."—Luc xvi. 27, 28.

Barna rhai mai hanes, ac ereill mai dammeg yw y rhan hon o'r Ysgrythyr. Tueddir fi i feddwl mai dammeg ydyw, wedi ei hamcanu i fod yn rhwystr ar gybydd-dod y Phariseaid. Mae y fath amgylchiadau a ddarlunir yma yn cymeryd lle yn feunyddiol, ac y mae yr egwyddorion a ddadblygir yma yn rai cyffredin, a byddant yr un, pa un bynag ai hanes ai dammeg ydyw. Oddiwrth y testun gallwn weled yn eglur y pethau canlynol:—

1. *Fod byd ar ol hwn.*—Yn y byd dyfodol yr oedd y personau yn y testun yn ymddiddan. Mae y byd hwn yn rhy fach i ddyn: nid yw yn boddloni arno yn awr; mae yn myned allan o'i gyffiniau yn aml iawn. Nid yw dyn yn foddlon i'w gyflwr presenol. Nid yw yn gallu gorwedd i lawr yn ddigonol, fel yr ych ar y ddoldir. Mae awydd byd arall wedi ei blanu yn y meddwl dynol, a byddai yn siomedig pe nas cawsai ef. Mae gan ddyn feddwl, a hwnw yn llawn awydd am wybodaeth; ac ni fydd i Dduw i droi o fodolaeth pan mae ond dechreu dysgu egwyddorion pethau. Mae y Testament Newydd yn llawn profion o sefyllfa ddyfodol.

2. *Fod yn y byd nesaf dalaeth i gospi troseddwr.*—Mae y byd hwnw yn rhanedig i ddwy dalaeth. Mae y drwg a'r da yn hollol ar eu penau eu hunain yno, ac nid yn gymysgedig fel mae yma. Dyma fydd yn gwneyd gwynfyd dynion da gymaint, eu bod ar eu penau eu hunain; a hyn fydd yn gwneyd trueni dynion drwg yn fawr. Gelwir y naill yn nefoedd a'r llall yn uffern: ystyr y gair *uffern* yw *cuddfa.* Mae carcharau a thiroedd alltudiaeth i gael i gospi dynion yn y byd

hwn, ac felly mae talaeth i gospi yr anufydd yn y byd nesaf. Mae yn Llundain "*Chambers of Horrors*"—ystafell lawn o arluniau dynion drwg. Mae talaeth ddychrynllyd yn y byd nesaf, lle y cospir y troseddwyr; nis gwyddom yn mha le y mae y lle hwn, ond gwyddom oddiwrth dystiolaeth eglur ei fod yn "lle poenus." Rhaid ei fod yn le poenus, gan ei fod yn gasgliad o ddynion gwaethaf y byd. Nid oes y gymwynas leiaf i'w chael yno. Rhaid ei fod yn boenus iawn, oblegid nid oes gobaith gwaredigaeth oddiyno. Mae gobaith yn gwella ychydig ar yr amgylchiadau cyfyngaf yn y byd hwn—y carcharor, yr alltud, y tlawd, a'r claf—mae angeu yn sicr o roi gwaredigaeth i bawb yr ochr hyn i'r bedd. Gofalwn atti gan hyny, ond nid oes yno obaith gwaredigaeth.

3. *Fod rhai o amgylchiadau da yn y byd hyn yn myned i'r lle poenus hwn yn y byd nesaf.*—Cymeriadau ac nid amgylchiadau sydd yn bwysig ynò. Nid oes fawr parch i feddwl a rhinwedd yn y byd hwn—ynad heddwch ac aelod o'r senedd—nid oes pwys faint o feddwl, na'r fath gymeriad fyddo gan y dyn, os bydd yn ychydig o foneddwr gwna y tro. Beth sydd *am* y dyn ofynir yma, ond beth sydd *yn* y dyn ofynir yno. Meddwl, wedi eì ddiosg o'i gwbl, fydd yn cael ei roi yn y glorian yno. Mae llawer o gyfoethogion yn dduwiol, a llawer o dlodion yn annuwiol. Gallem gasglu fod y byd truenus—uffern—yn waeth i'r hwn oedd mewn amgylchiadau da ac esmwyth yma. Bydd yr adgof o'r gwynfyd gafwyd yn ei gwneyd yn fwy poenus fyth. Gynt yr oedd mewn palas, yn yr hwn yr oedd llawer o ystafelloedd, gallasai gael yr un a fynai, a bod ar ei ben ei hun pan y mynai; ond yno gorfod byw yn nghanol gwehilion cymdeithas. Yma â chyflawnder i fwyta ac yfed, ei ddewis bethau ganddo yn y tŷ, afon o ddyfroedd yn rhedeg trwy y ddol, pysgodlyn o flaen y tŷ, a ffynon lloyw yn tarddu yn y goedwig gerllaw; ond yn awr dim diferyn o ddwfr i'w gael. Yma yr oedd ganddo weision

a morwynion a gweithwyr, a deiliaid i fyn'd a d'od, a gwneyd pob peth wrth ei arch ef; ond yno nid oes neb yn ufyddhau iddynt. Mae llawer â'u cwymp yn fawr yma.

4. *Mae llawer o ddeiliaid breintiau mawr yn myned i'r lle poenus hwn.* Cafodd y goludog y fantais o wybod Moses a'r prophwydi mae yn debyg iawn. Llawer un hollol gyfarwydd yn nghynwysiad y Bibl, wedi gweled *map* y lle, darllen iaith a theimlad y trigolion; llawer gwrandawr cyson fu yn ddifyr dan y weinidogaeth trwy ei oes, wedi disgyn i'r lle poenus hwn. Plant rhieni crefyddol fu yn meddu teimladau dwysion yn moreu yr oes; plant yr ysgol Sabbothol, a'r cantorion melusion. Bydd yn ddigon tlawd ar bagan yno, ond gwaeth ar drigolion gwlad efengyl. Mae ôl y breintiau arnynt. Digon hawdd i bawb eu hadnabod wrth eu trysorau.

5. *Fod dynion yn y lle poenus yn adgofio helyntion y byd hwn.*—"Mae i mi bump o frodyr." Yr oedd yn hollol gofio helyntion ei deulu. Bydd ambell i ferch yno yn cofio y fagwraeth dduwiol a gafodd, y cynghorion dderbyniodd, a'r addysg roddwyd iddi. Y nos Sabboth y bu yn galed arni dan y weinidogaeth, a'r bachgen ieuanc nos y cwrw bach, a'r nos Sabboth bu yn ofera: ond yr amser mwyaf gofidus fydd yr adeg y bu yn denu ereill i bechu. Jeroboam, yr hwn a wnaeth i Israel bechu, Mahomed dwyllodd y miloedd, Voltaire wnaeth i'r lluaws gyfeiliorni, a'r tad fu yn meddwi o flaen ei blant. Bydd dyn yn ddyn cyfan yr ochr draw wedi colli pob peth daearol—ei deimladau ganddo.

6. *Nid yw y rhai sydd yn y lle poenus yn dymuno gweled ereill yn dyfod yno atynt.*.—"Rhag dyfod o honynt hwythau." Nid wyf yn meddwl fod neb yn uffern a chanddo elyn ar y ddaear y dymunai y fath boen iddo. Fe fydd gwel'd hen gyfaill yn cynyrchu miloedd o ddrychfeddyliau gofidus. Ffol yw yr hwn sydd yn ceisio ereill tuag uffern. Nid da ganddo eu gweled wedi eu denu yno. Ynfyd yw yr hwn sydd yn

myned yno ei hun, gan nad oes neb yno yn ymofyn ei weled, wedi cael y fath drafferth i fyned yno, a groeso tlawd yn y diwedd; pawb yn cilio rhagddo.

7. *Yr efengyl yw yr unig foddion a rwystra bobl i fyned yno.* "Oni wrandawant ar Moses a'r prophwydi, ni chredant chwaith pe codai un oddiwrth y meirw. Nis gall neb ddaw o uffern ddyweyd yn waeth am dani na'r Bibl:—"Ar yr annuwiol y gwlawia efe faglau tân a brwmstan," &c., "lle nid yw eu pryf hwynt yn marw, na'r tân yn diffodd;" "mwg eu poenedigaeth hwynt yn esgyn i fynu yn oes oesoedd;" "yno y bydd wylofain a rhincian dannedd." Nis gellir cael iaith gryfach i ddarlunio trueni mawr y colledigion. Mae dynion yn profi gradd o uffern ar y ddaear, ac eto yn mlaen y maent yn myned. Yr oedd pobl welodd Iesu Grist yn adgyfodi yn dyweyd celwydd am arian. Yr oedd Judas yn lleidr dan lygad Iesu Grist. Mae yr efengyl wedi ei bwriadu i doddi y galon, ac nis gall dim arall ei wneud. Mae mwy yn yr efengyl nac a fyddai gan un o uffern, oblegid mae yma fwynhad—yr efengyl yn cael ei hamlygu, a nefoedd yn cael ei dangos yn ei gogoniant.

## PAWB YN MEDDWL CANLYN CRIST.

"Ac un arall hefyd a ddywedodd, Mi a'th ddilynaf di, O Arglwydd; ond gad i mi yn gyntaf ganu yn iach i'r rhai sydd yn fy nhŷ."—Luc ix. 61.

Yr oedd Iesu Grist y pryd hwn yn dysgu ar lan y môr. Yr oedd ef a'i ddisgyblion yn myned i symud pan y cynygodd tri dyn i'w ganlyn, oddiar egwyddorion nad oeddynt gymeradwy ganddo ef. Gallwn gasglu oddiwrth ateb Crist iddo, fod y cyntaf yn golygu mantais ddaearol; oblegid mae Crist yn dangos nad oedd y cyfryw gydag ef. "Mae gan y llwynogod ffauau," &c. Yr oedd claddu ei dad yn rhwystro y llall i ddyfod yn awr. Mae Crist yn dangos y dylasai adael hyny i ofal y rhai oedd yn feirw mewn camweddau a phechodau. Yr oedd y trydydd eisieu cael canu yn iach i'r teulu. Sylwn yn—

I. Fod y rhan fwyaf o wrandawyr efengyl yn meddwl dyfod i ganlyn Iesu Grist.

1. *Mae eu caredigrwydd i Grist yn ei achos yn brawf o hyn.* Mae y bobl yn garedig iawn i Grist yn ei achos. Mor hoff ydynt o ymgeleddu cenad Iesu Grist dros nos. Mor barod i gyfranu at ei gynal mewn cymydogaeth. Pan fyddo eisieu capel newydd, neu adgyweirio yr hen, maent yn ewyllysgar. Rhoddant ychydig bob blwyddyn i fyned â sôn am Grist i'r paganiaid. Gwneud hyn y maent oblegid y meddwl tyner sydd ganddynt am Grist a'i achos. Ni chawsai heddgeidwad neu gyfreithiwr y caredigrwydd hwn ganddynt, ac ni fyddent mor barod i roddi at y *barracks* neu y chwareudy. Mae y dyn am gadw y pregethwr yn fyw am ei fod yn meddwl derbyn y Crist sydd ganddo, cael capel er mwyn dyfod yn aelod iddo. Ni fynai y gwrandawyr er y byd roddi terfyn ar y fasnach grefyddol yn y gymydogaeth. Maent fel dyn ar y ffair, wedi gweled ei anifail dewisedig, yn cadw ei lygad arno tra yn gwneud negeseuau ereill, gan feddwl bod yn sicr o'i

gael cyn y nos. Mae efe am gadw Iesu Grist yn y gymydogaeth, fel y byddo yn gyfleus pan y byddo efe yn galw am dano.

2. *Mae eu hawydd i wrando am Grist yn brawf o hyn.*—Y maent yn cychwyn yn llon i'r cwrdd boreu 'r Sabbath. Hoff ganddynt ddeall fod dyn dyeithr da yn dyfod heibio yn yr wythnos; gwnânt aberth er mwyn ei wrando. Cânt foddhâd dan ei bregeth, a'u llanw o lawenydd. Melus ganddynt glywed ei fod yn Fab Duw, er nad ydynt yn ufyddhau iddo. Mae yn llon ganddynt ei fod wedi maeddu ein holl elynion, ei fod wedi marw drostynt. Maent yn meddwl cael eu bywyd ynddo, ei fod yn alluog i waredu y penaf, oblegid y maent yn meddwl cael eu gwaredu ganddo, fod y can cymaint i gael yn y byd hwn, y bydd efe gyda ni yn angeu, a bod ganddo etifeddiaeth fraf yn y nef, oblegid y maent hwy yn meddwl bod bob cam y ffordd hòno. Mae y dyn yn hoff o glywed fod lle da yn eglwys Dduw, a bod rhai yn ymuno â hi, oblegid yno mae yntau yn meddwl bod cyn marw.

3. *Mae yn addaw dyfod.*—Mae wedi addaw yn ddirgel i Dduw, ac ar gyhoedd i ddynion. Pan bydd y fam yn ceryddu y plentyn yn galed, ac yntau yn gwaeddu na wna byth y drwg wedi hyny, mae yn ei ollwng ar yr amod hyny. Dyna fel y mae cydwybod pan mae y pechadur dan wasgfa gan y weinidogaeth, nis gollwng yn rhydd nes cael adduned. Pe byddai i ni siarad â'n gwrandawyr yn bersonol, gwnaent dystio i gyd eu bod yn meddwl dyfod at grefydd. Yn hyn mae dyn yn ymgysuro. Pe byddai yn bosibl, a pheri ei osod i gredu y byddai farw yn annuwiol, ac y byddai ei enaid yn ddamniol, nis gallai gysgu noswaith yn dawel. Bydd llawer o'r dosparth hyn fel dyn yn breuddwydio ei fod mewn palas; ond erbyn iddo ddihuno, yn ei fwth oedd. Mae arnaf ofn y bydd holl anobeithion llawer o'n gwrandawyr yr un fath. Breuddwyd ydoedd.

4. *Y maent yn meddwl bod yn dda iawn pan y delont.*—" Mi

a'th ganlynaf i ba le bynag yr elych." Mae yn meddwl bod yn ddiwyd iawn, a bod yn dduwiol a selog anarferol, ac y dylai y ddysgyblaeth fod yn fwy llym; ond dyna sydd yn anafu, yn y dyweyd mae'r oll. Ond pe byddai pawb fel efe, nis gallai crefydd fod yn y byd. Mae rhai yn ymroddi ati, er llithro mewn llawer o bethau. Nid yw y dyn felly gydag amaethyddiaeth a masnach, ond anturio gwneud ei oreu, a gwella bob blwyddyn. Beth fydd yn cynorthwyo y dyn i wneud peth nesaf i wyrthiau y pryd hwnw, pan mae yn methu gwneud dim yn awr. Mae yn siarad am fod yn sanct, ac angeu yn ei gael yn nghanol ei aflendid.

II. Nad yw llawer o'n Gwrandawyr yn gyfleus i fyned ar ol Iesu Grist yn awr. "Gad i mi yn gyntaf ganu yn iach i'r rhai sydd yn fy nhŷ."

1. *Mae rhai yn tybied fod eu hoed yn eu gwneyd yn anghyfleus iddynt hwy.*—Rhaid canu yn iach i febyd ac ieuenctyd yn gyntaf. Nid ydynt yn barnu eu bod yn rhy ieuainc i ddeall crefydd, i'w mwynhau, cyflawnu eu dyledswyddau, a bod yn ddefnyddiol gyda hi; a chyfaddefant bod ei hangen arnynt, ond nis gallant ganu yn iach i fwyniant mebyd er mwyn crefydd. Nid ydynt foddlon dyfod yn gaeth. Dyfod i ryddid yw dyfod at grefydd. Pechod sydd yn cadw dynion yn y caethiwed. Wele y meddwyn wedi cael y cwpan, dim modd rhoddi fyny. Y dyn wedi myned i gyfeillach lawen, dim modd dyfod gartref cyn y boreu. Yr ydym ni yn gallu pob peth trwy Grist, yr hwn sydd yn ein nerthu. Mae twrw mebyd yn ormod i glywed beth a ddywed yr Arglwydd. Mae crefydd yn foddlon i ddyn ieuanc gael mwynhau pob diniwed bleserau na fyddo yn niweidiol i les yr enaid; peidio meddwi, cablu, colli amser, dial, bod yn segur, afradlon, a'r cyffelyb.

2. *Mae eraill yn anghyfleus oblegid eu cysylltiadau.*—Mae ambell i was neu forwyn mewn teulu nad oes rhyddid i ganlyn Crist. Dylent fynu rhyddid neu ymadael. Mae ambell i

blentyn nid yw ei rieni yn grefyddol neu yn gogwyddo at yr un enwad ag ef, nad oes groesaw iddo. Dylai wrando ar lais Duw yn hytrach na neb arall. Dylai fyn'd at grefydd : Pan yw fy nhad a'm mam yn fy ngwrthod yr Arglwydd a'm derbyn, a phe byddai ganddo ddigon o gariad at Grist, dyna wnelai; byddai yn sicr o fyned i briodi er gwaethaf ei rieni. Dichon fod ambell i berthynas cyfoethog ganddo, ac nad yw yn foddlon iddo arddel crefydd, os am gaèl peth ar ei ol ef. Ymadawodd Moses â thrysorau yr Aipht, Daniel â'i dŷ a'i dylwyth, a'r merthyron â'u bywydau er mwyn crefydd. Bod yn ddyn cywir sydd oreu i foddloni pawb yn y pen draw. Mae hanes y tri gwas na phlygent i dduw eu mheistr yn dangos hyn. Dylai dyn ofyn yn gyntaf "Beth a fyni di i mi ei wneuthur," wedi hyny beth a fyn perthynasau a chyfeillion. Rhaid yw ufyddhau i Dduw yn fwy nac i ddynion. Ufydd-dod i'r mwyaf yn mlaenaf.

3. *Mae rhai eraill a thrafferthion yn eu rhwystro.*—Mae un heb wneyd ei artref, ac felly rhaid cael hyny yn gyntaf. Mae un arall newydd ddechreu ei fyd, ac heb wybod sut y try pethau allan yn iawn; ac heb gael ei droed dano nis gall ddyfod yn awr. Mae un arall ar ganol magu ei blant; pe byddai wedi cael hyn, gallai feddwl y deuai yn well. Mae un arall wedi eu magu, ond eisiau eu sefydlu, a thystiant fod mwy o drafferth ganddynt yn awr nag a fu yn un rhan o'u hoes. Er gwaetha y byd rhaid i grefydd gael tipyn. Rhaid peidio ymgynghori â chig a gwaed yn nghylch canlyn Crist.

III. Fod yr ymddygiad yn annoeth iawn.

1. *Crefydd yw y peth penaf.*—"Penaf peth yw doethineb." Mae da, gwell, a phenaf yn bod, gadael y da er mwyn y gwell, a'r gwell er mwyn y penaf. Y peth penaf ddylai fod yn mlaenaf. Gan fod crefydd yn well na dim, hi ddylai gael y sylw blaenaf. Dyna fel yr ydym yn ymddwyn at bethau y byd hwn: nid yw y tyddynwr yn prisio am y rhedyn yn y

cynhauaf; y peth pwysicaf yn mlaenaf. Pan yn myn'd i'r farchnad y peth pwysicaf yn mlaenaf yno. Pan y bydd dyn yn glaf ei gael allan o berygl yw y pwnc blaenaf, ac nid cymhenu ei wisgoedd a pharotoi ei dŷ.

2. *Bydd crefydd yn gymorth i ni wneyd y pethau eraill.*—Bydd yn fantais fawr i'r ieuenctyd. Gwneyd y goreu o'u ceiniog, cadw eu hamser, eu cyrph yn iach, a'u cymeriadau yn ddisglaer. Bydd yn gymorth i sefydlu yn y byd. Dysga y dyn i fwyta ac yfed, codi a gweithio. Bydd yn gymorth i'r hwn sydd yn nghanol trafferthion a siomedigaethau i ddal ei feddwl i fynu yn nghanol y gofid; gan ei bod yn rhoddi help, goreu pa gyntaf i'w chael.

3. *Mae pob dyn yn sicr o ddyfod i edrych ar grefydd yn y goleu hwn.*—Aeth pob peth yn anghof gan bobl y Pentecost mewn cydmariaeth i gadw enaid, ac felly gan geidwad y carchar. Paul yntau nid ymgynghorai â chig a gwaed. Gwnaeth llawer yr un fath yn adeg eu hargyhoeddiad, a bydd yr annuwiol, pan ar wely angeu, yn foddlon ymadael â'r cwbl er mwyn cael crefydd. Bydd yn werth miloedd o fydoedd y pryd hyn.

4. *Trefn i'n cadw ni oedd prif amcan oes Crist, ei ganlyn ef ddylai fod yn brif beth genym ninau.*—Daeth i'r byd ar y neges hyn. Dyma oedd yn ei fryd bob cam o'i daith ddyoddefus. Nid oedd dim ganddo ef yn cael y blaen ar brynu pechadur; "daeth yr awr," meddai ef ei hun. Dyn yw y penaf yn y drefn hon. Mae angelion a bodau dyeithriol fydoedd wedi gwybod am dani, y greadigaeth wedi cael clywed trwst traed, a chythreuliaid deimlo awdurdod Iesu Grist yn myned i'r groes;—ond dyn oedd y prif wrthrych. Gyda llaw oedd pob peth arall.

CASGLIADAU.

1. *Bydd llawer feddyliodd ganlyn Crist yn ol yn y diwedd.*
2. *Canu yn iach i bechod ddylai fod ein gorchwyl blaenaf.*
3. *Mae yn bwysig i osod ein penderfyniad mewn gweithrediad.*

## GWLEDD BELSHAZZAR.

"Yna y newidiodd lliw 'r brenin, a'i feddyliau a'i cyffroisant ef, fel y dattododd rhwymau ei lwynau ef, ac y curodd ei liniau ef y naill wrth y llall."—DAN. v. 6.

BELSHAZZAR ydoedd fab Evil Merodach, wŷr Nebuchodonosor, a brenin Babylon. Geilw Daniel ef yn fab iddo, ond byddai yr Iuddewon yn arfer galw yr achau felly. Nebuchodonosor oedd sylfaenydd Babylon, a'i brenin cyntaf. Cyfododd yr ymerodraeth i'w gogoniant mwyaf yn amser Nebuchodonosor. Bu yn ddinas enwog ac yn ymerodraeth gref dros 210 o flynyddoedd. Tri pheth a barodd i Dduw ei dinystrio,— 1. Balchder y ddinas. 2. Eu creulondeb i'r Iuddewon, 3. Annuwioldeb eu brenin. Yn y testun y cawn hanes am dano.

1. *Annuwioldeb y brenin yn y wledd.*—Nid oes niwed mewn gwledd ynddi ei hun; ond nid oedd yn amser gwledda yn awr pan oedd y ddinas dan warehau, y trugareddau yn brin, ac nis gwyddent pa fynud y buasent yn nwylaw eu gelynion. Yr oedd fel pe buasai yn cellwair â bygythion Duw. Yr oedd yn yfed gwin yn llestri tŷ yr Arglwydd. Yr oedd yn molianu duwiau gau. Yr oedd yn ateb i eiriau Solomon,—"Balchder yspryd o flaen cwymp." Pan fydd dyn yn myned i dir rhyfyg, mae yn debyg fod ei ddiwedd yn agos. Pan fydd plentyn yn myned i droi ar ei dad, mae ei gerydd yn debyg o fod yn agos. Pan ddywedodd Pharaoh, "Yr Arglwydd nis adwaen, ac Israel nis gollyngaf," nis dyoddefodd Duw yn hwy ganddo. Mae graddau mewn pechod; pan â dyn i dir rhyfyg, mae yn debyg o gael ei ddal—felly mewn lladratta. Pan fydd dyn yn hynod mewn meddwdod neu erlid, mae rhyw dro gerllaw iddo, naill ai o'r byd hwn neu at grefydd, ac yn gyffredin bydd ei ddiwedd yn hynod. Na fydd rhy annuwiol. Annuwiolion a fyddant feirw yn hanner eu dyddiau. Y goludog

pan aeth i gynyg pethau y byd i'w enaid, "Y nos hon," meddai Duw, "y gofynir dy enaid oddiwrthyt." Yr oedd Belshazzar yn rhyfygu wedi iddo gael ei rybuddio. Gwyddai yn dda helyntion Nebuchodonosor ei dadcu, eto ni chymerodd rybudd. Mae llawer dyn wedi i bechod ladd ei dad a'i berthynasau, eto yn ei ddilyn ef.

2. *Dychryn y brenin o herwydd yr ysgrifen.*—Pan oeddynt yn nghanol y llawenydd mwyaf, yn yfed iechyd i'r brenin, oes a llwyddiant i'w freniniaeth, gwawdio Cyrus a'i warchau, dygwyddodd y brenin weled y darn llaw. Nid oedd yno ddim swn na neb yn dyweyd gair. Pe buasai y ddaear yn crynu, neu y nef yn taranu, nid rhyfedd fuasai; ond nid felly y bu. Nid oedd yn gwybod dim o'r ysgrifen. Gallasai fod newydd da ynddi; ond yr oedd ei gydwybod ef yn ei gondemnio. Newidiodd ei agwedd yn hynod. Ffrydiau yn drwbl, oblegid fod rhywun wedi taflu carreg i'r ffynon. Darllenir teimladau y dyn oddimewn yn agwedd y dyn oddiallan. Ychydig derfysga feddwl dyn annuwiol. Gallem feddwl wrth ei glywed mewn diod, yn nghanol cwmni, y daliai unrhyw beth, ond erbyn ei daflu ar ei wely yn glaf, heb un cyfaill yn agos ato, na dim i'w ddifyru, mae yn isel iawn; mae yn ofni lle nid oes ofn; mae yn credu mai angeu yw pob ergyd, fel y dyledwr am bob un ddaw i'r drws, mai y gofynwr yw. Nid oes dim i'w weled nac i'w glywed, ond y mae yn euog. Mae presenoldeb y meistr yn gwneyd i'r plentyn euog deimlo. Nid felly y cyfiawn: nid ofna efe rhag chwedl ddrwg. Iesu, mae Herod ar fedr dy ladd di. Stephan, maent yn myned i'th labyddio di. Ni frysia yr hwn a gredo. Nid oes modd gyru braw arno. Daniel, maent wedi selio yr ysgrifen. "Ti a gedwi mewn tangnefedd."

3. *Gwnaed ymdrech mawr i geisio tawelu meddyliau y brenin.*—Galwyd am yr astronomyddion i mewn, cynygiwyd iddynt anrhydedd mawr, ond nis gallsent ddehonglu yr ysgrifen.

Mor rhwydd gan Dduw ddyrysu y doethion yn eu cyfrwysdra. Pedwar gair yn cynhyrfu brenin, a thu hwnt i ddeall y doethion; er cael anrhydedd mawr yn methu yn lan. Y pethau yr ymddiriedau fwyaf yn ei fywyd yn methu yn awr. Yr oedd yn waeth yn awr nac o'r blaen. Dacw ddyn annuwiol mewn cystudd, a'i gydwybod wedi deffro; gwna ei gyfeillion bob ymdrech fedront; caiff bob peth sydd yn y tŷ; dacw yr hen gyfeillion oedd ganddo gynt—y tafarnwr a'r meddwyn—ond nid ydynt yn siarad nemawr o ddim, oblegid os dechreuant siarad am yr hyn a fu, âi yn waeth; gweniaethant iddo y daw yn well; yna daw y meddyg goreu, â'r cyffeiriau drudaf. Nid yr arian, ond bywyd yw pwnc y siarad. Nid oes heddwch i'r rhai annuwiol. Y meddyg wedi ei roi i fynu. Byddai dafan o waed y groes yn well. Mae y duwiol yn dawel,—"Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi."

4. *Gosododd cyfyngder y brenin werth ar ddyn nad oedd dim gwerth ynddo o'r blaen.*—Yr oedd y frenines, ei fam, yn cofio fod ei dadcu wedi breuddwydio breuddwyd, ac mai Daniel a'i dehonglodd. Yr oedd perl yn y deyrnas na wyddai y brenin ddim am dano. Gorfu ar bawb droi o'r ffordd i ddyn Duw gael dyfod yn mlaen. Dichon na bu yn y llys erioed o'r blaen. Mae dyn duwiol yn werthfawr mewn cyfyngder. Moses gan Pharaoh, Joseph yn yr Aifft, Daniel yn Babylon, y gaethes yn nheulu Naaman. Dyn duwiol mewn cymydogaeth; dichon i'r dyn annuwiol gellwair am ben ei weddiau, a rhyfeddu at ei ffolineb; ond wedi i'r cyfeillion â'r meddyg ymadael, wele yr hen weddiwr yn mlaen. Mae pob moes a mawredd yn cael eu hangofio pan mewn caledu. Caiff Shôn y dyrnwr ddyfod yn ei glocs i'r *parlour* i weddio. Bu Daniel yn onest iawn. Coffaodd ei bechodau, darllenodd yr ysgrifen, a mynegodd yr ystyr yn gyflawn. Gwell fyddai i ninau fod yn onest, er lles y dyn a'i gyfeillion. Peth o bwys yw gweniaethu yn ymyl y farn.

5. *Nid oedd modd cael arbediad.*—Y freniniaeth wedi ei rhanu, a'r cyflwr wedi ei bwyso a'i gael yn brin. Mae Cyrus a Darius yn barod am y freniniaeth. Mae y gelyn wedi sychu yr afon. Mae y twrw yn y palas wedi peri i'r bobl anghofio cau y pyrth; mae y milwyr yn y ddinas; mae Duw wedi gwneyd ei feddwl i fynu; 'does dim arbed i fod. Mae yn brysur iawn ar bechadur pan bydd Duw a dynion wedi ei roddi i fynu: dynion i farw, a Duw i'w ddamnio. Y babell wedi rhoddi ffordd—angeu ynddi; Duw wedi gwneyd ei feddwl i fynu. Y meddyg yn siglo ei ben, y cyfeillion yn tywallt dagrau, ac yntau mewn braw yn myned i wyddfod ei Farnydd. Dim gweddi, cyngor, na chymun wna les mwy. Trueni fod dyn yn boddi yn ngolwg dynion, ond trueni mwy fod dyn o ganol ei gyfeillion i gael ei ddamnio y fynud nesaf. Dyna yw cyflwr pob dyn anedifeiriol. Gwell gwneyd defnydd iawn o bethau mewn pryd.

# PLANT DUW.

"Anwylyd, yr awrhon meibion i Dduw ydym, ac nid amlygwyd eto beth a fyddwn: eithr ni a wyddom, pan ymddangoso efe, y byddwn gyffelyb iddo; oblegid ni a gawn ei weled ef megis ag y mae."—1 IOAN iii. 2.

DECHREUA yr apostol y bennod hon trwy alw sylw y Cristionogion yn gyffredinol at eu rhagorfreintiau neillduol fel pobl yr Arglwydd. "Gwelwch pa fath gariad a roddes y Tad arnom, fel yn gelwid yn feibion i Dduw." Mae yn fraint oruchel i ddyn gwael gael ei alw yn blentyn i Dduw. Caniata yr Arglwydd i'w bobl ei anerch ef fel eu Tad: "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd." Geilw yntau ei bobl dan yr enw plant. "A chwi a fyddwch yn feibion ac yn ferched i mi, medd yr Arglwydd Hollalluog." "Nid edwyn y byd chwi." Nid yw y byd annuwiol yn amgyffred cysuron, rhagorfreintiau, a hawliau y Cristion. "Nad adnabu efe ef." Nid oedd y byd yn adnabod Iesu pan fu ynddo 'n byw. "A'r byd nid adnabu ef." Yr oedd mwy o ddelw ei Dad yn nghymeriad Iesu na neb o'i blant; yn hawddach ei adnabod; ond methodd y byd a'i adnabod ef. "Yr awrhon," yn ein sefyllfa anmherffaith bresenol, "meibion," *plant* i Dduw, "nid amlygwyd," ni ddatguddiwyd, "beth a fyddwn," yn ein sefyllfa ddyfodol yn benaf, o ymadawiad yr enaid a'r corph hyd yr adgyfodiad cyffredinol. Nid yw yr ymadrodd, "beth a fyddwn," yn bwysig yn ei gysylltiad â'r ych, yr asyn, neu yr aderyn, oblegid yn fuan byddant wedi darfod â bod; ond y mae yn bwysig iawn yn ei gysylltiad â *dyn;* nis gall dyn dramwy yn ofer ar faes dyfodiaeth, oblegid y mae i fyw byth.

I. PERTHYNAS Y SAINT A DUW YN EU SEFYLLFA BRESENOL.—"Plant i Dduw." Cynwys y berthynas hon yn—

1. *Adnabyddiaeth.*—Mae pob tad yn adnabod ei blentyn yn berffaith, a daw pob plentyn yn raddol i adnabod ei dad. Mae Duw yn adnabod pob un o'i blant: yr oedd yn eu had-

nabod cyn eu bod yn blant. Dywed uwch ben calon pob un o honynt, "Mi a'th adwaen." Mae pob plentyn, i raddau, yn adnabod Duw. Dyma y gris cyntaf i fywyd tragywyddol. Hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di, "yr unig wir Dduw."

2. *Ymddiriedaeth.*—Ymddirieda y plentyn y cwbl i'w dad, a'r tad i'r plentyn, gymaint a all ddàl. Ymddirieda y Cristion ei gwbl i Dduw, "a'm ceir i ynddo ef." Ymddirieda Duw i'r Cristion gymaint a all ddàl. Cyfarfod gweddi i ofal un, y gyfeillach i'r llall, dosparth o blant yr ysgol i'r nesaf. Mae ganddo ffydd yn y ffyddloniaid. Llefara am danynt gyda hyder, fel am Abraham, "Mi a'i hadwaen ef." "Y gorchymyn efe i'w deulu gadw o honynt ffordd yr Arglwydd." Rhydd ei air dros y ffyddlon yn y nef.

3. *Anwyldeb.*—Mae y tad mor anwyl o'r plentyn, a'r plentyn mor anwyl o'i dad â'i hunan. Os tarëwn y plentyn, bydd y tad yn teimlo. Pan y gwneir cymwynas, ystyria y tad hi yn garedigrwydd iddo ef. Mae Duw a'i bobl mor anwyl o'u gilydd fel y gellir dyweyd mewn ystyr neillduol mai un ydynt. "Canys a gyffyrddo â chwi sydd yn cyffwrdd â chanwyll ei lygad ef." Canwyll y llygad yw'r man mwyaf tueddol i'w amddiffyn yn ngwyneb perygl. Dywed y plant oll, "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi." Pob gwawd wneir i blant Duw ar y ddaear, mae eu Tad yn y nef yn teimlo. "Saul, Saul, paham yr wyt ti yn fy erlid i?"

4. *Ffyddlondeb.*—A y tad gyda'r plentyn, a'r plentyn gyda'r tad mor bell ag y gallo: ä pobl yr Arglwydd gydag ef i'r ffwrn, y ffau, a'r carchar, yn hytrach na'i wadu. "Dilyn yr Oen i ba le bynag yr elo." Bydd Duw gyda'i bobl pan fyddo pawb ereill wedi eu gadael. "Wele yr wyf fi gyda chwi."

II. Yr hyn sydd ddirgelaidd i'r plant o berthynas i'w sefyllfa ddyfodol.—"Nid amlygwyd eto beth a fyddwn."

1. *Ni wyddom ni pa le y byddwn.*—Gwyddom mai nef yw enw y lle: credwn ei fod yn *lle.* Mae Iesu yn ei alw yn lle: "Yr wyf fi yn myned i barotoi *lle* i *chwi.*" Aeth Enoch, Elias, a Christ â'u cyrph ganddynt yno, a sicrheir y bydd cyrph y saint yno wedi yr adgyfodiad. Rhaid i gorph—sylwedd, gael lle, bydded mor fychan ag y byddo. Tybiwn ei fod yn lle prydferth fel gwaith y cread. "Y nef yw dy orseddfainc." "Saer ac Adeiladydd yr hon yw Duw." Heblaw bod yn brydferth, mae yn lle dedwydd o ran ei ansawdd foesol: dim cystudd, poen, na marw yno. Mae y pethau hyn yn amlwg o berthynas i'r lle; ond pa gyfeiriad mae y lle sydd ddirgelwch. Barna Dr. Dick, o'r Ysgotland, fod yr haul yn ganolbwynt cyfundraeth, ac y gall fod miloedd o heuliau tebyg iddo yn y gwagle annherfynol uwch ben, a rhaid fod canolbwynt i'r oll yno. Y mae nefoedd, gorsedd Duw, trigfan angelion glân, a chartrefle bythol seintiau perffaithiedig; ond eto nis gwyddom y ffordd i gychwyn, i deithio, na chael gafael yn nhŷ ein Tad. Pe cawsai y Cristion y nefoedd ar ei chael allan, byddai byth yn grwydryn ar hyd y bydoedd. Yr ydym wedi arfer meddwl mai i fyny mae y nef. I fyny yr aeth Elias mewn cerbyd o dân. I fyny yr aeth yr Iesu; "a chwmwl a'i derbyniodd ef allan o'u golwg hwynt." Nid yw yn bwysig iawn pa le mae tŷ ein Tad; ond i ni fod wedi ein trwsio yn addas, gofala ein Tad am ein cael adref, "a'n dwyn gan yr angelion i fynwes Abraham."

2. *Amlygwyd dim eto beth fydd ein hagwedd.*—Nid oes genym feddylddrych am enaid heb gorph—dyn cyflawn heb gorph am dano. Pan y mae dyn yn marw, y mae yn ymadael yn gyflawn, ei holl gyneddfau, teimladau, a'u ddrychfeddyliau ganddo: drws yr ystafell yn nghau, y parwydydd yn gyfain, y cyfeillion yn sylwi a gwrando—dyn cyfan yn ymadael heb ddim i weled na dim i glywed. Nis gwyddom pa *lun* sydd arno na pha faintiolaeth ydyw. Pa

fodd y bydd eneidiau yn adnabod eu gilydd mewn byd arall. Rhaid y byddant, oblegid heb adnabyddiaeth ni bydd cymdeithas; ac y mae meddwl dyn wedi ei wneud i gymdeithas. Diau na fyddwn ffolach yn y byd nesaf nag yr ydym yma. Cyfryngau ein hadnabyddiaeth yma ydynt ddull y wynebpryd, sain y llais, neu agweddiad y corph. Ni bydd un o'r cyfryngau hyn genym yno. Mae y peth yn ymddangos yn ddyeithr i ni yn awr, ond pan ddelom i'r sefyllfa, bydd yn rhwydd a naturiol hollol.

3. *Nid amlygwyd cyfrwng y gyfrinach.*—Pa fodd y byddwn yn trosglwyddo ein meddyliau i'n gilydd. Trwy siarad, ysgrifenu, neu awgrymu, yr ydym yn trosglwyddo ein meddyliau yma: ni bydd tafod i siarad, clust i glywed, llaw i ysgrifenu, na llygad i weled yn y byd nesaf. Sicr y byddwn yn cymdeithasu yno mewn rhyw ddull, oblegid mae llawer o'n cysur yn ymddibynu ar hyny. "Hyfryd yw trigo o frodyr yn nghyd" yma, mae yn ddiau y bydd yn fwy dymunol yno. Mae'n llon gan hen bererin gael tipyn o hanes yr achos yma; a phan y byddo Cristion yn myned gartref i'r nef, credwyf fod yn llawenydd gan y brodyr sydd wedi blaenu gael ychydig o hanes yr achos yn ngwlad y "cystudd mawr."

4. *Nid amlygwyd eto beth fydd ein gwaith.*—Meddyliodd rhai oddiwrth iaith ffigurol y Bibl mai canu fyddwn byth. Nid yw hyny yn dangos ychwaneg na sefyllfa o ddedwyddwch perffaith. Nid oes dim yn fwy naturiol i ddyn pan wrth ei fodd, os bydd yn meddu y dawn, na chanu: "Yr hwn sydd esmwyth arno caned Salmau." Bydd yno waith heblaw canu, oblegid mae llawer dyn da heb na dawn i ganu na chwaeth at ganu. Bydd yno amrywiaeth: mae amrywiaeth yn nodweddiad neillduol perthynol i holl greadigaeth Duw, ac nid yw y meddwl dynol yn ddedwydd heb amrywiaeth. Bydd y meddwl yn ddarostyngedig i'r un deddfau yno, ag ydyw

yma. Dichon y bydd pregethu a darlithio yno, a thebyg yw, y byddant yn cael teithio dros eu Harglwydd, ar negesau o gariad o fyd i fyd, i weled "rhyfeddodau Duw." Mae yn bur debyg fod teulu y nef yn ddosparthiadau i ddysgu rhyfeddodau trefn y cadw. Nis gwyddom pa beth fydd ein gwaith, ond credwn y cawn waith wrth ein bodd.

III. YR HYN SYDD AMLWG I'R PLANT O BERTHYNAS I'W SEFYLLFA DDYFODOL. "Eithr ni a wyddom."

1. *Mae yn amlwg fod Iesu Grist i ymddangos.*—"Pan ymddangoso efe." Yr unig brawf sydd genym y daw, yw ei fod wedi dyweyd hyny yn ei air: "A Mab y dyn, pan ddêl yn ei ogoniant, a'r oll angelion sanctaidd, yna yr eistedd ar orseddfainc ei ogoniant, a chydgesglir ger ei fron ef yr holl genhedloedd." "Wele y mae yn dyfod gyda'r cymylau, a phob llygad a'i gwêl ef." Yr unig brawf oedd gan y byd y deuai y tro cyntaf, ei fod wedi dyweyd hyny. Mae yn fwy naturiol y daw yr ail dro, oblegid bydd y neges yn well, y cwmwl yn lle y preseb, gogoniant yn lle cadachau, barnu yn lle dyoddef, i'w ogoneddu ac nid ei erlid; hau mewn dagrau y tro cyntaf, medi mewn gorfoledd yr ail dro.

2. *Cawn ei weled ef.*—Ychydig gafodd ei weled y tro cyntaf, ond caiff yr holl blant olwg arno yr ail waith. Bydd yn wledd i'r plant gael gweled Iesu. Y mae gweled dyn mawr a fyddont wedi clywed llawer am dano, adrodd arno, a thynu darlun o hono yn y meddwl, yn cael ei ystyried yn fraint fawr. Wedi darllen hanes Iesu, gwrando ei bregethu, edrych arno yn yr ordinhâd, anfon gweddïau ato, a chael ateb ganddo, bydd ei weled o'r diwedd yn fraint neillduol. Bydd yr olwg arno yn adgyfodi myrdd o feddylddrychau coffröus am dano. Mae gweled y pen yn dwyn i gof y goron ddrain, y dwylaw yr hoelion, yr ystlys y waewffon, &c. Pe buaswn yn berchen cyfoeth digonol, aethwn i Palestina i gael gweled y manau y bu yr Iesu—y tŷ y ganwyd ef, y llwybrau a deith-

iodd, y mynydd lle bu yn pregethu, yr ardd lle bu yn gweddïo, y bryn y bu farw arno, a'r bedd lle y gorweddodd; ond cawn well golwg yn y man—cawn ei weled ef ei hunan. Caiff yr annuwiol ei weled ef; "Pob llygad a'i gwêl ef." Bydd yr olwg arno yn effeithio ar wahanol ddosbarthiadau, yn debyg fel mae yr olwg ar y barnwr pan yn dyfod i'r llys. Rhai yn llawen a rhai yn drist.

3. *Cawn ei weled ef fel ag y mae.*—Nid fel yr oedd pan ar y ddaear; gwisg waith oedd am dano y pryd hwnw. Yr oedd Ioan mor gyfarwydd o hono pan ar y ddaear â neb; ond pan gafodd olwg arno wedi newid ei wisg yn Ynys Patmos, yr oedd yn methu ei adnabod ef: mae yn debyg i Fab y dyn, ac effeithiodd yr olygfa arno fel y syrthiodd wrth ei draed fel un marw.

4. *Mwy na'r cwbl, cawn fod yn debyg iddo.*—(1) *O ran purdeb meddwl.* Bydd y Cristion y pryd hyn mor bur a'r Iesu ei hunan, ond mai wedi ei buro y bydd. Ni fyddai preswylwyr y bydoedd pell yn gwybod iddo fod yn aflan, oni bai fod ei gân yn bradychu ei gwymp: "ac a'n golchodd;" tra bydd ef yn canu am olchi, bydd pawb yn deall am y cwymp. (2) *Bydd yn debyg iddo o ran ei gorph.* "Yr hwn a gyfnewidia ein corph gwael ni, fel y gwneler ef yr un ffurf a'i gorph gogoneddus ef." Gofynwyd i fachgen bach unwaith, pa fath fasiwn a garai gael ar ei *goat* newydd? Yntau a atebodd, yr un fath a'm brawd henaf. Corph gogoneddus y brawd henaf fydd patrwn gwisg y saint. Mae Victoria yn gwahardd i neb trwy y deyrnas i wisgo yr un peth a hi; ond caniatâ Iesu i'w holl ddeuliaid fod yn yr un ystafell, a gwisgo fel efe ei hun.

ADDYSG.

*Mawredd cariad Duw at y Cristion—yn cael ei alw yn blentyn iddo.* Yr oedd bachgen bach yn China pan yn cyfieithu y Beibl, yn gweled hyn yn ormod braint—yn ddeiliad, yn gyfaill—fod meibion i Dduw yn ormod.

## CRISTIONOGAETH AR EI GOREU.

"Wele, fy ngwas a lwydda; efe a godir, a ddyrchefir, ac a fydd uchel iawn."—Esay lii. 13.

Oddiwrth yr ymddyddan a fu rhwng Phylip a'r Eunuch, a gofnodir i ni gan Luc yn yr 8 ben. 32 ad. o lyfr yr Actau, gwelwn yn eglur fod yr adnodau hyn, yn nghyd â'r bennod ddilynol yn cyfeirio yn uniongyrchol at Iesu Grist y Messia addawedig. Mae hyny yn ddigon o brawf i bawb ond Iuddew cyndyn. "Fy ngwas," felly mae y Tad yn cyfarch y Mab. "Gwas;" un wedi rhoi i fynu ei les personol, wedi myned dan ymrwymiad cyfamodol i ddwyn i ben orchwyl neillduol wrth reol cynllun blaenorol, yn yr oll yn hollol ufydd i ewyllys un arall, "Dy ewyllys di a wneler." "A lwydda." Er mor wael ei ymddangosiad, mae yn sicr o'i amcan.—"A ddyrchefir." Er mor isel oedd yn ein byd ni, ac er mor ddirmygedig oedd y bobl o hono, fe'i dyrchafwyd yn bersonol i "Ddeheulaw y Mawredd yn y goruch leoedd;" ond y mae i gael ei ddyrchafu yn uwch yn ei achos ar y ddaear. Iesu Grist yn cael ei godi a'i ddyrchafu yn ei achos ar y ddaear fydd testun y bregeth ganlynol. *Cristionogaeth yn ei hiselder presenol, ei dyrchafiad tybiol, ac yn ei huwchafiaeth priodol.*

I. Cristionogaeth yn ei hiselder presenol.

Mae crefydd yn uchel oddiwrth fel y bu, ond y mae yn isel oddiwrth fel y bydd hi; mae yn uwch nag y cawn hi mewn hanesyddiaeth, ond yn îs nag y darlunir hi mewn prophwydoliaeth.

1. *Nid yw hyd yn hyn yn meddianu y tir a berthyna iddi.*—Ei maes hi yw y byd. Mae wedi ei chyfaddasu i'r byd; digon, yn ddiau, ar gyfer angen y byd, ac nid yw i orphen gweithio a dylanwadu o ran ei hegwyddorion hyd nes cael teyrnasoedd y byd yn eiddo ein "Harglwydd ni a'i Grist ef." Mae ei nodwedd yn hyn yn hollol wahanol i Iuddewaeth.

Canaan oedd maes hon; "Dan a Beersheba" oedd ei therfynau, Jerusalem ei theml, ac Israel ei deiliaid; ond am Gristionogaeth, y byd yw ei maes, terfynau y ddaear yw ei Dan a'i Beersheba, lle bynag y byddo dau neu dri wedi ymgynull, yw ei theml, a'r "holl genhedloedd" yw ei deiliaid. Dyma oedd gorchymyn ei Sylfaenydd: "Ewch i'r holl fyd," na wnewch sylw o afonydd, nentydd, na moroedd, plwyf, ynis, gwlad, na chyfandir; nid aros yn y dinasoedd hefyd, na phentrefydd, ond y "prif ffyrdd a'r caeau;" chwiliwch y cwmydd, yr anialwch, y mynyddoedd mawr, a'r broydd brwynog. "I bob creadur," beth bynag yw ei sefyllfa, ei iaith, ei liw, neu ei lun, os yw yn ddyn dywedwch efengyl wrtho. Mae yn amlwg nad yw yn meddu y byd heddyw. Mae miloedd yn China heb glywed swn ei "newyddion da;" lluaws yn India heb Grist hyd heddyw; torfeydd yn neheubarth Affrica "heb un Duw yn y byd;" a thrueiniaid gogleddbarth America "yn methu o eisiau gwybodaeth:" mae i ddyfod iddi, ond y mae heb ei feddianu.

2. *Yn rhanol y mae wedi gwrteithio y tir sydd ganddi.* Mae ganddi lawer o wledydd y gall hi ddywedyd mai hi sydd yn feddianol o honynt; ond y mae llawer o gyfundraethau llygredig fel chwyn yn tyfu ar y maesydd mae yn feddianu. Mae tua 2,500,000 o Iuddewon yn llechu yn wasgaredig ar hyd ei thiriogaethau hi; gwadant fodolaeth Ceidwad anwyl y byd Cristionogol, dysgwyliant yn hiraethus am Fessia i ddyfod; mwy o olwg ganddynt ar Moses na Christ, y Mishna o flaen yr efengylau, y Talmud yn rhagorach na'r Actau, traddodiadau y tadau yn well nag Epistolau Paul, ac ymdroant yn ddifrifol o gwmpas Corph Marw Iuddewaeth, pan mae yr enaid byw wedi ymadael am byth. Mae yn y byd tua 140 o filiynau o Fahometaniaid. Mae y gyfundraeth hon yn gymysgedig o Iuddewaeth, Cristionogaeth, a Phaganiaeth; credant fod Mahomed yn gystal prophwyd a Christ; iddo yn

yr ogof gael mwy o ddirgel gyngor y Goruchaf na 'r holl brophwydi i gyd. Pererindod i Mecca yn fwy rhinweddol i gadw enaid na chredu yn Iesu Grist. Mae ganddi ei Choran llygredig, ei Pharadwys ddychymygol, a'i nefoedd gnawdol yn y byd dyfodol, a phawb a fedrant groesi pont finiog Sirat yn sicr o fod yn ddiogel byth. Mae Turkey, Arabia, a Morocco yn llawn o'r gredo blentynaidd hon. Eilwaith, mae ar Gyfandir Ewrop filoedd o anffyddwyr proffesedig yn ganlynwyr selog i'r archanffyddiwr Voltaire. Honant nad yw ein byd trefnus ni ond effaith damwain ddall. Mor ynfyd a dywedyd nad oes un Duw; yn tybied fod dyn fel yr anifail pan yn marw, yn darfod am byth, a'u harwyddair priodol yw, "Bwytawn ac yfwn, canys y fory marw yr ydym." Yn Lloegr freiniol, ceir yn heolydd culion y dinasoedd mawrion, y trefydd poblogaidd, a'r pentrefydd gwledig, gannoedd o deuluoedd heb Fibl yn eu tai, heb neb yn y tŷ wedi bod erioed yn nghysegr Duw, yn byw a marw yn berffaith baganiaid ar "dir Emanuel" ei hun. Cristionogaeth bia Cymru, a hyderaf mai dan ei llywyddiaeth y bydd ein hoff wlad tra byddo afonydd yn rhedeg yn ei chwmydd, a'r haul yn tywynu ar fronau ei bryniau braf. Eto, yn Nghymru oleu a hen grefyddol y mae cannoedd yn byw mewn pechod, ac yn marw yn hollol annuwiol. Rhaid i grefydd wrteithio yn fanwl y maes mai yn feddu, cyn y gallwn ddywedyd ei bod yn uchel iawn.

3. *Cristionogaeth wedi ei chymysgu a'i llygru, mae rhanau helaeth o'r byd yn garu.*—Eglwys Rhufain, yr hon sydd fawr ei rhwysg y dyddiau hyn, sydd yn proffesu Cristionogaeth wedi ei llygru yn hollol. Y Pab yw pen yr eglwys, ac y mae pob peth a wna ac a ddywed yn anffaeledig. Gweddia ar angelion a seintiau, ac nid ar Gyfryngwr y Testament Newydd; gweithredoedd da yn teilyngu bywyd tragywyddol; hawl gan yr eglwys i faddeu pechodau a gwerthu dawn Duw

er arian, gwahardd priodi a goddef godinebu, conffirmasiwn, penyd, bwrdd yr Arglwydd, a phriodas yn sacramentau o ddwyfol osodiad, yr offeren yn aberth derbyniol gan Dduw dros y byw a'r meirw, ac i berffeithio ei holl ffolineb mae ganddi burdan yr ochr draw i buro y rhai y methodd gwaed y groes a'i glanhau yma. Nid yw eglwys Groeg nemawr gwell; corff mawr o seremoniau ond dim enaid ynddi. Yr Eglwys Sefydledig eilwaith, yn anysgrythyrol ei chyfansoddiad, yn rhanedig mewn barn, yn ansefydlog ei chredo, yn troi o fewn cylch deddfau caeth, ac yn gwbl anaddas i wneyd daioni yn y byd. Mae yr Ymneillduwyr o bob enwad yn rhoi mwy o bwys ar arferiad na gorchymyn, a thraddodiadau y tadau o flaen cyfarwyddiadau yr Ysgrythyrau. Mae crefydd wedi colli ei symlrwydd cyntefig, ei hysbryd apostolaidd, a'i dylanwadau Pentecostaidd. Dywedir yn gyffredin mai am y wisg waelaf y rhoddir yr addurniadau mwyaf. Beth bynag am hyny, mae yn sicr mai lle y mae lleiaf o grefydd mae mwyaf o seremoniau. Rhywbeth ymddangosiadol i wneuthur i fynu crefydd wirioneddol.

4. *Yn mhlith yr iselradd, gan mwyaf, y mae crefydd eto.*— Gyda rhai fel hyn y dechreuodd yr achos ar y cyntaf. Rhai tlawd oedd yr Apostolion; dim aur nac arian, na gwobrau na thorthau i gyfranu i neb, eto aeth yr achos yn mlaen yn llwyddianus trwy eu hofferynoliaeth hwy. Pan gaffom allan hanes dechreuad yr achos yn y rhan fwyaf o fanau yn Nghymru a Lloegr, cychwynwyd ef gan ryw weithiwr tlawd, celfyddydwr anghyoedd, neu hen wraig dduwiol. Mae yr achos yn ein hoes ni wedi codi at y tyddynwyr mawrion a'r masnachwyr cyfrifol; ond y mae eto yn gorfod myned yn mlaen heb gymorth y mawrion a'r pendefigion. Yr iselradd, braidd heb eithriad, sydd yn golofnau dan yr ysgol Sabbothol, ac yn ganlynwyr y cwrdd gweddi. Rhoddir prif gyfoeth a dylanwad y byd y dydd heddyw i gynal teyrnas y tywyllwch.

II. Fod Cristionogaeth i gael ei dyrchafu yn y byd—Profion o hyny.

1. *Mae yn y byd gyfundraeth addas o foddion i'w dyrchafu.* Gwaith dynion duwiol yr oesoedd yw myfyrio cynlluniau i gludo dwfr y bywyd i bob parth o'r byd. Mae yr un fath a'r amaethwr gofalus yn tynu man gwterydd oddiwrth y ffynon fawr yn mhen uchaf y ddol wair i gael dyfrhau y maes i gyd. Daeth dwfr y bywyd i'n byd ni trwy gyfrwng yr Iawn, ac y mae y gwahanol gymdeithasau yn amcanu ei gario i bob cwr o'r maes mawr; Cymdeithas Genhadol Llundain, Cymdeithas y Biblau, y Gymdeithas Genhadol Artrefol Wyddelig, yr Ysgol Sabbothol, &c. Yn fuan cynllunia haelioni yr eglwys lwybr addas i gael efengyl i bob dosparth o ddynion ar wyneb y ddaear.

2. *Rhydd arwyddion yr amserau presenol brawf y daw i fynu.* Efengyl wedi myned i China boblogaidd, pedwar ugain a deg o ynysoedd mân Môr y De wedi taflu eu delwau i'r wadd ac i'r ystlymod; sŵn mawr am gael caethion pob gwlad yn rhydd, ymdrech neillduol i sefydlu heddwch cyffredinol rhwng teyrnasoedd y ddaear, llafur diflino gyda yr ysgol Sabbothol, tua dwy filiwn o blant yn yr ysgol Sabbothol yn Nghymru a Lloegr, a phum cant o filoedd o athrawon yn cyfranu gwersi iddynt; Colegau yn cael eu hadeiladu, er gwneyd y weinidogaeth yn ddysgedig, ac ysgolion dyddiol eu sefydlu er gwneyd y gwrandawyr yn ddeallus; cyfarfod gweddi bob mis i weddio am lwyddiant efengyl. Bydd pedair awr ar hugain o weddio cyson am ei llwydd cyn hir. Dechreua draw yn y dwyrain pell, ac yn parhau yn gyson nes gorphen yn eithaf y gorllewin. Pob caeth yn gwaeddu "Deled dy deyrnas," ac fe wrendy Llywydd nef a llawr.

3. *Sicrha gair Duw y daw i fynu.*—"Gogoniant yr Arglwydd a ddatguddir, canys pob cnawd yn nghyd a'i gwel." Araf, ond sicr yw gyrfa Cristionogaeth yn y byd. Dadblygu

ei rhyfeddodau yn raddol y mae. Mae gormod o frys ar Babyddiaeth i fyw yn hir. Daw Mahometaniaid i wel'd trwy galon y Coran cyn pen hir. Bydd temlau y Paganiaid yn weigion ar fyr o dro. Bydd Cristionogaeth yn pregethu yn groew pan fyddo y crefyddau gau wedi dywedyd eu gwersi diweddaf; bydd hi yn canu yn beraidd ar lwch beddau holl grefyddau y byd: "Gogoniant yr Arglwydd a ddatguddir;" "Mynydd tŷ yr Arglwydd wedi ei sylfaenu yn mhen y mynyddoedd." Y gymdeithas Gristionogol yn fwy cyhoeddus ac anrhydeddus na dim arall. Bu adeg pan oedd dynion duwiol yn gorfod rhoi y manau mwyaf cyhoeddus i'r gelynion, a chilio i'r mynyddoedd ac ogofeydd i addoli; ond caiff cablwyr, ymladdwyr, o thorwyr Sabboth yn fuan gilio i'r mynyddoedd rhag cywilydd, a dynion da feddianu prif fanau y byd. "Bydd gwybodaeth o'r Arglwydd i lenwi y ddaear, megis y toa y dyfroedd y môr." Pob un yn mhob teulu yn adnabod Duw, o'r mwyaf o honynt hyd y lleiaf; y trydydd gwas a'r plentyn bach yn siarad yn eön am Iesu Grist.

4. *Mae y pen yn ddigon uchel.*—Mae gobaith am y llestr tra byddo y cadben yn fyw, ac am y frwydr tra byddo y llywydd yn fyw; felly gan fod Iesu yn fyw ac allan o berygl yn yr holl frwydrau sydd i fod rhwng Cristionogaeth a holl grefyddau y byd, nid oes eisiau ofni am yr achos. Er fod breninoedd yn ymosod, a'r penaethiaid yn bwrw eu penau yn nghyd, yr Arglwydd yn y nefoedd a chwardd. Byddai yn fwy rhesymol i'r morgrug yn y twmpath benderfynu myned i ryfel â theyrnas nag i freninoedd daear i feddwl rhwystro achos Iesu i fyned yn mlaen.

III. Cymerwn olwg ar grefydd pan fydd yn uchel iawn.

1. *Bydd yn grefydd gyffredinol yr holl fyd.*—Mae crefydd Crist i ymladd â chrefyddau y byd, heb arf, carchar, tân, na ffagodau, ac eto yn ddigon nerthol trwy Dduw i'w bwrw i'r llawr i gyd. Mae angelion yn syllu ar y frwydr, ac wedi

cario newyddion digon annymunol adref lawer tro.—Fod ymerawdwr balch China yn tystio na chaiff y dynion gwynion byth ddyfod âg efengyl dros ei gaerau ef. Brenines Madagascar yn anfon y cenhadon Cristionogol allan o'i therfynau. Tahiti wedi ei hadfeddianu gan y Pabyddion, ond cant newydd yn fuan y byddant am y blaenaf yn ei gludo adref: Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef. Bydd yr efengyl yn cael ei phregethu yn mhob gwlad, Iesu yn teyrnasu "o fôr hyd fôr." Ni bydd yn y byd y pryd hwnw ond "un gorlan ac un bugail."

2. *Heddwch cyffredinol wedi ei sefydlu.*—Mae dyddiau rhyfel wedi eu rhifo. Mesur yr anwiredd hwn a ddaw i fyny. Mae yr efengyl i droi yr holl adeiladau gododd rhyfel i'w dybenion hi. Gwna y *Royal Military College*, Colegdy Duwinyddol, yr *Hybernian Schoolroom*, ysgoldy i blant y tlodion, y *Military Asylum*, yn gapel ardderchog, a Thŵr Llundain, sydd yn awr yn llawn arfau, yn swyddfa Beiblau—yr "arfau nid ydynt gnawdol;" am arfau rhyfel, rhaid eu troi yn rhywbeth arall. Fel dyn yn rhoddi ei grefft heibio, rhaid gwerthu yr offer hefyd. Gyrir y "cleddyfau yn sychau, a'r gwaewffyn yn bladuriau." Bydd swp o gleddyfau yn rhwydu dan y gromen ar ol y tadcu: aiff yr ŵyr â hwy i efail y gof, i gael gwneyd swch ddur gyfan i gael enill y wobr am yr aredig goreu yn y preminau nesaf. Blagura amaethyddiaeth pan fydd crefydd yn ei gogoniant. Gwrandewir gweddïau duwiolion yr oesau sydd wedi hir waeddu ar eu gliniau, "Gwasgar y bobl sydd dda ganddynt ryfel."

3. *Y pryd hyny bydd pawb yn foddlon gweini i grefydd, a dwyn eu anrhegion iddi.*—Darlunia Esay adeg diwygiad yr holl genedloedd yn dyfod at yr Eglwys. Dim yn eu tynu ond goleuni ei gwybodaeth a dysglaerdeb ei sancteiddrwydd. Deuant oll â goreuon cynyrch eu gwledydd, yn anrheg ar allorau crefydd. Golud y cenedloedd a ddaw i ti,—lluaws

camelod cyflym Midian yn dyfod, defaid Cedar dan frefi, hyrddod Nebaioth yn brytho y bryniau, thus Seba, aur California, llongau Tarsus yn llawn o arian, cedrwydd Libanus, un â llwyth o ffunudwydd, y llall ffâwydd, a'r hen wraig dlawd â choeled o fox i harddu lle y cysegr, a "moliant yr Arglwydd a fynegant;" "Bronau breninoedd a sugni." Daw mawrion byd yn bleidiol i grefydd cyn hir. Cynhelir cyfarfod gweddi cenhadol yn Llundain, a bydd Lord John Russel y dyddiau hyny yn dechreu y cyfarfod trwy ddarllen y dri ugeinfed bennod o Esay, yna rhydd Sir George Grey benill allan, "Aed yr efengyl bur i ma's," &c., ac ä dipyn i weddi, canlynir ef gan Lord Palmerston, a rhydd benill allan, "Newyddion braf," &c., rhyw John Bright yn blaenori y gân, Prince Albert yn diweddi y cyfarfod, ac yn rhoddi yr hen benill allan, "Yn dy waith y mae fy mywyd," &c., a Victoria a'r holl bendefigesau yn wylo dagrau wedi cael cyfarfod mor ragorol.

4. *Bydd agwedd y byd moesol yn brydferth iawn y pryd hyn.* Cyfiawnder yn cartrefi yn y doldir, llathen pawb yn ddigon hir, mesur pawb yn ddigon mawr, a chlorian pawb yn gywir. "Sancteiddrwydd i'r Arglwydd ar ffrwynau y meirch." Y bechgyn wrth aredig ac ymofyn calch yn canu emynau crefyddol. Diniweidrwydd cyffredinol yn teyrnasu; ni raid ofni y nos mwy, na'r dydd ar ben y mynydd nac yn ymyl cartref. "Ni ddrygant ac ni ddystrywiant yn holl fynydd fy sancteiddrwydd."

# CYSEGR HARDD.

"Gogoniant Libanus a ddaw atat, y ffynidwydd, y ffawydd, a bocys yn nghyd, i harddu lle fy nghysegr; harddaf hefyd le fy nhraed."—Esay lx. 13.

Cynwysa y bennod hon ddarluniad o sefyllfa flodeuog y Genedl Iuddewig wedi ei dychweliad o gaethiwed Babylon, yn nghyd â pharodrwydd y bobl i ddwyn rhoddion tuag at ail adeiladu y deml. Bernir hefyd fod yma gyfeiriad pellach at lwyddiant mawr yr efengyl yn mhob gwlad, a'r trigolion yn cludo prif drysorau eu gwledydd at wasanaeth crefydd. Cymerwn olwg ar y testun yn ei ystyr flaenaf.—Pob gwlad yn dyfod â'u pethau goreu at wasanaeth y deml. Dichon y dengys yr adnodau yn mhellach agwedd ogoneddus crefydd yn y mil flwyddiant, pan fydd yr holl wledydd yn dwyn eu prif gynyrch at draed yr eglwys. Gwnawn ddefnydd mwy uniongyrchol o'r testun yn bresenol, gan fod y capel newydd gael ei harddu, trwy gael ei *baintio*, gwnawn ddefnydd o'r amgylchiad i ddyben ymarferol.

I. Capel hardd.

II. Cynulleidfa hardd.

III. Eglwys hardd.

Ond yn

I. Capel hardd.

1. *Capel o faintioli priodol.* Wrth godi capel dylid cadw golwg ar y boblogaeth, a gwneyd lle cyfatebol. Tŷ annedd yn ei faint sydd hardd. Nid palas mawr a thri dyn ynddo; os bydd yn ormod mae yn hagr ac yn dreulfawr; os yn rhy fach mae yn boenus ac yn anghyfleus. Yr un fath y mae gwisg am y corph. Capel yn ormod, mae yn dreulfawr, yn anhardd, ac yn tori calon yr addolwyr. Ystafell yn agos a bod yn llawn sydd fwyaf cysurus i deimlad yr addolwyr. Hefyd, os bydd yn rhy fach, bydd yn anghysurus i deimlad yr addolwyr, ac yn erbyn llwyddiant yr achos yn y lle.

2. *Capel cyfleus i'w orchwyl.*—Dylai pob adeilad fod yn gyfleus i'r gwaith sydd i gael ei gyflawni ynddo. Amaethdŷ —lle i'r ŷd a'r llaeth; masnachdy—lle i'r nwyddau fod yn y golwg; saer am shop; y gof am le y fegin a'r einion; y gweinidog am y study. Capel—lle yn benaf i un i siarad a thorf i wrando. Mae eisiau iddo gael man cyhoeddus a rhwydd i siarad, a chyfle i bawb o'r gwrandawyr i'w weled ef. Gwelais gapel mawr heb un ynddo, a'i wyneb ar y pwlpid. Mae llawer capel a wnelai ysgubor hyfryd, ond ni wnaiff byth gapel hardd. Ni wnaiff capel ysgoldy byth, nac ysgoldy gapel.

3. *Capel o wneuthuriad prydferth.*—Dylai fod defnyddiau da ynddo, er dangos eu parch i grefydd, ac hefyd er mwyn parhad. Barnwyf y dylai pob capel fod yn dda, ond nid yn goegaidd. Pob peth sydd raid ei wneyd, ei wneyd yn dda. Cerrig, coed, haiarn—gwell rhoi rhai da ynddo; ei orphen yn gryno. Dylai fod tŷ yr Arglwydd yn gryno. Dylai fod tŷ yr Arglwydd o flaen ein tai ein hunain.

4. *Capel yn cael ei gadw yn lân.*—Pob un i ddyfod yn lân iddo. Glanhau y traed ar ddiwrnod gwlyb, yr hyn a wnawn pan yn myned i dŷ dyeithr, yn enwedig os bydd yn foneddwr. Bod yn lân ynddo. Peidio ysgrifenu dim ar y corau a'r muriau; peidio cnoi *tobacco* tra ynddo: os rhaid i'r dyn wneyd hyny, cael llestr pwrpasol i'r perwyl. Hefyd, rhaid i'r hwn fyddo â gofal y capel, edrych yn fanwl iawn ar ei ol, ei fod yn hollol loew erbyn y Sabboth.

II. Cynulleidfa hardd.

1. *Cynulleidfa yn dyfod yn nghyd yn brydlon.*—Nid dyfod hanner-awr neu awr ar ol y cyhoeddiad. Mewn trefn i wneyd hyn, rhaid codi yn fore a chychwyn yn brydlon. Mae rhai yn dyfod yn ddiweddar yn colledu eu hunain, yn rhwystro y pregethwr, ac yn tynu sylw y bobl. Mae y gynulleidfa yma yn ardderchog ar y pen hwn, ni raid ychwanegu.

2. *Cynulleidfa o agwedd unffurfiog.* Eistedd yn gryno. Eistedd i gyd pan yn eistedd, codi i gyd wrth ganu. Dangos agwedd rhai yn canu, yn gweddio, yn gwrando. Dichon fod eisiau ychydig o ddefosiwn y Pabyddion arnom.

3. *Cynulleidfa yn gwrando yn fywiog.*—Dylai y pregethwr feddwl ei bregeth mor fanwl a phe byddai dim yn agwedd y gynulleidfa, eto, rhaid cyfaddef fod agwedd cynulleidfa yn myned yn mhell—tynu enaid y pregethwr maes, yn gwneyd ei bregeth braidd yn rhy hir, a chynulleidfa arall yn ei byrhau. Gan y pregethwr mae gwneyd y llong, gan y gynulleidfa mae codi yr hwyliau.

4. *Cynulleidfa sefydlog.*—Dyfod yn gyson bob Sabboth fel eu gilydd. Dyfod i wrando y gweinidog fel pe byddai dyn dyeithr yno; gwr ieuanc fel y gweinidog; cwrdd gweddi fel pregeth; pob Sabboth o'r mis fel eu gilydd, fel na byddo Sabboth bach yn bod.

5. *Cynulleidfa yn talu sylw i weithrediadau yr eglwys ac eirchion y weinidogaeth.*—Aros pan fyddir yn ceisio, gwneyd sylw pan fyddo casgliad, a dyfod â rhywbeth ganddynt; pan fyddo gair yn cael ei ddywedyd, pawb yn gwrando, a gwneyd sylw o hono. Gwael yw gweled cynulleidfa anhywaeth, anufydd, yn diystyru pob peth ddywed y gweinidog ac a gais yr eglwys.

III. Eglwys hardd.

1. *Eglwys o gyfansoddiad ysgrythyrol.*—Yn y Gair ceir cynllun yr eglwys. Ni waeth faint o aelodau, na'r fath adeiladaeth orwych fyddo ganddynt i addoli ynddi; yr arch a'r tabernacl yn ol cynllun Duw, ac felly y rhaid i'r eglwys fod, yna bydd yn hardd yn ngolwg Duw. Bod eglwys yn ol meddwl Duw sydd yn ei gwneyd yn wir hardd, yn safadwy, a llwyddianus yn y byd.

2. *Eglwys wybodus.*—Gwybodus mewn pethau crefyddol yn fwyaf neillduol. Gwybod ei gangen ei hun sydd bwysig

i bob celfyddydwr. Bod yn wybodus yn y Beibl, yn nhrefn gras, yn natur cyfansoddiad yr eglwys. Hanes crefydd yn yr oesau gynt, ac yn fwy neillduol mudiadau crefydd ei oes ei hunan. Llafur gyda yr ysgol i ddysgu ac i egwyddori ddaw â hyn i ben. Dynion yn deall eu hegwyddorion eu hunain, yn gyfarwydd yn y Beibl, yn fedrus mewn canu a gweddio, yn alluog i fyned â'r achos yn mlaen.

3. *Eglwys unol.*—Amrywiol liwiau yn y blodeuyn sydd yn ei wneyd ef yn hardd; felly y capel wedi ei liwio, felly amryw grefftwyr yn gwneyd yr adeiladaeth, gronynau dwfr i gael y llong i ffwrdd, amryw ddoniau ac amgylchiadau yr eglwys yn uno i'r un perwyl, oll yn cyd-daro pan fyddo galwad. Ei hundeb mor amlwg nes byddo y byd yn gweled ei harddwch, ac yn dyfod atti, ac annuwiolion yn dychrynu cyffwrdd â hi. Dylai yr holl aelodau blethu eu hunain am eu gilydd, ac am Grist fel y gwinwydd am y pren; rhaid eu tori, nis gellir eu tynu yn rhydd.

4. *Eglwys haelionus*—Un fyddo yn barod at bob achos da, yn foddlon i gasglu, ac yn cyfranu a allo yn llawen.

5. *Eglwys dduwiol.*—Gellir bod yn ysgrythyrol o ran cyfansoddiad, ac heb fod yn dduwiol, yn oleu fel Satan, yn unol fel y meirw yn y bedd, yn haelionus fel y dyn yn rhoi er peidio gweddio. Pwnc mawr yw eu bod wedi eu cyfnewid trwy ras. Dyma ddynion sydd yn ofni Duw. Dyma ddynion fydd farw yn dduwiol, ac a fydd yn arddeledig gan Iesu yn y farn.

---

# GWROLDEB CREFYDDOL.

"Oni orchymynais it'? Ymgryfhâ ac ymwrola; nac arswyda, ac nac ofna; canys yr Arglwydd dy Dduw sydd gyda thi, i ba le bynag yr elych."—JOSUA i. 9.

ANERCHIAD Duw i Josua yw y testun. Yr oedd Moses yn awr wedi marw; Duw wedi ei gladdu. Israel wedi gorphen dyddiau eu galar am dano. Josua wedi ei neillduo yn flaenor y bobl. Y genedl ar gychwyn o rosydd Moab trwy yr Iorddonen i gael cymeryd meddiant o wlad Canaan. Mae Duw yma yn annog Josua i fod yn *wrol* fel blaenor. Dim ond iddo fod yn wrol, a chadw yn deg at gyfraith ei Dduw, y mae yn addaw bod gydag ef fel y bu gyda Moses.

I. YN EI BROFION.

II. YN EI GYMELLION.

III. YN EI FANTEISION.

Ond yn

I. YN EI BROFION; neu pa bethau sydd mewn cysylltiad â chrefydd â thuedd ynddynt i lwfrhau y gwrol.

1. Gweled rhai fu unwaith yn flodeuog yn gwywo ac yn gadael, un dderbyniwyd yn gynes, fu 'n rhedeg yn dda gyda yr ysgol, y cyfarfodydd, y canu, y gweddio, a'r cyfranu, wedi llaesu dyfod i'r cyfarfodydd, peidio â'r ysgol, â'r canu; weithiau dan rwgnach yn cyfranu, yn chwilio beiau yn y frawdoliaeth, a dysgwyl am gyfle i adael, ac o'r diwedd, mewn profedigaeth fach yn myned, a'r frawdoliaeth yn gorfod dywedyd, Demas a'n gadawodd. Digalon iawn i'r llafurwr yw fod y llafur yn gwywo yn lle addfedu; i'r gwinllanydd fod y ffrwythau yn pallu wedi cael blodau da; i'r fam fod y plentyn fu unwaith yn gryf yn awr yn gwywo ar ei draed; felly i'r crefyddwr pan bydd un yn gadael. Barna y gwan ei grefydd fod bwlch mawr yn yr achos, ond y cryf a ddywed,

"A fynwch chwithau hefyd fyned ymaith." Y gwan a gred yn ddistaw iddo gael cam ar law yr eglwys, ond y cryf a ddywed, "Nid oeddynt o honom ni."

2. *Dynion fu yn enwog yn syrthio.*—Mae dau fath o syrthio yn bod: syrthio i beidio codi; eraill yn syrthio, a thrwy diriondeb yr eglwys yn cael eu hadgyweirio. Achan a Judas o nifer y blaenaf, a Dafydd a Phedr yn yr ail res. Llwfrhaodd cwymp Achan holl Israel, nes oeddynt yn methu cymeryd dinas fach Ai. Pa fwyaf cyhoedd a defnyddiol fyddo yr aelod, mwyaf i gyd fydd effeithiau ei gwymp pan yn syrthio. Mae y gyfeillach yn oeri, yr ysgol yn lleihau, y cyfarfod gweddi dan gwmwl, y pwlpud yn colli ei nerth, a'r byd yn cablu. Cristion gwrol mewn amgylchiad fel hyn, fel meddyg yn nghanol brwydr, gwella y clwyfau yn nghanol magnelau, neu nid ydynt o honom ni.

3. *Cael gwrthwynebiadau lle y gallent ddysgwyl cymorth.*—Meddwl am ryw gynllun i buro yr eglwys neu wella y byd; erbyn ei ddwyn ger bron, bydd yr eglwys yn rhanedig, rhai yn foddlon, ond gwneyd dim, fel Meros gynt; eraill yn erbyn, mewn dywe'yd a gwneyd. Crefyddwyr yr oes yn erbyn Iesu, Philosophyddion y dinasoedd yn erbyn yr Apostolion, a llawer crefyddwr yn erbyn gwella y byd, oblegid nad yw y peth wedi dechreu gydag ef, neu oblegid nad yw efe yn cydwel'd am y llwybr i wella y byd. Digalondid yw cael siomedigaeth mewn cyfaill.

4. *Priodoli ei ymdrechion i gauddybenion.*—Pan fydd dyn yn ymdrechu esponio yn yr ysgol, eisiau dangos ei fod yn gallach nag eraill; cyfranu mwy na'r lleill, eisiau dangos ei hunan; am ddysgyblaeth, rhagrith yw hyn; cynyg cynllun newydd, am gael y blaen ar bawb. Addefai yr Iuddewon fod Crist yn gwneyd da, ond trwy Beelsebub yr oedd yn gwneyd y cwbl. Yr Apostolion yn aflonyddu y byd. Os bydd dyn yn rhoddi pwys mawr ar farn dynion, fe lwfrhâ gyda pheth

fel hyn, ond os cymeradwyaeth Duw, ni wna hyn yr un effaith arno.

5. *Dim llwydd ar y llafur.*—Rhieni yn gweddio a'r plant heb fod yn plygu; gweinidog yn llafurio, a gofyn bob nos Sabboth, "Pwy a gredodd i'n hymadrodd;" eglwys yn y llafur, a dim ychwanegiad; ymboeni trwy y nos, ac heb ddal dim.

6. *Dynion defnyddiol yn marw.*—Dyma fel yr oedd yn yr amgylchiad hyn; Moses wedi marw; swyddog yn marw yn y fyddin, mae y cwbl yn sefyll; gweinidog yn marw, neu ddiacon defnyddiol, neu athraw ffyddlon, neu ganwr peraidd. Mae y gwrol mewn adeg fel hyn yn barod i ddywedyd, Fe gyfyd eraill eto.

II. Gwroldeb Crefyddol yn ei Gymellion.

1. *A Duw y gwnaethom gyfamod.*—Nid oes hawl gan was roddi fynu am fod ei feistr yn marw, ei gydwas ag yntau yn methu cydweled, neu ei gydforwyn ddim yn ei foddloni; os bydd yn cael bwyd, dim gormod o waith, a chadw amser, nid oes hawl ganddo i ymadael; "Wele, yr wyf fi gyda chwi;" cael siomedigaeth yn hwn a'r llall, "Myfi, yr Arglwydd, ni 'm newidir;" rhai anwyl yn marw, byw wyf fi.

2. *Cawsom wybod am y rhwystrau cyn dechreu.*—"Ymwaded ag ef ei hun." "Chwi a fyddwch gas gan bawb er mwyn fy enw i." "Yn y byd gorthrymder a gewch." "Trwy lawer o orthrymderau," &c.

3. *Mae genym esiamplau i'n cymell.*—Dafydd yn myned i frwydr â Goliath, bechgyn Babylon, Iesu Grist, "Fy mwyd i a'm diod yw gwneuthur ewyllys fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd," "Heddyw ac y fory yr wyf fi yn iachau pawb; beth wnewch chwi yma yn wylo, ac yn tori fy nghalon i? parod wyf fi i farw," &c. Cristion yn marw yn ferthyr yn Llundain, ni waeth ganddo na dŵr na thân i fyned adref; un arall yn cael ei ddewis i farw naill ai yn y dŵr neu y tân, Dim pwys, meddai yntau, digon yn y dŵr a'r tân.

4. *Ni wnaed unrhyw dda mawr heb rwystrau lawer.*—Gwelliant amaethyddol, masnachol, neu wladol, neu grefyddol. Amaethyddol: Cert yn lle ceffylau, a'r pynau *line* yn lle cathrenwr, a pheiriant yn lle y dyrnwr. Gwladol: Deddf yr ŷd a'r caethion. Masnachol: Cae y siopau yn gynar, &c. Pethau crefyddol yn gofyn bod yn wrol cyn eu cael i ben.

5. *Ni phery yr ymdrech yn hir.*—Anogaeth i'r gweithiwr i fod yn ffyddlon. Mae y gorchwyl bron dyfod i ben. Y morwyr gan Columbus, mae y tir yn y golwg. Y Cristion, mae angeu gerllaw, aiff y prydnawn drosodd cyn hir.

III. Gwroldeb Crefyddol yn ei Fanteision.

1. *Mae yn gysur mawr i'r crefyddwr ei hun.*—Mae wrth ei fodd yn wastad; yn cael nefoedd fawr yn y gwaith ar y ddaear. Mae y gwrol yn edrych ar wyneb oreu pob amgylchiad.

2. *Ychwanegwn nerth yn y gweiniaid.*—Gweled un gwrol yn rhoddi calon mewn eraill; fel y mae araeth un blaenor gwrol yn effeithio ar yr holl filwyr.

## DYN YN DDYLEDWR I BAWB.

"Dyledwr ydwyf i'r Groegiaid ac i'r barbariaid hefyd, i'r doethion ac i'r annoethion hefyd."—RHUF. i. 14.

DENGYS Paul yma ei awyddfryd am ymweled â Christionogion Rhufain. Bwriadodd hyny lawer gwaith, ond fod amgylchiadau yn ei luddias. Mae yn y testun yn addef ei hun yn ddyledwr iddynt. Mewn gwirionedd, ei fod mewn dyled i bawb—rhai dysgedig, coethedig, yn gystal a rhai annoeth y byd. Nid oedd Paul mewn un ystyr yn eu dyled hwy, ond ei fod yn ystyried ei hun dan rwymau i bregethu yr efengyl yn mhob man. Cawn edrych ar ddyn, yn enwedig y Cristion, fel dyledwr cyffredinol i'r byd.

1. *Mae yn ddyledwr cyfansoddiadol.*—Mae y Lluniwr wedi ei wneyd at wasanaethu eraill. Mae cylch gwasanaethgarwch pob bod i gyrhaedd yn mhellach na'i hunan. Greddf yw yn y creadur, ond dylai fod yn egwyddor yn y dyn. Mae y ddafad, y wenynen, yr ych, &c., yn ddigon o engreifftiau o'r gwirionedd hyn. Gwnaeth Duw ddyn yn debyg iddo ei hun. Mae efe yn ymhyfrydu mewn gwneyd ereill yn ddedwydd. Mae y cyfryw gymwysder gan y dyn hefyd. Mae y dyn yn cael gwledd yn ei feddwl wrth ddychymygu pa fodd y bydd yn adrodd ei helynt wrth arall, pa un ai gofid neu lawenydd. Mae ambell un yn cynyg byw yn unig iddo ei hun; mae yn methu gwneyd hyny; gwneyd bara iddo ei hun, o hau yr had i bobi y dorth; gwneyd ei dŷ, ei dân, a'i ddillad, ond mae golwg anferth arno; mae yn tori deddfau ei natur ei hun. Mae y doniau roddwyd i ddyn, mewn ymddiriedaeth y maent.

2. *Dyled berthynasol.*—Yr ydym yn perthyn i'n gilydd oll. Gwnaeth Duw ni i gyd o un gwaed. Teulu Adda ydym oll, ac y mae pawb yn cyfaddef fod dyled ar deulu i ofalu am eu gilydd. Yr un yw y boncyff oddiar pa un yr ydym wedi tarddu, Efa oedd ein mam ni oll. Mae llawer teulu o blant

fagwyd ar yr un aelwyd, wedi gwasgaru yn mhell, a myned i wahanol amgylchiadau; felly mae y teulu dynol. Mae y lliw a'r llun, a'r iaith a'r wlad, a'r amgylchiadau yn amrywiol, ond un gwaed. Mae y berthynas yn aros. Mae mwy o bethau yn aros nag sydd wedi colli: yr un lliw eu gwaed, yr un rhif eu dwylaw, eu bysedd, eu hesgyrn, a'r un teimlad ganddynt. Maent yn wastadol yn dyfod i'r byd ac yn myned o'r byd yr un fath. Yr un ddaear sydd yn eu porthi, yr un awyr, yr un haul, a lloer, a ser. Bydd Duw yn gofyn, "Mae Abel dy frawd?"

3. *Dyled draddodiadol.*—Mae dyled ar y plant i'r rhieni, oblegid hwy a'u magodd. Dyled y neithiorau, talu pwyth y tad i'r mab. Mae ambell ddyn, wedi cael tŷ a thyddin, y cwbl yn cael eu gadael yn adfaelion, cael cyfoeth, a'i wasgaru, cael addysg ei hun a gadael ei blant yn hanner ynfydion—mae yn marw mewn dyled dychrynllyd i gymdeithas; mae bwlch yn y teulu lle y bu ef. Mae ambell i oracl nad oedd wedi cael dim ryw lawer i ddechreu, fel Hume a Cobden, a Bright a Dr. Livingstone, wedi gosod cymdeithas yn eu dyled hwy byth. Dylai pob dyn sydd yn byw yn fras yn America gofio ei fod mewn dyled i Columbus. Mae arnynt rwymau gwrteithio y tir, adeiladu tai, a lleshau cymdeithas. Yr ydym ni wedi derbyn lles mawr oddiwrth yr Ysgol Sabbothol, Cymdeithas y Biblau, &c., dyled ninau yw estyn y rhai hyny yn mlaen i'r oes nesaf, gan eu gwella ac ychwanegu atynt. Mor werthfawr yw yr efengyl gyda ni. Bu rhai mewn trafferth i'w rhoddi i ni, dylem ninau wneyd ein goreu i'w hanfon yn mhellach. Da genym ddeall fod cymaint o ymdrech yn yr oes hon i ffurfio cymdeithasau newyddion a chynlluniau daionus i gyrhaedd holl wrthrychau trueni yn ein teyrnas ni a gwledydd tramor hefyd. Dylai yr oesau ddysgu eu gilydd.

4. *Dyled gysylltiadol.*—Mae cysylltiad rhyngom a'n gilydd. Mae eraill yn ein gwasanaethu ni. Mae y glöwr a'r mwnwr dan y ddaear yn gweithio yn galed i gael tân a haiarn i

ni. Yr ydym ni yn cael ein siwgr trwy law a llafur bechgyn duon yr India Orllewinol; dylem anfon gair yn ol am y triagl sydd yn Gilead. Miloedd China gyda y tê; dylem ninau anfon iddynt hwythau son am y pren sydd yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, a'i ddail ef yn iachau y cenedloedd. Lluoedd Persia yn ymroddi gyda y sidan, i gael addurno ein boneddigesau ni; teilyngant hwythau gael gwybod am y cyfiawnder gwyn a glân. Bechgyn Siberia a Kamsgatca yn anturio eu bywydau ar ol y dyfrgwn, i gael eu crwyn i ymgeleddu ein gwragedd ni; dylent gael gwybod am y Duw sydd noddfa yn nydd trallod. Cannoedd yn California yn myned i lawr ddeugain troedfedd dan y dwfr, i gael casglu perlau i roddi ar fynwesau ein pobl ni; oni chant glywed yn ol am y perl o uchel bris sydd yn yr efengyl? Nis gall y pendefig eistedd wrth ei fwrdd i gael tê, heb wel'd miliynau China yn y tê, Affrica yn y siwgr, Sweden a Norway yn y mahogany, lluaws Sheffield yn y cwpan, llaw y saer a'r gôf yn y bwrdd.

5. *Dyled ymrwymiadol.*—Rhaid i'r machniydd dalu y *bond*; mae ei enw wrthi. Rhaid i'r gwas fod yn ffyddlon i'w gytundeb, a'r milwr i'w lŵ. Mae y Cristion wedi ysgrifenu â'i law, Eiddo yr Arglwydd ydwyf. Mae y Cristion yn adnewyddu ei lŵ yn aml iawn yn y cymundeb. Nid addaw gwneyd rhywfaint; ond yr oll a fedrom ydym yn ei wneyd. Nid yw dyn yn *ddyn* heb fod at ei air, ac y mae pob Cristion wedi rhoddi ei lŵ am ffyddlondeb.

6. *Dyled Cristionogol.*—Mae y gymwynas a wnaeth Crist drosom yn ein rhwymo byth i wneyd ein goreu yn ol ein hamgylchiadau. Ystyria pob un ei fod dan ddyled i'w gymwynaswr, fod at ei alw ac at ei wasanaeth. Y tlawd at alw y boneddwr fu yn garedig iddo yn ei dlodi; y claf i'r hwn a'i gwellaodd; felly y Cristion i'r hwn a'i prynodd: nid fel ein Creawdwr neu ein Cynaliwr mae Crist yn honi ein gwasanaeth, ond ein Prynwr. "Er gwerth y'ch prynwyd." "Chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist."

## Y FFORDD LYDAN.

"Ewch i mewn trwy 'r porth cyfyng: canys eang yw'r porth, a llydan yw 'r ffordd sydd yn arwain i ddistryw; a llawer yw y rhai sydd yn myned i mewn trwyddi."—MATT. vii. 13.

DAU fath o bobl sydd yn y byd. Rhai yn myned i ddistryw neu i'r bywyd. Nis gwyr y Beibl am ddim ond dau, ac ni fydd y farn yn gwybod am neb arall: y rhai a wnaethant dda, a'r rhai a wnaethant ddrwg. Mae pob dyn yn y byd yn ysgogi, *yn myn'd*, ac y mae pawb yn myn'd i wynfyd neu i wae. Mae pawb ar un o'r ddwy ffordd.

I. YCHYDIG O SYLWADAU AR Y FFORDD I DDISTRYW.

1. *Mae ffordd i ddistryw.*—O'r nefoedd yr agorwyd ffordd yno gyntaf. Gwrthryfel angelion roddodd fodolaeth i uffern. Crewyd hi ar y pryd, neu rhoddodd Duw dalaeth benodedig o'r blaen i fyny i'r perwyl. Bydd yn uffern yn mhob man ond i Dduw beidio rhoddi llewyrch ei wyneb; fel y byddai yr ardd ffrwythlonaf yn gwywo pe byddai yr haul yn peidio llewyrchu yno. Yr oedd y nefoedd wedi ei pharotoi i seintiau, ond i ddiafol y parotowyd uffern, ond y rhai a wrandawant arno a fydd byw gydag ef byth. Nid oedd dim o'r cysylltiad lleiaf rhwng ein byd ni ag uffern yn ei greadigaeth. Cauodd Satan a dyn y ffordd i'r nef, ac agorasant y ffordd i uffern yn y fan. Agorodd gras Duw ffordd arall i'r nef, ond nid ydyw hono wedi cai ffordd uffern i fynu; mae ffordd o Galfaria i fywyd ac i ddistryw, fel y gwelwn yn hanes y ddau leidr ar y groes. Mae ffordd o'r ysgol Sabbothol a'r ysgol gân, y pwlpud, y cymundeb, ac o bob man, gwlad, a sefyllfa, ond o Grist i uffern. "Nid oes damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu."

2. *Ffordd arw iawn ydyw.*—Er bod ffordd, a'i bod yn llydan, eto garw a thrafferthus iawn ydyw. Mae yn boenus iawn ar y meddwyn—cael aelodau briw wrth ymladd, pen curedig poenus drannoeth, llogell wacach nag oedd yn feddwl, cydwybod yn condemnio nes oedd bron yn wallgof: ffordd

troseddwyr sydd galed. Gwelwch y lleidr yn myned oddiwrth ei deulu i'r carchar a thir alltudiaeth bell. Gallwn feddwl fod y cybudd lawer yn well, ond nid felly y mae; ni chaiff gysgu yn dawel; nid yw am fynud yn ei fywyd uwchben ei ddigon; dichon ei fod lawn mor boenus a neb pwy bynag. Wele y gwrandawr cyson, llawer gwaith mae y weinidogaeth wedi gwneyd iddo wylo ac addunedu; mae rhyw bechod anwyl yn ben arno; mae fel y plentyn bach yn myned i gaethiwed yn llaw ei feistr, ar ryw ystyriaeth nid o'i fodd; mae yn cael llonydd tra yn y cwrdd, fel aelodau y senedd, rhag dyled tra yn y tŷ, ond pan ddaw allan, mae y gelyn yn ymosod arno yn ffyrnig.

3. *Ffordd ag y mae llawer o wrthgloddiau wedi eu codi arni.* Cynghorion a gweddiau rhieni duwiol. Rhaid iddo fod yn gryn gampwr cyn gwneyd hyn; cyn myned heibio i ddagrau rhieni. Yr oedd y milwr yn Ffrainc yn eu teimlo yn rhwystr iddo trwy ei oes. Addysgiadau yr Ysgol Sabbothol, cynghorion y weinidogaeth, cymelliadau yr Yspryd a gwaed y groes. Rhaid i'r dyn droi ei gefn ar y groes cyn y gall fyned i uffern, pan y mae Crist yn marw yno, a holl anian yn cydymdeimlo, a'r lluaws o gwmpas yn dywedyd, "O'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll, a gras am ras." Mae fel y forwyn fach yn myned at ei chyflog i'r lle newydd, heibio i'r hen le da y buodd ynddo, Rhaid peidio *edrych arno*, meddai, Ond nis gallaf yn fy myw fyn'd heibio. Rhaid iddo gau ei lygaid fel na welo y groes, a'i glustiau fel na chlywo lais tyner alwadau y nef. Rhaid iddo serio ei gydwybod â haiarn poeth.

4. *Ffordd dwyllodrus iawn ydyw.*—Gellid meddwl wrth edrych yn mlaen arni ei bod yn wych iawn. Gallai y dyn ieuanc feddwl am ofera prydnawn Sabboth, a chymdeithas lawen y nos eu bod yn hyfryd iawn; mae yn cael llawer o bleser wrth feddwl am danynt, ac o fwynhad ynddynt, ond och sydd yn canlyn. Gall y cybudd feddwl fod pleser anar-

ferol mewn trefnu i gael cant punt at eu gilydd i gael eu rhoi ar log; ond nid oes boddhad ganddynt. Felly gallai y meddwyn feddwl am wledd yn y dafarn; ond wedi yr elo heibio mae fel pe byddai wedi croesi pwll, a'r iâ wedi tori—rhy ffiaidd yn awr i fyned at grefydd, rhaid gwella yn gyntaf; ond cyn gwella, i lawr yr â eilwaith. Mae y gelyn yn llwyddo rywfodd i ddangos y pleser, ond dim o'r poen. Y lleidr, y meddwyn, y ddynes anniwair, pe byddai yn dangos diwedd eu ffyrdd iddynt, collai ei ddeiliaid i gyd.

5. *Mae llawer o ymdeithwyr arni.*—Meddwon, cablwyr, celwyddwyr, godinebwyr, cybuddion, a lluaws o ddynion moesol nad ydynt yn credu yn Iesu Grist. Maent yn cymell eu gilydd iddi, ond nid oes fawr gydymdeimlad rhyngddynt. Dyn ieuanc wedi cael niwed yn y gamp, y llall ddim yn teimlo dim drosto. Y sobr yn chwerthin am ben y meddw. Y ddau gyfaill yn myned i'r dafarn, ac yn ymladd cyn dyfod oddiyno. Nid da gan un weled y llall ar ben y daith.

6. *Mae ymdrech fawr i gael dynion o honi.*—Bu Iesu farw i gael ffordd newydd; mae cenhadau yn myfyrio, y saint yn gweddio, a Duw yn galw, Gadawed y drygionus ei ffordd. Nid gwiw gobeithio iddi wella, nid oes adgyweirio i fod arni, nid oes ond penderfynu ei dilyn neu ei gadael. Mae adeg gyfyng i groesi, ond mae miloedd wedi croesi yn ddiogel, ac yn canu am hyny heddyw. Myned drosodd "o farwolaeth i fywyd."

II. PRIODOLEDD Y FFORDD YN Y TESTUN.—"Ffordd lydan."

1. *Caiff y pechadur fyned â'i bethau ganddo ar hyd iddi.*—A y pechadur i uffern fel y mae, heb ddiosg. Nid hoff gan ddyn yw diosg; da gan y dyn os gall fyned i neges fel y mae, heb newid ei wisg na golchi ei wyneb. Gall y pechadur fyned i uffern â'i hen iaith, â'i hen gyfeillion, ac â'i hen arferion; dim eisiau diosg yr hen ddyn, na chroeshoelio y cnawd. Digon o led yn y porth. A y cybudd â llon'd ei

galon o gyfoeth i fewn yno. Mae y *luggage* yn *free*—faint a fynoch. Mae ambell un well ganddo oddef poen yn ei aelod, a threulio yr awr fel y gallo na'i thori hi ymaith a diogelu y bywyd; felly mae yr annuwiol, mae yn hoffi yr hen ffordd, oblegid y mae pob peth yn cael llonydd fel y mae, ond fod y bywyd yn cael ei beryglu yn y pen draw.

2. *Ffordd lydan, oblegid nad oes yr un reol arni.*—Caiff y dyn syrthio i'r ffos nos ffair, dim cyfrif yn ol llaw; ymladd yn y neithior, ofera prydnawn Sabboth. Nid oes neb sydd arni dan driniaeth. Maent fel y tyddynwr yn rhoddi y cae i fyny i ddiffrwythder, ddim yn ei drin mwy. Gadael yr anifail mae yn ladd i'r adledd, dim trin i fod arno. Mae pawb yn cael myned fel y mynont, ac yn sicr o gael derbyniad bydded hwy cynddrwg ag y byddont. Nid oes pwys, mesur, na thriniaeth i fod arnynt.

3. *Ffordd lydan, oblegid yr amrywiol fân lwybrau sydd arni.*—Maent oll yn diweddu yn yr un man. Ffordd y cybudd rhwng y bryniau aur a'r mŵn-gloddiau arian; y meddwyn yn gweled hono yn rhy sych, gwell ganddo ei chael rhwng pyllau meddwdod; un arall yn gweled y ddwy ffordd yn rhy dywyll, ffordd y cellwair a'r ynfydrwydd mae ef yn ddewis. Rhodia yn ffyrdd dy galon, meddai Satan. Mae y dyn yn cael dewis ei lwybr. Mae mantais i basio pethau mewn siop, pan byddo amrywiaeth nwyddau ac amryw weision; ond mae ffordd y bywyd yn aros wrth yr un pris pe byddai y bobl yn myned i uffern i gyd, "Heb sancteiddrwydd," &c. Yr un yw y telerau, "Os myn neb ddyfod ar fy ol i."

III. Y lle mae y ffordd yn arwain iddo.—"I ddistryw."

1. *Mae y ffordd yn sicr o fyned i'r lle.*—Mae yn myned yn gymwys. Nid oes eisiau troi. Meddwdod, celwydd, cybudd-dod, oferedd, diwedd y pethau hyn oll fydd marwolaeth. Mae ambell i glefyd y clywir y meddyg yn dywedyd am dano, Gall y dyn fyw ronyn, ond y mae yn sicr o'i ladd yn y

diwedd. Y dyn moesol yr un fath, "Yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisoes." Ni bydd gan Dduw un man i roi cymeriadau fel yna ond yn uffern, gan nad ydynt yn gymwys i un man arall. Bydd yn rhy ddiweddar i newid ffordd, pan y deallo yr annuwiol yn mhorth angeu ei fod wedi ei cholli. Wedi yr â i'r porth, bydd yn anhawdd iawn ganddo fyned yn mlaen, ond fe'i gyrir ef ymaith yn ei ddrygioni. Ni wna Duw siarad nac estyn llaw ato mwy. Dyna ei ddiwedd; wedi bod mewn amgylchiadau da, wedi bod yn llon yn y byd, ac wylo yn y cyrddau, aeth i ddistryw.

2. *Cynwysa y distryw yma bob annedwyddwch.*—Corph llathraidd prydferth yn myned i'r boenfa fythol, a'r meddwl galluog yn cael ei lyffetheirio mewn gwae. Cymdeithion gwael fydd yno. Byddai yn syn gan wraig brydferth feddwl bod yn ngwaithdy Llandovery gyda'r tlodion, neu yn ngharchar Caerfyrddin gyda lladron; ond os i uffern yr â, ni bydd modd byth cilio o'u ffordd.

3. *Bydd y lle lawer gwaeth na'r ffordd oedd yn arwain iddo.* Bu yn ddigon garw ar y meddwyn ar y ffordd, ond llawer gwaeth wedi myned yno. Bu yn gyfyng ar y gwrandawr wrth feddwl ei fod yn ddigrefydd yn myned i'r farn, ond ni bydd gobaith i'w chael yno. Nid yw y gofid ar hyd y ffordd ddim ond fel dafn o'r gofid sydd i dd'od; "Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau tân a brwmstan," &c. Tost meddwl fod dyn yn gwneyd ymdrech mewn trefn i gael ei ddamnio. Mae gobaith troi o'r ffordd, ond ni bydd felly am y lle byth, byth.

CASGLIADAU.

1. *Mae llawer ar y ffordd lydan.*

2. *Mae cyfle i newid ffordd heddyw.*

3. *Ni bydd modd newid lle wedi myned iddo unwaith.*—Cynygiodd Dives, ond methodd agor tramwyfa rhwng y gwledydd.

## CEIDWAD Y CARCHAR.

"Ac wedi galw am oleu, efe a ruthrodd i mewn; ac yn ddychrynedig, efe a syrthiodd i lawr ger bron Paul a Silas, ac a'u dug hwynt allan, ac a ddywedodd, O feistriaid, beth sydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig? A hwy a ddywedasant, Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi, ti a'th deulu."—Actau xvi. 29—31.

Daeth Paul a Silas ar eu taith i Philippi. Daphos oedd enw cyntefig y ddinas; ond gan i Phillip, brenin Macedonia, tad Alexander Fawr, ei hadgyweirio, galwyd hi ar ei enw ef. Yr oedd yno lanҫes fechan yn dywedyd dewiniaeth. Ar gyflog yr oedd, ac yn dwyn elw mawr i'w meistriaid. Yr oedd yn canlyn yr Apostolion pa le bynag yr elent, gan ddywedyd, "Y rhai hyn ydynt weision y Duw Goruchaf." Trôdd Paul arni ryw ddiwrnod, a dywedodd wrth yr ysbryd aflan, "Dos allan o honi." Darfu am ei dewiniaeth hi yn y man. Teimlodd y meistriaid fod gobaith eu helw wedi myned ymaith, a chyhuddasant yr Apostolion eu bod yn terfysgu eu dinas hwy; a than y cyhuddiad hwn, rhoisant hwy yn y carchar heb eu profi, a gorchymyn caeth i'r ceidwad eu cadw yn ddiogel. Yntau, wedi derbyn y fáth orchymyn, a'u rhoddes yn y gell nesaf i mewn; wedi eu fflangellu yn gyntaf, yna eu rhwymo. Ar ganol nos, clywai y carcharorion Paul a Silas yn canu ac yn gweddïo yn gyhoeddus. Gyda y canu cymerodd daeargryn le; siglodd sylfaeni y carchar, agorodd y dorau, torodd y rhwymau, ac aeth pawb yn rhyddion yn y cynhwrf, deffrôdd y ceidwad, a thynodd ei gleddyf gyda bwriad i ladd ei hun. Ataliodd Paul ef, gan ddywedyd, "Yr ydym ni yma oll." Gyda hyn llewyrchodd pelydr o oleuni dwyfol ar eu enaid; ac yn y teimlad hwnw gofynodd i'r Apostolion, "Pa beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf cadwedig."

I. Cynwysiad gofyniad y Ceidwad dychrynedig.

1. *Mae ei ofyniad yn cynwys teimlad o'i golledigaeth.*—Nid yn unig ei fod mewn perygl, ond ei fod yn credu hyny. Gall

dyn fod yn cysgu yn dawel, a thân yn ei dŷ; ond bydd yn llawn cyffro os bydd wedi deall a chredu hyny. Yr un fath am ddyn fyddai â chlwyf peryglus ar ei gorph. Felly yn gymwys am bechadur. Mae pawb yn golledig. Dan ddedfryd condemniad, "a ddamniwyd eisoes." Mae y dyn yn gwbl dawel, yn cysgu, yn gwenu yn siriol; ond y mae goleuni argyhoeddiad yn ei ddwyn i weled ei berygl. Fod deddf yn ei ofyn o fwy nag a all ei dalu; nad oes modd byth iddo wneyd iawn am ei bechod; y bydd yn wyddfod ei Farnwr yn fuan; a bod oes dragwyddol o gosp o'i flaen. "Cadw ni, darfu am danom."

2. *Fod ei sefyllfa wedi ei frawychu yn fawr.*—Dyma fel y bu gyda Paul ei hunan. Pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod, a minau a fum farw. Mae tân yn y tŷ, ac angeu yn y corph yn peri dychryn; ond angeu yn yr enaid ddychryn llawer mwy. Gŵyr pawb, yn neillduol y rhai sydd wedi bod yn bechaduriaid mawrion, am y teimlad hwn—ofn myned i'r gwely, rhag bod yn uffern cyn y bore; ofn myned ar y gliniau rhag methu codi; cael ei arwain i Sinai, Moses yn ofni ac yn crynu. Gweled uffern o'i flaen o ran haeddiant, ac yn ei fynwes o ran teimlad. Y dyn wedi myned yn ddychryn iddo ei hun.

3. *Mae ei ofyniad yn addefiad o'i anwybodaeth.*—"Pa beth sydd raid i mi ei wneuthur. Pagan oedd hwn, ac nis gwyddai fawr am drefn y cadw. Mae y pagan sydd â'i gydwybod yn effro, yn cynyg llawer llwybr i'w thawelu. Mae rhai paganiaid yn tori eu hunain â chyllyll, nes byddo eu gwaed yn llifo; eraill yn aberthu eu plant anwyl a hoff; rhai yn cymeryd pererindod mewn sandalau pigog, eraill yn taflu eu plant i'r afonydd; y Beibl a'r weinidogaeth sydd yn egluro trefn y cadw. Mae llyfr y gyfraith i'w gael; llyfrau ar gyfansoddiad dyn, ar ffisigwriaeth; ond am fod yn gadwedig rhaid darllen y Beibl a gwrando y cenhadau: dyma ein swydd ni, dysgu dynion i fod yn ddedwydd byth.

4. *Dengys ei ofyniad fod y pwnc hwn wedi myned â'i fryd ef.*—Dywed rhai dynion y meddylient fwy am fod yn gadwedig pe byddai eu hamgylchiadau yn fwy cyfleus. Nis gallasai dyn fod yn fwy anghyfleus ei amgylchiad na 'r ceidwad y pryd hwn pe buasai cig a gwaed yn cael siarad. Dyn wedi teimlo yn iawn, nid oes dim a saif ar ei ffordd ef. Dacw Saul o Tarsus yn gadael heb siarad â chig a gwaed. Y bobl ar ddydd y Pentecost yn methu aros diwedd yr oedfa, a llawer un yn Nghymru cyn hyn wedi methu tewi ar ganol yr oedfa. Aeth mor boeth ar y cythraul yn y synagog gynt, fel y gwaeddodd allan ar ganol yr oedfa. Os cei di adeg mewn cystudd yn ymyl byd arall, aiff y pwnc hyn â'th fryd yn gyflawn.

5. *Dengys y gofyniad feddwl gostyngedig.* Mae yn dangos ei fod yn foddlon pa beth bynag a geisyt ganddo. Mae yr ymgeisydd mewn cyfraith yn rhoddi ei hunan i fyny i law y cyfreithiwr, ac felly y claf i'r meddyg. Pan fyddo yr awydd yn gryf nid oes modd lluddias y pechadur. Pe dywedem am drafferth yr argyhoeddiad a holl ofid y daith, mae yn foddlon i'r cwbl, ond cael bod yn gadwedig.

II. Atebiad Paul i'w ofyniad.—"Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist."

1. *Dim llai na hyn wna y tro.*—Nid oes dim a geidw ond credu. Nid oes genym hawl i ddywedyd dim arall wrth bechadur. Mae tuedd ynom ni i geisio gan un beidio meddwi, arall beidio cablu, arall i ddyfod i'r oedfa yn gyson, ceisio gan bechadur mawr yn enwedig i ddiwygio gronyn. Credu ddaw â'r dyn i afael y drefn, a'r drefn a wna driniaeth arno. Yr hwn ni chredo, pa faint bynag o rinweddau fyddo ynddo, a ddemnir. Credu sydd yn cymodi y pechadur a'r Mab, a'r Mab sydd yn rhyddhau. Pan yn myned i ryw le cyhoedd, y *ticket* sydd yn rhyddhau dyn.

2. *Dim yn ychwaneg yn eisiau.*—Nid oes eisiau gorchymyn dim arall, oblegid mae y credu yn sicrhau y cwbl oll. Os

credu, mae yn sicr o weddio—siarad â'r hwn y mae wedi rhoi ei fywyd iddo. Mae yn sicr o ddyfod i broffesu—arddel yr hwn y mae yn garu yn fwy na neb arall; cofio am ei angeu, gan ei fod yn gyfaill iddo, mae yn sicr o wneyd hyn er cof am dano.

3. *Rhaid gwneyd hyn yn iawn.*—Mae credu *yn* yr Arglwydd Iesu Grist yn cynwys yn—

(1.) Credu ei fod yr hyn ydyw. Ei fod yn Dduw a dyn, yn Emanuel, yn Gyfryngwr. Dyna fel y dywedai efe wrth yr Iuddewon, "Oni chredwch mai myfi yw efe, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau." "Credwch fi, fy mod i yn y Tad a'r Tad ynof finau." "Myfi a'r Tad un ydym." "Nid yw neb yn dyfod at y Tad ond trwof fi."

(2.) Rhaid credu iddo wneyd yr hyn a wnaeth—credu iddo wisgo cnawd, dyoddef a marw; credu iddo farw, ac nid marw fel dyn cyffredin, neu fel merthyr ychwaith, ond marw yn *iawn* dros ein pechodau *ni*, ac mai trwy ei farw ef y mae i ni gael byw: "Oni fwytewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef nid oes genych fywyd ynoch."

(3.) Credu y gwna yr hyn a addawodd. "Beth bynag a ofynwch yn fy enw i, efe a fydd i chwi." "Digon i ti fy ngras i." "Ni 'th rhoddaf di i fyny." "Bydd ffyddlon hyd angeu, a mi a roddaf i ti goron y bywyd." "Mi a wn i bwy y credais, ac ei fod yn abl i gadw yr hyn a roddais atto erbyn y dydd hwnw."—Cadw yr enaid a'i lwyr buro, ac adgyfodi y corph o lwch y bedd.

III. Y FRAINT GYSYLLTIEDIG.—"Cadwedig fyddi."

1. *Trwy gredu y mae diogelwch uniongyrchol i'w gael.*—Cadwedig fyddi—diogel yn union. Dywed y meddyg am y claf ei fod allan o berygl, er ei fod yn boenus, yn wan, a gwaith mawr wrtho eto. Pan bydd plentyn bychan yn cael ei fabwysiadu, y cam cyntaf yw cael derbyniad, yna gwella ei wisg, ei lanhau, dysgu yr iaith, y moesau, ac arferion y tŷ,

yna d'od i'r *parlour*. Y fynud y penderfyna y pechadur ddywedyd, "a'm ceir i ynddo ef," y mae yn ddiogel. "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu." Mae y pechadur yn ddiogel y fynud yma, ond fod gwaith mawr i'w wneyd arno ef. Nid oes modd damnio yr enaid sydd yn credu; ond y pwnc yw penderfynu a wyt ti yn credu yn Mab Duw.

2. *Mae y fraint yn sicr.*—Cadwedig *fyddi.* Nid oes ameuaeth i fod am dani. Nid cyngor fel mae y meddyg yn orfod roi i'r claf, gan obeithio y gwna les iddo, iddo weled rhai yn cael lleshad trwy y cyfryw feddyginiaeth; ac yn aml pan bydd dyn mewn perygl mawr *kill or cure* yw y cyffeiriau; ond yma *cadwedig* fyddi. Nid fel y gwahangleifion gynt yn dyweyd os cadwant ni yn fyw. Nid gobeithio y goreu, neu gofio am danat tuag angeu, neu dichon y gall hi droi allan yn dda yn y farn, na, *cadwedig.* Mae credu ar ryw olwg yn anturiaeth, ac ar yr olwg arall nid ydyw felly, oblegid y mae sicrwydd cadwedigaeth cyn dechreu.

3. *Yr un fraint i bawb a gredo.*—"Ti a'th deulu." Yr un amod i bawb, *credu.* Dim yn wahanol i'r mawr a'r bychan; rhaid i bob un ei wneyd ef drosto ei hun. Hon yw yr amod yn mhob oes ac yn mhob gwlad. Dyma y cynllun i gadw y gwr, y wraig, y plant, a'r gwasanaethyddion, yr holl bobl y dychwelir eu henwau yn awr gan y llywodraeth, un Crist iddynt oll—"ti a'th deulu."

### ADDYSGIADAU.

1. *Gofyniadau llai eu pwys na hwn sydd yn myned â bryd y bobl yn bresenol.*

2. *Dylem ddiolch am efengyl i roi ateb iddo.*

3. *Mae yr Iesu wedi gwneyd y cwbl sydd angenrheidiol; ond i ni foddloni i'r drefn hono, pob peth yn dda.*

# Y CRISTION DIWYD.

"O herwydd paham yn hytrach, frodyr, byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr: canys, tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim byth: canys felly yn helaeth y trefnir i chwi fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist."—II PEDR i. 10, 11.

MAE yr apostol yma yn annog y Cristionogion yn gyffredinol i ddiwydrwydd crefyddol, a hyny yn benaf oddiar yr ystyriaeth mai diwydrwydd crefyddol yw y prawf goreu fod yr hyn a fu o berthynas iddynt yn dda, a'r hyn a fydd yn ddiogel. Etholedigaeth yn ei pherthynas â Duw ydyw ei fwriad er tragywyddoldeb, i achub dyn yn ei drefn ei hun. Galwedigaeth y Cristion ydyw gwaith Duw yn yr efengyl. Yn ei alw yn effeithiol i weithredu edifeirwch tuag at Dduw, a ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist. Nis gall y pechadur gael gwel'd yr ethol, na bod yn sicr am yr alwad, ond wrth fod yn ddiwyd daw i dir lled sicr i'w feddwl ei hun ei fod wedi ei alw yn iawn a'i ethol yn sicr, oblegid y mae pobl Dduw yn "alwedig, etholedig, a ffyddlon."

I. AMCANAF DDARLUNIO "CRISTION DIWYD."

1. *Un wedi cyflwyno ei hun yn gyflawn i wasanaeth crefydd.* Ei ddymuniad ef yw bod yn Nghrist a byw i Grist "A'm ceir i ynddo ef." Mae yn dymuno bod yn gyflawn ynddo, cael ei gysuro yn gwbl ganddo, ac felly naturiol yw disgwyl iddo fyw iddo—gweithio i'r hwn sydd yn ei gynal. Mae wedi dyfod at draed ei Arglwydd, a thaflu ei arfau i lawr, a dywedyd, Wele fi; yr enaid yn gyflawn, a'r corph yn gyfan i dy wasanaeth. Nid cael rhan o'r dyn sydd ddigon i grefydd, ond, "Moes i mi dy galon." "Car yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon." Nid gwneyd gronyn, ond a allo. Dylai pob cyneddf yn yr enaid, a phob aelod o'r corph fod yn hollol gysegredig i grefydd. Mae'r Cristion diwyd wedi ysgrifenu ar holl deimladau a

chyneddfau yr enaid, holl aelodau y corph, pob anifail a fedd, a phob dylanwad sydd ganddo, "Eiddo yr Arglwydd yw."

2. *Un cyffredinol*—gyda phob rhan o'r gwaith. Mae ambell grefyddwr fe wna lawer, ond iddo gael ei waith a'i le. ond y diwyd yn foddlon gwneyd ei oreu yn mhob man a phob lle. Mae gyda yr holl foddion—cyfarfod pregethu, cymundeb, cyfarfod gweddi, cyfeillach, a'r ysgol Sul. Mae yn selog dros bob sefydliad y tybia y gall gael daioni, neu wneyd daioni. Mae yn darllen, yn meddwl, yn siarad, a chyfeillachu, yn gydradd. Mae yn foddlon, hyd y gallo, at bob gwaith—cysuro yr edifeiriol, adgyweirio y syrthiedig, heddychu yr afreolus, myned ar ol yr afradlon, dysgu y plant, cyngori yr ieuenctyd, a chysuro yr hen, ymweled a'r claf, cynorthwyo y weddw, a chyfarwyddo yr amddifad, canu, gweddio, a chyfranu—mor siriol wrth y naill a'r llall. Pob amser yn barod gan ddywedyd, "Wele fi, danfon fi." Gwas at bob gorchwyl mae dynion am gael.

3. *Mae yn un* YMDRECHOL. Gall ddywedyd fel Paul, "Mi a *ymdrechais* ymdrech *deg*." Dyfod i'r oedfa pan fydd y boreu yn arw, y ffordd yn mhell, a'r corph yn anhwylus. Dyfod i'r gyfeillach er fod pethau gartref yn cael aros oblegid hyny. Rhoi at yr achos pan yr oedd amryw bethau eraill yn galw yr un pryd. Gwnaeth y weddw ymdrech i roi y deisen gyntaf i'r proffwyd, a'r weddw arall fwrw yr oll a feddai i'r drysorfa.

4. *Un cyson yw.*—Mae gyda hi o hyd. Nid fel y "*gentleman farmer*," gweithio yn galed y cynhauaf wrth hau a medi, ond y gauaf yn myned heibio heb ei wel'd ef; ond fel y gwas, gyda hi haf a gauaf, oerni a gwres. Braidd mor ddiwyd yn ngauaf aflwyddiant crefydd a haf ei llwyddiant. Mae yn dda i rai gwamal fod rhai cyson i gael, onide ni fyddai byw yr achos, ac y mae yn dda iddo yntau ei fod yn fwy diwyd gyda phethau ei alwedigaeth, na chyda ei grefydd, onide buasai ei

damaid bara yn brin. Nid oes neb na dim yn peri iddo ddigio wrth ei waith.

5. *Mae yn gweithio heb ei gymell.*—Cael y gwaith yn mlaen yw ei bwnc ef, ac nid arbed ei hun. Mae yn wir ei fod yn sarug i segurwyr, oblegid fod y gwaith yn drech nag ef ei hunan. Mae yn dda cael rhai i wneyd trwy gymell, ond y Cristion sydd yn gweled ei waith, nid cymaint a osodir arno yn unig mae yn wneyd, ond llawer mwy. Gwel y claf, wrth fyned i'r gyfeillach, a'r tramgwyddiedig wrth fyned i'r cwrdd gweddi, cyngor i'r annuwiol wedi gwrando y bregeth, torth i'r tlawd heblaw mae yn roddi yn y capel. Mae y forwyn dda yn y tŷ yn gwneyd mwy nag y mae y feistres yn orchymyn, yn gweled gwaith eisiau ei wneyd. Mae y Cristion â'i holl fryd ar yr achos.

II. Fod y Cristion diwyd yn ddiogel mewn bywyd,—"Ni lithrwch chwi ddim byth."

1. *Mae y Cristion diwyd yn cael digon o bleser wrth ei waith heb ymofyn am bleserau i diroedd gwaharddedig.*—Mae dynion yn peryglu eu bywydau wrth ymofyn am bleserau, fel yr anifail gwan yn ymofyn am y tamaid glas i ganol y gors yn y gwanwyn, y tamaid yn brin, yntau yn wan, y blewyn glas yn edrych yn ddeniadol, ond y gors o'i gwmpas, ac yntau yn cael y gwaethaf wrth ei gyraedd. Mae un crefyddwr yn llithro gyda'r byd, ond dywed y diwyd, "Gwell i mi gyfraith dy enau, na miloedd o arian ac aur." Un arall gyda y gymdeithas lawen, ond dywed y Cristion, "Dy ddeddfau yw fy nghân yn nhir fy mhererindod." Arall gyda y meddwi, ond y Cristion, "Rhoddaist lawenydd yn fy nghalon yn fwy na'r amser yr amlhaodd eu hŷd a'u gwin hwy." "Ei ffyrdd hi sydd ffyrdd hyfrydwch." Mae yn eu teithio mor gyson fel y maent wedi dyfod yn hyfryd. Mae yn enill ei wres, yn cael ei fywioliaeth yn deg ar dir crefydd.

2. *Nid yw y profedigaethau yn ymgynyg mor gryfion i'r crefyddwr diwyd.*—Nis gall oferddyn fod mor eon a cheisio

gan ddyn fyddo yn weled â llawn gwaith ganddo, ei *goat* i lawr, a llawn chwys drosto i ddyfod ganddo; ond y mae yn daer ar yr hwn fyddo yn weled heb ddim i wneyd: nid yw yn brofedigaeth iddo fyned i'r cwrw bach. Mae yn rhwymedig i'r cwrdd gweddi, yr ysgol, yn lle myned i'r caeau ar brydnhawn Sabboth. Y Beibl brig yr hwyr yn lle storiau disail. Myned heibio y claf nos y ffair, gan hyny aeth oddiyno yn gynar; y gyfeillach nos y neithior; rhaid gadael yn gynar. Mae crefyddwr segur yn temtio Satan i'w demtio ef.

3. *Mae y diwyd yn ddiogel gyda phob peth.* "Llaw y diwyd a gyfoethoga."—Gyda phobpeth mae llawer un cyfoethog wedi gwario y cwbl; llawer un doeth wedi methu trwy anturio gormod; ond mae y diwyd yn gyffredin yn ddiogel—yr amaethwr diwyd yn llwyddo, y celfyddydwr diwyd yn gwneyd yn dda, y morwr diwyd yn casglu cyfoeth, y pregethwr diwyd yn dysgleirio, y meddyg diwyd â'i glod yn mhell, y gweithiwr diwyd yn sicr o waith, a'r gwas diwyd yn sicr o le; y wraig ddiwyd â'i thŷ yn drefnus, a'i phlant yn lân, a'i thamaid yn flasus, y crefyddwr diwyd â'i ffydd yn gref, a'i rasusau yn dysgleirio.

4. *Mae genym engreifftiau ysgrythyrol a brofant fod y diwyd yn ddiogel a'r segurllyd yn beryglus.*—Cawn ddechreu gyda Dinah, merch Jacob. Aeth allan i weled merched y wlad, heb 'stên yn ei llaw, 'stwc ar ei phen, na phlentyn yn ei chôl; myned yn hollol i gynyg ei hun i'r brofedigaeth. Llithrodd cyn dyfod yn ol. Y genedl yn hwyrfrydig yn addoli Duw wrth droed mynydd Sinai, ac felly dangosodd Satan waith iddynt—gwneyd duw eu hunain. Dylasai Dafydd fod yn y rhyfel, neu fod â'i holl feddwl arno, ac nid gorwedd ar ei wely, a rhodio ar nen ei dŷ. Yr oedd Urias yn methu *enjoyo* dim, yn unig oblegid y rhyfel. Mae proffiad pob Cristion eto yr un fath. Pan yn ddiwyd, mae yn eithaf diogel. Nid oes neb yn syrthio ar unwaith heb fod y

meddwl yn crwydro yn flaenorol, fel dyn yn tori yn ei amgylchiadau.

5. *Rhydd Duw gymhorth neillduol i'r crefyddwr diwyd.*—Dywedir am y gau dduw Jupiter gynt, ei fod yn helpu pawb oedd yn helpu eu hunain. "Ceisiwch, a chwi a gewch." Yr Arglwydd a hyfforddа gerddediad gwr da, a da fydd ganddo ei ffordd ef. Addewidion i weithwyr yw addewidion Duw. Tra nad yw y Cristion yn blino gweithio, nid yw Duw yn blino rhoi. Pan mae y Cristion yn myned i segura, mae yn colli ffafr Duw; a Christion heb Dduw, mae heb ddim.

III. Fod y Cristion diwyd yn ddedwydd yn angeu.—"Felly y trefnir i chwi."

1. *Wedi bod yn ddiwyd trwy yr oes, mae y meddwl yn ddieuog a thawel i farw.*—Mae y dyn yn teimlo yn dawel yn nghanol y cynhauaf os bydd wedi gwneyd ei oreu, er fod llawer allan eto. Felly y Cristion diwyd; er fod y capel heb dalu am dano, y byd paganaidd heb ei oleuo, y gwrandawyr heb eu hachub, ei blant i gyd heb gredu, plant yr Ysgol Sul heb ddyfod i mewn; eto mae yn myned i'w wely yn dawel, gan ddyweyd, "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa."

2. *Mae yn cael mynediad helaeth i mewn.*—Dichon fod yma gyfeiriad at fynediad dirwystr llong i'r porthladd. Wedi cadw yn gyfan ar y fordaith, yn dyfod i mewn yn llawn hwyliau ar frig y tonau, heb neb yn ofni na ddaw i mewn yn ddiogel, y cyfeillion ar y bwrdd ac ar y làn yn cydlawenhau yn yr olwg arni. Peth mawr yw fod y Cristion ei hun yn gweled fod y glyn yn oleu, ac nid yw yn ofni dim niwed; "O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder" i'w chadw iddo. Mae y cyfeillion yr ochr hyn yn gallu dyfod yn ol oddi wrth yr afon heb ofni am dano, efe a aeth i dangnefedd; a'r cyfeillion yr ochr draw yn ei dderbyn gyda llawenydd. Mae pob llithriad yn nghyrfa bywyd yn cyfyngu y *passage* erbyn marw.

3. *Mae disgwyl arno a threfnu iddo erbyn y daw i mewn.*— Pan bydd cyfaill yn dyfod adref wedi bod yn mhell, mae disgwyl a pharotoi ar ei gyfer—y tŷ yn cael ei lanhau, y plant eu gwisgo, y bwrdd ei hilio i gael rhoi *welcome home* iddo. Dyma fel mae y Cristion yn ymadael; rhai yn dyfod i lawr yn y cerbyd i'w ymofyn, eraill ar y làn yn disgwyl, er cael y newyddion ganddo, a chanu tôn iddo. Dichon nad oes fawr trefnu fry am lawer un, mae trefnu mawr am ei gladdu yma; a llawer un nad oes fawr gofal am ei gladdu yma, mae trefu mawr i'w dderbyn yno.

4. *I'r deyrnas mae yn myned.*—Mae y Cristion tlawd yma yn etifedd teyrnas draw. Mae ychydig lafur crefyddol yn enillfawr iawn. Rhyfela dros ychydig ddyddiau, ar ol hyny cael teyrnas am byth, a Iesu Grist yn Frenin y deyrnas hono. Mae digon o hyder gan y Cristion y caiff chwareu teg yn hon. Teyrnas gafodd ef trwy Iesu yn unig. Y mae hi yn deyrnas dragywyddol, dim cyfnewidiad i fod arni, na marw ei Brenin; yn ngwyneb holl gyfnewidiadau teyrnasoedd y byd, saif y deyrnas hon yn ddisigl.

CASGLIADAU.

1. *Y Cristion mwyaf diwyd sydd yn dadleu leiaf am ethol.*
2. *Segurdod meddwl yw gwraidd holl wrthgiliadau y byd.*
3. *Mae marwolaeth dawel yn werth oes o ddiwydrwydd crefyddol.*

# CLADDEDIGAETH CRIST.

"Ac yno, rhag nesed oedd darpar-wyl yr Iuddewon, am fod y bedd hwnw yn agos, y rhoddasant yr Iesu."—IOAN xix. 42.

MAE claddu yn rhagdybied marw. Bu Iesu farw yn fuan ar y groes. Daeth y milwyr i dori ysgeiriau y lladron, ond gwelsant fod yr Iesu wedi marw eisoes, yna gwnaeth milwr yn ddibris roi gwaewffon yn ei ystlys ef, nes y daeth allan ddwfr a gwaed. Aeth Joseph at Pilat i ofyn corph yr Iesu. Nid oedd lle cyffwrdd ag ef heb ganiatad y Rhaglaw.

I. YR YMGYMERYDD—Joseph.

1. *Dysgybl cuddiedig.*—Yr oedd Nicodemus ag yntau yr un fath am hyn. Mae bywyd mewn planigin yn y gauaf—y gwenith—er nad yw i weled felly; crefydd ambell un yn cymeryd mwy o amser i ddyfod i'r golwg nag eraill. Yr oedd saith mil o ddynion da yn nyddiau Elias na wyddai efe ddim am danynt. Daeth yr amgylchiad hwn â Joseph i'r golwg. Dangosodd yn y cyngor ei fod o'i blaid ef wedi dechreu dyfod yn gyhoeddus; dangosodd ei fod yn gyfaill calonog iddo trwy arddel ei gorph yn y man isaf. Da i un gwan yw cael tipyn o dywydd garw, *stirro* tân gwan; cyffwrdd a'r twmpath sydd yn profi fod morgrug ynddo, gwasgu y rhosyn sydd yn gwneyd i'w berarogl wasgaru, gwrthwynebu egwyddor dda ddaw â hi i'r golwg yn fwy.

2. *Gwr cyfoethog ydoedd.*—Nid llawer o'r cyfoethogion a alwyd; ond mae rhai yn mhob oes a gwlad. Dengys hyn fod yn bosibl i bob galwad fod yn dduwiol. Dafydd y bugail a'r brenin, Job yr amaethwr mawr, Joseph, y bachgen anffodus a llwyddianus, Nehemiah gwas boneddwr, Luc y physigwr, Lazarus y cardotyn, Joseph yr aelod seneddol.

3. *Yr oedd yn wr o awdurdod, yn aelod seneddol.*—Yr oedd ar law Joseph pryd hyn rywbeth i wneyd na allasai y dysg-

yblion eraill ddim ei gyflawni yn unol.—Pedr am bregethu, Ioan am dduwinyddiaeth ddwfn, Mair am olchi traed, Martha am giniaw, Joseph am gael y corph a'i gladdu. Dylai pob un gymeryd mantais o'i swydd, a'i alwad, a'i ddylanwad i wneyd da i grefydd. Dywedai Mordecai hyn wrth Ester y frenines.

II. Y BEDD.

1. *Yr oedd yn agos, gerllaw.*—Mae hen deimlad gan y byw i fyned i gladdfa y tadau. Jacob yn gorchymyn am ei esgyrn, a hwy fuont ar y ffordd ddeugain mlynedd. Swyddogion milwraidd yn gorwedd yn dawel ar faes eu llafur eu hunain. Teimladau yw yr oll braidd gyda y claddu. Lle byddo yn agos sydd fwyaf cyfleus. Cofir nad oedd Iesu gyda ei deulu.

2. *Bedd yn y graig*—Dyma ei dull hwy o dori beddau. Mae craig galed neu ddaear sych yn hyfryd iawn i lygad y byw. Yr oedd yma amcan dwyfol; gan ei fod yn y graig nis gallesid myned ato un ffordd arall. Maen ar y genau a milwyr yn gwylio wrtho. Nis gallasai neb ei ladratta ef.

3. *Bedd newydd.*—Purion peth fyddai i bob un gael bedd, neu raniad cerrig, fel dau yn byw dan yr un tô, fel na byddo cymysgu esgyrn y meirw, i ddolurio teimladau perthynasau. Da ei fod yma, onide buasai dadl am y codi, mai un arall oedd, neu ei fod wedi cyffwrdd ag esgyrn yr hen Eliseus, neu ryw broffwyd arall, ond ni fu dyn erioed yn hwn.

4. *Bedd benthyg oedd.*—Joseph wedi parotoi bedd iddo ei hun. Doeth yw parotoi bedd. Mae pawb yn credu y byddant farw, ond yn hollol anmharod yn yr oll. Gallwn fod yn sicrach wrth barotoi hyn na dim, byddwn yn sicr o gael bedd. Llawer wedi parotoi i'r plant, ond ni bu eu heisiau. Nid oedd gan Grist fedd—dim tŷ wrth fyw na lle bedd wedi marw. Nid oedd o werth iddo barotoi bedd, oblegid nid oedd i fod ynddo yn hir. Nid oedd bedd yn dyfod iddo ef yn deg, oblegid cyflog pechod yw marwolaeth.

III. YR ANGLADD.

1. *Angladd buan.*—Yr un dydd, fel pe buasai pla neu dwymyn yn y lle. Ni ddylid beio cyfeillion am gladdu yn fuan na chadw yn hir. Dibyna hyny ar chwaeth ac amgylchiadau yn fwy na dim arall. Credwyf mae drannoeth y buasent yn claddu, oni bai ei fod y Sabboth. Dylai pawb gladdu Sadwrn neu aros y Llun. Dynion hynod a dilun sydd yn tueddu claddu ar y Sabboth. Terfysgu cymydogaeth am gladdu un marw.

2. *Angladd syml.*—Dim rhwysg na mawredd; ychydig ddynion; dim rhyw res o seremoniau. Mae y dynion sydd yn byw ar seremoniau am bwyso arnynt wedi marw hefyd.

3. *Angladd difrifol iawn.*—Joseph yn teimlo, y gwragedd yn wylo, ac yn cofio ei gymwynasau, Jerusalem mewn cynwrf; efe oedd testun siarad pob dau, a llawer yn ofni ei fod yn cael cam. Y canwriad wedi gwel'd mai Mab Duw oedd efe.

IV. Y MARW.

1. *Yr oedd yn wir farw.*—Y waewffon wedi bod yn ei fynwes. Gelynion lladdodd ef, a'i gyfeillion fu yn ei gladdu. Ni ddarfu i'r gelynion gynyg dywedyd na fu efe farw yn deg.

2. *Marw allasai fyw oedd hwn.*—Mae y merthyr yn myned at angeu o'i fodd, ond nis gall droi yn ol o'r bwlch; ond gogwyddodd Iesu ei ben ar y groes pan y meddai allu i'w gadw fynu byth.

V. PAHAM Y CLADDWYD EF.

1. *Profi gwirionedd ei farwolaeth.*—Digon hir i gael gweled ei fod wedi llwyr farw, ac hefyd ddim i gael gweled llygredigaeth.

2. *Gwel'd ei Dduwdod.*—Wrth adgyfodi a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu.

3. *Tynu ymaith dychryn y bedd i'w ganlynwyr.*

# Y FAM A'R PLENTYN:

NEU

HOLWYDDOREG I BLANT BYCHAIN,

AR

## HANES EIN HARGLWYDD IESU GRIST,

GAN Y

DIWEDDAR BARCH. J. WILLIAMS,

CASTELLNEWYDD.

Pris y llyfryn yw 1c. yr un, neu 7s. y cant; 3s. 6ch. yr hanner cant. Anfoner pob archebion a thaliadau i Rev. B. WILLIAMS, Kilvey Terrace, Swansea.

---

## LLYTHYRAU CYMERADWYAETH:

Sef TRAETHAWD a ddarllenwyd ar y testun uchod, yn Nghyfarfod Chwarterol Gorllewinol Morganwg. Gellir eu cael am 7s. y cant, neu 3s. 6ch. yr hanner cant. Anfoner at yr Awdwr—B. WILLIAMS.

---

Bwriedir cyhoeddi, mewn Cyfrol hardd, Foolscap 8vo, wedi ei rwymo mewn Lliain, pris 2s. 6ch.,

## ARWEINYDD Y CRISTION IEUANC,

**GAN B. WILLIAMS, CANAAN.**

---

CYNHWYSIAD.

Pen. 1. Pwysigrwydd Crefyddwyr Ieuainc. 2. Disgyblaeth y galon. 3. Darllen a myfyrio. 4. Darllen y Bibl. 5. Gweddio. 6. Haelioni. 7. Dewisiad cwmpeini. 8. Moesgarwch. 9. Y pechod parod. 10. Yr Ysgol Sabbothol. 11. Y Gyfeillach. 12. Y Weinidogaeth. 13. Ymneillduaeth. 14. Y Genhadaeth. 15. Y Cyfarfod Llenyddol. 16. Cerddoriaeth. 17. Pethau i'w gochelyd. 18. Gofal am y gydwybod. 19. Ymfudiaeth. 20. Yr egwyddor-was. 21. Dechreu masnach. 22. Rhag-gyfeillachu. 23. Priodi. 24. Bywyd Dedwydd. 25. Marw, &c., &c., &c.